# Cyfystyron y Gymraeg

Blair 251

# CYFYSTYRON Y GYMRAEG:

SEF

## Y CASGLIAD BUDDUGOL

*YN EISTEDDFOD GENHEDLAETHOL GWRECSAM,* 1888.

GAN

GRIFFITH JONES (GLAN MENAI).

---

WREXHAM:
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET.

## EISTEDDFOD GENHEDLAETHOL GWRECSAM, 1888.

### Beirniadaeth y Parch. D. Silvan Evans, B.D.

On this subject five compositions have been received, signed respectively *Morfydd, Ffergus, Morley, Crispin, and Idwal.*

* * * * * * *

"*Idwal* has not only compiled a copious list of words that "are, in a general sense, considered synonymous, but he "has also shown, in most cases, the different shades of "meaning conveyed by those words; and he is the only one "of the five that has attempted to desynonymize words "that are usually treated as equivalents. This appears to "me to be a highly important part of the subject; and "without this desynonymizing process no work of the "kind can be satisfactory. *Idwal's* composition is, there- "fore, decidedly the best, and to him the prize is awarded."

## TALFYRIADAU.

Arm., *Armoric*—Llydawaeg. C., *Cernywaeg.* Cel., *Celtig.* E., *English*—Saesneg. Gael., *Gaelic.* Gr., *Groeg.* H., *Hebraeg.* Ir., *Irish*—Gwyddelaeg. Ll., *Lladin.* M., *Manawaeg.* S., *Saxon.* San., *Sanscrit.*

# SYLWADAU ARWEINIOL.

ER mai am y *casgliad* goreu o "eiriau cyfystyr" y cynygir y wobr, tybiasom mai prin y buasai casgliad moel o'r cyfryw eiriau yn ateb nemawr ddyben ymarferol, ac felly yr ydym wedi ceisio nodi allan, mewn lluaws o engreifftiau, y tebygolrwydd a'r gwahaniaeth rhwng y naill air a'r llall fel ag i fod yn rhywfaint o gyfarwyddyd i'r ysgrifenydd ieuanc gyda golwg ar ei ddewisiad o'r gair mwyaf priodol i osod allan ei feddwl.

Ond dylid, fe ddichon, egluro yn y fan hon beth a olygir wrth "eiriau cyfystyr." Geiriau cyfystyr yw y cyfryw rai, er meddu o honynt debygolrwydd mawr a hanfodol o ran ystyr, a feddant ar yr un pryd wahaniaeth bychan, israddol, a rhanol—gwahaniaeth parth tarddiad neu arferiad; neu y cyfryw wahaniaeth y mae yn bosibl iddynt ei dderbyn oddiar law athrawon doeth a medrus yn yr iaith. Y mae geiriau cyfystyr, a siarad yn gyffredinol, yn golygu bron yr un peth, ond ar yr un pryd yn gwahaniaethu rhyw gymaint; gyda llawer yn gyffredin, ond hefyd â rhywbeth yn gyfriniol a neillduol, o'r hyn na chyfranoga y lleill. A siarad yn fanwl, prin y mae y fath beth a geiriau cyfystyr hollol, hyny ydyw, yn cyfleu yn union yr un syniadau, ac yn golygu yr un a'r unrhyw wrthddrychau, neu o'r hyn lleiaf, nid ydynt ar y goreu ond tra phrinion ac anghyffredin. Mewn amgylchiadau o'r fath yma, pryd nad oes yr un cysgod o wahaniaeth rhwng y naill air a'r llall, ni fyddai ond rhodres a gwâg-gywreinrwydd i geisio gwneyd un. Nid dyma amcan hyn o draethodyn. "Peth anghyffredin iawn mewn iaith yw dau air yn berffaith o'r un ystyr. Gall gair fyned o arferiad, ac un newydd, yn cyfleu yn union yr un meddwl, gael ei fabwysiadu yn ei le; ond prin y mae yn ddichonadwy i ddau ebiad *(vocables)* fod mewn ymarferiad yr un pryd mewn unrhyw iaith, a'r naill yn hollol gyfwerth a'r llall yn mhob cysylltiad. Yn wir, nid yw hyn yn beth cyffredin mewn gwahanol ieithoedd, oddigerth mewn dosbarth bychan o eiriau gwyddorol neu gelfyddydol. Ni raid i'r efrydydd ond troi i eiriadur dwy-ieithawg i gael prawf o hyny. Ceir ychwaneg nag un gair yn y naill iaith i egluro pob gair yn y llall. Y gwir yw fod pob gair drwy holl ieithoedd y byd yn lluosog ei ystyron, ac heb hyn annichon fuasai cael iaith ddigon cyfoethog i fynegu degwm drychfeddyliau y meddwl; felly ond odid y byth ddygwydd i'r holl wahanol ystyron gyfatteb mewn dwy iaith pa bynag. Un ffynonell gyfoethog i'r neillduolrwydd yma yw troell-ymadroddion, sef fod geiriau yn cael eu defnyddio

yn ffugyrol i drosglwyddo syniadau mewn modd barddonol a tharawiadol."*

Ond er fod yn perthyn i'r Gymraeg y fath gyfoeth o droellymadroddion, y mae o'r tu arall yn peri llawer o anhawsder i'r, ac yn agored i gam-ddefnydd helaeth, ar law yr anghelfydd a'r diofal. Brithir lluaws o ysgrifau ein cyfnodolion a'n newyddiaduron gan eiriau anghyfaddas ac amrhiodol, a hyny tra mae cyflawnder o eiriau i osod allan wir ystyr yr hyn a fwriedir yn gorwedd yn segur wrth law, ac megys yn ymryson am adenill eu safleoedd priodol eu hunain yn arddangosfa eiryddol yr iaith. Llacrwydd geiriad a chyffredinolrwydd syniadau ydynt nodweddion lluaws o ysgrifenwyr ieuanc dibrofiad yr oes hon. Cyn y bydd i unrhyw gyfansoddiad ddarllen yn esmwyth a difyr, dylai pob gair ynddo osod allan a chyfleu wir feddwl yr ysgrifenydd, a dim rhagor, a dim arall. Ond tra y dylid ar bob cyfrif ymdrechu ymgadw rhag llacrwydd ac amwysedd geiriad, dylid o'r tu arall ymochel rhag myned yn rhy bell ar ol darnodiadau dibwys a ffansïol, ac felly enill y cymeriad o grachfeirniaid trwy fod yn orfanwl. Y mae iawnddefnyddiad geiriau er ffurfio brawddegau, yr un modd ag iawnddewisiad arfau er cyflawni gwaith cywrain, yn gofyn sylw, ymarferiad, pwyll, a doethineb.

Yn hyn o draethawd yr ydym wedi ceisio cadw mewn golwg y darnodiad o eiriau cyfystyr fel rhai y cydnabyddir eisioes fod rhyw gymaint o wahaniaeth rhyngddynt, neu ynte y cyfryw eiriau y gellid gwahaniaethu rhyngddynt. Nid ydynt ar y naill law yn gwbl nnrhywiol *(identical)*; na chwaith ar y llaw arall yn ddim amgen na pherthynasau pell; oblegyd buasai y gwahaniaeth rhwng y rhai olaf hyn mor amlwg, ac ar y wyneb, fel na byddai ond gorchwyl mor ddiangenrhaid a dal canwyll i'r haul a cheisio gwneyd hyn yn fwy amlwg nag y mae eisioes. Gallai fod yn ddymunol i nodi y gwahaniaeth rhwng ysgarlad a phorphor; ond rhwng ysgarlad a gwyrdd byddai yn afresymol. Rhaid iddynt fod yn eiriau agored i raddau mwy neu lai i gael eu cymysgu, ond na ddylid eu cymysgu: y cyfryw eiriau yn y rhai yn wreiddiol yr ymlynai gwahaniaeth, neu rhwng y rhai, er eu bod unwaith yn golygu yn gymhwys yr un peth, mae y cyfryw wahaniaeth wedi tyfu i fyny yn raddol, ac felly sefydlu eu hunain yn ngwasanaeth yr ysgrifenwyr goreu, a siaradwyr goreu yr iaith, fel yr hawliant gael eu cydnabod gan bawb.†

Y mae llawer o fanylrwydd a chywreinrwydd yn cael eu harddangos yn ffurfiad cyfystyrebion iaith. Fel rheol maent yn gynyrch naturiol ac araf, wedi tyfu i fyny megys yn raddol a diarwybod, ac fel y byddai anghen am danynt. Fel y deuai celf a gwyddor i gymeryd eu lle fel pynciau o efrydiaeth reolaidd, teimlid tlodi yr

* "Beirniad" cyf. xv., tud. 54.

† "Trench on the Study of Words," p. 187

iaith o dermau priodol i osod allan bob syniad yr oedd galw am dano, ac felly rhaid oedd bathu geiriau newyddion, neu foddloni ar y geiriau oeddynt eisioes mewn arferiad, a gadael iddynt olygu mwy nag un peth. Y cyfryw ydyw hanes yr iaith Saesnig yn arbenig. Wedi canfod o honynt ddiffygion a thlodi eu hiaith eu hunain, dechreuodd ein cymydogion yn ebrwydd chwilota coffrau yr ieithoedd meirwon a dygasant oddi yno luaws o drysorau gwerthfawr, y rhai a wnaethant yn eiddo iddynt eu hunain, ac fel y sylwa Trench (tud. 189), cymerasant feddiant o aml air nad oedd yr un gwir anghen am dano, y rhai ydynt yn fwy o foethusrwydd nag o angenrhaid. Tra meddent air da o'r eiddynt eu hunain, rhaid ydoedd iddynt gael myned i edrych am un amgenach, fel y tybient, o iaith estronol. O'r rhai hyn a gynygid fel hyn yn ymgeiswyr am dderbyniad i mewn, methai rhai gael hawliau dinasfraint, ac wedi ewrs o brawf, gwrthodid hwy; ni ddeuent yn mhellach yn mlaen, fe ddichon, na'u cynygydd gwreiddiol. Derbynid lluaws eraill i ffafr y cyhoedd nes peri cryn benbleth am dymor parth eu hystyr a'u defnydd, nes o'r diwedd i'w cysylltiad â geiriau eraill gael ei egluro a derbyn o honynt argraphnod prif ysgrifenwyr y genedl.

Gwastraff noeth ar iaith ydyw fod dau air yn golygu yn gyfangwbl yr un peth—cymeryd dau neu ychwaneg o eiriau tra gellid cyfleu yr un syniad gydag un gair. O'r tu arall, cyfoethogir iaith yn fawr pan y llwyddir gyda dau neu ychwaneg o eiriau a ddefnyddid unwaith yn ddiwahaniaeth, i osod iddynt eu tiriogaeth briodol eu hunain, dros derfynau yr hon ni feiddient gamu, ac ar yr hon ni feiddia eraill ormesu. Er fod yn y Saesneg luaws o weithiau safonol ar y pwnc dyddorol hwn, mae y Gymraeg yn hynod amddifad o'r cyfryw—mewn gwirionedd, nid yw wedi cael ond y nesaf peth i ddim o sylw gan ein llenorion a'n hawduron. Y canlyniad ydyw fod y naill air yn cael ei ddefnyddio yn barhaus yn lle y llall, a'u hystyron yn cael eu cymysgu. Y mae gwneyd gwahaniaethiad rhwng geiriau â'u gilydd bron yr un peth a ffurfio geiriau neu reolau newyddion i iaith, ac fel y cyfryw ni ddylai neb ymgymeryd âg ef heb y cymhwysder angenrheidiol i hyny. Fel y bydd dysg, llenyddiaeth, a chelfyddyd yn cynyddu yn ein gwlad, a drychfeddyliau o ganlyniad yn lluosogi, mwyaf amlwg y gwelir tlodi yr iaith i osod allan y cyfryw ddrychfeddyliau, a mwyaf oll fydd yr anghen am gyfystyrebion. Ar yr un pryd, dylid bod yn ofalus pa fodd yr ymyrir â pheirianwaith cywrain iaith; ac hyd nes y daw y syniad newydd yn bur gyffredin, ofer fydd ceisio dwyn i arferiad air i'w gynrychioli; oblegyd fel y sylwa Trench, "bydd i athrylith weithiol iaith gyflawni ei hamcanion ei hun, gan beri i'r geiriau cyfystyr hyn syrthio yn ddiarwybod oddi wrth eu gilydd, ac i feddu ystyron gwahanol a neillduol."

"Y fath gyfoeth," fel y sylwa eto, "sydd yn gorwedd yn

segur yn mhob iaith, ac nid y lleiaf yn ein hiaith ni ein hunain. Faint o'r hyn a allai fod yn arian bath, a geuir i fyny yn nhrysordy ychydig awduron clasurol, neu na chyfarfyddir âg ef o gwbl ond yn nalenau ein geiriaduron—ninau yn y cyfamser yn nghanol yr holl gyfoeth yma yn dyfarnu ein hunain i dlodi gwirfoddol, ac yn aml â gwaith o'r fath fwyaf cywrain ac anhawdd i'w wneyd, canys yn sicr gwisgo meddwl yn ei gwisg mwyaf cymhwys o eiriau yw hyn, amddifadu ein hunain yn ddiangenrhaid o swm mawr o gynorthwyon at ein llaw; yn debyg i weithiwr, yr hwn wedi ymgymeryd â gwaith a ofyn am ei holl fedr, gyda deuddeg o wahanol arfau, pob un o'r cyfryw yn gyfaddas i'w waith neillduol ei hun, a fynai yn ei ddiogi a'i hunan-dyb ddal i ddefnyddio ond un yn unig; gan wneyd yn drwstan yr hyn allesid ei wneyd yn gelfydd; neu adael heb ei wneyd yn gyfangwbl, yr hyn gyda'r cynorthwyon hyn, oedd yn ei gyrhaedd yn rhwydd. Ac fel hyn y dygwydd yn nhrafodaeth gyffredin bywyd, ac yn aml mewn llyfrau hefyd, fod rhyw nifer o eiriau yn cael eu gweithio bron i farwolaeth, yn cael eu defnyddio mewn amser ac allan o amser—nifer mawr yn y cyfamser heb gael eu galw ond anfynych, os byth, i roi y gwasanaeth a allent ei roi yn well nag unrhyw rai eraill; mor anfynych, fel o dipyn i beth ymlithrant o'r golwg, ac anghofir hwy. Ac yna, fe ddichon, rywbryd wedi hyn, pan y teimlir eu hanghen, bydd i'r anwybodaeth yn yr hwn yr ydym wedi gadael ein hunain o'r adnoddau a gynygid gan yr iaith i foddloni gofynion meddwl, ein gyru ar led i chwilio am gynrychiolwyr estronol i eiriau a feddwn eisioes gartref."

O.Y.—Dymuna yr awdwr gydnabod iddo dderbyn cynorthwy nid bychan gyda hyn o gasgliad oddiwrth *Fenby's Synonyms; Trench on The Study of Words; Dictionary of English Synonyms*, by Edward Howell; *Crabb's English Synonyms;* cyfres o ysgrifau yn y *Beirniad*, yn nghyd â'r gwahanol Eiriaduron Cymreig, ac yn enwedig eiddo y Parch. Daniel Silvan Evans.

YR AWDWR.

# GEIRIAU CYFYSTYR.



## A

**Aber**—cydffrwd, cydlifiad, cymmer, afon, ffrydlif, afonig, nant.

**Aberthu** (a-berth)—offrymu, rhoddi, cyflwyno. Gwasanaeth crefyddol trwy dywallt gwaed ydyw *aberthu*, ond yn ffugyrol, defnyddir ef i olygu unrhyw wasanaeth crefyddol, megys "aberth moliant." Y mae *offrymu* yn cynwys syniad eangach nag *aberth*, ac yn cymeryd i fewn bethau difywyd, megys peilliaid, ffrwythau, &c., felly mae pob *aberth* yn *offrwm*, ond nid yw pob *offrwm* yn *aberth*. *Rhoddi* yn ei gysylltiad â'r geiriau uchod ydyw trosglwyddo hawl un i un arall: "Minau a'i *rhoddais* ef i'r Arglwydd" (1 Sam. i. 28). *Cyflwyno* yw trosglwyddiad peth gan un i un arall yn wirfoddol—"i'w *gyflwyno* i'r Arglwydd" (Luc ii. 28). Defnyddir y ddau air olaf mewn cysylltiad â phob math o bethau, ond cyfyngir y ddau gyntaf yn eu hystyr briodol at wasanaeth crefyddol, ac at gyflwyniad peth gan ddyn i'r Arglwydd. *Cyflwyno* y mae dynion i'w gilydd, ac i Dduw: *rhoddi* y mae Duw i ddynion, a dynion i anifeiliaid, ac anifeiliaid i'w gilydd.*

**Abl**—galluog, cyfoethog, cefnog.

**Absen** (ab-sen)—athrod, enllib. Gwel ATHROD.

**Abwydyn**—pryfyn.

**Accan** (ac-can; L. *ad-cano;* C. *cân;* Ir. *canaim)*—diareb, chwedl.

**Accen** (accan; L. *accentus)*—pwysnod, pwyslais, goslef, pwyso ar. *Accen* ydyw y math hwnw o *bwyslais* rheolaidd a roir ar un sill i'w wahaniaethu oddiwrth un arall. Rhoddir *pwyslais* nid yn unig ar sill ond ar nifer o eiriau mewn brawddeg er dyfnhau yr argraph a galw sylw neillduol at y meddwl a gyfleir. *Goslef* ydyw y dôn â pha un yr adroddir neu y traethir unrhyw beth.

**Actau** (Gr. *ago;* L. ago, *actum)*—gweithredoedd, gosodiadau, ystatudau.

**Ach**, merch,—yr un fath ag *ab* am fab—'Marged ach Ifan.'

---

* "Beirniad," cyf. xv. tud. 57

**Ach**—cyff, llinach, bôn, bonedd, gwelygordd.

**Achles** (ach-lles)—noddfa, amddiffynfa, cysgod, encilfa. Lle o ddiogelwch a ddynodir gan y pedwar gair blaenaf: *noddfa* ac *amddiffynfa* yn lleoedd sefydlog. *Encilfa* sydd le o dawelwch yn hytrach na diogelwch. *Noddfa* a olyga fod perygl; ceisir *cysgod* rhag storm, gwres, &c.; *encilir* o sŵn a helbulon bywyd. *Amddiffynfa* a olyga fod lle yn agored i ymosodiad.

**Achles**—gwrtaith.

**Achlysur**—cyfleusdra. Mewn *achlysur* nid oes dewisiad—y mae yn fater o raid; *cyfleusdra* yw yr hyn a'n gwahodda i weithredu. Felly gweithredwn fel y bo *achlysur* yn galw, neu *gyfleusdra* yn ymgynyg. Mae rhai *achlysuron* yn galw allan am lymder ar ran yr athraw; ar yr un pryd ni ddylai golli yr un *cyfleusdra* i ddangos mai lles y disgyblion sydd ganddo mewn golwg.

**Achlysur**—angenrhaid. Cymer y blaenaf i fewn, a chau yr olaf allan, y meddwl o ddewisiad. Ar yr *achlysuron* o fygwyth ein bywydau, yr ydym o dan *angenrheidrwydd* i amddiffyn ein hunain.

**Achos**—rheswm, amcan. Y mae *achos* yn ymwneyd â threfn a chysylltiad pethau; *rheswm* yn ymwneyd â gweithrediadau y meddwl; *amcan* â symudiadau meddwl a chorph. Defnyddir *achos* mewn cysylltiad â phob gwrthddrych difywyd; *rheswm* ac *amcan* am weithredyddion deallol. Beth bynag a ddygwydd yn y byd a ddygwydd oddiwrth *achos;* yr *achos* cyntaf o bob peth yw Duw. Dylai dynion fedru rhoddi *rheswm* am eu syniadau, a dylent feddu *amcan* i bob peth a wnant.

**Achos**—cynghaws, hawl.

**Achosi**—peri, effeithio.

**Achub** (a-cub; ach-ub; achu; ach-hwb)—arbed, cadw, amddiffyn. Cael ein cadw rhag drwg yw y meddylddrych a osodir allan yn y geiriau hyn, ond gwahaniaethant gyda golwg ar natur y drwg neu y moddion a ddefnyddir. Gellir ein *hachub* oddiwrth bob drwg, ond *arbedir* ni rhag yr hyn sydd yn ngallu arall i'w wneyd i ni. *Achubir* un rhag cwympo; *arbedir* bywyd y condemniedig. *Cedwir* ac *amddiffynir* ni rhag drygau mawrion; *cedwir* ni rhag dystryw, ac *amddiffynir* ni rhag trais. *Achubir* a *gwaredir* ni rhag drygau a'n goddiweddant ac ydynt dymhorol; *cedwir* ac *amddiffynir* ni rhag drygau posibl neu barhaol. Dichon i ddyn gael ei *achub* trwy ddamwain, ond *arbedir* ef yn wastad yn unol â bwriad. Y mae *cadw* ac *amddiffyn* yn golygu gallu ar ei eithaf—yn enwedig yr olaf. *Cedwir* ni trwy foddion cyffredin rhag anffodion bywyd; ond *amddiffynir* ni gan lywodraeth neu allu uwchraddol rhag y sawl a geisiant i ni niwed.

**Achwre** (ach-rhe)—cysgodfa, amgae.

**Achwyn.** Gwel Cwyno.

**Adeiladaeth**—addysg, hyfforddiant.

**Adeiladu** (ad-ail)—codi, saernïo, cynllunio. Wrth *adeiladu* yr ydys yn golygu lle i gadw, derbyn, a diogelu; *codir* peth i safle uchel; *saernïo* a olyga ddull neu ddefnydd yr *adeilad; cynllunio* a olyga ddyfais a medr neillduol mewn adeiladu. Y mae pobpeth a *adeiledir* yn cael ei *godi* neu ei *gynllunio;* ond nid yw yr oll a *godir* neu a *gynllunir* yn cael ei *adeiladu.* Yr ydym yn *adeiladu* o angenrhaid; yn *codi* er addurn; ac yn *cynllunio* er cyfleusdra a chysur. *Adeiledir* tai, *codir* côf-golofnau, a *chynllunir* peirianau.

**Aden**—adain, asgell.

**Adfer** (ad-mer)—dychwelyd, ad-dalu. Wrth *ddychwelyd* ac *atdalu* yr ydym yn rhoddi yn ol yr hyn a gawsom, ond nid felly gydag *adferu,* ond mae cyfiawnder yn hawlio iddo fod yn gydwerth â'r hyn a gymerasom. Y mae iawn drefn yn galw am *adferiad;* cyfiawnder ac anrhydedd yn galw am *ddychwelyd;* a hawl yn galw am *atdaliad.* Mae y brenhin yn cael ei *adferu* i'w deyrnas; byddwn yn *atdalu* yr hyn a fenthycasom; ac yn *dychwelyd* llyfr i'w berchenog. Mewn ystyr foesol hefyd ceir fod y geiriau hyn yr un mor gymhwysiadol.

**Adfyd**—trallod. *Trallod* ydyw y gradd uchaf o *adfyd.* Pan mae amgylchiadau yn troi yn erbyn dyn, dywedir ei fod mewn *adfyd,* ond pan yn ychwanegol at hyny y mae mewn eisiau ac yn ddigyfaill a diobaith, yna y mae mewn *trallod.* Y mae pawb yn agored i *adfyd,* ond yn fynych dug dyn drallod arno ei hun.

**Adfydus**—croes, gwrthwynebol. Gwel Adfyd. Y mae a wnelo *croes* â chynlluniau a buddianau pobl; *gwrthwynebol* â sefyllfa a natur pethau. Y mae llawer amgylchiad yn troi allan yn *groes* i'r hyn a ddisgwyliem: mae syniadau *gwrthwynebol* yn llywodraethu pobl. Nid yw tystiolaethau *croes* o un lles mewn achos: y mae golygiadau *gwrthwynebol* yn tarfu heddwch cymdeithas.

**Adfywio**—adloni, adnewyddu. Adferu pethau i'w sefyllfa flaenorol yw y meddylddrych a osodir allan yn y geiriau hyn, a gwahaniaethant yn unig gyda golwg ar y dull y gwneir hyny. Defnyddir y ddau air blaenaf mewn cysylltiad â chyrph anifeiliaidd; a'r olaf â phethau. *Adfywir* ac *adlonir* y claf a'r llesg gan yr olwg ar hen gydymaith: *adnewyddir* gwyneb y ddaear ar ol cawod faethlawn o wlaw. Defnyddir y geiriau hefyd mewn ystyr foesol: *adfywia* masnach; *adnewyddir* hen gyfeillach.

**Adnabod**—cydnabod, gwybod. Defnyddir y geiriau hyn gan mwyaf mewn cysylltiad âg unigolion byw—personau ac anifeiliaid, ac weithiau wrthddrychau meirwon: "Yr ŷch a *edwyn*

ei feddienydd, a'r asyn breseb ei berchenog; ond Israel nid *edwyn*," &c. *Cydnabod*, er o'r un gwreiddyn, sydd yn dra gwahanol ei ystyr i *adnabod*, ac mae yn gyfystyr ag *addef*, ond cynwysa hefyd y meddwl o *arddel:* "Hyd oni *chydnabyddont* eu bai" (Hos. v. 15); "i *gydnabod* y gwirionedd" (2 Tim. ii. 25) sydd gyfystyr ag arddel. Mae ystyr y gair *gwybod* yn eangach nag un o'r ddau arall. Golyga weithrediad y deall ar wrthddrychau allanol a mewnol.

**Adolygiad**—ardrem. *Adolygir* y mynedol yn gystal a'r presenol, ond cyfyngir yr *ardrem* i'r presenol. Byddwn yn *adolygu* yr hyn a welsom o'r blaen er mwyn cael gwell golwg arno: byddwn yn cymeryd *ardrem* ar beth yn ei wahanol ranau er mwyn ei archwilio yn ei holl gysylltiadau. *Adolygir* y fyddin gan y cadfridog: cymer *ardrem* ar yr amddiffynfa cyn ymosod arni.

**Adolygiad**—adgyweiriad, adchwiliad, diwygiad.

**Adrodd**—mynegu, datgan, traethu, desgrifio.

**Adwaen**—adnabod, bod yn gydnabyddus. Gellir *adnabod* dynion mewn gwahanol ddulliau, megys trwy enw yn unig, ond y mae bod yn *gydnabyddus* yn golygu gwybodaeth fwy manwl o honynt, a hyny yn uniongyrchol, a thrwy ymgyfeillachu â hwynt.

**Adwy.** Gwel BWLCH.

**Adyn**—truan-ddyn, dyn annedwydd.

**Addas**—iawn, priodol, cymhwys. Gwel PRIODOL.

**Addas**—gweddus.

**Addas**—cyfaddas, cyfleus.

**Addef**—cyfaddef, cydnabod, cyffesu. *Cydnabod* sydd ddatganiad syml; *cyfaddef* neu *gyffesu* sydd fynegiad anghyhoedd. Byddwn yn *cydnabod* ffeithiau; yn *cyfaddef* ein beiau.

**Addewid**—ymrwymiad, gair. Byddwn yn *addaw* mewn geiriau pendant a digamsyniol; byddwn yn *ymrwymo* mewn dull cyffredinol yr hyn a ellir ei newid: gwneir addewid yn gyffredin yn ddiamodol, ond *ymrwymiad* fynychaf yn amodol. Mewn *addewidion* y mae enw da dyn yn dibynu ar ei *air*, fel pe byddai gweithred wedi ei thynu allan i'r perwyl; mewn *ymrwymiadau* nid oes rhagor na bwriadau dyn yn y dyfodol yn ddealladwy. Y mae yn anhebgorol er lles personau a chymdeithas fod *addewidion* yn cael eu cyflawni; ac mae fod *ymrwymiadau* yn cael eu cadw yn ychwanegu at gyfleusderau bywyd. Y mae y sawl a doro ei *air* yn ddiymddiried gan bawb.

**Addien**—difai, têg, hardd.

**Addoli** (addawl; add-ioli)—parchu, anrhydeddu, mawrhau, golucho, molianu. *Addoli* ydyw gwasanaeth y galon tuag at fod

uwchraddol, yn yr hwn y cydnabyddwn ein dibyniad arno, a'n rhwymedigaeth iddo, mewn ffurf allanol. Gallwn ei *anrhydeddu* a'i *barchu* yn fewnol, ond ei *folianu* yn llafar.

**Adduned**—diofryd, addewid.

**Addurno** (add-gyrn? add-gwrn? L. *adorno)*—prydferthu, harddu, tacluso, trwsio, gwisgo, gwychu.

**Addysg**—dysgeidiaeth, hyfforddiad, cyfarwyddiad.

**Aedd**—dwndwr, twrf, trwst, cyffro.

**Aeg**—iaith, tafodiaith, llafarwedd.

**Ael**—mîn, godre, ymyl, cŵr.

**Aelod**—esgair. *Aelod* sydd air yn dynodi pob rhan o'r corph sydd allnog i gyflawni rhyw swyddogaeth ar wahan; *esgair* sydd aelod neillduol o'r corph. Y mae pob *esgair* yn *aelod*, ond nid yw pob *aelod* yn *esgair*.

**Aelod**—perthynas, cyfathrachwr, câr.

**Aelod**—darn, cetyn.

**Aelod**—adran, penawd.

**Aer**—cyflafan, brwydr, rhyfel, câd.

**Aer**—etifedd, meddianydd.

**Aeth**—pigyn, poen, dolur, gofid.

**Afar**—tristwch, prudd-der, hiraeth.

**Aflednais**—wyneb-galed, digywilydd. Nid yw *aflednais* mor gryf a *wyneb-galed* a *digywilydd:* y mae colli *lledneisrwydd* yn arwain i'r ddau eraill. Gellir gobeithio i fenyw *aflednais* weled y drwg a diwygio; ond am y *ddigywilydd* prin y mae obaith o honi gan fod ei natur yn llygredig.

**Afon** (aw-on)—ffrwd, afonig, nant.

**Afradlon** (af-rhad)—gwastraffus, ofer, difrodus, treulgar. Yr hyn a gyfleir gan yr oll o'r geiriau hyn ydyw, defnyddio yn anghymedrol. *Gwastraffus* yw y mwyaf cyffredinol o ran ei ystyr a'i gynwysiad: gwaria y *gwastraffus* ei arian heb reswm na rheol: gwaria yr *afradlon* hwy mewn gormodedd: trosedda y blaenaf yn erbyn synwyr cyffredin, a'r diweddaf yn erbyn deddf foesol: andwya y naill ei hun trwy ei ffoleddau, a'r llall trwy ei ddrygioni. Mae *gwastraff* yn wrthwynebol i gynildeb, ac *afradlonedd* i gybydd-dod.

**Afreolaidd**—didrefn, aflywodraethus, anghymedrol. Gall fod peth yn *afreolaidd* oddiwrth ei natur; ond mae peth yn *ddidrefn* felly o herwydd amgylchiadau allanol. Y mae *afreolaidd* yn groes i

reol sefydlog, a *didrefn* yn groes i drefn arferedig; *aflywodraethus* yn groes i drefn a osodir i lawr, ac *anghymedrol* yn groes i dymer neu ysbryd priodol. Bydd ein *harferion* yn *rheolaidd* pan yn cydffurfio â deddfau cymdeithas; ond ein hymarferiadau yn *ddidrefn* pan yn dilyn arweiniad dall nwydau. Os na bydd ein nwydau o dan lywodraeth rheswm a chrefydd, ânt yn *aflywodraethus*, ac os na lywodraethir ein chwantau gan rywbeth amgen na blys, byddwn yn *anghymedrol*.

**Afreolaidd**—afreolus. *Afreolaidd* yw croes i drefn neu reol, neu ddiffyg rheol; *afreolus* yw cynhyrfus neu derfysglyd. Galwyd y pwyllgor yn nghyd yn *afreolaidd*, ac yr oedd ymddygiadau rhai o'r aelodau yn dra *afreolus*.

**Afresymol**—ynfyd, gwrthun, annaturiol. Nid yw *afresymol* mor gryf ag *ynfyd*, a chymhwysir ef yn fwy at beth nag at berson—yr egwyddor yn hytrach na'r ymarferiad: cymhwysir *ynfyd* at y person a'r peth—yr arferiad yn hytrach na'r egwyddor. Y mae'r tri gair olaf yn codi mewn gradd, a bradychant oll drosedd yn erbyn synwyr cyffredin a deall: *ynfyd* a gymhwysir at unrhyw beth a ymddengys yn groes i ddeall: y mae plant yn aml yn *ynfyd*, ond nid yn *afresymol* ac *annaturiol*, sef yr hyn fyddo groes i'n barn. Y mae llawer o bobl er perchen rheswm yn gwneyd pethau *gwrthun*.

**Agen**—hollt, agoriad, rhwyg. *Hollt* a olyga sylwedd caled, a *rhwyg* sylwedd teneu. *Hollti* y graig, a *rhwygo* y llèn.

**Ager** (ag; a-cer)—anwedd, tarth, mygdarth.

**Agor**—adwy, bwlch, rhwyg. Gwel AGEN.

**Agoriad**—allwedd.

**Agwedd**—dull, ffurf, ystum, delw, gosgedd.

**Angen** (an-geni)—eisieu, tlodi, amddifadrwydd, rhaid. *Tlodi* ydyw cyflwr cyffredinol ffawd yn wrthgyferbyniol i gyfoeth, pan mae dyn yn amddifad o gyfleusderau bywyd. Cyflwr rhanol ydyw *eisiau* yn cyfeirio at bethau neillduol sydd ddiffygiol, megys *eisiau* bwyd, arian, &c., oblegyd gall fod dyn yn mhell o fod yn *dlawd* eto *eisiau* bwyd. Y mae *tlodi* o drefniad rhagluniaeth, ac yn annibynol ar y person, ac felly ddim yn fai arno, ond cwyd *eisiau* yn gyffredin oddiar amgylchiadau o'r gread ei hun, ac felly yn gyfrifol. "Pan wariodd efe y cyfan, dechreuodd fod mewn *eisiau*."

**Angenrheidiol**—gofynol, addas, buddiol, cyfleus. *Angenrheidiol* sydd air penagored. Gall pethau fod yn *angenrheidiol* yn nghwrs natur: y mae yn *rhaid* i bawb farw. *Buddiol* a *chyfleus* ydynt foddau o *raid* perthynasol: y mae *buddioldeb* peth yn fater o farn ac ystyriaeth, ac felly ddim mor angenrheidiol a llawer o

bethau a ystyrir felly: gall fod yn fuddiol i un ofyn barn un arall yn ol fel y bo amgylchiadau yn cyfeirio. Mae y *gofynol* a'r hanfodol *(essential)* yn fwy angenrheidiol na'r *buddiol (expedient)*. Gall fod yn *ofynol* gorphen rhywbeth ar ol ei ddechreu, ond nid i'w ddechreu; ond yr *angenrheidiol* o'r tu arall yw yr hanfod, heb yr hwn nis gall dim fodoli. Y mae ymarferiad yn *angenrheidiol* er diogelu iechyd.

**Angerdd** (angar; ang-cerdd; L. *angor)*—agerdd, gwres, nerth, poethias, cyffro.

**Angerddol**—awchus, tanbaid, eiddig.

**Angeu**—angeu, marwolaeth, tranc, dienydd, ymddattodiad, colledigaeth, ymadawiad. Gair penagored yw *angau* a *marwolaeth*, yn golygu terfyniad bywyd, a chymhwysir ef at ddynion neu anifeiliaid. *Ymadawiad* sydd air Cristionogol yn arwyddo myned trwodd o un bywyd i un arall, a'r un modd *ymddattodiad*, yr hwn sydd yn awgrymu ymchwaliad ac nid difodiant gwahanol ranau y corph. Y mae *angau* hefyd megys yn persenoli awdwr neu achos *marwolaeth*. Golyga *angau* hefyd yn y Beibl yn fynych *golledigaeth* neu ddamnedigaeth yr anwir.

**Anghlod**—gwarth, cywilydd.

**Anghof**—ebargofiant.

**Anghorphorol** — disylwedd, diddefnydd ysbrydol. Defnyddir anghorphorol yn wastad mewn cysylltiad â phethau byw, megys pan y sonir am fodau yn gweithredu heb gymhorth y *corph: disylwedd* a ddefnyddir am bethau difywyd. Gelwir yr angylion yn *gyrph ysbrydol*, ond pan y sonir am danynt mewn cysylltiad â dyn maent yn *anghorphorol*.

**Anghrediniol**—digred. *Anghredu* yn briodol ydyw peidio rhoddi cred yn yr hyn a ystyriem o'r blaen yn wirionedd: *digred* a olyga gyflwr cyffredin neu arferol y meddwl. Gallwn a dylwn *anghredu* lluaws o chwedlau disail a daenir, ond y mae bod yn *ddigred* yn awgrymu cyflwr un nad ellir ei argyhoeddi. Yr oedd Thomas yn *anghrediniol*, ond nid yn ddigred.

**Anghrefyddol**—annuwiol, digrefydd, anystyriol.

**Anghyfiawn**—anghywir, anheg, camweddus.

**Anghyfarwydd**—anfedrus, anarferedig, anwybodus.

**Anghyfiawnder**—niwed, drwg.

**Anghymedrol**—afreolaidd, aflywodraethus, anghymmesur, direol.

**Anghymeradwyo**—anhoffi. Mae y blaenaf yn weithred o eiddo y farn; a'r olaf yn weithred o eiddo yr ewyllys.

**Anghymeradwyo**—condemnio, anghefnogi.

**Anghymodlawn**—anhyhuddadwy, didosturi, anhyblyg.

**Angladd** (ang-lladd)—cynhebrwng, arwyl, claddedigaeth, daeariad.

**Ail**—eil-raddol, îs-raddol. Nid yw *ail* yn amlygu dim rhagor na threfn, mewn cyferbyniad i'r cyntaf; *eil-raddol* a awgryma syniad o ddiffyg teilyngdod, ac *îs-raddol* fwy eilwaith. Dylem edrych ar bethau'r byd hwn yn *eil-raddol* mewn cyferbyniad i bethau'r byd arall; nis gall dynion *îs-raddol* eu galluoedd byth ddisgwyl cystadlu yn llwyddianus â dynion o ddysg a doniau.

**Alaw**—peroriaeth, cynghanedd, cerddoriaeth. *Peroriaeth* ydyw unrhyw seiniau mesuredig a threfnus, yn wahanol ranau; *cynghanedd* a olyga gyfaddasiad y gwahanol seiniau i'w gilydd, felly mae *peroriaeth* i *gynghanedd*, megys rhan o'r cyfan.

**Alegori**—dammeg. Defnyddir *dammeg* gan mwyaf i osod allan bethau moesol; *alegori* bethau hanesyddol; ceir y blaenaf yn fynych yn y Beibl, a'r olaf yn ffurfio rhan arbenig yn nghynyrchion cenedloedd dwyreiniol.

**Alegori**—ffugyr, cyffelybiaeth, arwydd, cysgod. *Ffugyr* yw unrhyw beth a ddarlunir trwy gyfrwng y dychymyg: moddau o'r *ffugyr* yw y lleill. Gwneir *ffugyr* trwy air, ysgrifen, neu gerfiad: gwneir *alegori* o eiriau yn unig. *Cysgod* yw math o *arwydd*, trwy yr hwn yr arddangosir peth yn gyfriniol.

**Almanac** (al-manach, Ar.)—amseroni, blwydd-lyfr, blwyddiadur, coflyfr, calaniadur.

**Allt**—llechwedd, serth dir. Gwel GALLT.

**Alltud** (alltud). Gwel ESTRON.

**Allwedd**—agoriad; mewn cerddoriaeth—cywair, cyweirsain, cyweirnod.

**Allwyn** (all-gŵyn)—gofid, galar, tristwch.

**Amaethu**—trin tir, ffermio, hwsmoni, llafurio tir. Y mae i *amaethu* ystyr lawer mwy eang na *hwsmoni*, neu *drin tir*, oblegyd cynwysa *amaethu*, yn ychwanegol at hyny, fagu anifeiliaid, a phob gwaith cysylltiedig â *ffermwriaeth*.

**Ambell**—anaml, prin, anghyffredin, anfynych.

**Amcan**—pwrpas, bwriad, arfaeth, meddwl, dyben.

**Amddifad**—(am-difad)—dirïeni, unig, digefn.

**Amddifadu**—cwtogi, llesteirio, gwadu. *Amddifadu* yw naill ai cymeryd ymaith oddiar un, neu rwystro iddo gael yr hyn a allai gael. Mesur gorfodol yw *amddifadu*: gweithred o awdurdod yw *cwtogi* neu *llesteirio*. *Amddifadir* dyn o angenrheidiau, a *llesteirir* a *gwedir* iddo bleserau, cysuron, &c. *Amddifedir* y carcharor o'i ryddid, *cwtogir* ar ei gysuron, a *gwedir* iddo bob moethau.

**Amddiffyn** (am-diffyn), cadw, diogelu, gwared, amgaeru. Mae *amddiffyn* yn awgrymu sefyllfa o ymosodiad gwirioneddol—milwyr yn *amddiffyn* y ddinas neu berson y brenhin. Y mae *gwared* yn golygu cymeryd *allan* o berygl—"yr hwn a'm *gwaredodd* o balf y llew."

**Amgyffred**—deall, dirnad, cynwys. Mae y termau hyn yn golygu y gweithrediadau deallol yn ffurfiad meddylddrychau o natur gymysg ar wahan i rai syml wedi eu ffurfio gan y weithred o ganfod. *Dirnad* ydyw y mwyaf syml o'r cyfryw: pan yn *dirnad* nid oes genym ond un syniad fe ddichon, ond pan yn *deall* neu *amgyffred* yr ydym yn feddianol ar yr holl syniadau y mae y pwnc yn abl i'w cyflwyno. Nis gallwn *amgyffred* na *deall* heb *ddirnad* neu synio, ond gallwn yn aml *ddirnad* heb *ddeall*.

**Amgylchiad**—cyflwr, sefyllfa, ansawdd.

**Amharch**—diystyrwch, sarhad.

**Amharchu**—esgeuluso, dibrisio, diystyru Byddwn yn fynych yn *diystyru* rhybuddion, neu eiriau eraill, ac yn *esgeuluso* eu cynghorion. *Diystyrir* yn fwriadol, esgelusir yn fynych trwy anghof neu ddiofalwch. Y mae a fyno *esgeuluso* yn fwy â'r peth nag â'r person; *amharchu* sydd drosedd bwriadol yn erbyn y person.

**Amharu**—niweidio. Yr hyn a *amherir* a *niweidir*, ond nid yw yr hyn a *niweidir* o angenrheidrwydd yn cael ei *amharu*. Dull arafaidd o *amharu* yw *niweidio;* gall *niwed* gymeryd lle yn raddol neu ar unwaith: y mae craffu llawer yn *amharu* y llygad, ond mae ergyd iddo yn ei *niweidio*.

**Amherffeithrwydd**—diffyg, bai, drwg. Y mae diffyg *perffeithrwydd* yn nodwedd o bob dyn yn ddiwahaniaeth; *diffyg* sydd wyriad oddiwrth gyfansoddiad cyffredin dyn: gall fod yn naturiol i ddyn fel unigolyn, ond nid yn naturiol iddo fel un o'r rhywogaeth ddynol, megys *diffyg* mewn parabl. Y mae *bai* a *drwg* yn radd a dosbarth uwch na'r ddau air blaenorol, ac yn adlewyrchu rhyw gymaint o warth ar y person y cysylltir hwynt âg ef: y mae'r *bai* yn nodweddu'r gweithredydd, a *drwg* y weithred ar wahan i'r person: condemniwn *feiau* y dyn, ond gallwn sôn am ddrygau meddwdod, celwydd, &c. *Diffyg* sydd radd o *amherffeithrwydd:* gall fod *diffyg* yn y defnyddiau neu yn y dull o wneyd peth; ond pan y sonir am *fai* mewn cysylltiad â phethau yn wastad cyfeirir at y gweithredydd: *drwg* sydd *ddiffyg* difrifol neu wreiddiol: gorphwys y blaenaf yn nghyfansoddiad yr oll, a'r diweddaf a all fod yn y rhanau yn unig: gorwedd y blaenaf yn yr anhebgorion, yr olaf yn y damweiniau: gall fod *diffyg* yn aelodau ceffyl; ond dywedir am ei *ddrwg* mewn perthynas a'i gastiau.

**Amheu**—cwestiyno, holi. Amhenderfyndod mewn barn a ddynodir gan y geiriau hyn. Gorwedd *amheuaeth* yn wastad yn y meddwl. ac mae yn llai bywiog na *holi:* gyda'r blaenaf yr ydym yn oedi barn yn unig; gyda'r olaf yr ydym yn gofyn am brofion er mwyn gwneyd ein barn i fyny. Gwneir y naill mewn

dystawrwydd, ond y llall mewn geiriau. Yr ydys yn *amheu* mewn materion o ddyddordeb cyffredinol, dyfnion neu gyffredin; *amheuwn* wirionedd gosodiad: byddwn yn *holi* i mewn i wirionedd rhyw chwedl. Cyfyngir yr amheuaeth yn fynych i'r dyn unigol: y mae a fyno'r *cwestiyno* yn aml âg eraill. *Amheuwn* pa un a fydd i ni lwyddo: byddwn yn gwneyd *ymholiad* i hawl dyn arall i ymyryd.

**Amheuaeth**—petrusder. Y mae a wnelo *amheuaeth* â'r hyn a ddylem gredu: *petrusder* â'r hyn y dymunem ei wybod. *Amheuwn* o ddiffyg prawf: yr ydym mewn *petrusdod* o eisiau sicrwydd: y mae a wnelo y blaenaf yn benaf â'r deall; a'r olaf a weithreda yn gwbl ar y gobeithion. Y mae genym ein *amheuon* yn nghylch pethau ar wahan i amser; yr ydym mewn *petrusdod* gyda golwg ar y dyfodol. Pan fo llawer o wybodaeth yn meddiant dyn, ychydig yw ei *amheuaeth*; ychydig ydyw *petrusdod* y sawl a gyfyngant eu dymuniadau i'r presenol.

**Amheus**—ansicr, anwadal, ansefydlog.

**Amhwylledd**—gwallgofrwydd, lloerigrwydd, cynddeiriogrwydd, cynddaredd, gorphwylledd. *Gwallgofrwydd* sydd anhwylder mwy neu lai sefydlog; *lloerigrwydd* a dybir ei fod yn cael ei reoleiddio gan y lloer. *Cynddeiriogrwydd* neu *gynddaredd* yw *gwallgofrwydd* yn ei eithafrwydd. *Amhwylledd* a olyga ddyryswch amserol neu ddysbeidiol.

**Amlder**—amledd, helaethder, digonedd. *Digonedd* a leinw; gwna *helaethrwydd* fwy—gedy weddill; ond yn gymaint ag fod yr hyn a leinw yn ateb yr un dyben a'r hyn a lifa drosodd, defnyddir y naill air yn fynych am y llall. *Digon* yn gyffredin, mewn ystyr lythyrenol, a olyga yr hyn a leinw y corph, *helaethrwydd* yr hyn a leinw y meddwl, neu ei ddymuniadau: *digon* o fwyd, *helaethrwydd* o gyfoeth. "O *helaethrwydd* y galon y llefara'r genau."

**Amlhau**—cynyddu, lluosogi, ychwanegu, mwyhau. *Amlhau* a *lluosogi* a ddynoda chwanegiad mewn rhifedi, a *chynydd* ychwanegiad mewn maint, cryfder, &c. Mae masnach gwlad yn *cynyddu*, er y dywedir hefyd yr un peth am y boblogaeth, sef ei bod yn cynyddu, ond dichon y golyga hyny hefyd ychwanegiad mewn nerth a gallu yn gystal a rhifedi.

**Amlwg**—hysbys, eglur, goleu, gweladwy. Mae y geiriau hyn yn cytuno mewn datgan gwahanol raddau yn y gallu o weled, ond y diweddaf yn unig a ddefnyddir mewn ystyr anianyddol, yn gyfangwbl felly. Defnyddir *eglur*, *amlwg*, *goleu*, yn anianyddol a moesol.

**Ammod**—cyfammod, cytundeb, cyngrair, undeb. Mae *cytundeb* yn gyffredinol, ac yn cynwys pob bargen, yn enwedig rhwng dynion â'u gilydd, pa un ai ar air ai mewn ysgrifen. Y mae *cyfam-*

*mod* yn *gytundeb* yn mysg cymundebau—gweithred genedlaethol neu gyhoeddus. Anfynych y cymer *cyngrair* le rhwng mwy na dwy blaid, a chyda chwestiynau rhanol, megys heddwch, masnach, a therfynau gwlad, ac o ganlyniad mae yn rhagdybied *undeb*.

**Amnaid**—awgrym, crybwylliad, ensyniad.

**Amrywiaeth**—amryfeiliant, amrywiogaeth.

**Amser**—tymor, pryd, oes, enyd, adeg, hamdden, ysbaid. *Amser* yw y gair cyffredinol: *tymor* sydd ryw gyfran o hono. Soniwn am *amser* mewn cysylltiad â'r dydd, y flwyddyn, &c., ond soniwn am y *tymor* mewn cysylltiad â rhyw amgylchiadau. Mater o angenrheidrwydd yw dewis *amser*; ond mater o ddoethineb yw dewis y *tymor*. *Oes* ydyw cyfnod o amser, megys bywyd dyn, neu barhad y byd.

**Amwys**—pert. ffraeth, amheus, arabeddus. Y mae *amwysedd* yn tarddu oddiar ffurf rhy benagored o draethu, yr hyn a edy feddwl y llefarydd yn amhenodol neu amheus. Gall y gair *mwys* gynwys mwy neu lai o *arabedd*. Y mae'r penillion *mwys* ar y gair "lewis" yn dra adnabyddus.

**Amynedd** (a-myn, neu a-mwyn)—goddefgarwch, ymaros, dioddef, ymoddef, ymroddiad. *Amynedd* a gymhwysir at unrhyw drallod neu boen o unrhyw natur, bach neu fawr; *ymroddiad* a ddefnyddir wrth sôn am amgylchiad pwysig yn unig, ac mae yn gynwysedig mewn dioddef yn dawel y brofedigaeth lemaf, megys colli cyfaill hoff, &c. Cristionogaeth sydd yn dysgu y gras hwn yn ei raddau eithaf. Y mae a wnelo *amynedd* â'r drygau sydd yn hongian uwch ein pen; ond edrych *ymroddiad* yn mlaen i'r dyfodol, gan ein parotoi ar gyfer y gwaethaf. Y mae a wnelo *amynedd* â'r dull a'r dymer y daliwn y driniaeth, a'r *ymoddef* â'r weithred, ac felly gallwn feddu yr olaf heb y blaenaf.

**Anach**—rhwystr, atalfa, lluddias.

**Anadl**—chwyth, ffûn, awel, chwa, mygdarth, chwythad.

**Anaele** (anaf-le ?)—arswydus, dychrynllyd, cethin, aethus, trychinebus.

**Anaf** (a-man; a-naf ?)—clwyf, archoll, nam, dolur.

**Anafu**—cloffi, llurgunio, archolli.

**Analluog**—annigonol, anghyfaddas.

**Andras** (an-tras, angras; L. *andrastæ)*—malen, y fall, mam y drwg, satan, ellylles, gelyn.

**Andwyo** (an-twyo)—dyfetha, dinystrio, dystrywio, anafu, diffeithio. *Dinystr* sydd weithred o anrheithiad uniongyrchol—" din-

ystr Jerusalem," ond mae *dyfetha* yn fwy graddol: dinystrir peth gan ryw weithredydd oddiallan iddo, ond dyfetha peth o hono ei hun—dyfetha dillad trwy eu cadw mewn lle llaith. *Andwyo* sydd radd bellach o *ddistrywio*: trwy *ddyfetha* a gwastraffu mae llawer dyn yn andwyo ei amgylchiadau am ei oes.

**Aneffeithiol**—ofer, gwâg.

**Aneglur**—cymysglyd. *Cymysglyd* yw graddau o *aneglurder*. Gall peth fod yn *aneglur* heb fod yn *gymysglyd*; ond nis gall fod yn gymysglyd heb fod yn *aneglur*. Gall dau beth fod yn *aneglur*, ac yn anhawdd eu gwahaniaethu; ond gall rhanau o'r un peth fod yn *gymysglyd*. Tery seiniau weithiau ar y glust yn *aneglur*, ond maent yn *gymysglyd* pan yn dyfod ar draws eu gilydd, ac yn ddidrefn.

**Anelwig**—dilun, anffurf, afluniedig.

**Anerch**—cyfarch, croesawi. Yr ydym yn *cyfarch* dieithrddyn y cyfarfyddwn âg ef ar y ffordd, ond yn *anerch* cyfeillion pan yn cwrdd, neu mewn cyfarfod cyhoeddus. Rhaid i ni *gyfarch* trwy siarad, ond gallwn *anerch* trwy eiriau neu arwyddion.

**Anfad**—ysgeler, erchyll, drygionus, diriad.

**Anfantais**—niwed, colled, rhagfarn. Absenoldeb da yn hytrach a osodir allan gan *anfantais*; *niwed* sydd ddrwg uniongyrchol. Y mae diffyg addysg yn *anfantais*; ond gellir *niweidio* dyn trwy ddweyd yn ddrwg am dano. *Colledir* dyn trwy gadw oddiwrtho yr hyn sydd eiddo iddo, a gellir creu *rhagfarn* yn ei erbyn trwy ddweyd yn ddrwg am dano nes peri *anfantais* a *cholled* iddo mewn cymdeithas ac yn ei amgylchiadau.

**Anferth**—anhardd, aneiriau, erchyll.

**Anfoddhau**—digio, blino. Nid oes a wnelo *anfoddhau* yn wastad â phersonau, ond y mae â wnelo *digio* a *blino* â'r person ei hun. Gall dyn gael ei *anfoddhau* yn ei isradd o herwydd ei ymddygiad at eraill yn gyffredinol; ond *digir* ef gan ymddygiad amhriodol tuag ato ef ei hun: y mae amgylchiadau a gweithredoedd yn *anfoddhau*, ond mae *digio* yn awgrymu bwriad. Y mae *anfoddhau* yn ymwneyd gan mwyaf â'r teimladau; ond *digio* a *blino* a ymwnant â'r achosion allanol a alwant am y teimlad. Gall dyn gael ei *anfoddhau* heb yr un rheswm ymddangosiadol, ond mae yn rhaid fod rhyw achos gweledig er achosi *díg*. *Blino* sydd ymgais barhaus i *ddigio*. Yr ydym yn *anfoddhau* weithiau heb yn wybod, ac yn *digio*, ond *blina* dyn y llall yn fwriadol.

**Anfoddlon**—anheyrngarol. Y mae *anfoddogrwydd* yn gyffredinol; *anheyrngarwch* yn neillduol neu gyfyngedig. Bydd dynion yn *anfoddgar* i'r llywodraeth ac yn *anheyrngarol* i'w tywysog. Gellir bod yn *anfoddog* o dan bob llywodraeth, ond yn *anheyrngarol* yn unig o dan unbenaeth.

**Anffyddlon**—ffals, bradwrus.

**Anhawdd**—caled, dyrys; afrwydd. Gellir myned trwy orchwyl *anhawdd* heb ymdrech, ond y mae gwaith *caled* yn gofyn ymdrech mawr. Y mae yn *anhawdd* penderfynu rhwng dwy gân dda yn fynych; ond gorchwyl *caled* yw penderfynu pynciau dwfn athronddysg. Y mae plentyn yn ei theimlo yn *anhawdd* dysgu ei lythyrenau; y mae llawer ymadrodd yn y clasuron sy'n orchwyl *caled* i'r dysgedigion i'w deall.

**Anhawsderau**—rhwystrau, trallodion. Wrth gymhwyso y geiriau hyn at ddygiad gorchwylion yn mlaen, *anhawsder* a olyga leiaf, a *thrallod* fwyaf. Cyferfydd dyn ieuanc âg *anhawsderau* lu ar ddechreu ei yrfa, yn nghyd â *rhwystrau* y rhaid iddo eu gorchfygu, ac nis gall chwaith ddisgwyl dianc rhag *trallodion* meddwl.

**Anhebgorol**. Gwel ANGENRHEIDIOL.

**Anheilwng**—diwerth. Y mae *anheilwng* yn cyfleu llai o warthnod na *diwerth*: diffyg teilyngdod sydd yn y naill, a diffyg *gwerth* yn gyfangwbl sydd yn y llall. Gellid yn wylaidd a gostyngedig ddatgan *anheilyngdod* un i gael ffafr; ond ffoledd a gormodiaith fyddai i un ddatgan nad yw yn *werth* i dderbyn caredigrwydd. Y mae llawer o aelodau *anheilwng* yn perthyn i bob corph crefyddol; ond nid yw yn briodol dweyd am y cyfryw eu bod yn *ddiwerth*.

**Anhoffedd**—anhueddiad. Mae dyn yn *anhoffi* yr hyn sydd ganddo neu a wna, ond yn *anhueddu* gyda golwg ar weithredu yn unig. Gradd bychan o *anhoffedd* yw *anhueddiad; anhoffedd* yw rhywbeth croes; *anhueddiad* yw absenoldeb gogwyddiad at beth.

**Anhoffedd**—anfoddogrwydd, anfoddlonrwydd, diflasdod, ffieiddod. *Anhoffedd* ac *anfoddogrwydd* a ddynoda deimlad neu syniad a gynyrchir gan bersonau neu bethau; *anfoddlonrwydd* gan bersonau yn unig, a *diflasdod* a *ffieidd-dod* yr hyn a gynyrchir gan bethau yn unig. Gyda golwg ar bersonau, *anhoffedd* yw syniad rhai cyfartal a diberthynas; *anfoddlonrwydd*, eiddo uwchraddolion. Byddwn yn *anhoffi* dyn o herwydd ei eondra, ac yn cael ein *hanfoddloni* o herwydd ei ddiofalwch. Y mae *diflasu* a *ffieiddio* yn raddau uwch o *anfoddlonrwydd*. Y mae dyn yn *diflasu* wrth glywed adrodd lawer gwaith yr un peth, ond os bydd yr iaith yn llygredig, yr ydym yn *ffieiddio* yr adroddydd.

**Anhydyn**—cyndyn, ystyfnig, anhyblyg, anhywaith.

**Anial**—anghyfanedd, diffaeth, gwyllt, unig. Y mae yr holl eiriau hyn yn cael eu cymhwyso at leoedd amddifad o boblogaeth, ond yn gwahaniaethu ychydig gyda golwg ar raddau yr unigedd cysylltiedig â'r cyfryw feddylddrych. *Unigedd* a ddynoda ddim amgen nag absenoldeb bodau o'r un rhywogaeth, megys dynion neu anifeiliaid. *Diffaeth* a gyflea y syniad o le wedi ei wneyd yn *anial* neu *unig* ar gyfrif ei anaddasrwydd i gynhal

bywyd anifeilaidd neu lysieuol. *Anghyfanedd* a awgryma fod lle wedi ei boblogi unwaith, neu ei fod yn gyfaddas i gynhal poblogaeth: y mae llawer o wledydd ffrwythlon erbyn hyn wedi myned yn *anghyfanedd* trwy ddiogi neu anrhefn eu preswylwyr, neu trwy ddifrodau rhyfel, &c.

**Anianyddiaeth**—athroniaeth, celf, gwyddor, hanes. *Anianyddiaeth* a olyga wybodaeth am natur, yn neillduol yn ei gwrthddrychau a'i ffeithiau; *athroniaeth* a berthyn i natur a meddwl: *celf* yw y math hwnw o waith ag a fo yn cynyrchu rhyw wrthddrychau, megys peiriant, darlun, &c., neu yn arddangos medr a thalent, megys canu, &c.; golyga *celf* hefyd yr egwyddorion, fel cyfundrefn, yn ol y rhai y cynyrchir y cyfryw weithiau. *Gwyddor* a olyga wybodaeth bur am natur a'i deddfau, heb un cyfeiriad uniongyrchol at ei defnyddioldeb ymarferol. Yn y *Beibl* golyga yr un peth ag egwyddor: "dan wyddorion y byd" (Gal. iv. 3). Geiriau diweddar ydyw *celf* a *gwyddor*, ac nid ydynt i'w cael yn Ngeiriadur Dr. Davies o Fallwyd,—Caerfallwch mae'n debyg yw eu hawdwr, ac a roddes ystyr iddynt. *Hanes* a gynwysa ddwy ganghen, sef yr un a ymwna â dyn fel aelod o gymdeithas, a'r llall, sef *hanesiaeth* naturiol, yn ymwneyd â ffeithiau am greaduriaid, llysiau, &c., eu ffurfiad a'u trefniad: ymchwiliad i egwyddorion yw *gwyddor*, ond cauir hwy allan yn llwyr gan *hanes (han-es*, o *hanu)*.

**Anifail** (an-bel? an-if-el? enfil; L. *animal)*—anghenfil, bwystfil, creadur, milyn, trychfil, ysgrubliad. *Anifail* yw creadur byw, direswm, ond defnyddir ef weithiau yn ffugyrol am ddyn ynfyd, megys "*anifail* oeddwn o'th flaen di." *Anghenfil*, creadur heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfau cyffredin ei ryw. *Creadur* a olyga beth creedig. Cyfyngir ef yn gyffredin at afresymolion, ond nid bob amser gyda pherffaith briodoldeb. Gall yn ffugyrol olygu llysiau a phethau difywyd yn ogystal a phethau byw. *Milyn* a olyga bron yr un peth ag *anifail*. Y gwahaniaeth yw na ddefnyddir ef yn ffugyrol, ddiraddiol am ddyn; ac o ganlyniad, nid yw y lled-feddwl isel ag sydd yn nglŷn âg *anifail* yn gysylltiol âg ef. *Trychfil* yw milyn a thoriad yn ei gorph fel gwenynen, &c. (Ll. *insectum)*, a chynwysa rai adeiniog a diaden, megys gwybed, morgrug, &c. *Ysgrubliad* ydyw anifail clud neu waith, a defnyddir ef yn fynych yn yr Hen Destament.* Nid oes genym air yn cyfatteb yn hollol i *brute*. Mae *bwystfil* yn gyffredin yn golygu *anifail* creulon, ysglyfgar.

**Anifeilaidd**—creulon, annynol, barbaraidd, ciaidd.

**Anllythyrenol**—diddysg, anwybodus, aflenog. Mae y gair *anwybodus* yn dra chynwysfawr; ceir ynddo bob gradd, o'r uchaf

* "Beirniad," cyf. xv., tud. 62

hyd yr isaf, ac felly cynwysa yr *anllythyrenog*, y *diddysg*, a'r *aflenog*, y rhai a ddynodant wahanol ffurfiau o anwybodaeth. Nid yw *anwybodaeth* bob amser er gwarth i ddyn, gan mai nid ei fai bob amser ydyw. Y mae'r anwar-ddyn. druan *anwybodus*, yn wrthddrych o dosturi yn hytrach na chondemniad, ond pan y cyplysir *anwybodaeth* â hunanoldeb a rhyfyg, yna mae yn wrthun, ac i'w ffieiddio, megys pan y ceisia yr *anwybodus* ddysgu eraill, a phan y gwna hyny gelwir ef yn bregethwr *anllythyrenog;* rhai *anllythyrenog* yr ystyrir *quacks*, pa un ai mewn crefydd ai meddyginiaeth. Gall dyn fod yn hyddysg yn y rhan fwyaf o ganghenau gwybodaeth gyffredinol, ond oblegyd ei *anwybodaeth* o ganghen neillduol, gosodir ef i lawr fel dyn *anllythyrenog*.

**Annedwydd**—truenus, gresynus. Y mae a fyno *annedwyddwch* yn benaf â chyflwr y meddwl, ond defnyddir ef yn ffugyrol am amgylchiadau allanol: arweinir bywyd *annedwydd*, neu byddis mewn cyflwr *annedwydd*. Y mae a wnelo *truenus* a *gresynus* âg amgylchiadau allanol, ac yn gyfryw a alwant allan am gydymdeimlad. Gall peth distadl beri *annedwyddwch;* ond y mae'r dyn a boenir gan ei gydwybod yn wir *druenus*, ac mewn canlyniad yn wrthddrych o *resyni*.

**Annynol**—creulon, barbaraidd, anifeilaidd, ciaidd. *Creulondeb* yw y duedd i beri poen i eraill: graddau uwch o *greulondeb* yw *annynoldeb* a *barbareidd-dra: anifeileidd-dra* sydd raddau uwch byth: *annynol* a ddynoda yn briodol ymddygiad y naill ddyn at y llall. Y mae dyn yn *greulon* pan y *poena* greadur, neu ynte yr esgeulusa ef: y mae yn *annynol* os y ceidw oddiwrtho yr hyn a ddisgwylia y naill ddyn oddiwrth y llall: y mae yn *farbaraidd* os ymblesera mewn peri poen; y mae yn *anifeilaidd* yn ol yr amgylchiadau fyddo yn cydfyned â'r gwaith o boenydio. Y mae a wnelo *creulon* â'r dymher neu yr ymddygiad; *annynol* a *barbaraidd* yn benaf â'r ymddygiad allanol; *anifeilaidd*, *ciaidd* yn benaf â'r duedd. Cyflawnir *creulonderau* a *barbareidd-dra* rhy ofnadwy i'w hadrodd ar greaduriaid direswm, megys cŵn, ceffylau, &c., a hyny er boddio tueddiadau *anifeilaidd*, neu oddiar *gieidd-dra* naturiol: felly nid yw yn rhyfedd fod y cyfryw yn ymddwyn mor *annynol* tuag at eu plant eu hunain.

**Anobaith**—digalondid, dibrisdod. Mae dyn yn myned i gyflwr o *anobaith* trwy edrych ar amgylchiadau allanol; ond gall y ddau eraill gael eu cynyrchu gan y dychymyg yn unig. Y mae *anobaith* yn gyffredin yn ragredegydd *digalondid* a *dibrisdod*. Gall y meddwl cryfaf suddo i *anobaith;* meddwl gwan llawn teimladrwydd a gynyrcha *ddigalondid;* a dynion nwydwyllt sydd dueddol i fyned yn *ddibris*. Y mae *anobaith* yn llesteirio ymgais; *dibrisdod* yn symbylu i fwy o ymgais; a *digalondid* yn

anghyfaddasu i wneyd unrhyw ymgais. Pan y cenfydd y meddyg nad oes *obaith* gwella rhydd heibio ei driniaeth; pan cenfydd y milwr ond marwolaeth neu warth o'i flaen, gyrir ef i *ddibrisdod*, a dybla ei ymgais; pan na ehenfydd y masnachwr ond dystryw ac eisiau o'i flaen, sudda i *ddigalondid*. Gall *anobaith* fod yn briodol pan yn sylfaenedig ar gipdrem i'r dyfodol yn ngoleu amgylchiadau presenol; gall *dibrisdod* weithiau waredu dyn o gyfyngder, a phryd arall arwain i ganlyniadau marwol; ymddiried yn Rhagluniaeth Duw yw'r feddyginiaeth oreu rhag *digalondid*.

**Anorchfygol**—anoresgynadwy, anorfod.

**Anrheg**—cardod, cyfraniad, elusen, rhôdd. *Anrheg* yw *rhôdd* yn yr ystyr o serch neu ewyllys da: *cardod* a roddir mewn ffordd o dosturi a chydymdeimlad âg un mewn tlodi, a chyfyngir ef yn gyffredin i nwyddau yn hytrach nag arian: *cyfraniad* ydyw rhoddiad o swm penodol at achosion crefyddol neu sefydliadau daionus. Nid yw *elusen* yn gwahaniaethu llawer oddiwrth *gardod*, ond fe ddichon fod y syniad o deilyngdod yn gryfach mewn cysylltiad âg ef. *Rhôdd* yw cyflwyniad o beth ar wahan i haeddiant neu hawl y derbynydd.

**Anrhegu**—cyflogi, gwobrwyo, talu. Yn wrthgyferbyniol i *anrheg* mae *gwobr* yn golygu teilyngdod: defnyddir ef hefyd mewn ystyr ddrwg, megys *llwgr-wobrwyo*. *Cyflogi* a olyga swm penodol o *dâl* am swm penodol o waith, ac fod y gwasanaeth am amser penodedig. Y mae *talu* yn golygu gwerth: defnyddir ef hefyd yn yr ystyr o gosb—" telwch iddi fel y talodd hithau i chwi."

**Anrhaith**—ysbail rhyfel, ysglyfaeth, rheithafaeliad. Y meddwl a osodir allan yma ydyw eiddo yn cael ei gymeryd oddiar arall heb ei gydsyniad, ond mae y gair *anrhaith* yn cynwys yr oll: *ysbail* a olyga symud ymaith yr hyn a gymerir; *ysglyfaeth* a awgryma gymeryd ymaith trwy drais. Mae yr *ysbail* yn dangos goruchafiaeth y milwr; yr *ysglyfaeth* yn cynwys yr hyn a foddha ei flys. Y mae trachwant yn gymhellydd i *anrhaith*, uchelgais yn cynyrchu awydd am *ysbail*, a gwanc fileinig yn cymhell ymchwil am *ysglyfaeth*.

**Anrhydedd**—bri, parch, blaenoriaeth, edmygedd. Gwel GOGONIANT.

**Ansawdd**—cyflwr, sefyllfa, natur, naws, nwyd. Y mae a fyno *cyflwr* âg amgylchiadau, dygiad i fyny, genedigaeth, &c., ond cyfeiria *sefyllfa* at ddosbarth, gwaith, neu ddull o fyw a ddilyna un. Dyn yn dyfod i gyfoeth yn sydyn sydd dueddol i anghofio ei *gyflwr* gwreiddiol, ac i'w wneyd yn anghymwys at ddyledswyddau ei sefyllfa. *Ansawdd* peth ydyw yr hyn sydd ynddo, megys rhan o hono, ac nis gallwn newid *ansawdd* peth heb ei newid i gyd.

**Anturiaethus**—beiddgar. Y mae a wnelo y blaenaf yn benaf â'r deall, a'r olaf â'r nwydau. Tŷn yr *anturiaethus* allan gynlluniau anhawdd i'w cario allan; ond rhaid i'r *beiddgar* geisio rhywbeth newydd, a gosod ei hun mewn enbydrwydd. Yr oedd Columbus yn *anturiaethus* pan yn cychwyn ei fordaith i chwilio am fyd newydd: y mae Blondin yn *feiddgar* pan yn myned trwy ei orchest-gampau.

**Anwadal**—ansefydlog, anwastad, ansafadwy, gwamal, cyfnewidiol. Defnyddir y gair *cyfnewidiol* am ddynion a phethau; *gwamal* am bersonau. Ni châr dyn *ansefydlog* ddim yn hir, ac mae "dyn dau-ddyblyg yn *anwastad* yn ei holl ffyrdd." Y mae a wnelo'r *cyfnewidiol* â'r syniadau a'r farn, yr *ansefydlog* â'r serchiadau, a'r *ansafadwy* âg egwyddor.

**Anwesu**—meithrin, croesawi, mwytho.

**Anwiredd**—camwedd, pechod, trosedd. Y mae *anwiredd* yn wrthgyferbyniol i wirionedd, ac yn gyfredol â chelwydd. Golyga *celwydd* wrthdroad gwirfoddol a bwriadol o ffeithiau, tra nad yw *anwiredd* yn golygu o angenrheidrwydd unrhyw ddrwgfwriad. Y mae celwydd yn gysylltiol â'r dyn, ac anwiredd â'r dystiolaeth. Yr ystyr arall i *anwiredd* yw pechod yn gyffredinol. Sonir yn y Beibl am "faddeu *anwiredd*, a *chamwedd*, a *phechod*." *Camwedd* a gyfeiria fwy at y weithred, tra y dynoda *anwiredd* egwyddor y galon: "lle nid oes deddf, nid oes *gamwedd*." Cynwysa *pechod* yr ystyr sydd yn y ddau air blaenorol, yn nghyd â'r chwanegiad o ddrwg haeddiant ac euogrwydd. Cyfeiria *trosedd* yn fwy uniongyrchol a phendant at ddeddf a deddfroddwr nag un o'r tri eraill. Efallai mai y prif syniad sydd ynddo yw y personol—sarhad ar y deddfroddwr, yn hytrach na thoriad y gyfraith: "gan *droseddu* ei gyfammod ef."*

**Anwiredd**—ffalsedd, geudeb, celwydd.

**Anwybodus**—anwybyddus. *Anwybodus* a berthyna i'r meddwl, a golyga ddiffyg mewn gwybodaeth; *anwybyddus* yw dirgel, tywyll, perthynol i fater neu bwnc: dyn *anwybodus*; ffaith *anwybyddus*.

**Anwyd**—tymmer, meddylfryd, natur, tuedd.

**Anwyl**—hoff, cariadus, cu, hawddgar. Y mae'r gair *hawddgar* yn datgan y syniad o gariad yn ei ffurf fwyaf ysbrydol; *anwyl* a gyfeiria at yr un teimlad fel y cynyrchir ef gan wrthddrychau gweledig. Ansoddau y galon sydd yn peri *hawddgarwch*; ffurf a moes allanol a alwant allan *gariad*. *Cerir* pethau yn gystal a phersonau; ond personau yn unig a feddant hawddgarwch.†

* "Beirniad," 1874, tud. 63.

† Defnyddir *hawddgarwch* weithiau mewn cyfeiriad at bethau, megys yn y Beibl—"Mor *hawddgar* yw dy bebyll di," &c

Y mae tymer *hawddgar* a rhadlon yn peri i un gael ei *garu* ar wahân i ffurf ac agwedd ei berson.

**Aphwys** (a-pwys)—llynclyn, annwn, anoddyn.

**Arabedd**—digrifder, ffraethineb. Mae *ffraethineb* yn gynyrch difyfyr a naturiol, oblegyd os ymddengys unrhyw ymgais i'w gynyrchu, yna nid yw yn *ffraethineb* o gwbl. Math ar *ffraethineb* yw *arabedd:* yn fynych un syniad dysglaer a gynyrcha y blaenaf, ond rhed *arabedd* yn wythïen, ac er nad yw *arabedd* yn darawiadol, mae yn unffurf a boddhaol. Mae Mr. Addison yn ei ysgrifeniadau wedi rhoddi i'r Saeson yr esiamplau godidocaf o *wit and humour.*

**Aradr**—gŵydd, rhigolydd.

**Araeth**—araith, arawd, ymadrodd, traith, cyfarchiad. Gwel ANERCH.

**Araeth**—darlith, pregeth. Defnyddir *araeth* i gynhyrfu y teimladau, ac i berswadio yr ewyllys. *Darlith* (dar-llith) sydd berthynas agos â *darllen,* ond nid yw er hyny yn gyfyngedig i ddarlleniad, ond golyga yn hytrach yr hyn a draddodir o'r deall. Mewn *darlith* yr amcan ydyw goleuo y deall yn hytrach na chynhyrfu y nwydau. Gall *pregeth* gyfranogi o natur *araeth* a *darlith,* ond rhaid iddi fod yn seiliedig ar ryw bwnc o'r Ysgrythyr.

**Araf** (a-rhaf)—difrys, hwyrfrydig, anniben, hwyrdrwm. *Araf* sydd air cyffredinol a chymwysiadol at symudiadau unrhyw wrthddrych, neu symudiadau a gweithrediadau dynion yn neillduol, yn nghyd â'u tueddiadau hefyd—*araf* mewn corph a meddwl; *hwyr-drwm* sydd gymwysiadol at weithrediadau meddyliol.

**Arail** (a-rhail)—gofalu am, gwylio, gwarchod.

**Aralleg**—Gwel ALEGORI.

**Arawd.** Gwel ARAETH.

**Arbed.** Gwel ACHUB.

**Arch**—cyff, cist, coffr.

**Arch**—erchi, dymuno, gorchymyn, hawlio.

**Archoll** (arch-holl; ar-coll?) — clwyf, clais, briw, anaf, niwed. Golyga *archoll* fod erfyn yn cael ei ddefnyddio—"Efe a *archollwyd* am ein camweddau ni." Y corph a effeithir gan *archoll*, ond gall *clwyf* amharu ar y rhanau mewnol. Y mae yr enaid yn gystal a'r corph yn agored i dderbyn *niwed.*

**Archwaeth**—chwaeth, blâs. Y mae a wnelo *archwaeth* a'r rhanau anianyddol o ddyn—*archwaeth* at fwyd; *chwaeth* â'r rhanau meddyliol a moesol yn benaf, a *blâs* â'r naill a'r llall.

**Ardal**—goror, cyffinwlad, parthed, talaeth.

**Ardeb** (ar-teb)—llun, darlun, eilun, arfel.

**Arddangosiad**—dangosiad, arwydd, arnodiad, amlygiad. *Dangos* ydyw y gair cyffredinol am yr hyn y bwriedir ei weled. Nid yw *dangos* yn ddim amgen na boddhau y llygad; ond o'r tu arall, mae *arddangos* yn cyflwyno rhyw ymgais o dalent neu waith athrylith, ac yn cyfleu darlun o rywbeth trwy rym celfyddyd.

**Arddel**—proffesu, addef, honi, cydnabod. Datganiad o deimladau neu syniadau ydyw y meddylddrych cyffredin a gyfleir gan y geiriau hyn, ond gwahaniaethant gyda golwg ar y dull a'r gwrthddrych: *proffesa* dyn trwy eiriau neu weithredoedd: *addef* trwy eiriau yn unig. *Proffesa* dyn gyda golwg ar yr eiddo ei hun, ond *hôna* gyda golwg ar yr eiddo arall, ac mae *arddel* yn ddatganiad cyhoeddus o hawliau.

**Ardderchog**, Gwel GODIDOG.

**Arddull**—ffugr, gosgedd, dulliaith, dullwedd, dull ymadrodd, ieithwedd. Cyfeiria *ieithwedd* ac *arddull* at yr hyn a ysgrifenir, ond *ffugr* a *gosgedd* at ddull un o siarad, ac at yr hyn a ddywedir.

**Areitheg** — areithyddiaeth, rheithoreg, hyawdledd. *Rheithoreg* ydyw y wyddor o ba un y mae hyawdledd yn ymarferiad neu gelfyddyd. Gorwedd *hyawdledd* yn y person—dawn naturiol ydyw: mae *areithyddiaeth* yn dibynu ar y dull o draddodi—peth i'w ddysgu ydyw. Sieryd hyawdledd deimlad y llefarydd; daw o'r galon, a sieryd wrth y galon. Celfyddyd ddynwaredol yw *areithyddiaeth:* desgrifia yr hyn a deimla arall, a dynwarediad o *areithyddiaeth* yw *rheithoreg*. Rhwng *hyawdledd* ac *areithyddiaeth* y mae yr un gwahaniaeth a rhwng natur a chelfyddyd; nis gellir byth wyrdroi y flaenaf i ddybenion gwael—sieryd y gwir yn wastad: ond gwasanaetha yr olaf achos y gau yn gystal a'r gwir.

**Arf**—offeryn, erfyn, teclyn, ceryn. Defnyddir y gair *arfau* yn gyffredin yn awr am offer ymosodol—arfau tân, &c., ond nid yw yr unigol, sef *erfyn*, yn cael ei gyfyngu i'r hyn a ddefnyddir mewn ffordd ymosodol, ond golyga bob *offeryn* at waith o unrhyw fath—*offeryn* cerdd, &c. Defnyddir *offeryn* mewn ystyr foesol pan y dywedir fod un dyn yn *offeryn* i droi y llall.

**Arfaeth** (ar-maeth), bwriad, amcan, meddwl, cynllun, bryd, gorfryd, diben. Trefn neu gynllun ydyw y meddylddrych cyffredin i'r geiriau hyn. Y mae *bwriad* neu *amcan* i'w brisio yn ol ei werth gwirioneddol; y mae *cynllun* i'w farnu yn ol ei werth cydmariaethol, neu ei gyfaddasiad i'r *amcan*. Y mae *amcan* yn dda neu ddrwg, *cynllun* yn ymarferol: mae gan sylfaenydd sefydliad elusengar *amcan* da ond odid, ond dichon iddo fabwysiadu *cynllun* beius er ei gyrhaedd. Y mae *arfaeth* yn golygu fod cynllun wedi ei hen ffurfio gyda phwyll a barn briodol.

**Arfer** (ar-mer)—defod, arferiad, cynnefod, moes, moeswers, diareb. Dywedir fod *arferiad* yn ail natur—y mae yn awdurdodol—yn sefyll yn lle cyfraith, ac yn rheoleiddio ymddygiadau dynion yn helyntion mwyaf pwysig bywyd. Y mae *defod* yn golygu dull sefydlog a chyffredinol o weithredu, ac mae *defod* mor anhawdd ei newid ag *arferiad*. Nid oes eiriau cyfystyr yn Gymraeg i *custom* a *habit*.

**Arferol**—cyffredin, cyffredinol. *Arferol* yw yr hyn a fynychir yn gyson, ac a gyflawnir yn ol rheol mewn amser. *Cyffredin* yw cynefindod y meddwl a'r gwrthddrych a gymesura. Golyga reolaidd, ond nid yw yn gofyn perffeithrwydd; defnyddir ef yn y Beibl yn wrthgyferbyniol i gysegredig—"y pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn *gyffredin*." *Cyffredinol (general* neu *universal)*; yr ystyr flaenaf iddo yw y mwyaf *cyffredin*. Mynych y camddefnyddir y ddau air olaf. *Cyffredin* sydd wrthgyferbyniol i dieithr, pur, glân, neillduol; a *chyffredinol* i cyfyng, terfynedig, eithriadol, rhanol.

**Arglwydd** (ar-clwydd). Mae y gwahanol enwau ar y Bôd Mawr yn dra lluosog yn Gymraeg, ac allan o luaws nodwn a ganlyn:—Llywydd, meistr, nêr, naf, ior, por, rhi, peryf, perydd, rhwyf, &c.

**Argoel**—coel, arwydd, cred, armes. Tynir *coel* oddiwrth wrthddrychau allanol, ac mae yn gyffredin yn ffrwyth dychymyg, ac yn gorphwys ar ofergoeledd fel mae'r gair yn awgrymu. Y mae *arwydd* yn ein galluogi i adnabod gwrthddrych allanol, ac i ddeall teimladau mewnol. Mae yr ysgogiadau gweledig ar y wyneb yn gyffredin yn *arwyddion* o'r hyn sydd yn myned yn mlaen yn y galon.

**Argraph** (ar a Gr. *grapho)*—nôd, man, bathnod, arfath, marc. Beth bynag a newidia wyneb allanol gwrthddrych sydd *farc*, ac felly y mae *nôd* yn fath o *farc*. *Argraph* sydd *farc* yn cael ei bwyso i neu ar unrhyw gorph gyda mwy o rym na *nôd*. Y mae i *argraph* hefyd ei gymhwysiad moesol; gwna dygwyddiadau neu areithiau *argraph* ar y meddwl.

**Argyhoeddi**—dysbwyllo, darbwyllo, ceryddu. Y meddwl a gyfleir gan y geiriau hyn ydyw dangos anghymeradwyaeth o ymddygiad person. Y mae camymddygiad yn galw am *gerydd*. *Dysbwyllo* sydd ddull o argyhoeddi trwy ymresymu; ac mae *argyhoeddi* yn awgrymu fod y cerydd wedi ateb y dyben.

**Arlun**. Gwel Eilun.

**Arlwyo**—darparu, darbod.

**Arogl** (a-rhogl), sawr, sawyr, arwynt.

**Aros** (araws)—sefyll, trigo, disgwyl, oedi, preswylio, cyfaneddu. Mae hyd yr arhosiad mewn lle sydd yn cael ei awgrymu yn y geiriau hyn yn cael ei nodi gan wahanol raddau. *Aros* a olyga fyr amser; *trigo*, arhosiad parhaus; *preswylio*, arhosiad am dymor. Golyga *preswylio* aros o dan dô—megys mewn tŷ, palas, &c. *Cyfaneddu* (cyf-annedd) a ddynoda ymsefydliad mewn lle.

**Arswyd** (ar-swyd)—dychryndod, braw. Pethau aruchel, cysegredig, a dwys sydd yn cynyrchu *arswyd;* pethau erchyll ac ofnadwy sydd yn peri *dychryn* a *braw*. Gellir peri *arswyd* trwy gymhorth y synwyrau a'r deall, a *dychryn* yn benaf trwy y dychymyg.

**Arteithio** (ar-taith)—poeni, poenydio. *Arteithio* ydyw y radd waethaf o *boenydio*. Gellir *poeni* dyn mewn corph a meddwl mewn llawer dull a modd; ond nis gellir *arteithio* ond mewn dull uniongyrchol, megys gyda'r arteithglwyd. Gellir *poenydio* dyn yn barhaus, ond ei *arteithio* am enyd, ac ar achlysuron neillduol. Gall cydwybod euog *boeni* dyn trwy ei oes; y mae dychrynfeydd cydwybod wedi ei deffro yn *arteithiad* i un ar ei wely angau.

**Aruchel**—goruchel, dyrchafedig, mawreddog. Y mae *goruchel* ac *aruchel* y radd uchaf o *fawredd*. Gall golygfa fod yn *fawr* neu *aruchel:* y mae yn *fawreddog* pan y lleinw y dychymyg â'i eangder; y mae yn *aruchel* pan y dyrchafa'r dychymyg uwchlaw gwrthddrychau amgylchynol a llai pwysig. Mae rhywbeth yn *fawreddog* mewn symudiadau byddin gref, megys ag un ysgogiad; y mae rhywbeth nodedig o *aruchel* yn yr olwg ar fynyddau enfawr a chreigiau crog o ia, o bob llun a ffurf. Gellir galw gwaith celfyddyd a natur yn *fawreddog;* ond nid yw *aruchel* i'w gymhwyso ond at weithiau natur. Y mae ardderchogrwydd a mawredd syniadau yn ysgrifeniadau Milton; ond yn yr ysgrifeniadau Ysbrydoledig y ceir *arucheledd* yn ystyr briodol y gair.

**Aruthr**—erchyll, echryslawn, rhyfeddol, anhygoel.

**Arwain** (ar-gwain)—tywys, cyfarwyddo, arweddu. Y meddylddrych a gyfleir gan yr oll o'r geiriau hyn ydyw iawn-gyfeiriad. *Tywys* a awgryma *arwain* trwy estyn cymhorth i un nad â, neu na all fyned, megys gafael yn ei law: gellir cyfarwyddo dyn ar ei daith trwy eiriau neu arwyddion, ac *arwain* a olyga fyned o flaen un. Gwahaniaetha y Saesneg rhwng *guide* a *lead,* yr hyn a gollir yn y Gymraeg.

**Arwydd.** Gwel ARGOEL.

**Arwynebol**—coeg, gwâg, bâs.

**Asbri.** Gwel ATHRYLITH.

**Asgell.** Gwel ADEN.

**Asgre.** Gwel Calon.

**Asgri**—cryndod, dychryn, ysgryd. O'r un ffynhonell y tardd y rhai hyn oll, sef cyflwr o gynhyrfiad. *Cryndod* yw y mwyaf penagored o'r geiriau hyn, a golyga unrhyw radd o ysgydwad anwirfoddol ar y corph oddiwrth effaith a gynyrchwyd ar y corph neu y meddwl—naill ai gan oerni, afiechyd, &c. Effaith *dychryn* yn fynych ydyw *cryndod* neu *ysgryd*.

**Asserw.** Gwel Gloyw.

**Astalch**—tarian, bwcled.

**Astrys.** Gwel Dyrys.

**Astudio** (Ll. *assideo*, neu *studeo*)—myfyrio, efrydu, efrydio.

**Attal**—llesteirio, rhwystro, lluddias. *Rhwystro* a gyfeiria yn unig at waith un yn dilyn rhyw wrthddrych; *attal* a gyfeiria at ball ysgogiad; gellir felly ein *rhwystro* trwy gael ein hattal; ond gellir hefyd ein *rhwystro* heb ein *hattal*, a gellir ein *hattal* heb ein *rhwystro*. Gellir ein *hattal* gan gyfaill pan yn rhodio wrth ein pleser; ond os *attelir* ni gan segurddyn yn nghanol ein gorchwylion pwysig, yna mae yn dyfod yn *rhwystr*.

**Atteg**—annel, gwanas, daliedydd, cynnaliad.

**Attolygu**—erfyn, deisyf, taer geisio, taer ddymuno, crefu, ymhwedd. Gwel Erfyn.

**Athraw** (a-traw)—doethawr, dysgawdwr, hyfforddwr.

**Athrawiaeth**—addysg, dysgeidiaeth, barn, hyfforddiad, egwyddor, daliad. Mae *athrawiaeth* yn rhagdybied dysgawdwr, ac *egwyddor* un i'w hegluro. Ffurfir *athrawiaeth* gan ryw un yn wastad, ond gorwedd *egwyddor* yn y peth ei hun, ac *egwyddorion* sydd yn gwneyd i fyny *athrawiaeth*. Mae genym syniadau neu *farn* mewn perthynas i *athrawiaeth*. Pethau i'w *dysgu* yw *athrawiaethau*, ac mae llawer o *athrawiaethau* y Beibl i'w dal trwy ffydd.

**Athrist**—galarus, prudd. Gwahaniaeth yn y syniad sydd yn cyfansoddi y gwahaniaeth rhwng y geiriau hyn. Mae y *galarus* yn deffroi teimladau tyner a chydymdeimlad; mae yr *athrist* yn dwyseiddio yr ysbryd ac yn gwneyd un yn drwm ei galon. Mae hanesyn *prudd* yn cynwys helyntion anffodus pobl eraill: hanesyn *athrist* yn cynwys adroddiad o anffodion un ei hun: dygwyddiad *galarus* a syrth i ran ein cyfeillion a'n perthynasau: anffawd *drist* yw yr eiddo ein hunain. Nid yw pobl hunanol byth yn cael dim i *alaru* o'i blegyd, ond llawer o bethau *trist*. Bydd pobl dyner-galon yn wastad yn teimlo oddiwrth y *galarus*, ac yn llai eu poen yn nghylch y *trist*.

**Athrylith** (a-trylith)—talent, synwyr. Mae *athrylith* yn tybied galluoedd uwchraddol sydd yn rhoddi cyfeiriad neillduol i'r

meddwl, ac yn cynyrchu hoffder at ryw lafur meddyliol: *talent* yn golygu craffder meddwl ac addasder at orchwylion arbenig. Mae *athrylith* wedi ei gysylltu mewn modd neillduol â'r dychymyg, ac yn cyrhaedd ei amcanion drwy allu cyngreddfol *(intuitive)*. Mae talent yn dibynu mwy ar ddiwylliant meddwl, a llywodraeth ar alluoedd y meddwl. *Athrylith* at farddoniaeth; *talent* at fasnach. Yn mhlith areithwyr Seneddol yr oedd Lord Chatham yn hynod am ei *athrylith*, a William Pitt am ei *dalent*. Mae *talent* yn gwerthfawrogi pob llafur yn ol ei ddefnydd ymarferol; *athrylith* er ei fwyn ei hun: llafuria o gariad at y gwaith. Mae *talent* yn rhywbeth ellir ei enill trwy ddyfal-barhad; *athrylith* yn feddiant gwreiddiol. Gellir ei ddiwyllio, ond nid ei gynyrchu. Mae *talent* yn gorwedd yn y deall, ac yn fynych yn etifeddol yn disgyn o dad i fab; *athrylith* yn tybied gweithrediad y rheswm a'r dychymyg, ac yn anaml, os byth, yn etifeddol. *Athrylith* yw y weithfa lle gwneir y defnyddiau; *talent* yw y faelfa lle y gosodir hwynt allan yn y modd mwyaf manteisiol. *Athrylith* a gyfaddasa ei berchen i ymwneyd âg ymdrechion mwyaf dyrchafedig y meddwl dynol; *talent* â dyledswyddau a galwedigaethau bywyd. *Synwyr* yw y gallu i weithredu yn ddoeth a phriodol gydag amgylchiadau cyffredin bywyd. Felly gall dyn fod yn meddu *synwyr* cryf heb fod yn berchen *athrylith*. "Medr dyn o alluoedd cyffredin fwynhau drychfeddwl adnabyddus yn ogystal, feallai, a'r dyn *athrylithgar;* ond y mae yn rhaid wrth *athrylith* i roddi bod i'r cyfryw. Mae *athrylith* yn cyflawni yr un gwasanaeth yn myd y meddwl ag a wna y mynyddoedd tanllyd yn y byd naturiol. Rhydd fynegiad i deimladau cyffredinol y ddynoliaeth. Yr oedd llawer o'r meddyliau hyn yn llechu yn nyfnder y galon ddynol er's oesau fel y tân yn nghalon y ddaear; ond yr oedd yn rhaid wrth *athrylith* i'w datguddio."

**Athroniaeth**—philosophi, gwyddoniaeth.

**Athrod** (a-trawd)—enllib, absen, anair, cabl, drygair. *Athrod* sydd unrhyw beth a argrephir neu a ysgrifenir am berson, ac a gyhoeddir fel ag i wneyd y cyfryw un yn agored i gasineb neu wawd; *enllib* ydyw llefaru geiriau yn unig i'r un perwyl. Gellir dyfod a chynghaws am iawn mewn llys gwladol yn yr achosion hyn. Rhoi *anair* ydyw dwyn rhyw gyhuddiad difrifol yn erbyn cymeriad dyn; *enllibio* yw dinoethi beiau dyn yn ei gefn; *cablu* ydyw gwneyd yn hysbys yn ddirgel neu gyhoedd amgylchiadau a fyddont niweidiol i arall. Nid yw *absen* yn gyffredin yn ddim amgen nag ensyniad; *anair* sydd ddatganiad cyhoeddus o syniad yn gystal a hysbysiad o ffaith; *cabl*, o'r tu arall, sydd ddatganiad o amgylchiadau y gŵyr yr adroddwr ar y pryd eu bod yn anghywir. *Absen* sydd effaith cenfigen, ac mae dynion enwog yn fynych yn nôd i saethau y cyfryw. *Anair* sydd gan-

lyniad digter personol; *enllib* a dardd oddiar dymer naturiol ddrwg, ac mae yn ffrwyth meddyliau gweigion a'r anwybodus.

**Aw.** Gwel Hylif.

**Awch**—mîn, llymder. Yn gyffredin y mae *mîn* yn gysylltiedig âg offeryn—cyllell finiog, er y dywedir weithiau fod yr awel yn *finiog*—

"Aml y mae yn teimlo *mîn*
Yr awel ar ei ewin."

Ond yma mae y meddylddrych o dori yn cael ei gadw i fyny, megys âg erfyn. Mewn ystyr ffugyrol y mae pob poen yn *finiog* os cysylltir âg ef y meddwl o dori.

**Awchus**—tanbaid, egnïol, llawn yni, gwresog. Mewn ystyr ffugyrol dywedir fod tymer ambell un yn *danbaid;* y mae'r meddwl yn *awchus* yn dilyn rhyw amcan. Dywedir fod sêl ambell un yn *danbaid* er dynodi anghymedroldeb y meddwl pan wedi ei dwymno gan grefydd neu wleidyddiaeth. Y mae *gwres* gyda chrefydd yn oddefadwy ac yn orchymynedig—" yn *wresog* yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd."

**Awdwr** (awd? Ll. *auctor)*—perydd, gwneuthurwr, dyfeisiwr, cyfansoddwr, ysgrifenydd.

**Awdurdod**—gallu, grym, dylanwad, gwarant. Mae y geiriau hyn i gyd yn golygu gallu, o dan wahanol amgylchiadau: y mae *dylanwad* yn gwbl ddigysylltiol âg unrhyw hawl i reoli; y mae *awdurdod* yn cynwys y meddylddrych o hawl o angenrheidrwydd. Y mae talent, safle mewn cymdeithas, neu eiddo, yn rhoddi *dylanwad.* Yn gyffredin gweithreda trwy berswadio a thrwy foddion tyner a deniadol, ond doethineb uwchraddol, oed, swyddogaeth a pherthynas sydd yn rhoddi *awdurdod.* Gwel Gallu.

**Awel** (aw-el)—chwa, chwyth, pwff. Dynoda y geiriau hyn raddau ysgogiad y gwynt. *Chwa* ydyw dystaw anadliad yr awyr, tra mae *awel* yn golygu symudiad cyflymach. *Pwff* ydyw *awel* yn codi yn ddisymwyth, ac yn gostegu yr un modd.

**Awen** (aw-en)—awenydd, dawn, dawn brydyddol, darfelydd, crebwyll, dychymyg, athrylith. Gweler o dan y geiriau hyny.

**Awgrym**—arwydd, amnaid, crybwylliad.

**Awl**—goleuad, llewyrchiad, gweddi, moliant.

**Awydd**—gwanc, awch, rhaib. Y mae *awydd* mewn dymuniadau meddyliol yr un peth a *gwanc* mewn anifeiliaid ; dymuniad am feddu yw *awydd*, ond mae *gwanc* yn awgrymu gweithio allan y dymuniad hwnw nes meddu, a hyny trwy drais os bydd raid. Delir ar gyfleusdra gydag *awyddfryd;* ond crafanga y cybydd aur gyda *gwanc.*

**Awyddus**—awchus, difrifol.

**Awyr** (aw-yr; Ll. *aer;* Gr. *aer)*—awyrgylch, y nwyfre, awel, chwa, gwynt, awyr, wybr. Gwel AWEL.

## B

**Bai**—diffyg, anaf.

**Bai**—cyfeiliornad.

**Balchder**—gwagogonedd, hunan-dyb. Y mae *balchder* yn air a fedda ystyr tra eang, ac nid yw y ddau eraill ond graddau o hono. Y mae *balchder* yn cael ei gymbwyso at bob gwrthddrych, mawr a bach, uchel ac isel, ac felly gall fod yn dda neu ddrwg; *gwagogonedd* sydd ddrwg gan na chynwysa, fel yr awgryma yr enw, ddim sylwedd. Y mae a wnelo *balchder* â phethau mawr mewn cydmariaeth i *wagogonedd*, a thra byddo yn ymorphwys ar wrthddrychau teilwng mae i'w gymeradwyo, gan ei fod yn un o ansoddau gwreiddiol dyn. *Hunan-dyb* ydyw gwaith dyn yn gorbrisio ei dalentau ei hun; y mae dyn yn *falch* o'r hyn sydd ganddo mewn gwirionedd, ond yn *hunandybus* o'r hyn nad yw ganddo o gwbl.

**Balchder**—trahausder, ucheldrem, bonedd.

**Bardd** (bar; Gr. *bard:* Ff. *barde;* Ll. *bardus)*—awenydd, prydydd, athronydd, athraw. *Prydydd* yw y radd isaf o *fardd*, ond yn uchraddol i'r rhigymydd: *bardd* yr ystyrir un wedi meistroli y cynghaneddion, wedi ei urddo yn rheolaidd, ac yn alluog i gyfansoddi yn y dosbarth uchaf o farddoniaeth. *Awenydd* sydd air cyffredinol am y sawl fyddo feddianol ar y ddawn farddol. Gynt yr oedd y beirdd, sef y Derwyddon, yn *athronwyr* ac *athrawon* y genedl.

**Barbaraidd.** Gwel CREULON.

**Bargen**—cytundeb, ammod, cyfammod. Y mae *cytundeb* yn cael ei wneyd yn gyffredin rhwng unigolion, ond gwneir *cyfammod* rhwng cyfundebau, ac yn gyhoeddus. Gwneir *bargen* mewn mater o fasnachaeth yn unig, ond yn ffugyrol cymhwysir ef at bethau eraill. Ymrwymiad difrifol ar y naill law, a ffydd yn y cyfryw ymrwymiad ar y llaw arall ydynt hanfodion *cyfammod.*

**Barnwr** (bar; Arm. *barn)*—beirniad, brawdwr, canolwr. *Barnwr* ydyw y gair cyffredinol am yr oll o'r swyddwyr hyn; ond mewn ystyr fanwl y *barnwr* sydd yn penderfynu yn mhob achos, pa un ai o ddadl ai peidio; efe sydd yn datgan beth sydd gyfraith yn bresenol, a beth fydd yn gyfraith am y dyfodol: nid yw y *canolwr* neu y cyflafareddwr ond *barnwr* mewn achosion neillduol o ddadl, ac yn gyffredin yn cael ei ddewis gan y ddwy-

blaid, ond mae *barnwr* yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd a'i awdurdod. Dewisir y *barnwr* o herwydd ei fedrusrwydd, a'r *canolwr* neu y cyflafareddwr o herwydd ei degwch a'i awydd i wneyd chwareu teg â'r ddwyblaid.

**Barn**—doethineb, craffder. *Barn* ydyw y gyneddf hono a alluoga ddyn i wahaniaethu rhwng iawn a cham yn gyffredinol: y mae *doethineb* a *chraffder* yn ateb yr un dyben mewn achosion neillduol. Mae *barn* yn derfynol; penderfyna trwy gasgliad pendant; galluoga ddyn i gael allan y gwir: y mae *craffder* yn darganfod yr hyn, yn ol pob tebyg, sydd iawn. Y mae *barn* yn gweithredu yn ol rheol sefydlog; ni chaniata yr un cwestiwn: y mae *doethineb* yn gweithredu yn ol amgylchiadau, ac yn rheol iddo ei hun. Y mae *barn* yn gofyn gwybodaeth a phrofiad; a *doethineb* yn gofyn ystyriaeth a meddwl. Y mae'r cadfridog yn defnyddio ei *farn* gyda golwg ar drefnu ei fyddin a dull yr ymosodiad; ond defnyddia ei *ddoethineb* yn newisiad ei swyddogion.

**Bawaidd**—brwnt, ffiaidd, gwael. Cymhwysiad moesol y geiriau hyn at gymeriadau dynion, yn eu hymwneyd y naill â'r llall, ydyw yr hyn a gyfansodda eu hystyr gyffredin. Beth bynag a wna dyn yn gyffredin â'r rhai islaw iddo sydd *wael* neu *isel*: dengys dymer sydd fwy chwanog i suddo nag i ymgodi yn ngraddfa cymdeithas. Y mae *bawaidd* yn golygu y cymeriad hwnw sydd yn ymdreiglo yn y llwch a'r llaid, ac megys yn ymhyfrydu mewn budrwaith. Y cymeriad mwyaf dirmygedig o'r rhai hyn yw yr un a ddynodir trwy y gair *ffiaidd*, a hyny mewn ystyr foesol a naturiol.

**Bedd**—(Arm. *bedd:* Heb. *beth)*—beddrod, claddfa, mynwent. Lle i ddodi cyrph a ddynodir gan y geiriau hyn. *Bedd* a gyfeiria at y pwll lle gosodir y corph yn y ddaear. *Beddrod* a gyfeiria at y defnydd y bwriedir y lle neillduol hwnw i fod, a *chladdfa a mynwent* at y tir yn gyffredinol lle cloddir y *beddau*.

**Beiddgar** (baidd)—trahaus, anturiaethus, hyf, rhyfygus. *Trahausdra* sydd weithred o eiddo y mawrion; *rhyfyg*, eiddo y bychain; cymer y blaenaf arno ei hun ei fod yn uwch na phawb, a chais yr olaf fod yn gydwastad â'i uchafiaid. Mae *trahausder* yn gyffredin yn gysylltiedig â balchder; a *rhyfyg* â baweidd-dra.

**Beirniad.** Gwel BARNWR.

**Beius**—tramgwyddus.

**Beli.** Gwel ANRHAITH.

**Bendith** (Ll. *Benedictio)*—rhâd, nawdd, gorllad, addwyniad.

**Benthyg** (ben-twg; Arm. *benthyg*, a *benefit)*—echwyn, benthyciad.

*Echwyn* ydyw y peth neu y swm a roddir, a *benthyg* y gelwir yr hyn a dderbynir; y naill yn golygu y rhoddwr a'r llall y derbynydd. •

**Benywaidd** (ben; C. *benen)*—merchetaidd. Yn y cymeriad o fenyw yr ydym yn disgwyl cael yr hyn sydd *fenywaidd*, neu yr hyn sydd naturiol i'r rhyw; ac o'r tu arall mae bod yn *ferchetaidd* yr un mor annaturiol i'r gwryw. Y mae osgedd a llais *menywaidd* y rhai ydynt ddymunol i'r sylwedydd yn y naill ryw, yr un mor anymunol yn y rhyw arall. Mewn ystyr feddyliol dyn *merchetaidd* yr ystyrir y sawl fyddo yn ddiffygiol mewn yni, nerth, a bywiogrwydd.

**Berth** (erth)—prydferth, hardd, teg, cain, addurnol. O'r holl eiriau hyn y rhai a ddynodant yr hyn sydd foddhaol i'r llygad, *prydferth* a gyflea yr ystyr gryfaf; dynoda feddiant i'r graddau eithaf, o'r hyn nad yw y geiriau eraill yn dynodi ond rhan yn unig. Wrth ei chymeryd yn ei chysylltiad â phersonau, y mae menyw yn *brydferth*, yr hon o ran gwedd a ffurf a fedda gydgyfarfyddiad o ragorion; y mae yn *hardd* pan fedda brydwedd da. Gwel Teg a Clws.

**Blaenoriaeth** (bal)—rhagoriaeth, uchafiaeth. *Blaenoriaeth*, fel yr awgryma'r gair a olyga fod yn gyntaf o ran trefn; *uchafiaeth*, bod uwchlaw o ran anrhydedd a gallu, a *rhagoriaeth*, bod felly o ran teilyngdod. *Blaenoriaeth* a gyfeiria at wrthddrychau mewn cyflwr o ysgogiad neu orphwys; dibyna *rhagoriaeth* ar deilyngdod, ac *uchafiaeth* ar allu, cyfoeth, neu amgylchiadau eraill. Nid yw yr awydd anghymodlawn am *flaenoriaeth* yn fynych yn ddim amgen na gwagogonedd, a tharddo urddas a gallu; ond y mae *rhagoriaeth* yn ganmoladwy, yn gymaint ag y gofyna am radd o deilyngdod moesol fyddo yn rhagori ar yr eiddo eraill—ymgeisia yr efrydydd *ragori* yn y ganghen a gymera i fyny.

**Blas.** Gwel Archwaeth.

**Blino** (bal?)—aflonyddu, anesmwytho. Pa gythrwfl bynag a gynyrchir yn y meddwl gan amgylchiadau allanol a wneir gan *flinder*, *aflonyddwch*, neu *anesmwythdra*. *Blinder* yw y mwyaf cyffredinol yn ei *gymhwysiad;* gallwn gael ein *blino* gan eisiau rhywbeth, neu ein *blino* gan rywbeth anghyfaddas; *aflonyddir* ac *anesmwythir* arnom yn unig gan yr hyn sydd yn ein *blino* yn wirioneddol. Y mae camymddygiad plant yn peri *blinder* i rïeni, ond eu gwaith yn gwneyd sŵn yn eu *haflonyddu;* ac mae cyflwr o ansicrwydd am eu diogelwch pan allan o'u golwg yn eu *hanesmwytho*.

**Blino**—diffygio, pallu. ffaelu. Y mae *ffaelu* yn golygu canlyniad gweithred neu ymdrech; *ffaela* dyn yn ei anturiaeth. Ar ol gwneyd llawer ymgais y mae dyn yn *diffygio* a'i nerth yn *pallu*. Y mae dyn yn *blino* wrth ddilyn yr un gorchwyl yn hir, ond os

yn meddu ar ddigon o nerth corphorol a phenderfyniad meddwl, nid yw yn *diffygio* nes cyrhaedd o hono yr amcan fyddo ganddo mewn golwg. " Yn gwneuthur daioni na *ddiffygiwn*."

**Blodeuo**—tycio, ffynu, llwyddo.

**Bloddest** (blawdd)—cymeradwyaeth, clodforedd, banllef. Golyga y geiriau hyn arddangosiad cyhoeddus; *cymeradwyaeth* trwy gyfrwng sŵn gyda'r traed neu'r dwylaw; *clodforedd* neu *fanllef* trwy gyfrwng y genau: defnyddir y blaenaf fel tystiolaeth o foddhad, a'r olaf fel mynegiad o barch. Mae yr hyn a wna dyn yn galw allan am *gymeradwyaeth*, ond derbynir y person ei hun yn gyffredin â *banllefau*. Derbynir areithiau poblogaidd ar yr esgynloriau â *chymeradwyaeth*, a'r areithwyr â *banllefau*.

**Bloeddio**—llefain, galw. Dull uchel o lefaru a olygir gan y geiriau hyn. Byddwn yn *llefain* gyda'r unig amcan o gael ein clywed o bellder; *bloeddiwn* mewn canlyniad i gynhyrfiad disymwth y meddwl. Awgryma *llefain* galedi neu drallod; *bloedd* a amlyga syndod, gofid, neu lawenydd. Y mae *llefain* yn uwch a mwy cyffrous na *galw*. Y mae dyn mewn perygl o foddi yn *llefain* am gymhorth; y sawl fo eisiau codi llwyth a *eilw* am gymhorth; y mae *llefain* yn gyfarchiad cyffredinol neu anuniongyrchol; y mae *galwad* yn gyfarchiad neillduol ac uniongyrchol. *Llefwn* ar bawb neu rywun a all fod yn ein cyrhaedd; *galwn* ar ddyn wrth ei enw gyda chyfeiriad ato ef ei hun.

**Blysio** (bal-ys)—ewyllysio, dymuno, hiraethu, chwenych. Y mae *ewyllysio* yn hawlio boddhad; y mae *dymuno* yn llai pendant, nid amgen na thuedd gref; *hiraethu* sydd fath o ddymuniad diamynedd a maith; *chwenych* sydd *ddymuniad* am yr hyn a berthyn i arall, neu yr hyn fo yn ei allu i'w ganiatau; yr ydym yn *ewyllysio* neu *hiraethu* am yr hyn sydd wrth law, neu yn y golwg; yr ydym yn *dymuno* ac yn *chwenych* yr hyn sydd bellach neu fwy aneglur: y mae dyn anfoddgar yn *ewyllysio* cael mwy nag a fedd: y sawl fo mewn gwlad *ddieithr* a *hiraetha* am ei gartref, a'r uchelgeisiol a *chwenych* anrhydedd.

**Bod** (bo-od)—dyfod, tyfu. Perthynasol ydyw *dyfod;* y *mae* person yr hyn ydyw ar wahan i'r hyn *ydoedd; daw* yr hyn *nad oedd* o'r blaen. Barnwn ddyn oddiwrth yr hyn *ydyw*, ond nis gallwn ei farnu oddiwrth yr hyn a fydd iddo *ddyfod:* yn awr y *mae* yn anfoesol, ond gydag argyhoeddiad gall *ddyfod* yn fuan yn amgen. Nid yw *dyfod* yn awgrymu dim parth y modd a'r amgylchiad o *ddyfod:* y mae *tyfu* yn golygu dyfod yn raddol: gall dyn *ddyfod* yn ddyn da mewn canlyniad i gyfnewidiad meddwl; ond *tyf* mewn doethineb a rhinwedd trwy gynyddu mewn gwybodaeth a phrofiad.

**Bod**—hanfodi, byw. *Bodolaeth* sydd briodoledd pob peth yn y greadigaeth; *bywyd*, yr hwn sydd allu anwahanedig ysgogiad.

sydd briodoledd neillduol wedi ei chyfranu gan y Bôd Mawr i rai rhanau yn unig o'r greadigaeth : *bodoli*, gan hyny, ydyw y gair cyffredinol, a *byw* yr un neillduol : beth bynag sydd yn *byw* sydd yn *bodoli* yn ol dull neillduol ; ond mae llawer o bethau yn *bodoli* heb *fyw*. Pan y dymunwn sôn am bethau yn eu perthynas cyfansawdd, dywedwn eu bod yn *hanfodi*, ond pan y dymunwn nodweddu ffurf y *fodolaeth*, dywedwn eu bod yn *byw*.

**Boddio**—boddhau, boddloni. *Boddloni* ydyw cynyrchu pleser yn anuniongyrchol, a *boddhau* ydyw gwneyd hyny yn uniongyrchol : mae y blaenaf yn bleser negyddol, a'r olaf yn bleser gosodedigol. Nid yw yr hyn a *foddlona* bob amser yn *boddhau*, na'r hyn sydd yn *boddhau* yn *boddloni* yn wastad. Y mae ymborth gwael yn *boddloni* dyn newynog, ond nid yw yn ei *foddhau* pan na byddo yn newynog ; y mae mwynderau cymdeithasol yn *boddhau*, ond maent yn mhell o *foddloni* y sawl na ofalant am gymedroli y defnydd o honynt.

**Bonedd** (bon) : gwel Ach—boneddigaidd, moesgar. Y mae a fyno *boneddigeiddrwydd* yn benaf â natur, a *moesgarwch* â dysg ac arferiad ; peth yn tyfu o hono ei hun i raddau yw y blaenaf, ond peth i'w ddysgu yn unol â rheolau cymdeithas yw yr olaf. Cyneddf berthynol i'r corph a'r deall ydyw *boneddigeiddrwydd*, ond â'r corph yn unig y mae a wnelo *moesgarwch*. Mae boneddigeiddrwydd gweithredu neu feddwl yn cynwys pob rhagoriaeth moesol—" Y rhai hyn oeddynt *foneddigeiddiach*," &c.

**Brac** (bar ; Gr. *bruch*)—ffri, rhydd, gwastraffus, afradus. Y meddylddrych a osodir allan yma ydyw defnyddio yn anghymedrol, ond *gwastraffus* ydyw y mwyaf cyffredinol ac eang ei gymhwysiad. Gwaria y *gwastraffus* ei arian yn ddireol ; yr *afradus* a'i gwaria yn anghymedrol : trosedda y naill yn erbyn synwyr cyffredin, a throsedda y llall y ddeddf foesol ; andwya y *gwastraffus* ei hun trwy ei ffoledd, a'r *afradus* trwy ei ddrygioni. Gall dyn fod yn *wastraffus* ar ychydig, ond nid yn *afradus* heb lawer o eiddo. Golyga *brac* hefyd *rhydd, agored, a digêl.*

**Bradwrus** (bar ; Arm. *barad*, toriad ymaith)—anheyrngarol. Mae y geiriau hyn oll yn cyfeirio at un a fradycha ei ymddiriedaeth ; ond cyfeiria *bradwrus* at gysylltiadau angyhoedd dyn, ac *anheyrngarol* at ei gysylltiadau â'i dywysog a'i wlad ; cyfaill *bradwrus*, a deiliaid *anheyrngarol*. Gallwn fod yn *fradwrus* i'n gelynion yn gystal ag i'n cyfeillion, canys nis gall dim leihau rhwymedigaethau addewid.

**Braf** (Gr. *brav ;* E. *brave*). Gwel Ardderchog.

**Braint** (brai)—rhagorfraint, mantais, breiniolaeth, nawdd, urddduniant.

**Braisg** (bar-aisg)—praff, tew, mawr, brâs. *Praff* neu *fraisg* sydd

gyferbyniol i *fain*, o ran amgylchedd; a *brâs* yn gyferbyniol i *fain* o ran arwynebedd—llïan *brâs*, neu *fain*.

**Bras.** Gwel BRAISG.

**Brau** (bar)—bregus, breuol, crîn. *Bregus* a olyga sylweddau yn tori neu adfeilio trwy anrheithiad a threigliad amser; *brau*, yr hyn na oddef ei drin a'i drafod yn arw, megys ei daro gyda nerth—gwydr, er esiampl. *Crîn* a olyga adfeiliad graddol a chynyddol—pren a dail yn *crino*.

**Braw.** Gwel ARSWYD.

**Brawd.** Gwel BARNWR.

**Brawddeg** (brawdd)—ymadrodd, broddeg, gwers, synwyreb.

**Bre** (bar)—mynydd, bryn, twyn, boncyn, copa. *Bryn* ydyw *mynydd* ar raddeg fechan. Cyfyngir yr enw *bryn* yn gyffredin i drumiau o dan fil o droedfeddi uwchlaw arwyneb y môr. Gwel COPA.

**Bregedd.** Gwel BREGUS.

**Brenin** (bre-enin)—penadur, tywysog, pen gwledig, rhi, peryf, uchdeyrn, penaeth.

**Breuddwyd**—gweledigaeth. Yn y dychymyg y ca'r naill a'r llall o'r rhai hyn eu bodolaeth: cymer *breuddwyd* le mewn cwsg, a *gweledigaeth* pan yn effro: mewn *breuddwyd* mae y dychymyg yn gyffredin mewn cyflwr iach, ond mewn *gweledigaeth* y mae wedi ei gynhyrfu: daw *breuddwyd* yn nghwrs cyffredin natur, ond *gweledigaeth* mewn dull anghyffredin. Defnyddir y gair *breuddwydio* hefyd mewn ystyr foesol, megys fod dyn yn *breuddwydio* am ddyrchafiad, &c.

**Bri** (bar?). Gwel ANRHYDEDD.

**Brig.** Gwel BRE.

**Bro**—goror, gwlad, ardal, iselder, dyffryn. *Bro* sydd wrthgyferbyniol i *fryn*.

**Brodor** (brawd)—cydymaith, priodor, ciwdodwr.

**Brud** (bar)—croniel, hanes, dyfaliad, tyb. Y mae y geiriau hyn oll yn cyfleu y meddylddrych o rywbeth yn y meddwl yn annibynol ar y gwirioneddol. Y mae *dyfaliad* wedi ei sylfaenu yn llai ar gasgliad rhesymol na *thyb*. Gall unrhyw amgylchiad, gan nad pa mor ddistadl y byddo, roddi sail i *ddyfaliad;* y mae yn rhaid cael rhyw fath o resymau er cynyrchu *tyb*.

**Brwd**—(ba-rhwd)—twym, poeth, gwresog, cynhes, claiar. Mae y geiriau hyn yn golygu naill ai presenoldeb *gwres*, neu yr achos o hono. Mewn ystyr ffugyrol dywedir fod tymer dyn yn *boeth*, ac fod ysbryd dyn yn *wresog*—"yn *wresog* yn yr ysbryd." *Claiar* a olyga raddau bychan o wres, a *chynhes* ychydig fwy.

**Brwydr**—ymdrech, ymladdfa, câd, rhyfel, aer. Gweithred gyffredinol yn gofyn rhyw gymaint o barotoad yw *brwydr; ymdrech* sydd rywbeth neillduol, ac weithiau yn annisgwyliadwy. Y mae *brwydrau* weithiau yn cael eu penderfynu trwy *ymdrech* neillduol rhai swyddogion. Yn nghyflafan Brad y Cyllill Hirion dywedir i Eidiol Gadarn ladd tri chant o'r Saeson â'i law ei hun. Y mae a wnelo *ymdrech* fwy â'r weithred o ymladd na *brwydr*, yr hwn gyda mwy o briodoldeb a gyfyngir i'r gwaith ei hun. Ymleddir *brwydrau* rhwng byddinoedd yn unig: cymer *ymdrechfa* le rhwng unigolion perthynol i'r rhywogaeth ddynol neu anifeilaidd.

**Bryd** (by-rhyd)—meddwl, syniad, bwriad, amcan, penderfyniad, cynhyrfiad.

**Bryn** (bar; *Arm. bern*). Gwel BRE.

**Brysio** (ba-rhys)—prysuro, cyflymu, ffwdanu. Y mae *brysio a chyflymu* yn golygu symud yn mlaen yn ddiymaros gydag unrhyw orchwyl: y cyntaf yn datgan dim mwy na symudiad cyffredinol at ryw nôd—*brysia* dyn i gyrhaedd pen y daith, ond *cyflyma* ar ryw adeg neu le neillduol, megys pan bron ar ben ei daith neu yn ngolwg ei gartref. Y mae *ffwdanu* yn golygu symud yn mlaen heb drefn, ystyriaeth, na chynllun. Y mae yn anhebgorol weithiau i *frysio* gyda gorchwylion dynol; ond y mae *ffwdanu* yn groes i symudiad mesuredig a gochelgar: niweidiol ac anoeth yw *ffwdanu;* gall dyn *frysio*—plant a phobl ddifeddwl fydd yn *ffwdanu*.

**Buan**—cyflym, esgud, chwimmwth, chwai. Y mae *buan* a *chyflym* yn cyfeirio at symudiadau, gyda golwg ar le neu amser; ond *chwimmwth* a gyfeiria at hydwythedd yr aelodau, megys pan y dywedir fod y wiwer yn *chwimmwth*.

**Buchedd**—ymarweddiad, ymddygiad. Y mae *ymddygiad* yn ymwneyd â gweithrediadau corphorol neu feddyliol dyn yn ei gysylltiad âg eraill mewn pethau bydol neu foesol; *ymarweddiad* yn ymwneyd â chymeriad moesol dyn.

**Budr**—aflan, bawaidd, atgas, brwnt, ffiaidd. Y meddylddrych o fudreddi yw yr un cyffredin i'r oll o'r termau hyn, ond mewn gwahanol raddau. Y mae *aflan* yn waeth na *budr, bawaidd* a *ffiaidd* yn waeth na'r ddau, ac *atgas* yn golygu y gradd hwnw o fudredd fel ag i greu gwrthwynebiad a chasineb tuag ato yn yr edrychydd. Mewn ystyr foesol y mae *aflan* yn wrthgyferbyniol i sanctaidd a phur.

**Budd**. Gwel ELW.

**Buddugoliaethu**—gorchfygu. Y mae *gorchfygu* yn golygu bob amser ychwanegiad at diriogaethau neu feddianau, ond nid yw y *buddugoliaethwr* yn enill dim ond uchafiaeth: nid oes *gorch-*

*fygiad* oddieithr fod rhywbeth i'w gael; nid oes fuddugoliaeth lle na byddo ymdrechfa: nid yw pob *gorchfygwr* yn *fuddugwr*, na phob *buddugwr* yn *orchfygwr*. Cymeryd meddiant o dir trwy rym arfau sydd *orchfygiad;* ond y rhai a ragorent mewn prawf o'u gallu sydd *fuddugwyr*.

**Bun.** Gwel BENYW.

**Burgyn**—corph marw, celain, ysgerbwd, llurgyn. Defnyddir *corph* a *chelain* am ddynion ac anifeiliaid, ac *ysgerbwd* am anifeiliaid yn unig, er y defnyddir y gair olaf weithiau mewn ffordd o wawd, weithiau am gorph dyn. Golyga *celain*, fe ddichon, fod yr anadl wedi hen fyned allan o'r corph, ac *ysgerbwd* ei fod mewn cyflwr pell o lygredigaeth. *Burgyn* ydyw corph anifail wedi marw o ddamwain, ac mewn ffordd o sarhad cymhwysir ef at ddyn er datgan atgasrwydd a *ffieidd-dod* o hono.

**Bwgwth** (bw-gwth), dychrynu,brawychu, dondio, dwrdio, bygylu, ceryddu. Y meddylddrych a osodir allan gan yr holl dermau hyn ydyw ceisio atal dyn rhag cyflawni yr hyn sydd feius. *Dwrdio* a *dondio* sydd ffurf dyner o geryddu heb awgrymu cosb am anufuddhau, ond mae *bwgwth* yn awgrymu cosb neu ddirwy am droseddu, ac mae *dychrynu* yn gosod y gosb fel ar ddisgyn yn ddioed ar ol cyflawniad y weithred, tra mae *bwgwth* yn awgrymu cosb am *ail* droseddu.

**Bwhwman**—anwadalu, gwamalu, amheu. Gwel ANWADAL.

**Bwlch**—agen, adwy, toriad, rhwyg, breg, hac. Mae y meddwl o agoriad yn gyffredin i'r termau hyn, ond gwahaniaethant gyda golwg ar natur yr agoriad. Y mae *adwy*, *toriad*, a *rhwyg*, yn ganlyniad symudiad treisiol, ac yn doriad ar y cysylltiad. Y mae *agoriad* ac *agen* yn golygu mwy nag *adwy* neu *fwlch*.

**Bwriad.** Gwel BRYD.

**Bwriad**—cynllun, dyfais, arfaeth, amcan. *Bwriad* yw yr hyn yr amcenir ei ddwyn oddiamgylch; y *cynllun* yw y dull yr amcenir gwneyd hyny. Y mae yr *amcan* i'w brisio yn ol ei werth cynhenid; y mae'r *cynllun* i'w brisio yn ol ei werth cydmariaethol, neu gyfaddasrwydd i'r *amcan*. Gwel DYFAIS.

**Bwriad**—pwrpas, arfaeth, meddwl, amcan. Y mae *bwriad* a *phwrpas* yn golygu mwy na *meddwl*. Y mae *bwriad* yn cynwys lluaws o wrthddrychau; *pwrpas*, un yn unig: y mae *bwriad* yn golygu rhagfeddwl a threfn a myfyrdod; *pwrpas* sydd yn golygu rhywbeth sefydlog, yn gofyn penderfyniad. Y mae *bwriad* yn gyrhaeddadwy; *pwrpas* yn sefydlog. Y mae dynion anwadal yn *bwriadu* llawer; y sawl a fyno gyrhaedd ei *amcan* ni ddylai wrando ar ormod o gynghorwyr. Y mae *pwrpas* a *bwriad* yn gwahaniaethu gyda golwg ar natur a gwaith y gwrthddrych;

byddwn yn *pwrpasu* yn ddifrifol; yn *bwriadu* yn benagored: byddwn yn dechreu ar yr hyn a *bwrpaswn*, ond yn oedi yr hyn a *fwriadwn:* dibyna y *pwrpas* ar y dyn ei hun; y *bwriad* ar amgylchiadau.

**Bwrw** (by-wr)—taflu, ergydio, lluchio, hyrddio. *Bwrw* a gyflea y syniad o adael o'r neilldu, neu ymwrthod âg unrhyw beth; *taflu, lluchio*, a *hyrddio*, a ddynodant yn fwyaf neillduol ddull y weithred. Nid oes lawer o ymdrech yn angenrheidiol i *fwrw*, gan na olyga yn gyffredin ddim rhagor na gadael i rywbeth ddisgyn—"*bwrw* dy fara ar wyneb y dyfroedd;" *taflu* yn aml a olyga *fwrw* gydag ymdrech neu drais, megys *taflu* careg. Mae anifeiliaid yn *bwrw* eu rhai bach: y mae y ceffyl yn *taflu* ei farchog. Math o *daflu* trwy orthrech ydyw *hyrddio*, mewn canlyniad i waith un yn cael ei gythruddo; ac mae yr *hyrddiwr*, yr hyn a *hyrddir*, a'r weithred o *hyrddio*, yn cyfateb mewn mawredd. *Hyrddir* teyrn galluog oddiar ei sêdd gan ryw allu mwy nag ef ei hun: desgrifir yr angelion drwg gan Milton yn cael eu *hyrddio* o'r nefoedd gan air yr Anfeidrol.

**Bwyd**—ymborth, lluniaeth, arlwy, porthiant. *Bwyd, ymborth, lluniaeth*, ydynt eiriau cyffredinol am yr hyn sydd angenrheidiol i gynhal bywyd, a chymhwysir hwy at ddynion ac anifeiliaid, tra cyfyngir *porthiant* at yr anifeiliaid. *Arlwy* ydyw y bwyd wedi ei barotoi fel yr awgryma y gair.

**Bwyst** (*gwyst ?)*—gwyllt, ffyrnig, creulon, milain. *Ffyrnigrwydd* a ddynoda natur heb ei dofi, a chymhwysir y gair at greaduriaid rheibus er gosod allan eu tymerau naturiol. *Creulon* a ddynoda y duedd naturiol mewn dyn, a'r hon oddieithr ei gorchfygu gan egwyddor well a amlyga ei hun mewn dymuniad am beri poen i eraill. Cymhwysir y gair *ffyrnig* hefyd at ddyn—dywedir fod gwynebpryd ambell un yn *ffyrnig* yr olwg, megys ysbeilydd a dreulia ei oes mewn tywallt gwaed a chreulonderau.

**Bwystfil** (bwyst-mil)—gwylltfil, ysglyfil. Gwel Anifail.

**Bychan**—bach, disum, mân. Y mae *bychan* yn wrthgyferbyniol i'r mawr, a *mân* i'r brâs. Perthyna *bychan* i bersonau a phethau, a *mân* pan y cymerir rhif i ystyriaeth.

**Bydol**—bydgar, oesol, lleygol, tymorol. *Bydol* sydd wrthwynebol i eglwysig; *oesol* neu *tymorol* i bethau ysbrydol neu dragwyddol; Addysg *fydol* i'w gwahaniaethu oddiwrth addysg grefyddol. Dyn *bydgar*, fel yr awgryma y gair, ydyw dyn â'i fryd a'i serch ar bethau y ddaear, er y defnyddir y gair *bydol* hefyd i olygu yr un peth.

**Byddin**—byddagl, cynllwyndorf, cadlu, llu, ysbeidorf. Mae *byddin* yn gorph penodol o filwyr; gall *llu* fod yn rhif amhenodol, ac felly ystyrir ef yn gyffredin yn dra niferus. Cymhwysir y gair

*byddin* yn unig i'r hyn a ffurfir yn ol rheolau celfyddyd er dwyn yn mlaen ryfel ; ond defnyddir *llu* am unrhyw gorph o ddynion neu angylion a gesglir yn nghyd er gwneyd ymosodiad. Y mae *ysbeidorf* a *chynllwyndorf* yn esbonio eu hunain.

**Byl** (by-yl ?)—ymyl, min. Y mae yr *ymyl* yn gorwedd rhywfaint o bellder oddiwrth y *min ;* y *min* ydyw terfyn allanol arwynebedd unrhyw sylwedd. Beth bynag sydd ddigon llydan i ganiatau lle oddeutu ei gylchfesur a all gael *ymyl ;* beth bynag a derfyna yn fain a fedd *fin*. Gall rhai pethau feddu *ymyl* a *min*, megys carpet, &c., eraill *ymyl* heb *fin*, megys tir; a phethau eraill *fin* ond nid *ymyl*, megys cyllell.

**Byr**—cwta, cryno, talfyr, bychan, swta. Pob peth yn meddu ar fesuriad sydd *fyr* neu *hir*, yn naturiol neu gelfyddydol. Sonir am *fyrder* llythyr ac araeth, a dywedir eu bod yn *gryno* os wedi eu casglu i ychydig le, ac os torir hwy i fyny yn sydyn neu yn ddirybudd, dywedir i hyny gael ei wneyd yn *swta*.

**Byrbwyll**—difeddwl, ehud, chwidr, gwamal.

**Byth** (pyth)—yn wastad, bob amser, yn dragywydd, yn oes oesoedd. Rhaid i ddyn yn *wastad* fod yn rhinweddol, sef mewn adfyd a llwyddiant; a *phob amser* felly, sef yn ei fynediad a'i ddyfodiad—ddydd a nos, ac yna bydd yn ddedwydd yn *oes oesoedd*.

**Byw**. Gwel Bod.

**Bywiog**—heinif, gwisgi, hydwyth. Y mae a wnelo *bywiogrwydd* â gwaith dyn ; bod yn *heinif* a *gwisgi* â'i ddifyrion a'i gampau. Y mae dynion yn *fywiog* â'u gorchwylion, a phlant yn *heinif* yn eu chwareuon ; mae rhai creaduriaid yn *hydwyth* eu symudiadau.

## C

**Cab, Caban** (Gr. *caban ;* Ffr. *cabane)*—cell, bwth, lluestty, cotty. Gwahanol enwau ar breswylfeydd dynion yw y rhai hyn, ac yn dynodi graddau gwareiddiad y sawl a wnaut ddefnydd o honynt. Y mwyaf hynafol yn ddiameu ydyw y *lluest* neu y babell at yr hon y cyfeirir yn fynych yn y Beibl. Y mae *cell* yn golygu ystafell a ffurfia ran o adeilad neu waith natur, ac yn gauedig. *Bwthyn* neu *cotty* ydyw tŷ bychan a diaddurn.

**Cablu** (ca-pyl ?)—difenwi, athrodi, goganu, enllibio, absenu, melldithio. Gwel Athrod.

**Caboli** (ca-pwl? Ll. *polio*=llathru) — gloywi, llyfnhau, llathru. Gwel Gloyw.

**Cad**. Gwel Brwydr.

**Cadach**—clwt, neisiad, napcyn, ffunen, brat, llarp.

**Cadair** (cad-gair ?)—sêdd, gorsedd, teyrngadair, eisteddfa, cludsedd.

**Cadarn** (cad)—cryf, grymus, nerthol, durfing.

**Cadarnhau**—cryfhau, nerthu, grymuso.

**Cadnaw**—llwynog, madyn, gwyddgi, llostog.

**Cadw**—dal, cynal, achub, gwared, gwarchod. Gweithred anianyddol ydyw *dal*, ac yn gofyn rhyw gymaint o nerth corphorol: *cadw* ydyw fod i un *ddal* meddiant wrth ei bleser. Dull y weithred a olygir gan *dal*, a pharhad y weithred yw *cadw:* gallwn *ddal* pe ond am funyd; ond yr hyn a *gadwn* a *gadwn* am amser. O'r tu arall gallwn *gadw* peth trwy ei *ddal*, a gallwn *ddal* heb *gadw*, a *chadw* heb *ddal*. Y mae *gwarchod* yn golygu *cadw* gyda gofal a gwyliadwriaeth pan fo perygl yn bygwyth; ac yr ydym yn *achub* y foment y byddo'r perygl yn ymyl, a hyny trwy foddion anghyffredin. Y mae'r bugail yn *cadw* ei braidd trwy eu gwylio; y mae plant yn cael eu diogelu yn nghanol peryglon, ac *achubir* pethau yn y tân.

**Cadwyn** (cadw)—cadwen, tid, rhwymyn, llyffethair, cyfres, três, gefyn. Y mae *cadwyn*, yr hwn sydd air penagored, wedi ei gwneyd yn gyffredin o ddolenau heiyrn o wahanol faint a ffurf: *gefynau* ydynt fwy, ac yn gyfansoddedig o amryw *gadwyni: rhwymyn* yw rhywbeth i gaethiwo y corph neu yr aelodau: *llyffethair* a roddir am y traed, a *gefynau* ar unrhyw aelod. Mewn ystyr ffugyrol sonir am *gadwen* o ddigwyddiadau, ac am *rwymyn* sidanaidd cariad, &c.

**Caddug** (ca-dug)—tarth, niwl, nudd, ysmwcan, tawch.

**Cae**—maes, amgae, cadlas, clawdd, gwrych, gwarchauad, addurndorch, torch gwddf.

**Caead, Ceuad**—clawr, llen, gorchudd, gwerchyr.

**Cael**—caffael, meddu, darganfod, cyrhaedd, canfod. *Cael* yw y gair mwyaf eang ei gymhwysiad o'r rhai hyn, oblegyd gellir ei ddodi yn lle bron bob un o'r lleill; trwy *gael* yr ydym yn dyfod i *feddu* a *chyrhaedd.*

**Caer**—mûr dinas, magwyr, parwyd, gwarchglawdd, diffynglawdd, tref gaerog.

**Caes**—clawr, amlen, caen, amgloer, gwain, blwch, côd.

**Caeth**—caethwas, caethddyn, cystog, gŵr caeth, aillt, adwr. *Caethwas* yw yr un a lyffetheirir o ran corph a meddwl; ond nid yw y sawl a gedwir yn *gaeth* ond yn unig felly o ran ei gorph.

**Caffael.** Gwel Cael.

**Cail**—corlan, lloc, defeitty, ffald, buarth.

**Cais** (cy-ais; Arm. *cais;* Ll. *guceso)*—ymgais, egni, cynyg, ymdrech,

antur. Y meddylddrych o ymgymeryd âg unrhyw orchwyl gyda'r amcan o'i gyrhaedd a geir yn y geiriau hyn. Ni lwyddir gyda dim heb wneyd *cais* neu *gynyg*, ond y mae *antur* yn gofyn rhyw gymaint o aberth, penderfyniad, a dyfal-barhad. *Ymgais* yn cael ei pharhau ydyw *ymdrech*. Gwna rhai *ymgais* at ysgrifenu llyfrau, gan *ymdrechu* enill bywioliaeth trwy hyny. Galw allan yr holl *egnïon* ydyw *ymgais*.

**Caled**—durfing, dwys, crâs, gerwin, anhyner, egr.

**Caledi**—gwasgfa, drygfyd, aflwydd.

**Caledi**—cŵyn. Gwneir *cŵyn* pan y byddo arall yn peri poen neu flinder; *caledi* ydyw yr hyn fydd yn pwyso neu yn gwasgu ar unigolion. Ceir *cwynion* cenedlaethol, ond nid *caledi* cenedlaethol. Y mae trethi trymion i gynal llywodraeth afradus yn beth i'w *gwyno* o'i blegid; y mae i ddyn tlawd dalu mwy na'i gyfran yn *galedi* a chreulondeb. Ceisia dynion ymwared a'u *cwynion* trwy gynorthwy gallu uwch na'r un a'u hachosa; dioddefant *galedi* nes daw amser cyfaddas i'w symud.

**Calon.** Gwel DEWRDER.

**Calonog**—cynhes, diffuant, gwresog. Y mae *calonog* a *gwresog* yn amlygiad cryfach o deimlad na *diffuant*. Dylem fod a'n holl *galon* pan yn ymwneyd âg achos crefydd a rhinwedd; dylem fod yn *gynhes* ein serchiadau tuag at ein cyfeillion a'n perthynasau; ar bob amgylchiad dylem fod yn *ddiffuant* yn ein geiriau a'n teimladau.

**Calonog**—diofn, dibryder.

**Calonog**—iachus, bywiog.

**Call** (all, gall? Ll. *callidus*)—doeth, synwyrol, ffel, deallus, gochelgar. Dywedir am ddyn ei fod yn *gall*, neu yn *ddoeth*, neu yn *synwyrol*, ac maent oll yn datgan y graddau o wybodaeth â'i galluoga i gasglu gwybodaeth neu i ganfod gwirionedd. Ystyrir dyn yn *ddoeth*; ac anifail yn *ffel*.

**Callineb**—barn, doethineb. Dynoda y geiriau hyn wahanol foddau doethineb ymarferol fel y rheola ymddygiad dynion. *Barn* a alluoga ddyn i wahaniaethu rhwng da a drwg yn gyffredinol. Gwasanaetha *callineb* a *doethineb* mewn amgylchiadau neillduol. Y mae *barn* yn derfynol; mae *callineb* yn canfod ond odid yr hyn sydd iawn megys ar antur. Y mae *barn* yn gofyn gwybodaeth a phrofiad, a *doethineb* yn gofyn myfyrdod ac ystyriaeth. Gwel BARN.

**Can.** Gwel GLOYW.

**Cân**—cerdd, dyrif, cathl, emyn. Golyga *cân* unrhyw ddernyn o farddoniaeth ar fesur canadwy; ond nid yw pob *cerdd* o angen-

rheidrwydd i'w chanu—megys arwrgerdd, rhiangerdd, &c., ac felly mae pob *cân* yn *gerdd*, ond nid yw pob *cerdd* yn *gân*. Gwel Emyn.

**Canfod**—gweled, syniad, dirnad. *Gweled* sydd air penagored—gweithred wirfoddol neu orfodol; *canfod* sydd weithred wirfoddol. *Gwel* y llygad pan fo'r meddwl yn absenol; *cenfydd* y meddwl a'r llygad mewn cysylltiad a'u gilydd; ac felly dywedir fod un yn *gweled* ond heb *ganfod*. *Gwelwn* beth heb wybod beth ydyw; *canfyddwn* beth, a gwyddwn beth ydyw, ond mae yr argraph yn myned ymaith. *Gwelwn* seren pan gyfeirir y llygad ati; ond *canfyddwn* hi yn symud os edrychwn arni yn fanwl. Cydgyfarfyddiad o feddylddrychau trwy yr hyn y cyfleir unrhyw ddarlun i'r meddwl ydyw *dirnadaeth;* a chyfuniad o ddau neu dri o feddylddrychau fel ag i gyfansoddi barn, ydyw *syniad*, ac mae cywirdeb neu anghywirdeb *syniadau* yn dibynu ar helaethrwydd gwybodaeth dyn.

**Canhebrwng** (can-hebrwng). Gwel Angladd.

**Caniatau**—gadael, goddef. Byddwn yn *caniatau* yr hyn y proffeswn anwybodaeth o hono, neu nas gallwn ei wrthwynebu; *gadawn* yr hyn a wyddom ac y cydsyniwn iddo; *goddefwn* yr hyn a anghymeradwywn, ond na thybiwn yn addas ei rwystro.

**Caniatau**—rhoddi. *Rhoddi* ydyw cyfranu i arall yr hyn sydd genym ein hunain, neu yr hyn y bo genym allu i'w roddi; *caniatau* ydyw rhoddi yn ol ein pleser; *rhoddir* unrhyw beth pa bynag, *caniateir* rhywbeth a bâr gysur neu gyfleusdra. *Rhoddir* weithiau heb fod cais yn cael ei wneyd; *caniateir* mewn atebiad i ddymuniad am dano. Wrth *roddi* yr ydys yn fynych yn disgwyl atdaliad; *caniatawn* yn wirfoddol heb ragolwg am dâl. *Rhoddir* yr hyn ellir yn hawdd ei drosglwyddo o'r naill i'r llall; ond yr hyn a *ganiateir* sydd yn nwylaw yr ychydig.

**Canlyn**—olynu, dilyn. *Dilyn* a olyga fyned mewn trefn; *olynu* a ddynoda fyned neu fod yn yr un lle yn union ar ol arall; gall llawer *ddilyn* eu gilydd, ond un yn unig all *olynu*. *Dilynir* mewn ystyr anianyddol; *olynir* mewn ystyr foesol pan y cymer un swydd arall; *dilyn* y naill y llall i'r bedd; *olyna* y naill frenhin y llall ar yr orsedd. *Canlyn* a olyga *ddilyniad* agosach, sef, *glynu* wrth neu gydgerdded â gwrthddrych arall.

**Canlyn**—erlyn. Y meddylddrych a osodir allan yma ydyw ceisio myned ar ol gwrthddrych, ond o dan amgylchiadau gwahanol. *Canlyna* ddyn un arall ar hyd y ffordd yn gyfeillgar, ond *erlyna* ef gyda bwriad gwahanol. Dilyna y dynion y cŵn a'r helfa; *erlyna* y cŵn y llwynog. Mae dyn yn *dilyn* ei dueddiadau, ac yn *erlyn* ar ol rhyw wrthddrych.

**Canmol** — cymeradwyo, clodfori. *Canmol* yw y dull mwyaf cyffredin i ddangos ein hedmygedd a'n parch—gall fod yn uchel neu isel, ond yn fwyaf cyffredin nid yw yn dynodi gradd uchel. Byddwn yn *cymeradwyo* dyn am weithred neillduol; *clodfori* sydd ddull defosiynol o *ganmol*. Canmol sydd weithred o eiddo pob dosbarth; *cymeradwyo* sydd waith yr uchradd; *clodfori* sydd waith yr îsradd. Byddwn yn *canmol* Duw am ei ddaioni rhagluniaethol, ond yn ei *glodfori* am ei gariad a'i ras.

**Canmoladwy**—hyglod, teilwng. Mae yr hyn sydd *ganmoladwy* yn *deilwng* o gymeradwyaeth. Uchelgais *canmoladwy* yw ceisio rhagori yn yr hyn fyddo dda; peth *cymeradwy* i'r tlawd ydyw elusen, ac mae yn *deilwng* o honi os yn onest ac yn anghenus.

**Canu** (C. *kana;* Ir. *canaim;* Ll. *cano, cantum*)—pyncio, telori, pêrleisio.

**Cardota**—gofyn elusen.

**Caredig**—graslawn, trugarog. Dangosir daioni neu ras i wrthddrych a haedda yn wahanol; dangosir *trugaredd* trwy rwystro y drwg a haedda ddisgyn ar ei ben. Y mae Duw yn *raslawn* a *thrugarog*. Gwahaniaetha *graslawn* oddiwrth *caredig*, yn gymaint ag mae a wnelo y blaenaf âg uchafiaid, tra mae yr olaf yn gymhwysiadol at bawb. Gall y naill ddyn fod yn *garedig* i'w gilydd, ond y mae bod yn *raslawn* yn golygu ymostwng o safle uchel i un îs ar y pryd.

**Cariad**—serch. Arddangosiad o deimladau da rhwng dynion â'u gilydd a ddatgenir yn y geiriau hyn. *Cariad* sydd deimlad tyner yn nghyd â mawr hiraeth am y gwrthddrych; *serch* sydd deimlad cyffelyb a hoffa feddwl am y gwrthddrych. Nis gall fod *cariad* heb *serch*, ond gall fod *serch* heb *gariad*. Mae *cariad* yn dra chryf o ran ei effeithiau, ond yn gyfnewidiol a mympwyol: mae *serch* yn fwy o dan lywodraeth y deall. Gall priodas ddechreu trwy *gariad*, ond dylai ddiweddu mewn *serch*.

**Cariad**—cyfeillgarwch. Fel y sylwyd eisioes, mae *cariad* yn fwy aiddgar; *cyfeillgarwch* yn fwy gwastad a chyson. Gall *cariad* fodoli yn mhob sefyllfa a dosbarth: nid yw *cyfeillgarwch* yn cael ei ffurfio na'i deimlo mor rwydd. Mae *cariad* yn fwy hunanol na *chyfeillgarwch*. Os siomir *cariad* gall droi yn gasineb o'r fath waethaf: y mae *cyfeillgarwch* o'r tu arall yn llai hunanol o ran ei natur, ac yn barod i wneyd aberth os bydd achos. Nwyd yw *cariad*, ac fel y cyfryw yn agored i gamgymeriadau: ond *cyfeillgarwch*, gan ei fod yn sylfaenedig ar reswm, sydd yn rhydd oddiwrth luaws o'r cyfryw. Mae *cariad* yn ddall i lu o ffaeleddau yn ngwrthddrych ei serch; ond cenfydd *cyfeillgarwch* y ffaeleddau, a chais eu gwella, ac felly pâr fod y gwrthddrych yn fwy teilwng o barch.

**Carnbwl** (carn-pwl),—carbwl, trwsgl, trwstan. Dynoda y geiriau hyn yr hyn sydd groes i drefn a rheol, mewn ffurf neu ymddygiad. *Trwsgl* sydd a fyno ag ymddygiad allanol ar ran y corph, a *charbwl* âg ymddygiad parth deall a dysg. Dynoda *trwsgl* yn benaf ddiffyg naturiol, a *charbwl* ddiffyg addysg neu ddygiad i fyny. Mewn ystyr ffugyrol dywedir am ymgeisiadau *trwstan* yn cael eu gwneyd a'u dwyn yn mlaen gan ddynion *carbwl*.

**Casglu**—hel, crynhoi, tyru, ymgynull. Defnyddir y gair *casglu* am bersonau a gwrthddrychau: *ymgynull* am bersonau yn unig. Cymer *casglu* le ar wahanol adegau: *ymgynull* yr un adeg a thrwy alwad neu ŵys: *cesglir* y trethi: *ymgynull* y senedd yn nghyd. *Crynhoi* sydd ddull o *gasglu* twt, trefnus (crwn, cryno); *tyru, casglu* yn bentwr. *Helir* yr hyn fyddo yn wasgaredig, megys *hel* ceryg yn y maes, a hyny heb gadw mewn golwg y dull y gosodir hwy gyda'u gilydd eilwaith; ond golyga *casglu* drefn a rheol yn y gwaith—*cesglir* yr ysgubau i'w diogelu.

**Cashau**—(cy-as; Ir. *cas;* Ffr. *cas;* Ll. *casus—to fall)*—angharu, ffieiddio.

**Casineb**—gelyniaeth, drwg-deimlad. Y gair cryfaf o'r rhai hyn yw *casineb*, yna *gelyniaeth*, a *drwg-deimlad*, ac ni raid cenfigenu wrth neb a goleddo y rhai hyn yn ei fynwes. Mae *casineb* nid yn unig yn dymuno *drwg* i'r gwrthddrych, ond yn teimlo dedwyddwch oddiwrth ei anffawd neu ei ddinystr. Daw *gelyniaeth* i'r golwg o dan amgylchiadau neillduol, a dengys ei hun yn fwy mewn gweithred nag mewn teimlad. *Casineb* sydd wrthwynebol i gariad; *gelyniaeth i gyfeillgarwch*, a *drwg-deimlad* i deimlad da. Y mae *casineb* a *drwg-deimlad* yn fynych yn ffrwyth meddwl llygredig, ac heb unrhyw achos allanol i'w gynyrchu; ond mae *gelyniaeth* yn gyffredin yn cael ei gynyrchu gan ryw amgylchiadau neillduol, neu drosedd yn erbyn y sawl a'i coledda. Ceir fod y goreu o ddynion weithiau yn wrthddrychau *casineb*, a hyny heb yn wybod iddynt eu hunain, ac hyd yn oed am eu rhinweddau. Mae rhoi gair o gynghor weithiau yn achos o *deimlad drwg* pan na bo'r sawl y cynygir ef iddo yn barod i'w dderbyn; ac mae gair digofus yn fynych yn achos o *elyniaeth* hir-barhaol.

**Castell.** Gwel Caer.

**Cathl** (ca-twl). Gwel Can.

**Cau**—gorphen, terfynu. Pan na fydd a wnelom yn rhagor â rhywbeth byddwn yn ei *gau i fyny*, megys *cau* i fyny gyfrif; pan nas gallwn wneyd dim chwaneg i rywbeth, byddwn wedi ei *orphen;* byddwn weithiau yn *cau i fyny* heb *orphen*, ond nis gallwn *orphen* heb *gau i fyny*. Bydd ambell un o ddiffyg amser yn *cau* ei lythyr heb ei *orphen*. Math o *orphen* yw *terfynu:* yr ydym yn

wastad yn *terfynu* pan yn *gorphen*, ond nid bob amser yn *gorphen* pan yn *terfynu*. *Terfynir* ambell chwedl yn y newyddiadur cyn ei *gorphen*.

**Cawg**—phiol, cwpan.

**Cecraeth** (ceg)—ymryson, dadl, cynhen.

**Ced** (cy-ed; S. *getan*; E. *get*)—budd, rhôdd, anrheg. Gwel RHODD.

**Cefnogi** (caf; C. *cein*; Arm. *quein*)—calonogi. Golyga y blaenaf o'r ddau air gymhelliad cyffredinol i weithredu, a'r olaf gymhelliad at waith neillduol, anhawdd, neu beryglus. *Cefnogir* ni i fyned yn mlaen, a thrwy ein *calonogi* gwrolir ni i barhau. Mae llwyddiant yn ein *cefnogi*; a'r siawns o osgoi perygl yn ein *calonogi*. Gair bychan neu edrychiad a *gefnoga*; achos gwirionedd neu grefydd a bâr i ddyn gymeryd *calon*. Y mae yr hunan-hyder a fedd rhai yn ddigon i'w cadw rhag *digaloni* er maint y rhwystrau ar eu ffordd.

**Cefnogi**—symbylu, hyrwyddo, ysbrydoli, cymhell. Mae *cefnogaeth* yn ein perswadio; ac *ysbrydolir* ni gan fywyd adnewyddol: gofyn y gwan am y blaenaf, a'r *diysbryd* am yr olaf. Mae eisieu symud yr anhawsderau oddiar ffordd y naill, ac eisieu codi gobeithion a rhagolygon y llall. Y mae *symbylu* (swmbwl) yn golygu rhyw gymaint o nerth i'n gyru yn mlaen, a *hyrwyddo* yn awgrymu symud y rhwystrau oddiar ein ffordd. *Cymhellir* ni yn gyffredin gan rywbeth mewnol, a hyny yn y cyfeiriad o wneyd daioni, a golyga lai o bwys neu *force* na *symbylu*.

**Cegrythu**—llygadrythu, syllu.

**Ceinion**. Gwel ADDURN.

**Celu**—cuddio, dirgelu. Nid yw *celu* yn golygu dim mwy na pheidio gadael peth i ddyfod i sylw; *cuddio*, gosod peth o dan orchudd. Beth bynag na fyddo yn y golwg sydd wedi ei *gelu*, ond beth bynag a *guddir* a wneir yn fwriadol. Gall person *ddirgelu* ei hun tu ol i'r gwrych, ond *cuddia* ei drysor yn y ddaear.

**Celwydd** (cêl-gwydd)—gau, gau-air, anwiredd. *Celwydd* fel yr awgryma y gair ydyw cadw o olwg, sef peidio amlygu, a thrwy hyny dwyllo a chamarwain; ac *anwiredd* sydd radd arall o'r un drwg, ond nid cyn ddrwg. Gall *anwiredd* fod yn ddifwriad ar ran yr adroddwr, ond mae *celwydd* yn fwriadol. Mae yn arferiad gan rai pobl i ddweyd *anwiredd*; a chais y sawl sydd euog o weithredoedd drwg eu cuddio trwy ddweyd *celwydd*. Gall dyn draethu yr hyn sydd *au* mewn anwybodaeth, ond mae y cyfryw *audeb* i'w brofi oddiwrth dystiolaeth eraill.

**Cellwair** (cell-gwair)—ysmaldod, digrifair. Mae dyn yn *cellwair* er gwneyd i eraill chwerthin; ond yn *ysmalio* er mwyn boddhau ei hun. Cyfeirir y *cellwair* at y gwrthddrych; ond arferir yr

*ysmaldod* yn ei gysylltiad a'r person. Ceisia dyn wneyd peth yn destyn chwerthin trwy *gellwair* yn ei gylch; ond ceisir enyn difyrwch yn eraill trwy *ysmalio* â hwynt. Anaml y mae *cellwair* yn ddiniwed; ond caniateir ysmaldod yn fynych. Gellir troi y peth mwyaf difrifol yn *gellwair;* ond gellir adfywio y meddwl mwyaf trymllyd trwy *ysmaldod.* Gwel ARABEDD.

**Cenhad**—neges, cenhadwri. *Cenhadwri* yn briodol ydyw yr hyn a drosglwyddir; y *neges* a anfonir oddiwrth un person i'r llall yw yr hyn a achosa un i fyned. Y mae gweision yn gludwyr *cenhadwri*, ac anfonir hwy ar amryw *negeseuon.* Gall *cenhadwri* fod yn ysgrifenedig neu mewn geiriau: nid yw neges yn cael ei chyfyngu i ffurf nac amgylchiad: trosglwyddir y *genhadwri* ac eir ar y *neges.* Y mae y rhan fwyaf o *genhadwriaethau* yn gynwysedig mewn anfon *negesau* oddiwrth y naill berson at y llall. Defnyddir y gair *cenhad* hefyd am y person a gluda y genhadwri.

**Cenhad**—rhyddid, caniatad, trwydded. Y mae *cenhad* neu *ryddid* yn cael eu rhoi neu eu cymeryd: caniateir *trwydded.* Rhydd y meistr *ganiatad* i'w was i fyned i fan neillduol: rhydd boneddwr *ryddid* i un i rodio yn ei barc: rhoddir *caniatad* yn gyffredin mewn pethau bychain: cymerir *rhyddid* mewn modd cyffredinol ac yn fynych yn ddiawdurdod, ac felly yn aml mae yn drosedd yn erbyn iawnderau arall. Rhoddir *cenhad* gan bersonau unigol, ond *trwydded* gan awdurdod swyddogol: rhydd rhïeni *ganiatad* i'w plant i fod adref o'r ysgol; y llywodraeth a rydd *drwydded* i werthu gwahanol nwyddau. Gofynir am *ganiatad*, ond nid am *ryddid;* gofynwn am *ganiatad*, ond nid am *ryddid* i siarad.

**Cenedl** (cân? Gr. *geno, genos;* Ll. *geno*, &c.)—llwyth, tras, pobl, perthynas, cyff, ciwdod, teulu, gwehelyth. Wrth *bobl* y golygir nifer o unigolion; ond golyga *cenedl* gysylltiad y cyfryw trwy enedigaeth; nis gall yn briodol fod *cenedl* heb *bobl*, ond gall fod *pobl* heb fod *cenedl.* Sonir am yr Americaniaid fel *pobl* wahanol i Brydain am fod ganddynt lywodraeth ar wahan; ond nid ydynt yn *genedl* wahanol am eu bod o'r un *âch.*

**Cenfigen** (cen-migen)—malais, dygasedd, llid. Y mae dyn yn *cenfigenu* yn y rhagolwg am lwyddiant neu ddedwyddwch rhyw un arall; ond golyga *malais* hanfod drygioni yn y galon—un yn caru drwg er ei fwyn ei hun, ac ni phetrusa ddim gyda golwg ar wrthddrych neu amgylchiadau y sawl y coledda *lid* atynt, oblegyd gwna y dyn *maleisus* niwed i'r sawl nas niweidiodd ef, a'r hwn a all fod yn ddieithr iddo. Gall *cenfigen* fodoli ond am ychydig yn erbyn person, ond mae *malais* yn fwy parhaol ac yn gwylio am gyfleusdra i ddrygu ei gwrthddrych.

**Cerdd.** Gwel CAN.

**Cerdded**—rhodio, crwydro, gwibio. *Cerdded* a olyga fod dyn yn ymsymud gydag amcan a nôd ganddo mewn golwg; *rhodio* yn fwy hamddenol—er mwyn pleser, ac yn gyffredin dros yr un tir yn ol ac yn mlaen; *gwibio* a olyga gyflymder symudiadau. *Crwydro* ydyw peidio dilyn unrhyw lwybr neillduol, a gall fod yn weithred o orfodaeth, megys *crwydro* o'r ffordd iawn; *gwibdeithio* sydd weithred wirfoddol heb yr un amcan neillduol mewn golwg—*crwydro* yn ddidrefn.

**Certh.** Gwel AMLWG.

**Cerydd** (cer)—disgyblaeth, cosp, cystwy. Gan fod *cerydd* a *disgyblaeth* yn gyffredin yn golygu *cospedigaeth* er bod yn effeithiol, defnyddir y naill air yn lle y llall er fod dirfawr wahaniaeth rhyngddynt. *Disgyblu* ydyw addysgu neu reoleiddio, ac at hyny y dylid cyfeirio pob *cerydd*. Nid yw *disgyblu* a *cheryddu* yn perthyn i'r un oedran: tad doeth a *gerydda* ei blentyn, a cheidw ysgolfeistr *ddisgyblaeth* yn ei ysgol gan *gosbi* am anufudd-dod.

**Cil.** Gwel CYSGOD.

**Cildyn**—cyndyn, anhydyn, anhyblyg, ystyfnig. *Cyndynrwydd* sydd arferiad o eiddo y meddwl, ac mae yn gynwysedig mewn glynu wrth ddull un o weithredu, a hyny yn wrthwynebol i bob rheswm ac argyhoeddiad: gyda'r *ystyfnig* mae yr ewyllys wedi ei llwyr wyrdroi, ond am y *cyndyn* y farn sydd wedi ei gwyrdroi. Y mae *ystyfnigrwydd* gan mwyaf yn rhan o natur un; a dengys *cyndynrwydd* ei hun yn y sawl y ceisir ganddynt gydymffurfio âg ewyllys arall. Ymlyna y *cyndyn* wrth ei syniad er gwaethaf pob prawf o'i eudeb; a dilyn yr *ystyfnig* ei ewyllys yntau heb yr un ystyriaeth o syniadau rhai ereill, ac nis gellir ei ddarbwyllo trwy dêg na hagr. Gellir weithiau drin plentyn *anhydyn* trwy dêg, ond mae plentyn *ystyfnig* yn achos o fawr flinder ac yn herio pob cais i'w drin a'i hyfforddi: mae y blaenaf yn anheimladwy i reswm, a'r olaf wedi tywyllu yr ychydig reswm a feddant.

**Cildynus**—gwrthnysig, ystyfnig, anhyblyg.

**Cilio.** Gwel ENCIL.

**Cipolwg**—lledolwg, cipdrem.

**Ciwdod.** Gwel CENEDL.

**Claddedigaeth.** Gwel ANGLADD.

**Claer.** Gwel GLOYW.

**Claf** (cy-llaf), sal, clwyfus, afiach. Arwydda *afiechyd* sefyllfa gyffredinol neu neillduol; *selni* un neillduol: sonir am *afiechyd* fel yn wrthwynebol i iechyd da, ond sonir am *selni* person

neillduol. Dywedir fod llawer o *afiechyd* mewn teulu, ond fod dyn yn *sal* ryw adeg, neu mewn lle neillduol, am amser terfynol. Mae edrych ar waed a chelanedd yn peri i ddyn iach deimlo yn *sal*, llawer mwy ddyn *afiach*. *Clwyfus* a olyga fod cyfansoddiad dyn, neu rhyw gyfran o hono, megys ei ymenydd, &c., allan o drefn. Mewn ystyr foesol dywedir fod personau neu gyfundebau neu bethau yn *glwyfus*—"Y pen oll sydd *glwyfus*."

**Clau.** Gwel Buan.

**Clir.** Gwel Gloyw.

**Clod** (llod?)—mawl, bri, canmoliaeth, mawrhad, cymeradwyaeth, arwyrain. Mae y meddylddrych o *ganmol* yn gysylltiedig a'r holl eiriau hyn, a hwn sef *canmol* yw y gair mwyaf penagored, a defnyddir ef mewn cyfeiriad at berson neu weithred. *Cymeradwyo* sydd ddull gwresog o *ganmol; mawrhau* sydd ddull addolgar o *ganmol*, ac mae yn weithred ar ran israddolion tuag at y rhai a ystyrir yn uwchraddol. *Arwyrain* sydd ddull o ddangos *cymeradwyaeth* trwy gyfrwng yr awen. Nid yw *clod* yn perthyn i'r un sefyllfa; *canmol* sydd waith uchafiad: *canmola* tad ei blentyn, a gall fod yn dra llesol er cefnogaeth: *cymeradwyaeth* sydd waith y lluaws ac fel y cyfryw yn anwadal.

**Clod**—bri, enwogrwydd. Gellir cymhwyso *bri* at unrhyw wrthddrych, da neu ddrwg, neu ganolig; *clod* yn unig at gyrhaeddiadau uchel mewn rhyw ganghen; ac *enwogrwydd* at radd anghyffredin o ragoriaeth.

**Clos**—agos, cryno, taclus. Agosrwydd yw y meddylddrych a gyfleir yma: *clos* mewn ystyr gyffredinol a *chryno* mewn ystyr gyfyngedig. Gall dau wrthddrych fod yn *agos* i'w gilydd, ond mae corph yn *gryno* gyda golwg arno ei hun. Y mae llinellau yn *agos* i'w gilydd pan na wahenir hwy ond gan ychydig bellder; ond mae pethau yn *gryno* pan wedi eu gwasgu at eu gilydd i'r lle lleiaf a ellir.

**Clws.** Gwel Cryno.

**Clwyf.** Gwel Claf.

**Clywed** (cly; Gr. *clyo*)—gwrandaw, erglywed. *Clywed* sydd weithred o eiddo y glust, ac yn fynych yn hollol ar wahan i'r meddwl pan y *clywom* heb ddeall; *gwrandaw* sydd waith y glust a'r meddwl mewn cysylltiad a'u gilydd; *gwrandaw* sydd ymgais i *glywed*. Byddwn yn *clywed* seiniau, ac yn *gwrandaw* am y synwyr. *Clywed* hefyd sydd gyfystyr a *theimlo* o'r hyn y ceir engreifftiau yn y Beibl—"Cyn i'ch crochanau *glywed* y mieri."

**Cnawd** (nawd)—cig, dynol gig. Sonir am *gig* ar wahan i fywyd, a defnyddir ef mewn cyfeiriad at anifeiliaid wedi eu lladd, ond *cnawd* mewn cysylltiad â dyn. Mewn ystyr foesol mae *cnawdol* yn wrthgyferbyniol i ysbrydol.

**Codi**—dyrchafu, cwni.

**Codi**—adeiladu.

**Codwm.** Gwel CWYMP.

**Coeg** (co-oeg?)—gwâg, balch, diwerth, cignoeth.

**Coel.** Gwel ARGOEL.

**Coeth.** Gwel GLAN.

**Coledd** (côl-mynwes)—meithrin, ymgeleddu, maethu, diwyllio. *Coledd* yn y meddwl yw auwylo neu osod gwerth ar rywbeth; *coleddu* syniadau da ydyw myfyrio arnynt yn fewnol; *meithrin* neu fagu sydd weithred anianyddol, er cryfhau nerth y corph, ac mae yr un mor angenrheidiol gyda golwg ar y meddwl ei fod yn cael ei borthi a'i *ymgeleddu*; *coleddu* sydd weithred anianyddol a meddyliol: *coledda* y fam y plentyn yn ei mynwes, ac felly maetha ef.

**Colofn** (Ll. *column*)—post, piler. Gwasanaetha *piler* gan mwyaf fel *colofn* neu gynhalydd, ac mae y *golofn* bob amser yn *biler*; ond nid yw *piler* bob amser yn gwasanaethu felly, ac yna gelwir ef wrth ei enw ei hun. Pan yn gwneyd fel attegydd gelwir ef yn *golofn*. Defnyddir y gair *colofn* mewn ystyr foesol am yr hyn fyddo yn attegu.

**Coll** (co-all)—colled, difrod, niwed. Person sydd yn dioddef *colled*, a pheth yn dioddef *difrod*. Beth bynag sydd yn myned oddiwrthym y dymunem ei gadw sydd *golled*, megys eiddo, cymeriad, dylanwad, &c.; beth bynag a wna wrthddrych yn llai gwasanaethgar neu werthfawr, trwy weithred o drais, sydd *niwed*, megys llong yn cael niwed mewn storm. Gellir *niweidio* dyn yn ei gymeriad, a thrwy hyny beri *colled* iddo yn ei fasnach.

**Collfarnu**—dedfrydu, condemnio. *Dedfrydu* ydyw rhoddi barn derfynol ar bwnc neu berson. Mewn ystyr gyfreithiol mae *dedfrydu* yn amhenodol, ond *condemnio* neu *gollfarnu* yn benderfynol; gall troseddwr gael ei *ddedfrydu* i gosb dyner neu galed; *condemnir* ef yn wastad i'r hyn sydd galed; *dyfarnir* ef i garchar, alltudiaeth, neu farwolaeth; *condemnir* ef i alltudiaeth neu farwolaeth. Mewn ystyr foesol mae *dedfrydu* yn ysgafnach na *chondemnio*; perthyna *dedfrydu* i wrthddrychau difywyd hefyd, *condemnio* i bersonau yn unig. *Dedfrydir* dyn i dreulio ei oes yn y wlad: *condemnir* ysgrifenwyr anfoesol i ddinodedd haeddianol.

**Corlan.** Gwel CAIL.

**Corwynt**—tymestl, hyrddwynt. *Ystorm* neu *dymestl* yw yr hyn a wna gyffro cyffredinol yn yr awyrgylch, yn cynwys gwynt,

gwlaw, cenllysg, &c.; *corwynt*, pan mai yr elfen fwyaf amlwg ydyw y gwynt; *hyrddwynt*, fel yr awgryma y gair yw yr ystorm yn ei heithafrwydd.

**Cosp.** Gwel CERYDD.

**Cost** (cy-ost; Ll. *costa*)—pris, traul. *Cost* ydyw yr hyn a achosa i swm penodol gael ei wario; *traul* yw yr hyn yn wirioneddol a roir allan; *pris* yw yr hyn a ofynir ei roi allan. Gan fod y *gost* yn gyffredin yn cynwys y *draul* defnyddir y naill air am y llall yn aml, megys bwrw'r *draul;* ar *gost* neu *draul* fawr. O'r tu arall dywedir fod un yn myned yn gallach ar *draul* un arall. Y mae a wnelo *cost* a *phris* a'r peth a'i werth tybiedig; ond mae'r *draul* at ddewisiad y personau. Rhaid i *gost* rhywbeth ragflaenu y *pris*, oblegid nis gallwn *brisio* rhywbeth heb wybod ei *gost* neu ei werth i ni. Gall fodd bynag fod *pris* yn fynych heb *gost*, a *chost* heb *bris*. Dibyna *pris* peth ar ei werth cydmariaethol yn ngolwg ereill: Yr hyn ni *chostia* ddim, a red weithiau i *bris* uchel. Pan fo'r *costau* yn fawr mae y *treuliau* felly.

**Craffu.** Gwel CANFOD.

**Crebwyll.** Gwel ATHRYLITH.

**Cred.** Gwel FFYDD.

**Crefyddol** (cref-ffydd)—sanctaidd, duwiol, defosiynol. Parch mawr i'r Bôd Goruchaf a ddatgenir yn y geiriau hyn; ond y meddylddrych mwyaf cynwysfawr yw *sanctaidd; duwiol* a *defosiynol* a amlygant agwedd y meddwl; a *chrefyddol* yw y gair mwyaf cyffredinol a phenagored. Y mae *duwiol* yn fwy cyfyng ei ystyr, ond yn fwy eang o ran ei gymhwysiad. Nid yw *duwioldeb* yn briodoledd i Gristionogion yn unig, ond i bawb a barchant y Bôd Mawr. Dywedir fod ein Harglwydd yn *sanctaidd* ond nid yn *dduwiol*, am fod *duwioldeb* yn cael ei lyncu i fyny gan *sancteiddrwydd*. Gall y pagan yn gystal a'r Cristion fod yn *dduwiol* ond nid yn *sanctaidd*. *Defosiwn* ydyw *duwioldeb* fel yr amlygir ef wrth addoli: mae *duwioldeb* yn ymwneyd mwy a'r galon, a *defosiwn* a'r corph. *Crefyddol* sydd a wnelo âg egwyddorion a syniadau ac â rheoleiddiad bywyd ac ymddygiad. Soniwn am sacrament *sanctaidd;* iaith *dduwiolfrydig;* gweddi *ddefosiynol*, a bywyd *crefyddol*.

**Crefft.** Gwel CELFYDDYD.

**Creu** (cre; Ll. *creo*)—gwneyd, ffurfio, cynyrchu, achosi, peri. Rhoddi bod o dan wahanol amgylchiadau a olygir yma. *Gwneyd* yw y gair cyffredinol; *ffurfio* ydyw rhoddi delw ar beth, neu ei wneyd yn ol *ffurf; cynyrchu* ydyw dwyn i oleuni. a golyga amser a llafur; *creu* yw dwyn i fodolaeth trwy allu goruwch-naturiol, heb ddefnyddio mater.

**Creulon**—Gwel FFYRNIG.

**Crintach.** Gwel CYBYDD.

**Crio.** Gwel BLOEDDIO.

**Croch.** Gwel EGNI, FFYRNIG.

**Croes**—cyferbyniol.* Er fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddau air hyn, eto defnyddir hwy yn amhriodol yn dra mynych. Gall yr ansoddau mwyaf *cyferbyniol* gyfarfod yn yr un person, ond ni byddai yn un rheswm i ddweyd fod y rhai *croes* yn gwneyd hyny. Gellir dweyd er esiampl am filwr ei fod yn ddoeth a dewr, gan mai *cyferbyniol* yw y geiriau; nis gallai ar yr un pryd fod yn ddoeth a byrbwyll, am mai *croes* a fyddai hyny. Gallwn garu ac ofni person yr un pryd, ond nis gallwn ei garu a'i gashau, am fod y ddau flaenaf yn *gyferbyniol*, a'r ddau olaf yn *groes* i'w gilydd. Y mae melus a sûr yn *gyferbyniol*, melus a chwerw yn *groes*.

**Croes**—cecrus, anynad, nwydwyllt. Tymer ddrwg yw yr hyn a osodir allan yn y geiriau hyn. *Cecrus* a olyga barodrwydd i ymddigio: *croes*, parod i ddigio arall: *anynad* yw gradd mawr o *groesder: aniddig* yw tuedd at gwyno ac achwyn: *nwydwyllt* a olyga dymer hawdd ei chyffroi. Personau llawn o hunanbwysigrwydd ydynt dueddol i fod yn *gecrus:* tymer heb ei disgyblu a bâr i un fod yn *groes:* plant yn gyffredin ydynt *aniddig* neu *anynad:* a'r anwybodus yn *nwydwyllt*.

**Croes.** Gwel ADFYD.

**Croesaw**—caredigrwydd. Y diweddaf yw y gair mwyaf eang ei ystyr a'i gymhwysiad: ffurf o *garedigrwydd* yw *croesaw*, a chyfeiria yn benaf at waith un yn derbyn arall i'w dŷ a'i gymdeithas. Nis gellir *croesaw* heb *garedigrwydd*, ond gellir *caredigrwydd* heb *groesaw*.

**Croyw**—crai, newydd, pur, peraidd, ffres, claer.

**Crug**—twmpath, tâs, tŵr, bryncyn.

**Crugo**—poeni, blino, herio.

**Crwydro.** Gwel CERDDED.

**Crybwyll.** Gwel AWGRYM.

**Cryf.** Gwel CADARN.

**Crymu** (crwm)—gwyro, plygu, camu. *Plygu* yw y gair cyffredinol, ac nid yw y lleill ond datgan gwahanol ddulliau o *blygu; cam* sydd groes i uniawn, ac wedi ei *blygu* i wahanol ffyrdd; *gwyro*,

* "Trench on the Study of Words," p. 210.

plygu i un cyfeiriad. Gellir *plygu* trwy ddamwain neu amcan, megys, *plygu* ffon, ond gall y cyfryw ffon ar yr un pryd fod yn *gam* trwy ddamwain neu dyfiant.

**Crynu** (cy-rhyn)—ysgwyd, siglo, arswydo. *Ysgwyd* yw y gair cyffredinol, ac nid yw y geiriau eraill ond cyfeirio at wahanol ddulliau a graddau o *ysgwyd*. *Crynu* ydyw *ysgwyd* oddiwrth achos mewnol neu dybiedig—*crynu* gan ofn, anwyd, gwendid, &c. *Arswydo* ydyw *crynu* yn enbyd.

**Cu.** Gwel ANWYL.

**Cuddio.** Gwel CELU.

**Cul**—cyfyng, caeth, teneu. *Cyfyngir* a *chaethiwir* ar bethau gan ryw weithredydd allanol, ac mae pob peth sydd felly i raddau mwy neu lai yn *gul*, ond ar yr un pryd mae llawer o bethau yn *gul* heb fod cyfyngiad arnynt. Beth bynag a derfynir gan ochrau yn agos i'r naill a'r llall sydd *gul*. "*Cul* yw y ffordd a *chyfyng* yw y porth," &c.

**Cur** (cy-ur?—Arm. *cur;* Ll. *cura*). Gwel GOFID.

**Cwch**—bâd, cafn, ysgraff.

**Cwd**—ffetan, côd, ysgrepan.

**Cweryl** (cw-eryl; Ll. *querela*)—ymryson, cynen, ymrafael, crintach, ymgiprys, ffrae.

**Cwestiwn** (S. *quest;* Ll. *quæstus*). Gwel GOFYN.

**Cwla**—llesg, egwan, llegach, llwfr.

**Cwlwm** (cw-llwm; Ll. *iruculum*)—rhwymyn. Y mae y dull o sicrhau pethau yn eu gilydd a ddynodir gan y geiriau hyn yn gwahaniaethu o ran dull a gradd. *Rhwymo* ydyw amgylchu unrhyw gorph; *cylymu* trwy droi peth am dano ei hun: *rhwymir* rhai pethau heb eu *clymu*, a *chlymir* rhai pethau heb eu *rhwymo: clymu* ac nid *rhwymo* llinyn: gellir *rhwymo* ruban o gylch y pen a'i *glymu* dan yr ên. *Rhwymir* troseddwr draed a dwylaw, a *chlymir* ef wrth y pawl.

**Cwm.** Gwel GLYN.

**Cwmni** (Ffr. *compagnie*)—cyfeillach, brodoriaeth, cymdeithas, corphoriaeth, bagad, tyrfa. Y mae *cyfeillach*, *cwmni*, a *chymdeithas* yn dynodi ymdrafodaeth agos: *cyfeillach* ddywedir am ddynion fel unigolion, a *chymdeithas* am danynt yn gasgledig: ni ddylem *gyfeillachu* â rhai drwg nac uno â *chymdeithas* rhai o egwyddorion amheus. Cynwys *cymdeithas* naill ai holl ddynolryw wedi ymffurfio yn undeb, megys ag y dywedir am ddeddfau *cymdeithas*, neu ynte nifer penodol o bobl wedi ymgorpholi, ac felly bron yn gyfystyr a *chwmni*. Ffurfir *cymdeithas* yn wastad er cyrhaedd rhyw amcan penodol; ond ffurfir

*cwmni* neu *gyfeillach* er pleser neu elw. Dylem gydffurfio â rheolau *cymdeithas* a gwneyd ein hunain yn foddhaol i'r *cwmni* y byddwn ynddo.

**Cwnu.** Gwel CYFODI.

**Cwr.** Gwel FFIN.

**Cwrs** (Ll. *cursus;* S. *course*)—rhawd, rhedfa, helynt, hwyl, trefn, tuedd, gyrfa. *Cwrs* sydd air penagored gyda golwg ar symud; *rhawd* a berthyn i'r gwrthddrych am yr hwn y rhedwn; cymerwn y *cwrs* a fynom, rhedwn yr *yrfa* a osodwyd o'n blaen.

**Cwt** (S. *cot, cote*)—bwth, caban, twll, cut, cotty; cynffon, godreu.

**Cwta.** Gwel BYR.

**Cwympo**—syrthio, taflu, codymu, tramgwyddo, llithro. *Cwympo* yw y gair cyffredinol, ac arwydda y lleill ddull neu radd y *cwymp*, *codymu* ydyw cwympo mewn ymdrech â gallu cryfach; *llithro* ydyw syrthio mewn dull afrosgo a sydyn.

**Cwyn.** Gwel GOFID.

**Cwyno**—galaru, ochain, cwynfan. Mae yr oll o'r geiriau hyn yn amlygiad o ofid trwy arwyddion gweladwy. *Cwyno* a ddatgan anfoddlonrwydd; galar, gofid; amlygir *cŵyn* trwy eiriau; *galar*, trwy arwyddion neu eiriau; *cwynwn* drosom ein hunain, a *galarwn* dros eraill yn gystal a'n hunain. *Cwynwn* o herwydd pall iechyd; *galarwn* oblegid anallu i wasanaethu eraill; ac *ymofidiwn* o herwydd absenoldeb un a garwn. Pobl hunanol sydd fwyaf chwanog i *gwyno*, a rhai pryderus i *alaru* ac *ymofidio*. *Ochain* ydyw ymarllwysiad *gofid* o'r fath chwerwaf; mae mam dyner yn *ochain* o herwydd colli ei hanwyl blentyn. Mae *galar* yn oddefol, ond *ochain* yn anghyson os nad yn bechadurus â phroffes Gristionogol.

**Cwys.** Gwel FFOS.

**Cybydd**—carl, crinwas, bydolddyn, crintachwr, trachwantus, ariangar. Yr un cymeriad yn hollol yw y *cybydd* a'r *ariangar*, gyda'r eithriad fod y *cybydd* yn cludo ei duedd am arian i fwy o eithafion. Dengys yr *ariangar* ei hoffder o arian yn ei ymdrafodaethau cyffredin; ond bywia y *cybydd* arno, a dioddef bob caledi yn hytrach nag ymadael â hwy. Y mae gorgynildeb a *chrintachrwydd* yn nodweddion îsraddol *ariangarwch*. Dengys yr *ariangar* ei duedd naturiol trwy orgynildeb, hyny yw, trwy gynilo o hono ei hun, neu trwy fod yn *grintachlyd* yn ei ymwneyd ag eraill: y sawl a edrycho ar bob ffyrling a wna mewn bargeinion, a ystyrir yn *grintachlyd*, ac fel y cyfryw y mae yn wrthddrych o ddirmyg, ac weithiau gâs, tra mae y *cybydd* y gelyn mwyaf iddo ei hun, ac yn gyfaill i neb, a'i gyfoeth yn gyffredin yn felltith i'r sawl a'i hetifeddo.

**Cychwyn**—dechreu, cyfodi, symud, cyffro. *Cyffro* yw *symud* fel ag i aflonyddu ar heddwch corph neu feddwl. Wrth *ddechreu* byw yn gynil, yr ydys yn gosod i lawr sylfaen a *chychwyniad* i fywyd llwyddianus.

**Cyd** (cûd)—uniad, cyswllt. Defnyddir ef o flaen llawer o eiriau i ddynodi undeb neu gysylltiad; cyfnewidia i cy, cyf, cym, cyn, cys, cyt. Nid ydym wedi rhoddi i lawr y geiriau a ddechreuant yn y dull hwn gan y deuant i mewn yn naturiol yn eu priodol leoedd.

**Cyfa** (cwf)—cyfan, cyflawn, hollol. *Cyfan* a ddynoda beth heb ei dori; *cyflawn*, beth heb ddiffyg; *holl* neu *hollol*, beth y byddo ei ranau yn nghyd. Dywedir am deulu *cyfan*, am *set gyflawn*, ac am *holl* ranau llyfr.

**Cyfaill** (cyf-aill), cydymaith, câr, hoffddyn.

**Cyfamod**, Gwel AMOD.

**Cyfarch**—anerch. Tardda y ddau air o'r un gwreiddyn, ond gyda blaenddawd gwahanol. Ystyr mwyaf priodol a gwreiddiol *cyfarch* ydyw moesebu (*salute, greet*), person unigol, un ai mewn gair neu drwy ystum. Er hyny defnyddir y gair *anerch* yn yr ystyr yma yn fynych yn y Beibl: "Claudius yn anfon *anerch;*" "*Anerchwch* yr holl saint," &c. Ystyr briodol *anerch* yw ymadroddiad ffurfiol o flaen cynulleidfa, o dipyn o feithder. Y mae bron yn gyfystyr âg areithio, ond nad yw yn cyflwyno y syniad o destun. Pregethir a darlithir ar bwnc penodol; ond *anerchir* torf mewn cynghorion cyffredinol neu sylwadau personol. Ymddengys fod cyfieithwyr y Testament Newydd wedi mynych gamddefnyddio y gair *anerch*, ac nid yw Dr. Davies na Richards yn gwneyd gwahaniaethiad eglur rhwng y ddau air.

**Cyfaredd**—swyn, hud, rhin.

**Cyfartal** (cyfar-tâl), cydradd, cymerus, gogyfuwch, gwastad.

**Cyfarwydd**—celfydd, swynwr, dewin, hanesydd.

**Cyfathrach**. Gwel ACH.

**Cyfeddach** (cy-medd)—cydloddest, gwledd, cydyfed.

**Cyfeiliornad**—camgymeriad, amryfusedd. Y mae *cyfeiliorni* yn air ag iddo ystyr tra helaeth, yn gymaint ag mai *cyfeiliorni* ydyw un o nodweddion y ddynoliaeth; *camgymeryd* sydd *gyfeiliornad* mewn dewis; *amryfusedd*, mewn gweithred. Y mae plant a phobl ddiofal yn dueddol i wneyd *camgymeriad;* pobl anwybodus a balch yn gyffredin ydynt euog o *amryfusedd*.

**Cyfeiliorni** (cy-meiliorni). Gwel CRWYDRO.

**Cyfeiliorni**—crwydro, gwyro, myned ar ddisberod.

**Cyfeillach.** Gwel CYFAILL.

**Cyfeillach**—cymdeithas, cwmni.

**Cyfeirio**—llwybreiddio, cyfarwyddo.

**Cyfiawn**—uniawn, cywir, gonest, teg. Gwel DUWIOL.

**Cyflafan** (cyf-llafan). Gwel GALANAS.

**Cyflawn.** Gwel CYFA.

**Cyfleus**—helaeth. Golyga y geiriau hyn y peth a fyddo er cysur neu bleser person. Y mae a fyno *helaeth* â chyflwr anianyddol, a *chyfleus* âg amgylchiadau neu deimladau meddyliol. Dymuna dyn gael tŷ *helaeth* i fyw ynddo, ac yn sefyll mewn lle *cyfleus*.

**Cyfleus**—cyfaddas. Y mae a fyno *cyfleus* âg amgylchiadau dyn; golyga *cyfaddas* syniadau sefydlog dynolryw: nid oes dim yn *gyfleus* na byddo yn ffafrio pwrpas dyn; nid oes dim yn *gyfaddas* na byddo yn gweddu i'r person, lle, neu y peth. Dylid edrych am amser *cyfaddas* yn gastal ag am y lle mwyaf *cyfleus* pan yn myned i ofyn ffafr.

**Cyflwr.** Gwel ANSAWDD.

**Cyflwyn.** Gwel ANRHEG.

**Cyflwyno**—cysegru, neillduo, sancteiddio. Defnyddir *cyflwyno* a *neillduo* am bethau tymhorol ac ysbrydol; *cysegru* a *sancteiddio* am bethau ysbrydol yn unig. Gallwn *gyflwyno* neu *neillduo* unrhyw beth a feddwn at unrhyw wasanaeth; y blaenaf a ddefnyddir mewn cysylltiad âg uchafiaid, a'r olaf â phersonau heb wahaniaeth gradd: *cyflwyna* awdwr ei waith i ŵr urddasol; *neillduir* dyn i gyflawn waith y weinidogaeth. *Cysegru* sydd fath o *gyflwyniad* ffurfiol trwy rinwedd defod grefyddol; defnyddir ef yn gyffredin gyda golwg ar leoedd a phethau crefydd: *sancteiddio* sydd fath o *gysegriad* diffurf yn cael ei gymhwyso at yr un gwrthddrychau; *cysegrir* yr eglwys; cedwir rhai dyddiau yn *sanctaidd*.

**Cyflym** (cyf-llym). Gwel BUAN.

**Cyflymder**—parodrwydd, buandra.

**Cyfnewid.** Gwel NEWID.

**Cyfodi.** Gwel ESGYN.

**Cyfoethog.** Gwel GOLUDOG.

**Cyfraith.** Gwel DEDDF.

**Cyfran**—llawer, swm. Y mae *swm* yn amhenodol—gall fod yn fychan neu fawr; ond cyplysir rhywbeth yn wastad â *llawer* i olygu mawredd, megys *llawer* iawn: y mae *cyfran* hefyd yn golygu ychydig neu lawer. Defnyddir *llawer* yn fynych am

*gyfran* neu *swm*, megys *llawer* o lyfrau, *llawer* o gyfoeth, *llawer* o wlaw. Defnyddir *cyfran* yn unig am yr hyn fyddo wedi ei dori ymaith: *swm* yn aml a olyga nifer o bethau cyfan: soniwn am *swm* mawr neu fach o nwyddau; ond *cyfran* fach neu fawr o ymborth. *Swm* a ddefnyddir yn yr ystyr naturiol yn unig; ond defnyddir *cyfran* yn yr ystyr foesol hefyd. Ystyrir pethau materol megys ceryg, llysiau, coed, gyda golwg ar eu *swm;* ond sonir am ansoddau'r meddwl fel wedi eu dosranu i *gyfranau.*

**Cyfri.** Gwel ANRHYDEDD.

**Cyfrif**—prisio, parchu, ystyried.

**Cyfrin.** Gwel DIRGEL.

**Cyfryngu.** Gwel EIRIOL.

**Cyfryngu**—ymyraeth. Er y golyga y ddau air hyn y gwaith o fyned rhwng dau wythddrych, eto medda yr olaf y syniad o waith un yn ymgymeryd â pheth heb ei alw iddo, ac am yr hyn ni cha ddiolch, tra derbynia *cyfryngwr* y cyfryw ddiolch am heddychu pleidiau er fe ddichon heb ei alw.

**Cyfundrefn**—cyfundraeth. Fel yr awgryma y gair—*cyfundrefn* yw trefn gyfunol; a *chyfundraeth*, traethiad cyfunol: golyga y naill bethau wedi eu gosod yn drefnus, a'r llall fynegiad cywir am bethau neu wirioneddau; sonir am y *gyfundrefn* heulawg; mater neu bwnc yn cael ei egluro a elwir yn *gyfundraeth.*

**Cyfyng** (cyf-ing). Gwel CUL.

**Cyff** (cy-yff). Gwel ACH.

**Cyffelyb** (cyfal), tebyg, hafal, eilfydd.

**Cyffesu** (cy-ffes? Ll. *confessio*). Gwel ADDEF.

**Cyffin.** Gwel FFIN

**Cyffredin** (cyffred)—arferedig, rheolaidd.

**Cyffredin**—cyffredinol, mynych, arferol. Yr hyn a wneir yn *gyffredin*, a berthyn i bawb fel eu gilydd; yr hyn a wneir yn *gyffredinol* a berthyn i'r mwyafrif; yr hyn a wneir yn *fynych* ydyw gweithred y lluaws, neu yr hyn a wneir lawer gwaith gan yr un person; yr hyn a wneir yn *arferol*, yw yr hyn a wneir yn gyson gan un neu luaws. *Cyffredin* sydd wythgyferbyniol i brin; *cyffredinol* a *mynych* i achlysurol neu anfynych; *arferol* i yn awr ac eilwaith. A siarad yn *gyffredinol*, barna dynion eraill yn *gyffredin* wrthynt eu hunain, a thrwy hyny gwnant gamgymeriadau *mynych;* mae dyn sydd wedi ei gwneyd yn rheol iddo ei hun yn *arferol* o godi yn foreu bob dydd.

**Cyffro** (cy-ffraw)—cynhyrfiad, ysgogiad cythrwfl.

**Cynghanedd** (cy-cân)—perseinedd, cydseinedd.

**Cynghaws** (cy-caws? Ll. *con-causa*)—cwyn, cyfraith, achos, ymgyrch.

**Cynghor** (cy-cor? Ll. *concordo, concordia*), cymanfa, cyfarwyddyd, addysg, hyfforddiad.

**Cynghrair** (cy-crair). Gwel CYFAMOD.

**Cyhoeddi** (cy-hoedd)—mynegu, hysbysu, adrodd, argraphu.

**Cyhuddo** (cyhudd)—achwyn, beio.

**Cyllell** (cwll; Ll. *culter;* Arm. *cyllau*)—twca.

**Cymdeithas.** Gwel CYFEILLACH.

**Cymmaint, cynnifer**—y naill am swm, a'r llall am rifedi.

**Cymmanfa.** Gwel CYNGHOR.

**Cymmedrol**—cyfartal, cymesurol.

**Cymmeradwy** (cym-mer)—derbyniol, cyfrifol. Gwel CYFRIFOL.

**Cymmeriad**—gair da, parch, *Cymeriad* yw yr hyn a berthyn i'r dyn ei hun, yr hyn a'i dengys yn mhob man ac ar bob amgylchiad; dibyna *gair da* ar eraill—beth a feddylient hwy o hono. Rhoddir *cymeriad*, a ffurfir *enw da*—y naill gan unigolion a'r llall gan y cyhoedd. Gorphwys *cymeriad* yn gyffredin ar sail, ac *enw da* ar yr hyn a dybir neu a draethir.

**Cymhariaeth**—cyferbyniad. Er gwneyd *cymhariaeth* rhaid wrth debygolrwydd yn yr ansawdd a gwahaniaeth yn y gradd; er gwneyd *cyferbyniad* rhaid wrth debygolrwydd yn y gradd a gwahaniaeth yn yr ansawdd; *cydmerir* pethau o'r un lliw; *cyferbynir* rhai o liwiau gwahanol. Gwelir gwerth peth wrth ei *gydmaru* â rhywbeth o'r un natur, megys bathodyn â bathodyn; gwelir haelioni un wrth ei *gyferbynu* â chrintachrwydd un arall.

**Cymhariaeth**—cystadliad.

**Cymhell** (cym-pell; Ll. *compello)*—gwahodd, galw, cynyg, gorfodi. Y meddylddrych a gyfleir gan y geiriau hyn ydyw awydd ar fod i eraill feddu rhywbeth nad yw ganddynt, ond gwahaniaethant gyda golwg ar raddau yr awydd.

**Cymhendod.** Gwel FFRAETHINEB.

**Cymhwysder**—medr, cyrhaeddiadau. Bwriedir *cymhwysder* er gwasanaethgarwch; *cyrhaeddiadau,* er addurn; trwy y naill gwnawn ein hunain yn ddefnyddiol; trwy y llall, yn foddhaol. Y mae meddu llaw-ysgrif dda yn *gymhwysder* i lanw swydd ysgrifenydd; y mae arluniaeth yn un o'r *cyrhaeddiadau* cyfaddas i ŵr ieuanc.

**Cymhwysder**—cynneddf, priodoledd.

**Cymhwyso**—cyfaddasu, cymmesuro, ad-drefnu. *Cymhwyso* ydyw dyfod yn feddianol ar ansoddau neillduol; *cyfaddasu* ydyw darparu yr *ansoddau* mwyaf boddhaol; byddwn yn *cymhwyso* ein hunain at y peth; yn *cyfaddasu* y peth i ni ein hunain. Y mae addysg dda yn *cymhwyso* dyn i lanw llawer o swyddi; y mae

meddwl boddlongar yn rhwydd yn *ymgyfaddasu* at unrhyw beth a ymgynygia i'w sylw. Wrth *gydmaru*, *cyfaddasu*, ac *ad-drefnu*, cawn fod y blaenaf yn golygu cadw yn gystal a dodi mewn trefn, tra nad yw yr olaf yn golygu ond rhoddi mewn trefn. Bydd dynion yn *cyfaddasu* pethau ar gyfer y naill a'r llall; ond byddant yn *ad-drefnu* pethau iddynt eu hunain neu eraill.

**Cymmod**—cytundeb, heddwch, cydgord.

**Cymmun** (cy-ymun; Ll. *communio)*—Swper yr Arglwydd, sacrament. Gelwir yr ordinhad hon yn *Swper yr Arglwydd* oblegyd ei sefydlu ganddo, noson cyn ei groeshoeliad, yn nghwmni ei ddisgyblion; *cymun* am mai hwn ydoedd yr arwydd gweledig o undeb rhyngddo ef â hwynt, a rhwng y naill a'r llall o honynt. *Sacrament* ydyw llŵ—cyffelyb i'r hwn a wnai y milwr Rhufeinig mewn ffordd o ddatgan ei ffyddlondeb i'w deyrn a'i wasanaeth.

**Cymmwynas**—tro da, caredigrwydd, ced.

**Cymmydog**—cyd-drigianydd, cyfagosydd.

**Cymmydogaeth**. Gwel Ardal.

**Cymmyn**—rhôdd, ewyllys, testament.

**Cymmyredd**—parch, edmygedd.

**Cymmysgu**—cyboli, trybola, dyrysu.

**Cynaniad**—parabliad, llafariad, traethiad.

**Cynddeiriog** (cynddar)—gorphwyllog, gwallgof, gwyllt, ffyrnig.

**Cynffon** (cyn-ffon)—llosgwrn, cloren, cwt, rhonell.

**Cynffoni**—gwenieithio.

**Cynhebrwng**. Gwel Angladd.

**Cynhen** (cyd-ten; Ll. *contenio)*—ymryson, ymrafael, anghydfod, cweryl, cynhwrf.

**Cynhes**. Gwel Gwres.

**Cyni** (cy-yni)—ing, gwasgfa, caledi.

**Cynllwyn**—llechu, erlyn, cydfwriadu, brâd-lofruddio.

**Cynnadledd**—cynghorfa, cymanfa.

**Cynnal**—attegu, dal i fyny, cynorthwyo, cefnogi, myntumio.

**Cynnar** (cyn-dâr)—boreu, prydlawn, amserol.

**Cynneddf** (cyd-ddeddf)—cynelfen, teithi, greddf, anian, natur.

**Cynneddf**—cynnysgaeth, talent.

**Cynnefin** (cyd-defin)—arferol, adnabyddus, cartrefol.

**Cynnenid** (cyn-hen? cyd-hanu)—greddfol, naturiol, cynnwynol.

**Cynneu** (cynne: Ll. *accendo)*. Gwel Ennyn

**Cynnil** (cyn-dil)—diwastraff, diafrad.

**Cynniwair**. Gwel Crwydro.

**Cynnog** (cunnog)—ystên, crwc, piser.

**Cynnorthwy**—help, atteg, cefnogaeth.

**Cynnrychioli**—dirprwyo.

**Cynnull**—(cyd-dull)—casglu, crynhoi.

**Cynnulleidfa** — tyrfa, cymanfa, cyfarfod, cynhadledd, synod, senedd, cynghor.

**Cynnwys** (cyd-dwys?)—dal, cefnogi, goddef, caniatau.

**Cynnwys**—cryno, cyfyng, cul.

**Cynnyddu** (cyn-dydd)—mwyhad. Gwel CHWANEGU.

**Cynnyg** (cyn-dyg)—bwriad, amcan, cais.

**Cynnyrch** (cyn-dyrch)—ffrwyth, twf, daill.

**Cynnyrchu**—gwneyd, ffurfio, creu. Rhoi bod i beth yw y meddylddrych a gyfleir gan y geiriau hyn. *Gwneyd* yw y mwyaf eang a chyffredinol; *ffurfio* ydyw *gwneyd* yn ol cynllun a threfn; *cynyrchu* ydyw dwyn i oleuni neu fod; *creu* yw dwyn i fod trwy ddefnyddio gallu neillduol. *Gwneyd* yw y mwyaf syml; gofyna *ffurfio* fwy o ofal a sylw a mwy o ymdrech; *cynyrchu* a gymer amser a llafur. Beth bynag a roir gyda'i gilydd fel ag i fod yn rhywbeth arall a *wneir; gwneir* cadair; *ffurfia* y crochenydd lestri o glai; *cynyrchir* tân yn fynych trwy rwbio dau bren yn eu gilydd. *Creu* sydd weithred o allu arbenig, heb ddefnyddiau, ac heb yr un ffurf weledig o weithredu.

**Cynnysgaeth**—gwaddol, cyfran, agweddi.

**Cyntaf** (cyn)—blaenaf, penaf, buanaf, cyflymaf.

**Cyntedd** (cyn-tedd)—cwrt, buarth, porth, cynnor.

**Cyntun** (cynt-hun)—byrgwsg, hunell.

**Cyplu** (cwpl)—cyfuno, ieuo, clymu.

**Cyrbibion** (cur-pib)—ysgyrion, ysbilion, manion.

**Cyrch** (cur)—craidd, canolfan, rhuthr.

**Cyrchu**—creiddio, ymosod ar, neshau, rhuthro ar.

**Cyrhaedd** (cwr-haedd? haedd?)—cael, caffael, dilyn, enill, haeddu. Gwel CAEL.

**Cyrrith** (cwr-rhith)—crintach, cybyddlyd, cynil.

**Cysawd**—cyfundrefn, dosbarth.

**Cysgod** (cy-ysgawd; Gr. *scotos*)—nawddle, diddosle, gwasgod, rhith, eiliw.

**Cysgu**—huno, ymbeidio, gorphwys, hepian, cyntun. *Huno* sydd ddull esmwyth o gysgu; *hepian* yw tueddu at neu ddechreu cysgu; a chael *cyntyn* yw *cysgu* am enyd.

**Cyssefin** (cyssaf)—cyntaf, cynhenid, cynnwynol, gwreiddiol.

**Cyssegr** (cys-segr; Ll. *sacrum)*—lle sanctaidd, glwysfa, gleinfa, noddfa.

**Cysson** (cys-son)—cydsain, cydlais, cydweddol.

**Cystadlu** (cyd-ystâd, cyd-ystadl) — cydymgeisio, cystadleddu, dadleu, cymharu.

**Cystal**—cyfartal, cydradd, gogymaint, cyfuwch.

**Cystudd** (cys-tydd)—cûr, gofid, cyni, saldra, trallod, gorthrymderder. Gwel GOFID.

**Cystwyo** (Ll. *castigatio)*—ceryddu, cosbi, meistroli.

**Cysur**—diddanwch, dyhudded, llonder.

**Cyttun** (cyd-tynu? cyd-un)—unfryd, cydunol, tawel, tangnefeddus, cyfun.

**Cythraul** (cy-traul? cythru-gwawl)—ysbryd drwg, ellyll, diawl, diafol, satan, gwrthwynebydd.

**Cythru**—rhuthro, cyrchu, gwrthwynebu.

**Cythrudd**—trallod, blinder, dychryn, gofid.

**Cythrwfl**—terfysg, cyffro, cynhwrf.

**Cywain** (cy-gwain)—cludo, arwedd, arwain, cario.

**Cywair**—trefn, cytundeb, tymer.

**Cyweirio**—diwygio, trefnu.

**Cywilydd** (cy-gwilydd; cy-gwyledd?) — gwaradwydd, gwarth, gwarthrudd, achlod. Gwel GWARTH.

**Cywir** (cy-gwir). Gwel GWIR.

**Cywrain** (cy-gwrain; Ll. *accuratus)*—celfydd, medrus, campus, hwylus, manwl.

# Ch

**Chwa**—awel, chwyth.

**Chwaen**—damwain, enyd, cyfleusdra.

**Chwaeth**—blas, arogl.

**Chwaeth**—athrylith. *Chwaeth* yw y gallu i fwynhau pleser oddiwrth wrthddrych: *athrylith* yw y gallu i gyrhaedd rhyw amcan. Dywedir fod gan un *chwaeth* at gerddoriaeth; y sawl a wnant gynydd mawr mewn gwybodaeth o'r gelfyddyd a feddant *athrylith*.

**Chwai**. Gwel CYFLYM.

**Chwalu**—taenu, gwasgaru, hau.

**Chwanegu**—cynyddu, mwyhau, tyfu. Myned yn fwy yw y drychfeddwl yn y geiriau hyn. *Cynyddir* yn raddol neu sydyn; *tyfu* sydd waith graddol; *cynyddu* sydd waith naturiol neu gelfyddydol; *tyfu* sydd naturiol; *cynydda* golud, ond ni *thyf*. Dywedir am blentyn ei fod yn *tyfu* o ran maint, ond yn *cynyddu* mewn gwybodaeth, &c. *Chwanegu* a olyga *gynyddu* oddi allan.

**Chwareu**—difyru, prancio, campio.

**Chwedl**—dywediad, ystori, hanes, ffug-hanes. *Chwedl* sydd allegol; mae ei gweithredoedd yn naturiol, ond y gweithredyddion yn ddychymygol; mae yr *ystori* yn ffugiol, ond nid yn ddychymygol. Gellir cymeryd bron bob person a gwrthddrych mewn natur i fod yn weithredyddion mewn *chwedl*, ond mewn *ystori* nis gellir defnyddio ond dynion ac ysbrydion goruwchnaturiol—"*chwedlau* Æsop," "*ystori* doctor y Bendro." Mae yr *ystori* mewn cydmariaeth â'r *ffug-hanes* yn fath o ffugiad syml, heb gynwys ond ychydig bersonau yn y drama, tra medda y *ffug-hanes* amrywiaeth mawr o'r cyfryw: ceir fod yr *ystori* yn fwy syml, ac heb lawer o gynlluniau, tra mae'r *ffug-hanes* yn orlawn o'r cyfryw, ac yn creu y dyddordeb mwyaf wrth fyned yn mlaen.

**Chweg**—melus, peraidd, hyfryd.

**Chwennych**. Gwel CHWANT.

**Chwerthin** (chwarth). Gwel GWENU.

**Chwerw** (chwar)—llym, sarug.

**Chwibl**—sûr, egr, chwerw

**Chwilio**—ceisio, ymofyn.

**Chwim**. Gwel CYFLYM.

**Chwithig**. Gwel CARNBWL.

**Chwyl**. Gwel CWRS.

**Chwythu**. Gwel AWEL, ANADL.

**Chwyf**—symud, ysgog, cyffro.

# D

**Da**—daioni. Y mae'r *da* a wnawn yn cael ei benderfynu gan duedd y weithred, ac mae ei *daioni* yn cael ei benderfynu gan ddyben y weithred. Daw pob *da* oddiwrth Dduw, yr hwn y mae ei *ddaioni* yn ddiderfyn. Mae *da* yn wrthwynebol i ddrwg, a *daioni* i ddrygioni.

**Da**—lles, mantais. Nid oes yr un cysylltiad rhwng y person a wnel *ddaioni*, neu yr hwn i ba un y gwneir ef; ond gyda *lles* mae y naill a'r llall mewn golwg. Dywedir am un ei fod yn gwneyd llawer o *ddaioni*, neu yn gwneyd *lles* i hwn a'r llall. Nid oes a wnelo *daioni* a'r dull neu gyflwr y person, neu y peth; ond y mae â wnelo *lles* âg amgylchiadau neillduol person. Y mae ymarferiad corphorol yn *dda* i bawb, ond yn *lles* neillduol i'r rhai sydd yn cadw lawer i mewn. Nis gall dyn dderbyn *lles* oddiwrth gyffyriau heb eu cymeryd. Wrth gydmaru *daioni* â *mantais* cawn fod y blaenaf, *da*, yn *dda* i bawb, ond *mantais* sydd mewn rhan, ac o dan amgylchiadau neillduol. Gall dyn feddo lawer o *fanteision* dderbyn ond ychydig *ddaioni* na *lles* oddiwrthynt.

**Da**—meddianau, eiddo. Yr hyn a gynyrcha fwynhad yw *da*, a gwrthddrych y *daioni* a olygir wrth y *meddianau* a'r *eiddo*. Nid

y rhai a feddianant *dda* y byd hwn yn wastad yw y rhai dedwyddaf: nid yw *meddianau* ar y goreu ond tra anwadal. *Eiddo* yw yr hyn a feddiana dyn—yn gyfiawn neu anghyfiawn.

**Dad** sydd flaenddodiad yn cyfateb i *di*, *an*, *ad*, *gwrth*; a chan y ceir y geiriau a ddechreuant â'r cyfryw flaenddod yn eu priodol leoedd, ni nodir mo honynt yma.

**Dadl**—rheswm, prawf. Gwel RHESWM.

**Dadleu**—ymryson, ymgecru, cweryla.

**Dadleu**—ymgynghori. *Dadleu* a olyga wahaniaeth mewn golygiadau; *ymgynghori* a olyga gymeryd i ystyriaeth y cyfryw olygiadau. Y mae yn iawn i ddyn gael *dadleu* dros ei farn neillduol ei hun, ond mewn achos dyrys ac anhawdd mwy diogel yw iddo *ymgynghori* âg eraill o wahanol farn cyn penderfynu.

**Dadrys**—dattod, rhyddhau.

**Dadwreiddio**—llwyr ddifa, alltudio.

**Dangos**—nodi, nodi allan, dynodi, arddangos. *Dangos* yw y gair cyffredinol yma, ac nid yw y lleill ond gwahanol ddulliau o *ddangos*. *Dangosir* trwy roddi rhywbeth o flaen llygad arall; mae *nodi allan* yn fwy pendant. *Dangosir* i ni lu o bobl ar yr heol, ond *nodir allan* ryw un hynod o honynt. *Dangoswn* lyfr i ddyn, ond *nodwn allan* ryw geinion neillduol ynddo. Y mae llawer o bethau, o ganlyniad, a ellir eu *dangos*, ond nad ellir eu *nodi allan*: *dengys* dyn ei hun, ond ni *noda allan* ei hun. Y mae *dangos* yn weithred un ymwybodol neu anymwybodol; *nodi allan* yn waith un ymwybodol yn unig; *dynodi* sydd waith un anymwybodol. Personau neu bethau a *ddangosant*, personau yn unig a *nodant allan*, a phethau yn unig a *ddynodant*. Yr hyn a *ddengys* a wasanaetha fel prawf; yr hyn a *noda* a wasanaetha fel rheol neu arweinydd i wahaniaethu. *Dangosir* y maes lle cwympodd llu o ddewrion yn y frwydr, a *dynodir* beddau y cadfridogion gan gôf-feini.

**Dangos**—mynegu, amlygu, dinoethi. *Mynegir* yn benaf trwy eiriau, ac *amlygir* mewn amryw ddulliau; *dinoethir* peth a fuasai o'r blaen yn guddiedig.

**Dail**—dalenau. Defnyddir y gair *dail* am yr hyn a geir ar y coed yn gystal a'r hyn a gyfansodda lyfr, ond cyfyngir *dalenau* at lyfr.

**Daioni**—lles, mantais. Y mae *daioni* yn annibynol ar y person a'i cyflawna, neu y sawl i ba un y gwneir ef, ond y mae a fyno *lles* â'r naill a'r llall. Felly, dywedwn am ddyn caredig ei fod yn gwneyd llawer o *ddaioni*, neu yn gwneyd llawer o *les* i hwn a'r llall. Tra y cymer *daioni* i fewn bobpeth yn dal cysylltiad â dyn neu beth, cyfyngir y gair *lles* i amgylchiadau allanol dyn, megys ei iechyd, ei gyflwr arianol, &c., neu ei berson: llafuriwn i *leshau* eraill: y mae ymarferiad corphorol yn dda i bawb, ond yn dra *llesol* i'r rhai sydd yn cadw i fewn. *Daioni* yw yr

hyn sydd dda i bawb: *mantais* yw yr hyn sydd yn *ddaioni* mewn rhan, neu o dan amgylchiadau neillduol: y mae yn *fantais* fawr i ddyn at ddysgu i gael cynorthwy llyfrau *da*: gall y *manteision* goreu brofi yn ddrwg yn lle yn *dda* onis defnyddir hwy yn briodol.

**Dal** (Arm. *daled)*—gafaelyd, cydio, cipio, ysgubo. *Dal* neu *gafaelyd* yw y meddylddrych a osodir allan yn y geiriau hyn oll, ond fod y lleill yn cyfeirio at ddull y weithred. *Cydio* a olyga wneyd yn dyner: *cipio* ac *ysgubo* yw gwneyd gyda thrais a chyflymder. Byddwn yn *dal* peth rhag iddo gwympo neu ddianc; *cipiwn* beth pan yn ofni na chawn ef mewn modd arall, ac wedi ei gael byddwn yn *dal* ein *gafael* ynddo.

**Dal**—cadw, meddianu. Gweithred anianyddol yw *dal*, yn gofyn grym aelodau; *cadw* yw *dal* o dan delerau neillduol; ond *meddianu* yw *dal* fel eiddo dyn ei hun. Y mae'r deiliad yn *dal* fferm, ond wedi ei phrynu y mae yn *cadw meddiant* o honi. Gallwn *ddal* trwy drais, twyll, neu hawl; gallwn *gadw* trwy rym neu hawl; ond *meddienir* yn unig trwy hawl.

**Dall**—tywyll, aneglur. *Dall* a olyga ddiffyg yn y rhanau i weled; *aneglur*, diffyg yn yr edrychydd neu y gwrthddrych: *dall* a ddefnyddir mewn ystyr anianyddol yn benaf; *tywyll* ac *aneglur* mewn ystyr anianyddol a moesol. Gall dyn fod yn *ddall* o ran ei olygon natnriol, ond yn oleu mewn ystyr naturiol, a'r un modd gall dyn a dau lygad ganddo fod yn gwbl *dywyll* o ran ei feddwl a'i ysbryd.

**Damcaniaeth**—golygddysg, gwyddor. *Damcaniaeth* yw ffrwyth y darfelydd, ac felly nis gellir ei ddwyn i brawf neu ymarferiad, tra mae *gwyddor* yn gyffredin yn ffrwyth myfyrdod. Gwahaniaethir *gwyddor* oddiwrth gelfyddyd weithiau er dangos ei hanigonolrwydd i wneyd dyn yn gyflawn; ond nid oes i *ddamcaniaeth* fodolaeth wirioneddol o gwbl. Nid yw y Cristion *gwyddonol* fawr o werth, mwy na'r sawl sydd ganddo ddim ond *damcaniaeth* noeth am grefydd.

**Damsang**. Gwel SATHRU.

**Damwain** (dam-gwain? dam-chwaen) — digwyddiad, canlyniad, achlysur. Golyga y geiriau hyn beth bynag a gymer le yn annibynol ar ein bwriadau. Y mae *digwyddiad* yn ei ystyr gyfyng yn cau allan y meddwl o siawns; *damwain* yn cau allan y meddwl o fwriad: gellir rhagflaenu neu ochel *damweiniau*, ond nid felly gyda *chanlyniadau*: ni chymerai lluaws o *ddamweiniau* le gyda gofal priodol. ond mae i bob gweithred ryw *ganlyniad*, yr un fath ag y mae i bob achos ei effaith. *Damwain* sydd *ddigwyddiad* anghyffredin: *achlysur* sydd ddigwyddiad teuluaidd neu gyffredin. Y mae *digwyddiadau* yn ymwneyd â chenhedloedd yn gystal a phersonau unigol: *damweiniau* yn effeithio ar bersonau neu bethau yn neillduol neu gyffredinol.

**Danfon** (dy-anfon)—cludo, trosglwyddo, gyru. *Danfon* a *gyru* a olyga wneyd defnydd o rhyw gymaint o allu neu drais: gellir *danfon* a *gyru* yn uniongyrchol neu anuniongyrchol: *danfon* dyn oddiwrth y drws; *gyru* llythyr. Mae *cludo* yn golygu fod dyn yn symud y gwrthddrych ei hun; *cludir* newyddion gan genad neillduol; *trosglwyddir* pethau trwy gyfrwng gweithredyddion eraill, megys llongau, &c., o'r naill wlad i'r llall. Ni ddatgana *cludo* ond yn unig y weithred o symud: *trosglwyddo* a awgryma yn mhellach y lle a'r pellder. *Trosglwyddir* nwyddau o'r America i'n porthladdoedd, a *chludir* hwy i'r ystordai.

**Danteithiol**—blasus, moethus, amheuthyn. Y mae *danteithion* yn dibynu i raddau ar farn a chwaeth y sawl a'i profant: *blas* a arwydda yr awch â pha un y cymerir unrhyw beth: gall y *danteithion* goreu fod yn *ddiflas* i'r sawl na feddo archwaeth, ac o'r tu arall gall yr ymborth mwyaf cyffredin brofi yn *ddanteith-fwyd* o'r fath mwyaf *blasus* i'r newynog, yn enwedig os yn *amheuthyn* iddo.

**Darbod** (dar-pod—bod?)—darparu, cyflenwi, ceisio. *Darbod* a *darparu* ydynt weithredoedd yn dal cysylltiad â'r dyfodol; *cyflenwi* a *cheisio* yn fwyaf uniongyrchol a'r presenol. *Darperir* llety ar gyfer dieithrddyn, *ceisir* help mewn angen, *cyflenwir* tŷ â dodrefn. Y mae *darbod* yn golygu gwneyd amcan-gyfrif; *ceisio* yn golygu llafur a threfn, ac mae *cyflenwi* yn golygu barn a doethineb i ddewis.

**Darbwyllo**—argyhoeddi. Mae yr hyn a *argyhoedda* yn rhwymo dyn, a'r hyn a'i *darbwylla* yn ei atdynu. Rheswm sydd yn *argyhoeddi:* erfyniadau a dylanwad personol sydd yn *darbwyllo:* yn y naill y deall sydd yn penderfynu; yn y llall y dychymyg neu y meddwl. *Argyhoeddir* ni mewn materion o gred neu ffydd; *darbwyllir* ni mewn materion o gred neu ymarferiad. *Argyhoeddir* ni fod peth yn wir neu au; *darbwyllir* ni ei fod yn iawn neu gam, yn fanteisiol neu i'r gwrthwyneb. Y mae gwirioneddau sylfaenol Cristionogaeth yn gofyn am ein *hargyhoeddiadau* dyfnaf, a dylem gymeryd ein *darbwyllo* o barth gwirionedd pethau mwy tywyll ynddi.

**Darfelydd** (dar-mal)—dychymyg, crebwyll. *Darfelydd* a ddug wrthddrychau i sylw y meddwl; *crebwyll* yw'r gallu a gyflwyna ddelwau pethau: nid oes a wnelo *darfelydd* â natur pethau; ond cais *crebwyll* nodi allan debygolrwydd rhyngddynt, a chael copi o honynt. Mae'r *darfelydd* yn brysur pan yn cysgu—yn ffurfio breuddwydion; ond gweithreda y *crebwyll* pan fo'r galluoedd meddyliol mewn llawn waith. Ymdraffertha'r *darfelydd* â phethau distadl, israddol, fyddo yn bresenol i'r synwyrau: ymgwyd y *crebwyll* uwchlaw y cyfryw—i fyd yr ysbrydoedd ac i amser dyfodol. Mae eisiau rhyw gymaint o *ddarfelydd* i gynllunio dodrefnyn newydd; ond *crebwyll* y bardd yn unig a ddesgrifia y mawreddog a'r pell.

**Darfod**—gorphen, cwblhau, terfynu. Yr ydym yn *cwblhau* peth trwy barhau i weithio wrtho: yr ydym yn *gorphen* neu *ddarfod* trwy roddi y cyffyrddiad diweddaf iddo: yr ydym yn *terfynu* trwy roddi pen ar yr hyn na ddylai barhau. Byddwn yn *terfynu* ymrafaelion, &c. Dechreua rhai lawer o bethau heb *gwblhau* dim. Ni cheir gan bobl anwadal *orphen* dim.

**Darfod**—marw, dadfeilio. Y mae *darfod* yn golygu mwy na *marw;* oblegyd tra na chynwysa yr olaf ond diwedd ar fywyd anifeiliaidd, ac mewn ystyr ffugyrol, palliant bywyd mewn llysiau, &c., mae y blaenaf yn cyfeirio at lwyr ymddattodiad sylweddau, fel ag i golli eu hunaniaeth. Nid yw pob peth, o ganlyniad, sydd yn *darfod* yn *marw*, er fod pobpeth sydd yn *marw*, trwy hyny i raddau yn *darfod*. Dywedir fod pren yn *darfod*, er nad yw yn *marw:* dywedir fod pobl yn *marw* neu yn *darfod;* ond gan fod *darfod* yn golygu mwy na *marw*, y mae yn bosibl i'r un peth *farw* a pheidio *darfod*. Mae planhigyn yn *marw* pan y cyll ei allu llysieuol; ond os try ei sylwedd yn llwch, yna mae yn *darfod*. Y mae *darfod* yn golygu y diwedd; *dadfeilio* yw y dull y dygir hyny oddi amgylch; y mae pethau yn hir yn *dadfeilio*, ond wedi *darfod* nid ydynt mwy yn bodoli: gall peth *ddadfeilio* heb *ddarfod*, a *darfod* heb *ddadfeilio*.

**Darganfod**—cael allan, dyfeisio. Ceir *allan* bethau nad ydynt yn bod yn y ffurfiau y cenfydd dyn hwynt: *darganfyddir* pethau ydynt yn bodoli mewn cyflwr cyflawn neu orphenedig: *dyfeisir* pethau a wneir o'r newydd. Y mae crebwyll a diwydrwydd yn angenrheidiol er *cael allan* neu *ddyfeisio;* craffder a threiddgarwch i *ddarganfod*. Y gweithiwr sydd yn *cael allan*, y peirianydd yn *dyfeisio*, a'r anturiaethwr yn *darganfod*. Nid yw y gwahaniaeth rhwng *darganfod* a *dyfeisio*, fel y sylwa Trench,* ond ychydig iawn a phrin i'w weled ar yr olwg gyntaf. Ond profer hwy yn fanwl, trwy gymhorth engreifftiau, a chanfyddir ar unwaith nas gellir defnyddio y naill am y llall mewn un modd; ond, o'r tu arall, fod egwyddor fawr yn gorwedd wrth wraidd y gwahaniaeth. Fel hyn soniwn am y *ddyfais* o argraphu, am *ddarganfyddiad* America. Symuder y geiriau hyn, a dyweder, er esiampl, am *ddyfeisiad* America, a chwi a ganfyddwch ar unwaith mor anmhriodol yw yr iaith. A phaham? Am na ddygodd Columbus i fod yr hyn nad oedd mewn bodolaeth o'r blaen. Yr oedd yr America yno cyn iddo ef ei datguddio i lygaid Ewropeaidd; ond yr hyn oedd o'r blaen, efe a'i dangosodd; efe a dynodd y llen a'i gorchuddiai—darganfyddodd hi. Yr un modd y dywedwn i Newton *ddarganfod* deddf dysgyrchiad. Ond i Gutenburg, neu i bwy bynag arall y disgyn yr anrhydedd o *ddyfeisio* y gelfyddyd o argraphu; gwnaeth ef rywbeth i fod nad oedd yn bodoli o'r blaen. Yr un modd *darganfyddodd* Harvey gylchrediad y gwaed; ond Watt

* "The Study of Words," p. 207.

a *ddyfeisiodd* yr agerbeiriant; a byddwn yn gwneyd gwahaniaeth priodol pan yn sôn am *ddyfeisiadau* celfyddyd, a *darganfyddiadau* gwyddor."

**Darlith**—llith, gwers, pregeth.

**Darlun**. Gwel EILUN

**Darogain**—darmain, prophwydo, rhagfynegu, dewinio. *Rhagfynegu* yw y mwyaf eang ei ystyr o'r geiriau hyn: gallwn *ragfynegu* am bethau cyffredin, er nas gallwn *brophwydo* am ddim byd pwysig: *rhagddweyd* sydd ddawn gyffredin, a gellir gwneyd hyny trwy ddyfaliad neu gyfrif syml, ond mae *prophwydo* yn gofyn dawn neillduol ac uwchraddol. Y mae *darogan*, ar lafar gwlad, yn golygu *rhagddweyd* am rywbeth y byddo drwg neu aflwydd yn gysylltiedig âg ef.

**Darostwng**—iselu, cyfyngu, tynu i lawr.

**Darostyngedig**—agored, îs-wasanaethgar.

**Dawn**—cynysgaeth, talent. Mae *dawn* a *chynysgaeth* yn golygu rhywbeth a roddir: *dawn* sydd rôdd naturiol neu oruwchnaturiol: *cynysgaeth* sydd rôdd naturiol yn unig. Sonir yn y Beibl am amryw *ddoniau*, megys prophwydo, &c. Mae rhai wedi eu breintio â *dawn* ymadrodd; eraill wedi eu *cynysgaeddu* â galluoedd neillduol eraill. Mae *dawn* yn rhywbeth a feddir yn annibynol ar bob ymgais o'r eiddom ein hunain; ond ni *chynysgaeddir* ni âg unrhyw alluoedd nad ellir eu gwella trwy ymarferiad. Mae *talent*, mewn rhan, yn naturiol, ac mewn rhan i'w chyrhaedd trwy ymgais. Medda un *dalent* at farddoniaeth, naill ai yn naturiol ai ynte trwy ymarferiad a phrofiad, felly mae talent yn *ddawn* neu *gynysgaeth*, ond yn aml ar wahân i'r naill a'r llall. *Dawn* a *thalent* ydynt gymhwysiadol at bethau corphorol ac ysbrydol: *cynysgaeth* at bethau corphorol neu feddyliol. Y mae gwroldeb, crebwyll cryf, &c., yn *ddawn* yn gystal a *chynysgaeth*, a phan yr arddangosir y cyfryw grebwyll mewn barddoniaeth er esiampl, dywedir fod gan ei berchen *dalent*.

**Dawn**—(Gr. *danos)*—rhôdd, anrheg, rhinwedd, awen, gras, athrylith, talent. Gwel ATHRYLITH.

**Dawr**—gofalu, malio, pryderu.

**Deall** (de-gall). Gwel AMGYFFRED.

**Dechreu** (de-creu) — cychwyn, gosod ar droed. *Dechreu* mewn cysylltiad âg amser, *cychwyn* mewn cysylltiad â lle.

**Dedryd neu dedfryd** (edfryd? ded-bryd)—rheithfarn, dyfarniad. Gwel COLLFARNU.

**Dedwydd**—ffortunus, ffodus.

**Dedwyddwch** (dy-ad-gwydd)—gwynfyd, hawddfyd, dywenydd.

**Deddf** (dedd?)—cyfraith, ystatud.

**Defnydd** (defn; Arm. *dannedd)*—mater, sylwedd, elfen. *Mater* yw yr oll a gyfansodda y byd gweledig ar wahan i'r byd ysbrydol, neu yr oll y gellir meddwl am dano, ac felly mae *mater* yn groes i feddwl. Dywedir fod y byd wedi ei wneyd o *fater*, ond nid o *ddefnydd;* o'r tu arall, y mae *defnyddiau* yn gynwysedig o'r rhanau neillduol hyny o fater a wasanaethant er cynyrchu gwrthddrychau: y mae tŷ, neu fwrdd, yn gynwysedig o *ddefnyddiau* yn gymaint a'u bod yn waith celfyddyd, ond y mae pren neu anifail yn gynwysedig o *fater* am eu bod yn gynyrchion natur. Mewn ystyr foesol *mater* mewn araeth ydyw yr hyn a ddeillia oddiwrth yr awdwr, ond y *defnyddiau* yw yr hyn a dderbynia oddiwrth arall.

**Deffro** (dy-effro)—dihuno, dadebru.

**Deheuig**—medrus, celfydd.

**Deheurwydd**—medrusrwydd, gallu. Math o *allu* yw *deheurwydd;* gellir dyfod i feddiant o *ddeheurwydd*, ond mae *gallu* yn naturiol; gallwn gael *gallu* i unrhyw raddau, ond *deheurwydd* a *medrusrwydd* ydynt raddau pendant o *allu.* Er iawn lywodraethu gwlad, dylai fod y tywysog, neu ei swyddogion, yn *alluog;* dylai fod *medrusrwydd* ar ran y sawl yr ymddiriedir trefniadau y llywodraeth iddynt, a *deheurwydd* ar ran y sawl sydd i'w cario allan. Y mae *deheurwydd* yn rhoddi osgedd o esmwythdra i bob gweithred; y mae *medrusrwydd* yn cyflenwi celfyddgarwch mewn dyfais; ac mae *gallu* yn ein cynorthwyo i weithredu gyda deall a hyder.

**Dehongli** (de-hongl)—egluro, esbonio. *Egluro* yw y gair mwyaf eang ei ystyr—nid yw *esbonio* a *dehongli* ond dulliau o *egluro.* Y mae eisiau *egluro* geiriau neu frawddegau; eisiau *esbonio* gwaith cyfan, neu ranau o hono; ac mae eisiau *dehongli* ysgrifen neu arlun arwyddocâol. Yr ieithydd fedr *egluro* geiriau, y duwinydd fedr *esbonio*, a'r hynafiaethydd fedr *ddehongli* hen ysgrifau, &c.

**Deigryn**—diferyn, defnyn.

**Deisyf** (dais; Gr. *deēsis)*—ceisio, gofyn, ymbil. Gwel Gofyn.

**Del**—pert, clws, tlws, gwych. Dynoda yr oll o'r geiriau hyn, yr hyn sydd foddhaus i'r llygad, ac o honynt *gwych* yw y cryfaf.

**Delfrydig**—tybiol, dychymygol.

**Delw.** Gwel Eilun.

**Denu** (dâu)—swyno, hoccedu, twyllo, hudo. Y meddylddrych o ddylanwad anwrthwynebol yw yr un a gyfleir gan y geiriau hyn. *Swynir* a *denir* trwy gymhorth geiriau neu ysgogiadau, a gall fod yn gyfreithlon neu ddaionus; ond y mae *hudo*, *twyllo*, a *hocedu* yn golygu arfer dylanwad anheg er cyrhaedd amcan drwg.

**Derbyn**—cydnabod.

**Dethol**—dewis, pigo allan.

**Dewr**—gwrol, eofn, hy. Gorwedd *dewrder* yn y gwaed; *gwroldeb* yn y meddwl; dibyna y naill ar natur y cyfansoddiad, a'r llall ar reswm; mae un yn fath o reddf, a'r llall yn fath o rinwedd; y mae dyn yn *ddewr* yn ol ei ddiffyg o feddwl; y mae yn *wrol* yn ol fel yr ymresymo. Gall y *dewr* a ruthra at safn y *cannon* grynu gan ofn wrth groesi y fynwent yn y nos; ond chwardd y *gwrol* at beryglon dychymygol, a pharotoa i'w cyfarfod.

**Diafol** (diawl; Gr. *diabolus;* Ffr. *diable)*—gwrthwynebwr, satan, cythraul, diafl.

**Dial**—dialu, cosbi, talu'r pwyth.

**Dianc** (dy-ang)—encilio, ffoi. Gwel ENCILIO.

**Dianc**—gochel, osgoi. Myned o afael yr hyn sydd annymunol a olygir gan y geiriau hyn; nid yw *dianc* yn awgrymu sut y gwneir hyn; ond mae *gochel* ac *osgoi* yn awgrymu y moddion a ddefnyddir: *diengir* o berygl; *osgoir* ymchwiliad ac erlyniad. Mynych *diengir* yn rhagluniaethol, ond mae *gochel* ac *osgoi* yn ffrwyth ein medr ein hunain. Y mae *gochel* ac *osgoi* yn golygu dyfais a medrusrwydd—y diweddaf fwy na'r blaenaf. Y mae'r lleidr yn *ochelgar* rhag cael ei ddal, ac yn *osgoi* y cwestiynau a roddir iddo gan y barnwr trwy atebion amwys.

**Diareb**—gwireb, dammeg. Gwel ARALLEG.

**Dibaid**—didor, diflino, diseibiant.

**Dibetrus**—diamheuol, anwadadwy.

**Dibwys**—diwerth, disylwedd.

**Dibyn**—serth, llechwedd, gallt, llethr. Gwel GALLT.

**Dibynu**—hongian, crogi, gorphwys.

**Dichell**—ystryw, hoced, ystranc, cast, tric.

**Dichellgar**—bradwrus.

**Didwyll**—diddichell, diniwed.

**Dieithr** (dy-eithr). Gwel ESTRON.

**Dienoed**—dysbaid.

**Difa**—dinystrio, distrywio, dyfetha, afradu. Mae yr hyn a gâ ei *ddifa* wedi ei golli i bob pwrpas; yr hyn a *ddyfethir* sydd anghymwys i unrhyw amcan; *difa*, felly, sydd foddion i *ddyfetha*. Pan y câ ymborth ei *ddifa* gwasanaetha yr hyn yr amcenir ef iddo, ond pan ei *dyfethir* nid etyb unrhyw ddyben; ac mae hefyd yn anghymwys at unrhyw amcan. Mewn ystyr ffugyrol y mae *difa* yn gyfystyr âg *afradu;* golyga y cyntaf ddihanfodi, a'r diweddaf gam-ddefnydd: *afradu* yw *difa* yn ddiles. Mae llawer o amser yn cael ei *ddifa* i gwyno heb achos; ond mae y diogyn yn *afradu* ei amser heb ystyried ei werth.

**Diflanu**—gwywo, myned o'r golwg. Nid yw *myned o'r golwg* yn

awgrymu dim gyda golwg ar y dull; *diflanu* yw gwneyd hyny yn gyflym. A phethau *o'r golwg* yn raddol neu gyflym; *diflanant* yn gyflym, *gwywant* yn fwy graddol. Pob gwrthddrych a symuda neu a gilia ä *o'r golwg*, ond *diflana* goleuni y fellden ar darawiad: *gwywa* y blodeuyn a *diflana* ei degwch.

**Difrio**—difenwi, cablu, athrodi.

**Difrodi.** Gwel ANRHEITHIO.

**Difyr** (di-myr: dy-byr)—diddan, hyfryd, llawen, llon, digrif.

**Difywyd**—diog, marwaidd, diegni, swrth.

**Diffeithwch.** Gwel ANIALWCH.

**Diffyg** (diff? Ll. *defectus*). Gwel FFAEL.

**Dig** (dy-ig)—llid, bâr, broch, soriant, digofaint. *Llid* sydd deimlad sydyn o anfoddlonrwydd; ond *digofaint* sydd radd uchel o *lid*. Gellir cyffroi *llid* trwy dderbyn cam neu anghyfiawnder, ac yn yr ystyr yma dywedir fod Duw yn "*ddigllawn* beunydd wrth yr annuwiol." Golyga *llid* radd o gasineb neu elyniaeth rhwng gwrthddrychau neu bersonau cyfartal, ond enynir *digofaint* un uwchraddol at un israddol.

**Digrif** (di-crif). Gwel DIFYR.

**Dilyn** (di-llyn; di-glyn; dy-glyn)—canlyn, dynwared.

**Dilys** (di-llys; Gr. *delos)*—diau, sicr, diddadl.

**Dillad**—gwisg, hug. *Gwisgo* a gyfeiria at y defnydd a wneir o *ddillad*. Mae Duw yn *dilladu* dyn, ac yn *gwisgo* natur a phrydferthwch, a dywedir ei fod Ef yn *gwisgo* cyfiawnder fel dilledyn.

**Dillyn**—telaid, tlws, cain.

**Dinas** (din)—tref, caer, tref gaerog. Gwel CAER.

**Dinystrio.** Gwel DIFA.

**Dioddef.** Gwel GODDEF.

**Diofal**—diystyr, difraw, difater.

**Diog**—(di-awg; di-awch)—segur, diwaith. Dynoda *segur* lai na *diog:* y sawl na wna ddim gwaith defnyddiol sydd *segur;* ond y sawl na wna ddim ond ar ei waethaf sydd *ddiog*. Nid yw bod yn *segur* yn golygu bod yn hollol ddiwaith: y mae plentyn na ddysg ei wers yn *segur*, ond yn llawn bywyd gyda'r hyn a'i boddha. Y mae'r dyn *diog* yn wrthwynebol i'r diwyd: dyn *diwaith* yw y sawl na fedda archwaeth at symud neu gyflawni unrhyw orchwyl.

**Diogel**—diberygl. Gall dyn fod yn *ddiogel* mewn tŷ ar dân, ond nid yn ddiberygl; gellir bod yn *ddiogel* mewn storm ar y môr, ond nid yn *ddiberygl*. Gellir bod yn *ddiogel* heb arfer unrhyw foddion neillduol, ond rhaid arfer moddion er bod yn *ddiberygl*.

**Dirdynu.** Gwel ARTEITHIO.

**Direidi.** Gwel DICHELL.

**Direol**—dilywodraeth, anhydyn.

**Dirgel**—cudd, cyfrinachol, tywyll.

**Dirmyg**—gwawd, gwatwar, iselhad, dianrhydedd.

**Dirnad.** Gwel AMGYFFRED.

**Dirodres**—syml.

**Dirwest** (dir-gwest; di-rhy-gwest)—ymataliad, cymedroldeb, sobrwydd, ympryd.

**Dirwy** (dir-rhwy)—iawn, fforfed, camlwrw. Gall *dirwy* fod mewn arian; *fforfed* a olyga dalu *iawn* gydag eiddo personol.

**Disberod**—crwydr, treigl.

**Disglaer.** Gwel GLOYW.

**Disgwyl.** Gwel EDRYCH.

**Disgybl**—dysgadur, ysgolor, dilynwr. Defnyddir y geiriau hyn am bersonau yn dysgu oddiwrth eraill: *ysgolor* ydyw y sawl a ddysgo elfenau gwybodaeth yn unig: *disgybl* yw y sawl a feistrola gelf neu wyddor oddiwrth arall: mae yr *ysgolor* yn wrthgyferbyniol i'r dysgawdwr, a'r *disgybl* i'r athraw. *Ysgolorion* yw plant: gall dynion mewn oed fod yn *ddisgyblion.*

**Distaw** (dys-taw; Ll. *tacilus).* Gwel ESMWYTH.

**Distryw.** Gwel DINYSTR.

**Diwedd** (diw; C. *diuadh)*—terfyn, diben, gorpheniad.

**Diwyd** (di-gwyd?)—dyfal, ymlynol, parhaus.

**Diwyg.** Gwel DILLAD.

**Diwyllio** (di-gwyll)—clirio, arloesi, glanhau, trin. Gwel AMAETHU.

**Dodrefn** (dodi-trefn)—offer, trec, celfi, taclau, addurnau.

**Doeth** (oeth?). Gwel CALL.

**Dof**—gwâr, teuluaidd, trefig.

**Dogn** (og?)—rhan, cyfran, anrheg, digon.

**Dolen** (dôl)—modrwy, tro.

**Dolur** (Ll. *dolor).* Gwel GOFID.

**Dondio.** Gwel CERYDDU.

**Dosbarth** (gos-barth?)—gradd, clâs.

**Dosbarth**—trefn, rhaniad, cyfundrefn.

**Dracht** (Gr. *tragen;* Ll. *traho)*—traflwnc, llymaid.

**Dreng** (dy-rheng?)—anfoddog, ffrom, sarug, afrywiog.

**Dringo** (dy-rhing?)—esgyn, codi. Y meddylddrych o fyned i fyny a gyfleir gan y geiriau hyn. *Codwn* o le islaw, ond *dringwn* i bwynt uwchlaw i ni, a hyny o gam i gam, ond *esgynwn* gyda llai o ymdrech. *Cwyd* yr awyren oddiwrth y ddaear ac *esgyn* i'r cymylau, ond rhaid i ddyn *ddringo* y mynydd serth.

**Drud** (dy-rhud?). Gwel COST.

**Drwg** (dy-rhwg?)—drygionus, anfad, diras. Beth bynag a achosa

dramgwydd i deimlad a syniadau bôd rhesymol sydd *ddrwg:* y mae yr awyr ac ymborth yn *ddrwg* ar amgylchiadau neillduol. Y mae bod yn *ddrygionus* yn golygu tori rhyw ddeddf foesol, ond y mae *anfad* yn radd bellach mewn drygioni. Dyn *drwg* yw y sawl a esgeuluso ei ddyledswydd; dyn *drygionus* sydd euog o droseddu deddf ddynol neu Ddwyfol; dyn *anfad* yw y sawl a gyflawno drosedd ysgeler. Y mae yr oll o'r cymeriadau hyn yn *ddiras*.

**Drwg**—niwed, anffawd, adwyth.

**Drwg-weithredwr**—troseddwr.

**Drws**—(dy-rhws ?)—dor, porth, mynedfa.

**Drych** (dry?). Gwel GOLWG.

**Dryllio** (dy-rhyll). Gwel DINYSTRIO.

**Duchan.** Gwel ATHROD.

**Duw**—Ior, Ion, Naf, Ner, y Duwdod.

**Duwiol**—dwyfol, crefyddol, duwgar. Gwel CREFYDDOL.

**Dwfn.** Gwel EIGION.

**Dwl** (dy-wl)—hurt, pendew, syn, penffol.

**Dwndwr** (dwn-twr)—dwnad, dadwrdd, cleber, murmur, baldardd.

**Dwr** (Arm. *dour;* C. *dour;* Gr. *hydor*)—gwy, aw. Gwel FFRWD.

**Dwrdio.** Gwel DONDIO.

**Dwyfol.** Gwel DUWIOL.

**Dwyn** (gwyn ?)—dygyd, cyrchu, cludo, lladrata. *Dwyn* yw cymeryd pwysau unrhyw sylwedd arnom ein hunain; *cludo* yw symud y pwysau hwnw o'r lle yr oedd—"Efe a *ddug* ein pechodau ni;" *cludir* nwyfau mewn cerbydau. *Cyrchu* yw myned i le yn gyntaf, ac yna *cludo* neu *ddwyn* oddiyno: yr hyn fo agos a *ddygir*, a'r hyn fo bell a *gyrchir*. *Dygir* llythyr i'r tŷ, neu ynte anfonir y gwas i'w *gyrchu*. Y mae *dwyn* hefyd yn gyfystyr a *lladrata*.

**Dwys** (gwys? Ll. *densus*)—difrifol, trwm.

**Dyben.** Gwel AMCAN.

**Dychryn** (dy-cryn). Gwel ARSWYD.

**Dychryn**—peri ofn. *Dychrynir* un gan berygl agos neu yn y golwg; yr hyn sydd i'w weled yn mhell a bar *ofn;* hawdd *dychrynu* plant, ond yn fynychaf gosodir *ofn* ar ddynion; *dychrynir* un gan sŵn; achosir ofn trwy fygwth; rhed un ymaith pan ei *dychrynir;* siglir un yn ei benderfyniad gan *ofn;* gellir *dychryn* anifeiliaid, ond nid peri *ofn* arnynt.

**Dychymyg** (dy-cymmyg)—dyfais, crebwyll, darfelydd, dyfaliad.

**Dydd**—diwrnod, dwthwn, goleuni. *Dydd* yw o godiad haul hyd ei fachludiad: rhoddir swm neillduol i ddyn yn y *dydd* am weithio *diwrnod* o waith.

**Dyddolwch**. Gwel ADDOLIAD.

**Dyddorol** (dyddawr)—dyddorus, dorus, difyr.

**Dyfais** (dy-mais; Ffr. *devis;* Saes. *device)*. Gwel DYCHYMYG, DARGANFOD.

**Dyfal** (dy-bal). Gwel DIWYD.

**Dyfalu**—dychymygu, darogan, dewinio.

**Dyfeisio**—ffugio, dynwared.

**Dyferyn** (dy-mer). Gwel DEIGRYN.

**Dyfetha** (dy-meth). Gwel DINYSTRIO, DIFA.

**Dyffryn** (dyfrhynt). Gwel GLYN.

**Dygasedd**. Gwel DIG.

**Dygn** (dwg)—caled, llym, llafurus, blinderus.

**Dygwyddiad**—amgylchiad, damwain, anturiaeth.

**Dygwyddiad**—terfyniad, canlyniad. Y mae a wnelo *dygwyddiad* â phethau mawrion; *terfyniad*, ymegnïon neillduol; *canlyniad* sydd a wnelo â phob peth a gynyrcha effaith. Sonir am ryfel fel *dygwyddiad;* am *derfyniad*, ymdrafodaeth, ac am *ganlyniad*, y naill a'r llall. Rhaid i ni ymbarotoi ar gyfer *dygwyddiadau* ydynt yn fynych uwchlaw ein rheolaeth; dylem ymdrechu i gael *terfyniad* llwyddianus; ein dyledswydd yw ymostwng yn ddirwgnach i'r *canlyniadau.*

**Dyhewyd**—yr ewyllys, y serch, y dymuniad, y tueddiad, defosiwn.

**Dylanwad.** Gwel EFFAITH.

**Dylanwad**—awdurdod, goruchafiaeth, rhwysg. Gallu o dan wahanol amgylchiadau a olygir yma. Y gwahaniaeth rhwng *dylanwad* ac *awdurdod* yw y medda yr olaf hawl i'r gallu a fedda, tra na fedda y llall mohono. Dibyna *dylanwad* am ei rym ar safle, dysg, uchraddoldeb, eiddo, &c , ac yn gyffredin gweithreda trwy deg, tra nad oes ar *awdurdod* eisiau dim o'r cyfryw adgyfnerthion. Y mae *dylanwad* a *goruchafiaeth* yn perthyn i bethau a phersonau: medda gwir grefydd *ddylanwad* iachusol ar y sawl a ddygir i gyffyrddiad â hi, ac yn nghalon y sant hi fedd lwyr *oruchafiaeth.*

**Dyledswydd**—dyled, rhwymedigaeth. Y mae *dyledswydd* yn awgrymu *rhwymedigaeth* flaenorol, mewn ystyr foesol: y mae dyn dan *rwymau* i ufuddhau i'w Greawdwr—ei *ddyledswydd* ydyw. Y mae genym *ddyledswyddau* i'w cyflawni fel aelodau o gymdeithas: y mae'r *dyledwr* o dan *rwymau* i gyfarfod ei ofynwyr.

**Dymuno.** Gwel CHWENNYCH.

**Dyn.** Gwel GWR.

**Dynol**—dyngarol. Sonir am yr hîl *ddynol* mewn gwrthgyferbyniad i'r greadigaeth ddireswm; *dyngarol* sydd wrthwynebol i greulon neu ddideimlad. Y sawl sydd *anynol* a osodir yn yr un

dosbarth a'r greadigaeth anifeilaidd, a'r sawl na fyddo feddianol ar *ddyngarwch* sydd ddiffygiol o un o'r elfenau mwyaf goruchel a berthyn i ddynoliaeth.

**Dynwared** (dyn-gwared)—efelychu, gwatwar. Dylanwad esiampl sydd yn peri i rai *efelychu*, a hyny am eu bod yn awyddus am feddu eu hunain yr hyn fyddo gan eraill, ond *gwatwerir* peth er difyrwch i eraill. *Gwatwar* sydd ddull isel o *ddynwared*, a *dynwared* sydd ddull isel o *efelychu.*

**Dyoddef.** Gwel DIODDEF.

**Dyoddef**—goddef. *Dyoddef* sydd berthynol i boen, ac a fodola yn annibynol ar yr ewyllys. *Goddef* sydd berthynol, nid yn unig i boen a cholled, ond hefyd i bethau, a phersonau, ac amgylchiadau yn gyffredinol, ac yn dibynu yn hollol, neu mewn rhan, ar ewyllys y gweithredydd. Nid yw y gwahaniaeth hwn, modd bynag, yn cael ei wneyd yn y Beibl, oblegyd yn fynych cawn y gair *dyoddef* yn lle *goddef*, megys "Nis *dyoddefodd* Duw iddo" (Gen. xxxi. 7); "Pa hyd y *dyoddefaf* chwi?" (Math. xvii. 17).

**Dyrchafu** (dyr?). Gwel ESGYN.

**Dyrnu** (dwrn)—curo, ffustio, panu, taro. *Curo* a arwydda barhad o *ddyrnodiau; taro* ydyw rhoddi un ergyd. *Curir* gydag amcan, ond *tarewir* yn aml trwy ddamwain. Y cryf fydd yn *curo* neu *banu*, a'r poethlyd ei dymer fydd yn *taro*. *Dyrnu* a *ffustio* a awgryma egni a pharhad y *curo*.

**Dyrys** (dy-rhys)—afrwydd, astrus, anhawdd. Gwel ANHAWDD.

**Dysg** (dy-ysg). Gwel DISGYBL.

**Dysgwyl**. Gwel DISGWYL.

**Dystaw.** Gwel DISTAW.

**Dywenydd** (dy-gwên)—hyfrydwch, llawenydd, pleser. *Pleser* sydd air penagored, ac nid yw y geiriau eraill ond dynodi graddau o *bleser; llawenydd* a *hyfrydwch* ydynt raddau uchel o fwynhad. Ceir *pleser* oddi mewn neu oddi allan, oddiwrth serch neu ymarferiad o'n dealldwriaeth; tardd *llawenydd* oddiar ymarferiad o'n serch, a *hyfrydwch* oddiwrth y naill neu y llall. Ceir *pleser* cymdeithasol neu feddyliol; *llawenydd* trwy gyfarfod â hen gyfaill; a *hyfrydwch* trwy ddilyn gwrthddrych hoff.

# E

**Eang** (e-ang)—llydan, rhydd, helaeth, maith. *Eang* yw ymestyniad i bob cyfeiriad; *maith* a *llydan*, ymestyniad mewn hyd a lled. *Helaeth* a olyga gyfanswm neu gyflawnder. Mae y tiroedd yn *eang* a'r ffordd atynt yn *faith*, ond nid yn *llydan*.

**Ebach**—cilfach, ogof, machwy, angorfa.

**Ebol** (eb-awl: C. *ebol;* Arm. *ebewl;* Gr. *pôlos;* Ll. *pullus)*—llwdn.

**Ebran** (eb-rhan: e-bran; Ffr. ac E. *bran)*—gogor, porthiant.

**Ebrwyad** (e-prwy)—ficer, prwyad, periglor, offeiriad, gweinidog. Gwel OFFEIRIAD.

**Ebrwydd** (eb-rhwydd)—cyflym, prysur, buan. Gwahaniaetha y gair *prysur* oddiwrth y lleill am nad yw yn golygu o angenrheidrwydd unrhyw symudiad lle am y gall dyn fod yn *brysur* yn ei unfan. Cyfeiria y lleill, yn fwyaf neillduol, at amser neu symudiad lle.

**Echrydus**—erchyll, brawychus.

**Echwyn** (e-cwyn)—benthyg, hur, llôg.

**Edifeirwch**—penyd, tristwch, dwysbigiad, adgno. Cyfeiria *edifeirwch* at y cyfnewidiad a gymer le yn y meddwl ar adeg neillduol; *edifarheir* am beth ond unwaith; gellir dwyn *penyd* neu hunan-gosb am y cyfryw trwy ein hoes. Gellir *edifarhau* am bethau distadl a chyffredinol; ond y mae *tristwch, dwysbigiad,* ac *adgno* yn cael eu cynyrchu trwy adgofio troseddau neillduol. *Tristwch* a olyga ofid dwfn ac o hir-barhad; *dwysbigiad* fel yr awgryma y gair sydd dristwch disymwth, ac yn myned heibio yn ebrwydd; gall *adgno* fod dros fyr amser, ond golyga ofid llymach am ryw drosedd o'r fath fwyaf erchyll ac anfad.

**Edliw**—dannod.

**Edmygu** (ed-myg)—parchu, anrhydeddu, mawrygu.

**Edrych** (ed-rhych? e-drych) — syllu, tremio, canfod, gweled, llygadu. *Tremio* a olyga gymeryd cipolwg ar wrthddrych, ond golyga *syllu* weithred o barhad. Byddwn yn *edrych* er mwyn *gweled;* ond byddwn yn *canfod* yr hyn a gynyrcha ddyddordeb moesol neu ddeallol: byddwn yn *llygadu* ar yr hyn a bâr foddhad i ryw nwyd neillduol. *Edrych* syml-ddyn ar bethau newydd er mwyn boddio ei gywreingarwch, ond nid yw yn eu *canfod.* Byddwn yn *syllu* ar bethau a gynyrcha ynom syndod, edmygedd, neu bryder. Y mae *llygadu* yn cyfleu syniad anymunol, ac fod y naill yn gwylio y llall gydag amcan maleisus.

**Edrych**—ymddangos.

**Edrych**—disgwyl.

**Edrychydd**—gweledydd, sylwedydd.

**Edryd.** Gwel ADFER.

**Edwi**—adfeilio, gwywo, nychu. Gwaith llaw dyn, megys tŷ, &c., sydd yn *adfeilio,* y llysieuyn yn *gwywo,* a dyn yn *nychu* neu *edwi.*

**Eddrin** (edd-rhin)—sisial, sibrwd. Golyga *sisial* fod llefarydd a gwrandawydd yn yr ymdrafod, ond nid felly gyda *sibrwd* o angenrheidrwydd. Bydd y dail yn *sibrwd,* a chyfeillion yn *sisial* wrth eu gilydd.

**Efelychu** (e-mal, tebyg)—dynwared, tebygu, mociadu.

**Efrad** (e-brad)—bradwriaeth, trosedd. Yr oedd *bradwriaeth* yn erbyn y teyrn gynt yn *drosedd* cospadwy â marwolaeth.

**Efrais** (e-brais)—corphorol, mawr, cyhyrog.

**Efryd** (e-bryd)—myfyrdod, astudiaeth, pryder.

**Efrydd** (e-brydd)—anafus, cloff.

**Efydd** (e-mydd)—elyd, elydr, llatwm, prês.

**Effaith** (e-ffaith)—canlyniad, ffrwyth, ffaith, digwyddiad, diben, ystyr, cyflawniad. Mae *effaith* a *chanlyniad*, y naill fel y llall, yn cytuno i ddatgan yr hyn sydd yn dilyn unrhyw beth, ond dynoda y cyntaf, yr hyn a ddilyna oddiwrth gysylltiad y ddau wrthddrych; ond ni chyfyngir *canlyniad* fel hyn. *Effaith* sydd *ganlyniad* achos; ond gall *canlyniad* fod yn ddamweiniol neu naturiol. Y mae a wnelo *effaith* â gwrthddrychau anianyddol neu foesol, y mae a wnelo *canlyniad* â gwrthddrychau moesol yn unig. Ni ddefnyddir y gair *effaith*, nac un o'i hanedigion, gan gyfieithwyr ein Beibl ni. "Gweithred *(effect)* cyfiawnder fydd llonyddwch."

**Effro**—gwyliadwrus, astud. Perthyn i'r corph y mae bod yn *effro*, a dibyna ar y tymeredd ar y pryd; bod yn *wyliadwrus* sydd a fyno â'r ewyllys, a dibyna ar y penderfyniad. Gradd uchel o *wyliadwriaeth* yw *astudrwydd*. Pan mae milwr ar ei ddyledswydd nosawl dylai arfer llawer o *wyliadwriaeth* o amgylch y gwersyll, a thra byddo y gelyn yn agos dylai roddi pob *astudrwydd* i wrando ac i *wylio* eu holl symudiadau.

**Egin** (e-cin)—blagur, blaendardd, bragur.

**Eglawg** (eg-llawg)—agenog.

**Eglur** (eg-llur; Ll. *clarus*, bright)—disglaer, clir, gloyw, amlwg, gweledig. *Clir*, *disglaer*, *gloyw* a ddynodant raddau y goleuni; *clir* ydyw bod yn rhydd neu lân oddiwrth staen; *disglaer* a olyga raddau cryf o oleuni, a *gloyw* a olyga lyfndra llachar goleuni. Y mae goleuni yr haul yn hytrach yn *ddisglaer* nac yn *glir;* ond gall eiddo y lleuad fod y naill neu y llall. Mewn ystyr foesol dywedir fod y gydwybod yn *glir* pan yn rhydd oddiwrth ddrwg neu euogrwydd; ac mae athrylith *ddisglaer* yn gwasgaru goleuni ar bob peth oddi amgylch iddo.—*Amlwg* a *gweledig*. *Gweledig* ydyw yr hyn y gellir ei ganfod â'r llygad, ond nid yw pobpeth *amlwg* yn *weledig*. Y mae a wnelo y blaenaf â'r anianyddol a'r allanol, ond yr olaf â'r deallol a'r mewnol. Y mae'n *amlwg* nad yw'r dwl yn *gweled* yn *eglur*.

**Eglwys** (eg-glwys; Gr. *ecclesia)*—cynulleidfa, cymanfa, llan, teml. Ystyr y gair *llan* yw lle amgauedig, megys ydlan, perllan, &c. Wedi hyny daeth i olygu yr adeilad i addoli yn nghyd â'r tir cysylltiedig, sef y fynwent, ac yna y tai amgylchynol, a gyfansoddent y pentref. Yn yr ystyr olaf y defnyddir ef mewn llawer parth o Gymru yn awr. *Teml* sydd le uwchraddol i *eglwys*, o'r hyn lleiaf, mewn cysylltiad â'r grefydd Gristionogol.

Y mae meddwl a chalon dyn yn *deml* y Duw byw; yno y dymuna Ef gael ei addoli; yr *eglwys* ydyw y lle y mae fel creadur cymdeithasol yn talu ei warogaeth i'w Greawdwr.

**Egni** (eg-gni)—ymdrech. *Ymdrech* sydd radd ysgafnach o *egni.* Mae y dyn yn *ymdrechu* â'i holl *egni.* Amgylchiadau cyffredin sydd yn galw allan *ymdrech;* ond rhai anghyffredin *egni.*

**Egwan**—llesg, dinerth, dirym, gwercy. Gellir bod yn *wan* a *llesg* o ran corph a meddwl; ond defnyddir *dirym* a *dinerth* gyda golwg ar y corph.

**Egwedd** (e-gweddi)—cynysgaeth, gwaddol, amobr.

**Egwyddor** (eg-gwydd)—cynsail, elfen, gwyddor, dansawdd.

**Egwyl** (e-gwyl)—cyfleusdra, seibiant.

**Eng.** Gwel Eang.

**Engi** (eng)—esgor, cynyrchu.

**Engraph** (eng-craifft)—esiampl.

**Engyn** (eng)—adyn, adfydyn, adill.

**Engyrth** (eng-gyrth)—erchyll, ofnadwy.

**Ehagr**—hyll, anferth.

**Ehud** (e-hud; hy-hud)—chwdr, diofal.

**Eidiog** (aid)—bywiog, egnïol, nwyfus.

**Eidion** (aid ?)—biw, ŷch, aner, bwch.

**Eiddew** (aidd)—eiddwrwg, iorwg, aedorw.

**Eiddgar.** Gwel Aiddgar.

**Eiddig**—drwgdybus.

**Eiddil** (aidd-il)—llesg, egwan, gwael. *Eiddil* a gyfeiria at y corph; *llesg* at y corph a'r meddwl; tra mae *eiddil* yn awgrymu gwendid a bychandra naturiol, mae *llesg* a *gwael* yn cyfeirio at gyflwr y darostyngir dyn iddo gan achosion allanol, megys henaint, afiechyd, &c.

**Eiddo** (aidd; Gr. *idios)*—meddiant, perchenogaeth, da.

**Eiddoedd** (aidd-oed)—baner, baniar, lluman.

**Eiddol** (addawl ?)—eilun, delw.

**Eidduno**—dymuno, ewyllysio, awyddu.

**Eigian**—(aig)—cynyrch, canolbarth, dechreu, grym, nerth, egni.

**Eigion** (Gr. *oceanos)*—y cefnfor, y dyfnder mawr, y canol.

**Eigr**—geneth, morwyn, llances, herlodes.

**Eingio** (ang-eingion)—eangu, ymledu.

**Eilchwyl**—eilwaith.

**Eilfydd**—ail, tebyg, cyffelyb.

**Eiliad**—cyfeiliad, adeilad, amrantiad, enyd, moment.

**Eilio**—plethu, cyfeilio, cynghaneddu.

**Eilio**—attegu. Nid yw *eilio* yn cynwys cymaint ag *attegu; eiliwn* trwy ein presenoldeb neu ein gair yn unig; ond *attegwn* trwy ein dylanwad â phob moddion arall yn ein gallu: *eiliwn* yn unig trwy ddatganiad o air; *attegwn* gynygiad trwy gymhell, dadleu, ac ymresymu; *eiliwn* olygiadau un pan y dangoswn ein cymeradwyaeth; ac *attegwn* ef pan y rhoddwn iddo gynorthwy ein pwrs, ein dylanwad, neu rywbeth i hyrwyddo yr hyn fyddo ganddo mewn llaw.

**Eiliw**—ymddangosiad, gwedd, ffurf, lliw.

**Eilon** (al-on)—alaw, peroriaeth; carw, hŷdd.

**Eilun** (ail-un)—delw, llun, dull, ffurf, portread, gau-dduw. Ceir *darlun* neu *bortread* o wrthddrychau gan y bardd neu yr arlunydd, a mynych mae y plant yn *ddelw* o'u rhïeni. Y mae *llun* yn golygu rhywbeth cyffredinol ac amhenodol; ond *delw* rhywbeth mwy tebyg i'r gwreiddiol.

**Eillio** (ell)—tori ymaith, dadwreiddio, cneifio.

**Einioes** (ein-oes)—bywyd, hoedl. Perthyna *bywyd* i'r byd llysieuol fel yr un anifeilaidd, ond *einioes* i ddyn.

**Einion.** Gwel EINGION.

**Eira** (air; C. *er)*—eiry, ôd, nyf.

**Eirach** (air)—arbed, hebgor, maddeu.

**Eirian**—têg, disglaer, hardd, llachar.

**Eirias**—Goddaith.

**Eiriol** (air-iawl)—erfyn, cyfryngu, darbwyllo. *Cyfryngu* a arwydda yn llythyrenol myned rhwng dwy blaid gyda'r amcan o'u heddychu; eu *darbwyllo* ydyw ceisio ganddynt gymeryd amser a phwyll er dyfod i ddealldwriaeth. Golyga *erfyn* daerineb neu awydd mawr am yr hyn a geisir; ac *eiriolir* ar ran y sawl a fygythir â chosb.

**Eiriolwr**—amddiffynydd, dadleuydd. *Amddiffynir* dyn pan fyddo mewn anghen cymhorth; *dadleuir* ar ran un pan y dygir rhywbeth yn mlaen yn ffafr dyn; ac *eiriolir* ar ran un a fygythir â chosb. Y mae'r gorthrymedig â'r cyhuddedig yn gofyn *amddiffynwyr:* pobpeth a syrth i mewn â mympwyon dynion a gânt *eiriolwyr* ddigon; gofyn yr euog am *ddadleuwyr* o'u plaid.

**Eisiau** (es; Ll. *egestas)*—anghen. Bod yn amddifad o rywbeth yw y syniad a gyfleir gan y naill a'r llall o'r geiriau hyn. *Eisiau* ydyw bod heb yr hyn a gyfrana i'n cysur, neu sydd yn wrthddrych ein dymuniad; bod mewn *anghen* ydyw bod heb yr hyn sydd anhebgorol i'n bywyd neu ein hamcanion. Oddiwrth y cysylltiad agos sydd rhwng dymuniad ac *eisiau*, yr ydys arferol o ystyried yr hyn sydd arnom ei *eisiau* fel yn gelfyddydol, a'r hyn sydd arnom ei *anghen* fel yn naturiol ac anhebgorol: mae yr hyn sydd ar un ei *eisiau* yn foethau i'r llall; ond mae yr hyn

sydd *angenrheidiol* i un yn angenrheidiol i bawb o dan yr un amgylchiadau; mae pobl dyner *eisiau* tân, tra dymuna eraill fod hebddo; ond mae ar bawb *anghen* dillad cynhes a thŷ cynhes yn y gauaf.

**Eisin** (e-sin? ais?) bran, rhuddion, ûs, cibau, rhuchion.

**Eissillydd** (es-sill)—hiliogaeth, hil, eppil, plant, trâs.

**Eistedd** (Ll. *sedes;* It. *sedia)*—seddu, aros, bod, deor.

**Eisteddfod** — cyfarfod, cynulliad, cynhadledd, cydgynghorfa o feirdd a llenorion.

**Eithr**—ond, heblaw.

**El**—meddwl, ysbryd, angel.

**Elfed**—Hydref.

**Elfen**—defnydd, sylwedd, tân, elfydd.

**Elfod** (el-bod)—hanfod, ellyll.

**Elfydd**—cyffelyb.

**Elusen** (Gr. *eleos)*—cardod, caredigrwydd.

**Elw**—enill, budd, mael, lles, ced, eiddo, da, mantais. Y meddylddrych cysylltiedig â'r holl eiriau hyn ydyw rhyw ddaioni neu fantais a dderbynia dyn. *Mantais* sydd gyffredinol: golyga bobpeth a gyflenwa ein dymuniadau, ein heisiau, a'n cysur; mae *elw* yn fwy penodol, ac yn golygu mantais arianol. Mae gan sefyllfaoedd eu *manteision*, a chan fasnach ei *henillion*. Gall dyn *enill* heb *fanteisio* na *lleshau* dim arno ei hun. "Pa *leshad* i ddyn os *enill* efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun?"

**Elwig**—ffurf, offeryn.

**Ellyll** (ell-yll; ell-hyll)—lledrith, drychiolaeth, aneilun, gwagedd.

**Emyn** (em; Ll. *hymnus;* Gr. *hymnos)*—hymn, cathl, mawlgerdd, salm, corgan. *Hymn* sydd benill a ffurfia ran o *emyn*. Nid yw y gwahaniaeth yma i'w gael yn Saesneg, gan mai *hymn* yw y gair cyfystyr am y naill a'r llall.

**Enaid** (en-tarddiad bywyd)—enawr, anadl, ysbryd, einioes, calon, dyn, meddwl. Mae y geiriau *enaid* a *meddwl* wedi cael eu defnyddio gan bob cenedl wareiddiedig i ddynodi y rhan hono o'r natur ddynol sydd ar wahan i fater. Yr *enaid* yw yr *anadl* neu yr elfen fywydol, tra mae y *meddwl* yn golygu yr hyn a gysylltir ac a ddibyna i raddau ar drefniant y corph—y naill yn anfarwol a'r llall yn farwol. Yn unol â hyn dywedir fod ambell ddyn yn *enaid* y gymdeithas y mae ynddi, hyny ydyw, yn fywyd y cyfryw; ond dywedir am y meddwl, sef y rhan fateraidd, ein bod yn ei ddefnyddio fel ystordy, neu yn gyfrwng i dderbyn argraphiadau. Gwel EINIOES.

**Enbydrwydd**—perygl, antur. Ansicrwydd yw y meddylddrych a gyfleir gan y geiriau hyn: gellir yn gyffredin ragweled y ddau

flaenaf, ond nid felly gyda golwg ar yr olaf. Golyga *enbydrwydd* a *pherygl* ddrwg pendant; absenoldeb neu golli daioni a olyga *antur*. Gall fod llawer o *beryglon* yn nglŷn âg *anturio*; ac nis gall fod nemawr o *anturio* heb rywfaint o *berygl*. Y mae y cadfridog yn *anturio* i frwydr er mwyn rhwyddhau ei ffordd yn mlaen trwy wlad y gelyn; pan yn ymdeithio i wyneb cyflegrau y gelyn, gesyd ei bun mewn *enbydrwydd* mawr gan fod ei fywyd mewn *perygl* bob awr.

**Encilio**—ymneillduo, ymadael, ymwahanu.

**Encilfa**—nawddle, cysgod, diddosfa. Golyga y geiriau hyn le o ddiogelwch, am amser yn unig, neu ynte yn barhaus. *Noddfa* a ddefnyddir yn ngwyneb perygl; *cysgod* a *diddosfa* er cyfleusdra a chysur; *encilfa* sydd le o dawelwch yn hytrach nag o ddiogelwch. I ddinas *noddfa* y ffoiai y llofrudd gynt yn Israel rhag dialydd y gwaed; y mae "*cysgod* craig fawr mewn tir sychedig" yn dra bendithiol yn ngwledydd y Dwyrain; byddai duwiolion gynt yn *encilio* o dwrf a berw'r byd i arwain bywyd meudwyaidd.

**Enciliwr**—ffoadur, brâd-giliwr.

**Enfil**—anifail, creadur.

**Enfys** (en-bys)—bwa'r arch, bwa'r Drindod, bwa'r gwlaw.

**Enhuddo** (en-hudd)—cuddio, gorchuddio.

**Enllib.** Gwel Athrod.

**Enllyn**—unrhyw beth a fwyteir â bara, megys ymenyn, caws, &c. Nid oes air cyfystyr iddo yn Saesneg.

**Ennill.** Gwel Elw.

**Ennyn** (en-yn? en-tyn? en-tân?)—cynheu, ffaglu, tanio, llosgi, cyffroi.

**Entraw** (en-traw; dysg)—proffeswr, athraw.

**Entrych**—y ffurfafen, y nefoedd.

**Enw**—enwad, cyfenwad, teitl. Gwahaniaethir y naill oddiwrth y llall trwy *enw*, ac felly mae *cyfenwad* a *theitl* yn *enw*, ond nid yw pob *enw* yn *deitl*. Y mae *enw* yn gyffredin neu briodol, ond *cyfenwad* sydd enw cyffredin a nodweddiadol: "Simon, yr hwn a *gyfenwid* Pedr." Gall *cyfenwad* fod wedi ei roddi mewn gwawd, ond *teitl* yn wastad a roddir mewn ffordd o anrhydedd. Rhoddir *cyfenwad* i bersonau a phethau, ond *teitl* yn gyffredin i bersonau. Defnyddir *enwad* er gwahaniaethu y naill gorph oddiwrth y llall, yr un modd ag y gwna *cyfenwad* a pherson.

**Enw**—cymeriad, cyfrif, parch.

**Enwi**—galw. Gellir *enwi* heb *alw*, megys trwy grybwyll enw dyn, ond nis gallwn yn dda *alw* heb *enwi*—"*gelwid* ei *enw* ef Iesu."

**Enwi**–cyfenwi, teitlo, nodi, nodweddu.

**Enwogrwydd**—bri.

**Eofn**—hy.

**Eog** (e-awg? e-hawg?)—gleisiad, gwyniad y gôg, brithyll y môr, brithyll brych, camog.

**Eples** (eb-lles)—lefain, surdoes, heples.

**Eppil** (eb-hil)—hîl, hiliogaeth, cenedl.

**Erch**—tywyll, dychrynllyd, irad.

**Erchwyn**—ochr, cymhorth, ysgogiad.

**Erchyll**—hyll, erch, echryslon.

**Erddygan** (er-dygan)—cynghanedd, aceniad, persain.

**Eres**—rhyfeddol, hynod.

**Erfin**—maip.

**Erfyn**—ymbil, dymuno, deisyf, gofyn, disgwyl. Yr hyn a awgrymir yn mhob un o'r geiriau hyn ydyw awydd mawr am i ryw un gyfranogi o rywbeth nad yw ganddo. Y gair cyffredinol am hyn ydyw *gofyn*: yr ydym yn *gofyn* wrth *erfyn* neu *ddeisyf*. Yr ydym yn *dymuno* yn y galon cyn datgan ein teimlad. *Erfyn* ydyw y gradd uchaf o daerineb.

**Ergyd** (er-cyd)—tafliad, hyrddiad, dul, cnoc, tarawiad, amcan, ystyr. Y gwahaniaeth rhwng *ergyd*, *cnoc*, neu *darawiad* a *hyrddiad* ydyw, fod yr olaf yn golygu rhyw gymaint o rym gorthrechol *(force)*. *Amcan* neu *ystyr* damheg ydyw yr *ergyd*, neu y foes-wers a wthir megys gartref fel ag i greu argraph neu ôl ar y darllenydd neu y gwrandawr.

**Erioed**—o'r dechreuad, er tragwyddoldeb.

**Ermig**—peiriant, offeryn, teclyn.

**Erthygl** (Ll. *articulus)*—pwnc, ban, pen.

**Erw** (er)—cyfar, egyr, êch, darn o dir, etifeddiaeth.

**Erwydd** (erwyb?)—pawl, gwialen.

**Erwydd** mewn cerddoriaeth.

**Erwydd**—gwyddfod.

**Eryron**—eryrod, gwroniaid.

**Esampl**—engraipht. Rhoddir *esampl* mewn ffordd o esbonio neu addysgu; ac engraipht mewn ffordd o brawf. Gall pob *engraipht* fod yn *esampl*, ond nis gall pob *esampl* fod yn brawf. Mae yr *esampl* yn gynwysedig mewn gwrthddrychau moesol neu ddeallol: cynwys yr *engraipht* weithred yn unig. Eglurir rheolau trwy *esamplau*, a chymeriadau trwy *engreiphtiau*.

**Esbonio** (Ll. *expono)*—eglurhau, deongli, egluro.

**Esgair**—coes, aelod, trum hir, cefnen.

**Esgeiriog**—aelodog.

**Esgeulus** (es-cael)—diofal, difeddwl, gwallus, didaro. Gadael i gyfleusdra fyned heibio trwy beidio cymeryd mantais arno

ydyw y meddwl a osodir allan yn y geiriau hyn. *Esgeuluso* ydyw peidio gwneyd yr hyn a ddylid; gellir bod yn ddiofal trwy wneyd drwg, yn gystal a thrwy beidio gwneyd dim. *Esgeulusdra* yw yr achos, a *diofalwch* ydyw yr effaith, canys nid oes neb mor *esgeulus* a'r hwn sydd *ddiofal a didaro*. Cymhwysir *diofal* at bethau yn gofyn gofal parhaus, a *difeddwl* at bethau yn gofyn am ystyriaeth barhaus. Mae un yn *ddiofal* mewn masnach, ac yn *ddifeddwl* mewn ymddygiad.

**Esgob** (es-cob? Gr. *episcopos;* Ll. *episcopus)*—arolygwr, goruchwyliwr.

**Esgor** (es-cor; escario)—dwyn, rhyddhau.

**Esgud** (es-cud)—bywiog, astud, diwyd, dyfal. Y mae *bywiog* yn golygu arfer neu dueddfryd y meddwl heb unrhyw berthynas â natur y gwrthddrych; *diwyd* a olyga ymroddiad neu serch at wrthddrych; a *dyfal*, parhad o'r cyfryw ymroddiad. Yr ydym yn *fywiog* pan yn barod i roi ein galluoedd ar waith—i bwrpas neu beidio. Yr ydym yn *ddiwyd* pan yn weithgar at ryw bwrpas neillduol; ac yn *ddyfal* pan na byddo dim amser yn cael ei adael heb ei ddefnyddio mewn rhyw waith difrifol.

**Ernes**—gwystl. Y mae a wnelo yr *ernes* â'r ymddiriedaeth a greir; y *gwystl* â'r rhwymyn a gynyrchir: pan y gwneir cytundeb geiriol, mae yn arferol rhoddi *ernes;* pan y mae arian yn yr ymdrafodaeth rhoddir *gwystl*. Mewn ystyr ffugyrol dywedir y rhydd bachgen gobeithiol *ernes* o fawredd dyfodol: y mae plant yn *wystlon* o serch rhwng rhïeni.

**Esgus**—achlysur, achos, rheswm. *Esgus* yw ymddiheurad gan ddyn ar ol cyflawni trosedd, neu esgeuluso dyledswydd; *achlysur* a ddefnyddir mewn cysylltiad âg amgylchiadau neu ddygwyddiadau i ddynodi gwrthddrychau allanol a damweiniol a gynorthwyant i ddwyn y cyfryw oddi amgylch. *Achos* a olyga allu, a chyfeirir at yr hyn mewn gwirionedd sydd yn effeithio y dygwyddiad neu y cyfnewidiad. *Rheswm* sydd wrthgyferbyniol i *esgus*, ac yn golygu rhoddi cyfrif boddhaol am gyflawniad gweithred: fel y mae *rheswm* i *esgus*, y mae *achlysur* i *achos*. Yr *achos* i bren syrthio ydoedd nerth y gwynt, a'r *achlysur*, natur y tir y tyfai arno. Y mae gan ddyn *reswm* dros yfed, ond yr un *esgus* dros feddwi.

**Esgyn** (es-cwn; es-cyn; Ll. *ascendo)*—dyrchafu. *Esgyna* gwrthddrych trwy ei nerth ei hun, neu ynte trwy nerth gallu yn gweithredu arno; ond mae *dyrchafu* yn gyffredin yn awgrymu rhyw allu oddi allan iddo ei hun. *Esgyna* y *baloon* i'r awyr, a *dyrchefir* y dyn ynddo.

**Esgyr.** Gwel Erw.

**Esmwyth** (es-mwyth)—llyfn, newydd, llonydd, cysurus. Y meddwl a gyfleir yma ydyw cyflwr o sefydlogrwydd. Y mae a fyno

*esmwythdra* â chorph a meddwl; *llonyddwch* â berthyn yn fwyaf neillduol i'r corph.

**Estron** (es-trawn)—dieithr-ddyn, alltud. *Dieithr-ddyn* sydd air cyffredinol, a chymhwysir ef at ddyn anadnabyddus, neu heb fod yn drigianydd yr un neu arall wlad; *estron* a berthyn i wlad arall; ac *alltud* a gymhwysir at dramoriaid fel deiliaid neu breswylwyr, mewn gwrthgyferbyniad i ddeiliaid wedi eu geni yno.

**Estyn** (es-tyn)—hwyhau, parhau, cyrhaedd, rhoddi. Y meddylddrych a osodir allan yma ydyw, tynu allan mewn llinell, ond gwahaniaethant gyda golwg ar y dull a'r amgylchiadau. *Estyn* a *hwyhau* a *chyrhaedd* a olyga dynu allan mewn llinell unionsyth; *cyrhaedd* a *rhoddi* a olygant wneyd hyny i unrhyw gyfeiriad. *Cyrhaedd* a gyfeiria at symudiadau dyn, megys ei ymgais i gyrhaedd pen ei daith, neu gyrhaedd safle o anrhydedd a gallu. Y mae *estyn* o un llaw i'r llall yn gyfystyr a *rhoddi.*

**Etifedd** (e-tifaw)—tref-tadog, olynydd, baban, eppil, genedigaeth.

**Ethnig**—cenedl-ddyn, pagan, barbariad. *Cenhedloedd* y gelwid pawb gynt mewn gwrthgyferbyniad i'r Iuddewon, a dosbarth o genhedloedd yw y *paganiaid.* Mae y *paganiaid* yn *genhedloedd*, ond nid yw yr holl *genhedloedd* yn *baganiaid*, hyny ydyw, yn addolwyr delwau. Yr oedd Confucius, yr hwn a wadai luosogrwydd duwiau, a dilynwyr Mahomet, yn *genhedloedd*, ond nid yn *baganiaid.* Y mae *barbariad* yn golygu gradd îs mewn anwareidd-dra, ac mae ystyriaeth o greulondeb yn gysylltiedig âg ef.

**Ethol** (e-tol)—dewis.

**Ethryb** (e-tryb)—achos.

**Eulun.** Gwel EILUN.

**Euog** (au ? gau ?) beius, camweddus, anwir. Gall dyn fod ar *fai*, ac eto yn *ddieuog*, am fod amheuaeth o barth i'w drosedd, yn gymaint ag iddo ei gyflawni mewn amryfusedd, ac am mai pwnc o farn neu ddoethineb ydyw. O'r tu arall, mae teimlad o *euogrwydd* yn awgrymu troseddiad o reol bendant, gan nad pa un a ddilynir hyny gan gosbedigaeth ai peidio.

**Eurgrawn** (aur-crawn)—trysorfa, greal, cylchgrawn.

**Eurych**—eurydd, gôf aur, arianydd, tingcerdd.

**Ewa**—ewythr (amlygiant o serch).

**Ewach**—dyn egwan.

**Ewig**—danas, hŷdd, carw, eilon.

**Ewybr** (e-gwybr)—cyflym.

**Ewyllys** (ew-yll)—bodd, myn, dymuniad.

**Ewyllys**—cymmyneb, testament.

# F

**Fâd** (y)—plâ.

**Fagddu** (y)—(mag-du)—tywyllwch, uffern, annwn, afagddu.

**Fall** (y)—drwg.

**Ficer** (Saes. *vicar;* Ll. *vicarius*)—ebrwyad, prwyad, dirprwywr, rhaglaw, periglor.

**Finegr** (gwin-egr)—surwin, surlyn, aesel.

**Fry**—uchod.

# Ff

**Ffael** (ael? Ll. *fallo)*—meth, pall, diffyg, gwall.

**Ffafr** (Saes. *favour)*—hoffedd, caredigrwydd, tiriondeb, hynawsedd, rhâd, cymhorth. *Rhad* neu *ras* sydd weithred o *garedigrwydd* pur yn annibynol ar deilyngdod y derbynydd; ond *ffafr* ydyw yr *hyn* a roddir yn wirfoddol, ac heb obaith atdaliad yn annibynol ar bob rhwymedigaeth. Ni ddefnyddir y gair *gras* un amser ond mewn cysylltiad â'r sawl a droseddasant ac a wnaethant eu hunain yn agored i gosb; defnyddir *ffafr* am ddaioni wedi ei wneyd. Y mae y naill a'r llall yn angenrheidiol ar ddynion fel pechaduriaid a bôdau dibynol ar y Mawredd Dwyfol.

**Ffagl** (Gr. *phlogos)*—goddaith, fflam. Golyga *ffagl, fflam* ddisymwth a byr-barhaol. *Goddaith* a ddynoda lwyr losgiad neu losgiad cyffredinol y gwrthddrych a ddelo mewn cyffyrddiad â thân.

**Ffair** (Saes. *fair;* Gr. *phorion)*—prif farchnad, cyfnewidfa, masnachle.

**Ffaith** (Ll. *factum)*—gweithred, digwyddiad, gwirionedd, amgylchiad. Gair cyffredinol yw *amgylchiad; ffaith* yw yr hyn a wneir; a gall *amgylchiadau* a *digwyddiadau* gael eu cofnodi mewn hanesiaeth, ond eto heb gynwys *ffeithiau* neu *wirionedd.*

**Ffansi** (Saes. *fancy*)—dychymyg, darfelydd, asbri, syniad, tuedd, mympwy, nwythas, hoffedd. Y mae a wnelo *ffansi* â gwrthddrychau ysgafn a distadl, y rhai sydd bresenol i'r synwyrau; ond cyfodir ni gan edyn *dychymyg* uwchlaw pethau materol i fyd yr ysbrydoedd, o'r amser presenol i'r dyfodol. *Mympwy* ydyw barn fyrbwyll yr ymlynir wrthi, yn groes yn fynych i dystiolaeth ein synwyrau. O barth *barn* a *darfelydd* gweler traethawd rhagorol y Parch. Wm. Jones, Nefyn.

**Ffau** (ffa? Ll. *cavea)*—gwâl, lloches, ceudwll, ogof, pwll. Golyga y geiriau hyn oll lle i ymguddio neu i gysgodi, ond gwahaniaethant o ran eu maint a'u diddosrwydd, &c. *Ffau* y llew; *lloches* sydd ddiogelfa lai, yn gyffredin yn y ddaear; *gwâl,* cysgodfa ar y llawr.

**Ffawd** (Ll. *fatum*)—tynged, angenrhaid, llwyddiant.

**Ffel** (ffy-el)—cyfrwys, call, gochelgar, synhwyrol. Mae y geiriau hyn i gyd yn datgan parodrwydd i ddefnyddio moddion neillduol a dirgel i gyrhaedd amcan: gwahaniaethant yn benaf gyda golwg ar ddirgelu y moddion, neu y gradd o wyliadwriaeth a ddefnyddir. Dengys y dyn *cyfrwys* ei fedr yn gyfangwbl trwy gelu, ac ar yr un pryd beidio creu drwgdybiaeth. Gwel Call.

**Ffer** (ffy-er)—migwrn.

**Ffetan** (ffed)—sach, cŵd, côd.

**Ffiaidd**—atgas.

**Ffin** (ffy-in ?)—terfyn, cyffin.

**Ffit**—chwiw, llewyg, gloes, pang.

**Fflangell** (Ll. *flagellum*)—ffrewyll, chwip.

**Ffluwch**—llwyn, perth.

**Fflwch**—addfed, llawn, cyflym.

**Ffol**—ffwl, ynfyd, hurtyn, cellweirddyn.

**Ffon** (ffy-on ?)—llawffon, cwlbren, pastwn.

**Ffordd**—llwybr, lôn, rhawd, tramwyfa.

**Ffortun** (Ll. *fortuna*). Gwel Ffawd.

**Ffos** (ffy-os ?)—clawdd, rhych.

**Ffrae** (Saes *fray*)—ffrwgwd, ymrafael, cweryl, ymladd, trin.

**Ffraeth** (ffra)—parod, hyawdl. *Ffraethineb* sydd gynyrch greddfol y galluoedd meddyliol, yn dyfod yn naturiol, pe amgen, ni byddai yn ffraethineb o gwbl. Y mae meddwl a phrofiad yn rhoddi i ni ddoethineb; ymdrech a myfyrio yn ein cyflenwi â dysg; ond cenfydd *ffraethineb*, megys â llygad eryr, yr hyn a ddianc sylw y meddyliwr dwfn, a thyn allan wirioneddau y chwilir am danynt yn ofer gydag ymdrech galed. Y mae *hyawdledd* yn gynwysedig yn y dull o draddodi yn gystal ag yn yr hyn a draddodir. Dawn naturiol ydyw, tra mae areithyddiaeth yn gelfyddyd.

**Ffregod**—dadwrdd, baldardd.

**Ffrewyll**—fflangell, chwip.

**Ffridd**—fforest, planigfa, parc, defeidfa.

**Ffrom**—dîg, sorllyd, ffroch.

**Ffrwd**—ffrydlif, llif, cerhynt, morlif.

**Ffrwst**—brys.

**Ffrwyn**—genfa.

**Ffrwyno**—atal, cyfatal.

**Ffrwyth** (ffrwy ?)—cnwd, cynyrch, toraeth, bridd, elw, mantais.

**Ffuant**—ffug, lledrith.

**Ffugenw**—rhithenw, llysenw.

**Ffugr** (Ll. *figura)*—llûn, ffurf, dull, gwedd, delw, rhifnod, darlun, cysgod, cyffelybiaeth, aralleg. Tebygolrwydd rhwng dau wrthddrych, trwy yr hyn y gwneir y naill i arddangos y llall, ydyw y meddwl a gyfleir gan y geiriau hyn. *Ffugr* yw y mwyaf cyffredin gan ei fod yn cynwys pob peth a ddarlunir gan y dychymyg : nid yw y gweddill ond mathau o *ffugyrau*. Mae y *ffugr* yn gynwysedig naill ai mewn geiriau neu mewn pethau yn gyffredinol: gallwn gael *ffugr* mewn gair, ar bapur, neu ar bren a chareg, &c. Swydd y darfelydd ydyw tynu allan *ffugyrau* o unrhyw beth : gwna *aralleg* hyny mewn geiriau. Gwel DARLUN.

**Ffumer** (Ll. *fumarius)*—simne, pibell simne, twll y mwg.

**Ffun** (ffy-un ?)—chwyth, anadl, dyhead.

**Ffunen** (C. *funan)*—cadach, napcyn, ysnoden, rhwymyn.

**Ffunud**—dull, llûn, ffurf, modd.

**Ffurf**—gwedd, dull, trefn, llûn.

**Ffurfafen** (ffurf-men ?)—wybr, wybren, nwyfre, ewybr, yr awyr, y nen.

**Ffurfwasanaeth**—liturgi, ffurfweddi, gweddi gyffredin.

**Ffust** (ffu ?)—ffon-ddyrnu, gwial ffust, dyrnwr.

**Ffwdan**—brys, trafferth. Y mae y naill a'r llall o'r ddau air blaenaf yn golygu symud yn mlaen yn ddioed mewn unrhyw beth : y mae *brysio* yn awgrymu gwneyd hyny mewn trefn ac amcan da, ond mae *ffwdanu* yn golygu afreoleidd-dra. Yr ydym yn *brysio* i fyned a newydd da pan y ceisiwn wneyd hyny yn y ffordd a'r amser byraf : yr ydym yn *ffwdanu* i fyned yn mlaen pan yn ymwthio rywfodd heb wneyd dewisiad o foddion. Y mae *ffwdanu* gyda phob gorchwyl yn dwyn gydag ef fwy o lafur diangenrhaid a *thrafferth*.

**Ffwl.** Gwel FFOL.

**Ffwrch**—fforch, gafl.

**Ffwrn**—odyn, pobty, pair, ffwrnes.

**Ffydd** (ffy-ydd ?)—coel, cred, hyder, ymddiried. Yr ydym yn *credu* pan yn *ymddiried*, ond nid yn *ymddiried* bob amser pan yn *credu*. Nid yw *ffydd* yn gorphwys ar berson na dim neillduol ; ond mae *ymddiried* yn gorphwys ar awdurdod un neu ddau o bersonau. Y mae pob peth yn wrthddrych *ffydd* sydd yn cynyrchu cydsyniad ; ni *ymddiriedir* yn ngeiriau, addewidion, neu uniondeb dynion : y mae gallu dynion a rhinwedd pethau yn wrthddrychau *ffydd*. Mae *ffydd* yn gyffredin i bob crefydd ; *ymddiried* a berthyn i gredinwyr mewn Datguddiad Dwyfol. Rhaid i *ffydd* gywir fod yn sylfaenedig ar iawn *gred*, a chael ei dilyn gan iawn ymarferiad.

**Ffynhonell**—tarddell.

**Ffyniant**—cynyrch, llwyddiant.

**Ffyrf** (Ll. *primus)*—praff, braisg, cryf, sad.

**Ffyrnig**—creulon. Dynoda y gair *creulon* dueddiad gwastadol at fod yn *ffyrnig*—natur heb ei dofi; ond nid yw *ffyrnig* o angenrheidrwydd yn cynwys y *creulon;* gellir peri i ddyn ac anifail fod yn *ffyrnig* trwy ryw weithred a'u cythrudda.

# G

**Gadael**—ymadaw, ymwrthod.

**Gadael**—ffarwelio, canu yn iach. Nid oes a fyno *gadael* â'r teimlad, ond wrth *ffarwelio* y mae yn wahanol. Byddis yn *canu* yn *iach* â'n gwlad neu â gwrthddrychau hoff, ond yn *ffarwelio* mewn difrifwch â'n cyfeillion.

**Galanas**—cyflafan, llofruddiaeth, lladdfa.

**Galar** (gal-ar)—tristwch, trymder, alaeth. *Galar* sydd deimlad o ofid am enyd yn unig. Pan fyddo gofid wedi cyrhaedd ei bwynt uchaf, tyr allan mewn uchel *alarnadau;* gweithred fewnol ydyw *tristwch*, a dechreua yn gyffredin ar ol i *alar* redeg ei gwrs, ac yna ymorsedda *trymder* ar y galon.

**Galw**—enwi, appelio, gwysio, gwahodd. Y meddylddrych a arwyddoceir yn y geiriau hyn ydyw dymuniad ar i arall wneyd rhywbeth sydd gynwysedig yn yr oll o honynt. Nid yw *galw* yn gyfyngedig i unrhyw sŵn; gallwn *alw* trwy wneyd dim ond codi y llais: nid yw *gwahodd* yn cael ei gyfyngu i seiniau; gellir *gwahodd* trwy edrychiad, arwyddion, neu hyd yn oed ysgrifen; ond rhaid defnyddio geiriau i *wysio.* Y mae galw a gwahodd yn gyffredin i anifeiliaid a dynion; *geilw* defaid pan y brefant. Y mae *gwysio* yn weithred o awdurdod, ac yn perthyn i ddyn.

**Gallt**—rhiw, llethr, clip.

**Gallu**—grym, nerth. *Gallu* yw y gair cyffredinol, gan gymeryd i mewn egwyddor syml natur a fodola yn mhob gwrthddrych. Y mae yn anianyddol neu feddyliol, cyhoedd neu ddirgel: yn y cyntaf mae yn gyfystyr â *nerth*, ac yn yr olaf âg awdurdod. *Gallu* yn anianyddol a olyga bobpeth a achosa ysgogiad; *nerth* ydyw y gallu bywydol sydd yn rhanau gewynol y corph. Dibyna *nerth* ar ranau mewnol y cyfansoddiad, a *gallu* ar amgylchiadau allanol. Gall fod gan ddyn *nerth* i symud, ond nid y *gallu* os yn rhwym â rhaffau.

**Garth**—penrhyn, cefnen, mynydd, bryn, cail.

**Gau.** Gwel Ffug.

**Gefyn**—hual, llyffethair.

**Geirgrawn.** Gwel Eurgrawn.

**Gelyn**—gwrthwynebydd, gwrthymdrechydd.

**Gelyniaeth**—casineb, llid.

**Gem**—glain, maen gwerthfawr.

**Genau**—safn, cêg, agoriad.

**Geneth**—llances, herlodes, hogen.

**Geni**—cenhedlu, esgor.

**Gerain**—ysgrechian, gwichian, cwyno, ubain.

**Gerwin**—garw, anwastad, aflyn, anfoesgar.

**Gerwin**—llym, creulon, annhrugarog.

**Glain**—pur, sanctaidd, claer, gloyw, glân.

**Glân**—sanctaidd, hardd, pur. Golyga y gair *glân* yn wreiddiol absenoldeb oddiwrth fudreddi neu ystaen, ond yn ei ystyr foesol golyga yr un peth a *phurdeb* a *sancteiddrwydd*, felly yn y Beibl, Ysbryd *Glân* ydyw y cyfieithiad o *Holy Ghost*. Yn ei gysylltiad â dynion dynoda *glân* fuchedd allanol ddiargyhoedd, a bod yn *bur*, ddynoda *sancteiddrwydd* calon. Nid oes dim yn *hardd* mewn ystyr anianyddol na moesol ond y *glân*.

**Gleisiad**—ëog, penllwyd, gwyniad y gôg, brithyll, camog, maran.

**Glew**—gwrol, hŷf.

**Gloddest**—cyfeddach, wttres.

**Gloes**—gŵyn, ing, poen, gofid, llewyg.

**Gloyw**—disglaer, llachar, clir. Y mae a wnelo *gloyw* âg arwynebedd yn benaf: mae y môr yn *loyw* pan mae ei wyneb yn berffaith dawel. Cymhwysir y gair *disglaer* yn gyffredin at oleuadau naturiol, megys haul *disglaer*, tân *disglaer*, &c. *Clir* a olyga raddau y goleuni â'r hwn y canfyddwn wrthddrychau, a defnyddir ef mewn ystyr anianyddol a moesol. *Llachar* ydyw ymddangosiad sydyn goleuni, megys fflamdorch, neu gomet ddisglaer.

**Glwth**—barus, bwyteig, gwancus, rheibus.

**Glwys**—pur, sanctaidd, hyfryd, têg.

**Glyn**—cwm, ceunant, dyffryn, pantle. Mae y meddylddrych o *bantle* yn rhedeg trwy yr oll o'r geiriau hyn. *Dyffryn* yw yr eangaf a mwyaf agored o'r cyfryw, tra mae *cwm* yn gulach, a *cheunant*, fel yr awgryma y gair, yn gauedig bron, ag iddo *nant* neu afon, a'r un modd *glyn*.

**Gnawd** (nawd?)—arfer, cyneddf, greddf.

**Gobaith**—disgwyliad, hyder, ymddiried, goglyd. Edrychiad at y dyfodol ydyw y meddwl a gyfleir gan yr oll o'r geiriau hyn. Peth i'w groesawu yw *gobaith*, tra mae *disgwyliad* y naill ffordd neu'r llall: *gobeithio* daioni; *disgwyl* y drwg yn gystal a'r da. Gall *gobaith* gael ei oedi, ond nid yw byth yn marw; ond llyncir *disgwyliad* i fyny gan sicrwydd. Mae *hyder* ac *ymddiried* yn cyd-

uno â *gobaith* gyda golwg ar y gwrthddrychau a *ddisgwylir;* cytunant â *disgwyliad* o barth y sicrwydd am ryw dda, ond gwahaniaethant yn benaf o barth y seiliau ar y rhai y gorphwys y sicrwydd. Tardd *ymddiried* yn llwyr oddiwrth olwg ar yr amgylchiadau cysylltiedig a'r digwyddiad, ac oddiwrth y casgliad a dyner; cyfyd *hyder* yn fwy oddiwrth dymer y meddwl nag oddiwrth natur y gwrthddrych. Gall *disgwyliad* a *hyder* felly yn aml brofi yn dwyllodrus, ac yn neillduol yr olaf; ond y mae sail dros *ymddiried* fel *gobaith*, er iddo weithiau droi yn dwyllodrus.

**Gobenydd**—clustog.

**Godidog**—rhagorol, ardderchog, hynod, dewisol, anghyffredin.

**Godre** (god-rhe)—ymyl, gwaelod, mîn.

**Goddef**—caniatau, dioddef, cydsynio, cydnabod. Byddwn yn *cydnabod* gwirionedd rhyw sylw: yn *caniatau* yr hyn a ddymunir: byddwn yn *goddef* yr hyn na chymeradwywn, ond na byddwn yn teimlo yn rhydd i'w wrthwynebu. Ni ddylid *goddef* yn ein plant ein hunain yr hyn a gondemniwn yn eraill: nis gall yr un ddeddf ddynol *ganiatau* neu drwyddedu yr hyn sydd yn ddrwg moesol. Defnyddir y gair *dioddef* yn ei gysylltiad yn benaf â phersonau unigol—*dioddef* poen yn yr aelodau, &c.

**Gofal**—pryder. Poen meddwl yw y meddylddrych a gyfleir yn y geiriau hyn—yr olaf yn radd bellach o *ofal*. Wrth *ofalu* mae dyn yn meddwl a theimlo; wrth *bryderu* yn teimlo yn unig. Y mae *gofal* a'i lygad ar y tri amser: *pryder* am y presenol a'r dyfodol yn unig. *Gofelir* am rywbeth sydd agos a phresenol: *pryderir* am yr hyn sydd bell ac absenol. Byddwn yn *ofalus* am y moddion, ac yn *bryderus* yn nghylch y canlyniad. Dylai penteulu *bryderu* llawer rhag ofn i'w holl *ofal* gyda'u plant droi allan wedi hyny yn siomedig.

**Gofal**—gwarchodaeth, rheolaeth. Y mae *gofal* yn golygu llafur; *gwarchodaeth*, gyfrifoldeb; a *rheolaeth* drefn a dosbarth. *Gofala* y bugail am ei ddefaid; gan y *nurse* mae *gwarchodaeth* plant; gan yr arolygydd y mae *rheolaeth* y gwaith. Rhaid gweithio mewn trefn i *ofalu;* edrych er mwyn *gwarchod;* a meddwl er mwyn *rheoli*. *Gofelir* mewn materion cyffredin; *gwarchodir* mewn materion o bwys ac ymddiriedaeth; *rheolir* mewn materion o fasnach a phrofiad.

**Gofalus**—gochelgar, darbodus. Yr ydym yn *ofalus* rhag gwneyd camgymeriad; yn *ochelgar* i osgoi peryglon, ac yn *ddarbodus* ar gyfer anhawsderau a chaledi. Yr ydys yn *ofalus* i gadw yr hyn fyddo genym: yn *ochelgar* rhag drygau allant ddyfod; ac yn *ddarbodus* er cyflenwi y da, neu gadw ymaith y drwg a fygythia yn y dyfodol.

**Gofer** (go-mer)—aber, ffrwd fechan.

**Gofid** (go-mid)—tristwch, cystudd, blinder. Dynoda y geiriau hyn gyflwr o ddioddef, yr hwn a wahaniaetha o ran yr achos o hono neu y gradd, neu y ddau. Y mae *cystudd* yn drymach na *gofid*—yn gorwedd yn ddyfnach yn yr enaid, a'r achos o hono yn gryfach: marwolaeth ein cyfeillion, neu balliant iechyd a bâr *gystudd*: methiant ein hoff gynlluniau a barant i ni *ofid*. Y mae *cystudd* yn gorwedd yn rhy ddwfn i'w ganfod ac i dynu sylw: y mae yn fwy parhaol na *gofid*, yr hwn a ddengys ei hun yn ddigamsyniol: y mae *tristwch* yn llai ei barhad byth, ac yn fynych yn aros dim mwy na'r foment y cynyrchir ef. Y mae dyn yn cael ei *flino* gan luaws o anhwylderau corphorol, a chael ei *ofidio* yn ei feddwl gan feiau a gyflawna nes peri iddo yn fynych edrych yn *drist*.

**Gofod** (go-mod; go-bod)—lle, cyfwng. *Lle* yw y gair cyffredinol am unrhyw wagder y gellir ei gymeryd i fyny, ac nid oes a wnelo â maint a swm. Y mae *cyfwng* yn cymeryd i fewn yr un sydd uwchlaw ein hamgyffrediad: *lle* sydd air terfynol, a gynwys y rhanau hyny neu y *cyfyngau* hyny a ffurfir yn gelfyddydol: y mae *cyfwng* yn ymledu neu yn cael ei derfynu: y mae *lle* bob amser yn derfynedig: y mae y *cyfwng* rhwng dau beth yn naturiol yn ddamweiniol, neu ynte wedi ei ffurfio yn gelfyddydol. Y mae gwerth tŷ yn dibynu i raddau ar faint y *lle* a geir ynddo: y mae *lle* i nifer penodol yn mhob cerbyd o'r dosbarth blaenaf ar y reilffordd, a *chyfwng* rhyngddynt.

**Gofyn**—holi, cwestiyno. Gwneir defnydd o'r holl eiriau hyn er mwyn cael gwybodaeth: *gofynir* am bethau yn gyffredinol: *holir* o ran cywreinrwydd, a *chwestiynir* oddiar ddybenion o gallineb. *Gofynir* yn syml yn nghylch un peth: *holir* yn nghylch un neu ychwaneg o bethau; a *chwestiyno* yw *gofyn* amryw weithiau, a hyny gyda mwy o awdurdod y naill dro ar ol y llall.

**Gofyn**—crefu, ceisio. Byddwn yn *gofyn* wrth *geisio* a *chrefu*, ond mae y gair diweddaf yn golygu taerineb mewn *gofyn*. Y mae *gofyn* yn perthyn i bob cylch a chymdeithas; *crefu* a ddynoda radd o ddibyniad perthynas i isradd mewn sefyllfa. Byddwn yn *gofyn* am bethau o ychydig bwys: byddwn yn *crefu* am yr hyn a ystyriwn yn bwysig a gwerthfawr. *Gofynir* am yr hyn sydd hawdd ei gael: *crefir* am yr hyn sydd anhawdd ei gael. *Crefa* rhai gyda haerllugrwydd, ond gwna y dyn moesgar ei *gais* gyda chymedroldeb a doethineb.

**Gofyn.** Gwel Erfyn.

**Gofyn**—hawl, cwestiwn. Y mae *gofyn* mawr ar yr amaethwr yr amser gwasgedig yma, ond nid oes ganddo, er hyny, *hawl* i wrthod talu ei ddegwm a'i ardreth, oblegyd nid *cwestiwn* iddo ef ei hun i'w benderfynu ydyw y cyfryw daliadau.

**Gogan**—duchan, cân serth.

**Goglud** (go-clud)—pwys, ymddiried, hyder, coel.

**Gogoniant** (*con* neu *gogo)*—anrhydedd, dyrchafiad. Y meddylddrych moesol yn nglŷn â *gogoniant* a arddangosir oreu gan oleuni fel yr ymddengys oddiwrth y goleuni a rydd arlunwyr o gylch pen ein Hiachawdwr. Y mae *anrhydedd* yn rhywbeth llai ysblenydd, ond mwy sylweddol. Y mae *gogoniant* yn gymhellydd i ymegnïon tuhwnt i'r cyffredin, ond *anrhydedd* a'n cymhella i wneyd ein dyledswydd. Rhagoriaeth a llwyddiant yn yr ymgais a ddug *ogoniant;* ond ymarferiad ffyddlon o'n talentau a adlewyrcha *anrhydedd.* Y mae a wnelo *gogoniant* yn benaf â phethau o ddyddordeb cyhoeddus, ond enillir *anrhydedd* yn fwy â phethau mewn cylchoedd anghyhoedd. Y mae *gogoniant* yn hunanol o ran ei natur, a gall fod yn dda neu ddrwg o ran ei effeithau, ond y mae *anrhydedd* yn egwyddor anhunanol ei natur, a llesol yn ei gweithrediadau.

**Gogor**—ymborth, ebran, porthiant.

**Gogwyddiad**—tueddiad, chwanogrwydd.

**Gogwyddo**—pwyso, camu, gwyro, plygu.

**Gogyfer**—cyferbyniol.

**Gohebu**—llythyru.

**Gohirio**—adoedi, estyn.

**Golch**—trwyth, trwnc.

**Golchi**—glanhau, puro, clirio. *Glân* sydd wrthgyferbyniol i fudr, a chysylltir ef yn gyffredin â gwrthddrychau anianyddol, tra mae *pur* yn ymwneyd â'r rhan foesol—"y *glân* ei ddwylaw a'r *pur* o galon."

**Goleuni**—gwawl, dysgleirdeb.

**Goleuni**—eglurhad.

**Golud**—cyfoeth, eiddo. *Golud* sydd air cyffredinol yn golygu unrhyw gyfran o *eiddo,* ond heb wneyd unrhyw gyfeiriad at y perchen; *cyfoeth* a ddynoda gyflwr llwyddianus y perchen. Mae gan y *goludog* lawer o *gyfoeth.*

**Golygfa**—arddangosiad, cynrychiolaeth.

**Gollwng** (C. *gollas;* Ll. *luxo)*—rhyddhau, llacio, maddeu.

**Gommedd** (gom-medd)—gwrthod, pallu, nacâu, atal.

**Gonest** (gawn? Saes. *honest;* Ll. *honestus)*—cywir, uniawn, didwyll, diffuant. *Gonest* yw y gair mwyaf eang ei ystyr, a defnyddir ef am weithredoedd ac egwyddorion—ymddygiad neu dymer meddwl: *uniawn* a gymhwysir at yr ymddygiad mewn cyfeiriad at yr egwyddor symudol. *Gonestrwydd* sydd negyddol, megys gwaith dyn yn peidio twyllo, lladrata, &c., ond *uniondeb* sydd a wnelo âg egwyddor, ac â phob peth fyddo o gyrhaedd y gyfraith. Gellir dysgu plentyn i fod yn *onest:* ond mae bod yn

*uniawn* yn rhagdybied gwybodaeth eang, yr hon a alluoga ddyn i wahaniaethu rhwng yr hyn a wna neu na wna niweidio un.

**Gorchest** (gor-cest; Gr. *exoche)*—camp, rhagoriaeth.

**Gorchestol.** GODIDOG.

**Gorchfygu.** Gwel BUDDUGOLIAETHU.

**Gorchuddio.** Gwel CELU.

**Gorchwyl** (gor-chwyl) — galwedigaeth, llafur, gwaith, swydd. *Gwaith* yw y gair cyffredinol am roddi allan nerth ac ymegnïad: gwahaniaetha *llafur* gyda golwg ar radd yr ymegnïad—*caledwaith* yw *llafur.* Gorfyddir pob aelod o gymdeithas os nad yn annibynol i *weithio* at ei gynhaliaeth; rhaid i'r tlawd *lafurio* yn galed am y cyfryw. Mae dyn yn awyddus i orphen ei *waith* ac i orphwys oddiwrth ei *lafur.*

**Gorchymyn** (gor-cymyn). Gwel ARCH.

**Goresgyn.** Gwel BUDDUGOLIAETHU.

**Gorfoledd** (gorfawl)—llawenydd. Y mae a wnelo *llawenydd* fwy â'r teimlad, a *gorfoledd* â mynegiad o'r teimlad hwnw: gall dyn fod yn *llawen* heb fod yn *orfoleddus;* ond nis gellir bod yn *orfoleddus* heb fod yn *llawen.*

**Gormes** (gorm; gor-ym-esu)—gormedd, gormail, gorthrech, trawslywodraeth.

**Gormes**—trais, gorthrwm, goresgyniad.

**Goror** (gor-or; Ll. *ora;* Gr. *chorai).* Gwel FFIN.

**Gorphen**—diweddu, cwblhau, terfynu.

**Gorphwys.** Gwel AROS.

**Gorseddog**—llywyddol.

**Gorthrech**—trais, gorthrwm.

**Goruchafiaeth.** Gwel BUDDUGOLIAETH.

**Goruchwyliaeth**—arolygiaeth, swyddogaeth.

**Gorwychder**—urddas, rhwysg.

**Gosod** (go-sawd)—trefnu, cyfleu, dosbarthu, rhoddi. *Gosod* yw rhoddi neu wneyd lle i rywbeth; *trefnu* a *chyfleu* yw gosod peth allan er mantais a chyfleusdra. *Gosodir* llyfrau mewn cwpbwrdd; *cyfleuir* hwynt yn ol eu maintioli, a *threfnir* i bob un ei le priodol yno. Pethau materol yn unig a *osodir;* pethau materol neu ysbrydol a *gyfleuir* ac a *ddosberthir.*

**Gosper** (Arm. *gosper;* Ll. *vesper;* Gr. *hesperos)*—prydnawnol weddi, echwydd.

**Gosteg.** Gwel DISTAW.

**Gostwng**—iselu, tynu i lawr, gwarthruddo, difrio. Y mae yr edi-

feiriol yn *ymostwng* trwy gyfaddef ei feiau ; y mae'r dyn o safle uchel yn *difrio* ei hun trwy fod yn rhy gymdeithasgar â'i isafiaid ; y mae un arall yn *gwarthruddo* ei hun trwy ei anfoesoldeb a'i oferedd. Gall y dyn mawr a da gael ei *ddarostwng* gan amgylchiadau, ond nid ei *warthruddo*.

**Gostyngol**—gostyngedig. Y mae *gostyngedig* yn golygu fod y weithred yn eiddo y person ei hun ; *gostyngol* yn waith un arall. Y mae ambell nwydd yn cael ei werthu am bris *gostyngol* ar amser caled.

**Gradd** (rhad? *gradus)*—dosbarth, safle, urdd. *Dosbarth* ac *urdd* a ddywedir am gorph er ei wahaniaethu ; *gradd* a *safle* am y gwahaniaeth ei hun. Perthyna rhai i *ddosbarth* neillduol, a meddant *safle* arbenig mewn cymdeithas.

**Grammadeg** (Ll. *grammatica)*—ieitheg, ieithadur.

**Gras** (Ll. *gratia;* Saes. *grace;* Gr. *charis)*. Gwel Ffafr.

**Grawn** (gra? Ll. *grana)*—aeron, ŷd, gronynau.

**Gre** (rhe? Arm. *gre)*—diadell, gyr.

**Greal**—cylchgrawn, trysorfa.

**Greddf** (rheddf?)—natur, anian, tuedd, arferiad.

**Gresyn**—trueni.

**Grudd**—boch, cern.

**Gruddfan**—ocheneidio, ubain.

**Grwgnach**—cwyno, murmur. Dull o ddatgan anfoddlonrwydd a ddatgenir yn y geiriau hyn. Byddwn yn *cwyno* wrth arall, a'r un modd *grwgnach*, ond yn *murmur* wrthym ein hunain. Pan y mae ymddygiad arall yn ein blino yr ydym yn *cwyno;* pan y mae uchradd yn ein gwasgu i lawr yr ydym yn *murmur.* Gall fod achos yn fynych i *gwyno*, ond anfynych y mae achos i *furmur.* Yr oedd yr Israeliaid yn euog o *rwgnach* a *murmur* yn aml heb unrhyw achos.

**Grwgnach**—tuchan, gryngian.

**Grym.** Gwel Gallu.

**Gwadu**—gwrthod. Byddwn yn *gwadu* gyda golwg ar ffaith, ac yn *gwrthod* mewn achos o gais. *Gwadwn* yr hyn a berthyn i ni ein hunain, a *gwrthodwn* yr hyn a berthyn i arall. Edrycha *gwadu* yn ol, a *gwrthod* yn mlaen. *Gwedir* mewn geiriau, ond *gwrthodir* mewn geiriau neu mewn rhyw ddull arall. Sonir hefyd am *wadu* mewn cysylltiad â ni ein hunain: bydd Cristionogion yn gwneyd hunan-*ymwadiad* trwy lawer dull, a'r un modd cybyddion trwy *wrthod* cymeryd digon o angenrheidiau bywyd.

**Gwadu.** Gwel Gommedd.

**Gwaddod**—gwehilion, ysgarthion.

**Gwaddol**—cynysgaeth.

**Gwaedlyd**—creulon, ciaidd, llofruddiol, llawruddiol.

**Gwaedd** (gwae? Gr. *goos*). Gwel BLOEDDIO.

**Gwael** (Ll. *vilis*)—isel, salw, dirmygedig, afiach.

**Gwaered.** Gwel GOGWYDDO.

**Gwaew** (gwae)—gwayw, ing, loes, poen, pang.

**Gwaewffon**—picell.

**Gwâg** (gwa? Ll. *veccius*)—ofer, coeg, dirym. Gwel COEG.

**Gwahaniaeth**—ymryson, dadl, cweryl. Nid yw *gwahaniaeth* mor beryglus ac *ymryson* neu *gweryl*: gellir *dadleu* mewn tymer dda, ond mae *cweryl* yn golygu geiriau angharedig a chaled. Anaml y tyf *gwahaniaeth* i *gweryl* oddi eithr trwy waith y ddwy blaid. Dygir *dadleuon* yn mlaen yn gyffredin rhwng personau yn uniongyrchol; dygir *cwerylon* yn mlaen rhwng personau neu genhedloedd yn aml trwy weithredoedd ymosodol uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**Gwahaniaeth**—cymysgedd, amrywiaeth. Y mae *gwahaniaeth* ac *amrywiaeth* yn y peth ei hun; creir *cymysgedd* trwy ddamwain neu fwriad. Ceir *gwahaniaeth* mewn dau wrthddrych yn unig; rhaid cael casgliad i wneyd *cymysgedd*. Pan y cyferfydd nifer o ddynion o arferion *gwahanol*, disgwyliwn *gymysgedd* o gymeriadau; gall chwaeth dda wneyd *amrywiaeth* lliwiau yn hyfryd i'r llygad; ond gwna chwaeth ddrwg y fath *gymysgedd* o liwiau fel ag i fod yn ddolur i'r llygad.

**Gwahaniaethu**—amrywio, anghytuno, ymneillduo. Defnyddir y tri gair cyntaf gyda golwg ar bersonau a phethau, ac *ymneillduo* â phersonau. Moddau o *wahaniaethu* yw *amrywio* ac *anghytuno*. Gellir *gwahaniaethu* am unrhyw achos ac i unrhyw raddau; byddwn yn *amrywio* gyda golwg ar bethau bychain. Rhaid cael mwy nag un i *wahaniaethu*, ond gall un *amrywio*. Bydd dau yn *gwahaniaethu* wrth adrodd hanes; ond gall un *amrywio* trwy adrodd yr hanes ar wahanol adegau. *Anghytuno* yw gwaith un dyn â'r llall; *ymneillduo* yw gwaith un neu ragor gyda golwg ar gyfundeb. Fel hyn gall dau ysgrifenydd *anghytuno* yn eu casgliadau, am eu bod yn cychwyn oddiar safle wahanol; *ymneilldua* rhai oddiwrth grefydd sefydledig y wlad.

**Gwahanol**—amryfal, amryw, amrywiol, anghyffelyb, neillduol, anhebyg. Y mae rhai pethau yn effeithio yn *wahanol* ar *wahanol* bersonau, a gall dyn gael effeithio arno yn *amrywiol* yr un modd, ar *amryw* achlysuron. Nid yw mor anhawdd deall *gwahanol* ieithoedd ac ydyw deall ieithoedd *amrywiol*.

**Gwahanu**—dosbarthu, neillduo, rhanu.

**Gwahardd**—gwarafun.

**Gwahardd**—lluddias, llesteirio, gwarafun.

**Gwahodd** (gwa-hawdd). Gwel GALW.

**Gwaith.** Gwel GORCHWYL.

**Gwâl**—ffau, lloches, gwely, gorweddfa. Gwel FFAU.
**Gwal**—mûr, pared, magwyr. Gwel CAER.
**Gwala**—digonedd, llawnder, helaethder.
**Gwall** (gw-all; gwa-all). Gwel DIFFYG.
**Gwallgof**—direswm, ynfyd, gorphwyllog, lloerig.
**Gwammal** (gwam-bal). Gwel ANWADAL.
**Gwan.** Gwel EGWAN.
**Gwanc.** Gwel AWYDD.
**Gwanu**—brathu.
**Gwâr** (gwa-ar). Gwel DOF.
**Gwar**—gwegil, cefn.
**Gwaradwydd.** Gwel DIRMYG.
**Gwarafun.** Gwel GWAHARDD.
**Gwarant**—dilysrwydd, sicrwydd.
**Gwared.** Gwel ACHUB.
**Gwario.** Gwel AFRADLON.
**Gwarogaeth**—ymostyngiad, deiliadaeth.
**Gwarth.** Gwel DIRMYG.
**Gwas** (gwa-as)—gweinydd, gweinidog.
**Gwasg**—y canol, y gwregys.
**Gwasgar** (gwasg-ar)—chwalu, taenu. Gwel CHWALU.
**Gwasgu**—tynhau, llethu.
**Gwastad**—llyfn.
**Gwastraff** (gwa-ystraff? gwast?). Gwel AFRADLON.
**Gwatwar.** Gwel DIRMYG.
**Gwatwareg.** Gwel CELLWAIR.
**Gwaudd**—merch-yn-nghyfraith.
**Gwawd** (gwa-awd? go-awd? Gr. *ode*)—cân o fawl, clôd; hefyd gogan, gwatwariaith, dirmyg.
**Gwawl** (gwa-awl)—goleu, llewyrch,
**Gwawr** (gwa-awr)—eiliw, toriad y dydd, y boreu.
**Gwawr**—gwron.
**Gwedd.** Gwel FFURF.
**Gweddi.** Gwel DEISYF.
**Gweddill**—rhelyw, briwsion.
**Gweddus.** Gwel ADDAS.
**Gwefl**—gwefus. Defnyddir y cyntaf yn gyffredin, oddieithr mewn gwawd mewn cysylltiad âg anifeiliaid, a *gwefus* mewn cysylltiad â dyn.
**Gwefr**—trydan, ambr.

**Gwegi**—gwagedd, oferedd, ysgafnder.

**Gwehelyth.** Gwel Ach.

**Gwehilion** (gwe-hil)—manion, cwlion, ysgubion, ysgarthion. ysbwrial.

**Gweiddi.** Gwel Gwaedd.

**Gweini.** Gwel Gwas.

**Gweithgar**—diwyd, dyfal, llafurus, Yr ydym yn *weithgar* pan yn barod i arfer ein galluoedd at ryw amcan: yn *ddiwyd* pan yn gwneyd hyny at ryw amcan neillduol: yr ydym yn *ddyfal* pan na adawn beth heb ei orphen; ac yn *llafurus* pan yn gwneyd caledwaith corphorol neu feddyliol. Gall dyn fod yn *weithgar* heb fod yn *ddiwyd* trwy ymwneyd â pheth dibwys; ond prin y gall fod yn *ddiwyd* heb fod yn *weithgar*. Y mae *gweithgarwch* fel rheol yn gyneddf meddyliau cryfion a bywiog, ond gall *diwydrwydd* fod yn gysylltiedig â thalentau cyffredin. Gall dyn fod yn *ddiwyd* heb fod yn *llafurus*, ond nid yn wrthgyferbyniol, canys nid yw *llafur* amgen *diwydrwydd* llym neu galed. Nid yw dyn *gweithgar* byth yn foddlon heb rywbeth i'w wneyd: mae'r *diwyd* yn foddlon ar yr hyn sydd ganddo: ceisia'r *dyfal* gyrhaedd ddyben ei waith; ni arbed y dyn *llafurus* yr un drafferth na phoen i ddilyn ei orchwyl.

**Gweithgar**—prysur, ymyrgar. *Gweithgar* a ddynoda dueddfryd y meddwl; *prysur* ac *ymyrgar*, dueddfryd y meddwl, neu y gwaith ar y pryd: golyga y cyntaf bob math o lafur; yr olaf, fathau neillduol. Mae dyn *gweithgar* yn barod bob amser at ryw orchwyl; yn *brysur* pan gyda rhyw orchwyl neillduol; ac yn *ymyrgar* pan yn gweithredu dros eraill. Cymerir *gweithgar* mewn ystyr dda neu amhenodol, yn wrthgyferbyniol i ddiog; *prysur*, mewn cysylltiad a masnach, mewn ystyr dda, gan mwyaf; *ymyrgar* a gymerir mewn ystyr ddrwg, sef bod yn *brysur* heb fod yn ddoeth.

**Gweithgar**—gweithiol. Dyn *gweithgar* yw dyn diwyd, ymroddgar, diddiogi. *Gweithiol* yw peth neu sefydliad wedi ei fwriadu at waith: dyn *gweithgar;* pwyllgor *gweithiol;* dosbarth *gweithiol.*

**Gweithredol**—gwirioneddol, pendant. Beth bynag sydd *weithredol* a brawf ei hun, a gellir ei ddangos i'r llygad; yr hyn sydd *wirioneddol* a ellir ei brofi ei fod yn bodoli; a'r hyn sydd *bendant* sydd yn cau allan anghen prawf. Y mae *gweithredol* yn wrthgyferbyniol i'r tybiadol; y *gwirioneddol* i'r ffugiol; a'r *pendant* i'r ansicr a'r amheus. Y mae *gwir* wrthddrychau tosturi yn deilwng o gydymdeimlad; ond y mae lluaws o ffeithiau *pendant* yn dangos y gall y dyn yn aml gael ei dwyllo gan y cyfryw.

**Gweled.** Gwel Canfod.

**Gweledigaeth**—breuddwyd, ymddangosiad.

**Gweledigaeth**—lledrith, drychiolaeth, cyhyraeth, ysbryd.

**Gwelw**—llwyd, pŵl, gwynlas.

**Gwely.** Gwel GWAL.

**Gwemp** (gwymp)—gwych, hardd.

**Gwen**—gwyn, têg, cain, hardd.

**Gwendid**—llesgedd, methiantwch.

**Gweniaith**—truth, rhodresiaith.

**Gwep**—gwyneb.

**Gwêr**—brasder.

**Gwerin** (gwar, gwaer? Ll. *viri)*—y lluaws, y cyffredin bobl, iselradd.

**Gwers** (Ffr. *verse;* Ll. *versus)*—llith, ban, penill, cyfwng, ysbaid.

**Gwerth** (gwe? Gr. *werth)*—pris. Gwel COST.

**Gweryd**—tail, gwrtaith.

**Gwestty** (gwes? Saes. *guest)*—tafarndy, gwestle.

**Gwestwr**—ymwelydd.

**Gwewyr**—poen, ing, gwasgfa.

**Gwiber** (Saes. *viper;* Ll. *vipera)*—sarph, draig.

**Gwibio.** Gwel CRWYDRO.

**Gwich** (gwi; Saes. *squeak)*—ysgrech, crec.

**Gwig** (Saes. *wicker)*—coedwig, llwyn.

**Gwir**—cywir, union.

**Gwireb**—cynghor, rheol, cyfraith.

**Gwirfoddol**—ewyllysgar, boddlon.

**Gwirion** (gwir-iawn)—cywir, diniwed, syml, dieuog.

**Gwirionedd**—gwiredd, gonestrwydd, manylder, egwyddor.

**Gwisg**—dillad.

**Gwisgi**—bywiog, hoenus.

**Gwiw** (gwi)—cymhwys, addas, teilwng.

**Gwlad.** Gwel BRO.

**Gwladaidd**—cartrefig, syml.

**Gwladychfa**—sefydliad, trefedigaeth.

**Gwledd** (gwl-lled)—gwestfa, cyfeddach, arfoll.

**Gwlyb** (gwl?)—llaith, glawog.

**Gŵn**—hugan, arwisg.

**Gwn**—dryll, cyflegr.

**Gwneyd**—ffurfio, cynyrchu, creu. *Gwneyd* yw y gair mwyaf cyffredinol: *ffurfio* yw *gwneyd* yn ol cynllun neillduol; *cynyrchu* yw galw i fodolaeth, neu i oleuni; *creu* yw dwyn i fod trwy ddefnyddio gallu pen-arglwyddiaethol. *Gwneyd* yw y dull mwyaf

rhwydd; *ffurfio* a eilw am ofal a sylw, ac ymdrech; i *gynyrchu* rhaid cael amser a llafur: nid oes ond y Bôd Mawr fedr *greu*, yr hyn a olyga *wneyd* neu *ffurfio* o ddim.

**Gwnïo**—pwytho.

**Gwobr** (gobr; Arm. gobr; C. gobr)—rhôdd, anrheg.

**Gŵr** (Ll. *vir*; C. *gur*)—dyn, person, gŵr priod.

**Gwrach**—gwiddanes.

**Gwraig**—merch, dynes, benyw, gwraig briod.

**Gwrandaw** (gŵr-gor-andaw). Gwel CLYWED.

**Gwrdd**—cryf, pybyr, awchus, tanbaid.

**Gwreng**—gwerinwr.

**Gwres** (gwr-gor-es)—poethder, twymder, cynhesrwydd, tân. *Tân* yw yr achosydd, a'r gweddill yw yr effaith o hono: gwelir *tân*, teimlir *gwres*. *Cynhes*, *twym*, a *phoeth* ydynt raddau dilynol *gwres*.

**Gwrido**—cochi.

**Gwrol**. Gwel DEWR.

**Gwrtaith** (gwr-gor-taeth). Gwel GWERYD.

**Gwrthod**—gomedd, nacâu, pallu, rhwystro.

**Gwrthryfel**—terfysg, gwrthgiliad.

**Gwrthwynebu**—gwrthod.

**Gwrthwynebu**—gwrthddywedyd.

**Gwrthwynebu**—ymryson, brwydro.

**Gwrthwynebu**—gwrthsefyll, lluddias, croesi. *Gwrthwynebu* yw y gair mwyaf cyffredinol, a golyga safle berthynasol dau wrthddrych; *gwrthsefyll* sydd weithred o fwy neu lai o rym mewn cysylltiad â dyn, megys *gwrthsefyll* awdurdod gyfreithlawn, ac mae bob amser yn ddrwg oddieithr ei fod mewn hunanamddiffyniad. *Gwrthsefyll* sydd negyddol, ond *croesi* sydd gadarnhaol, oblegyd nid yw amgen na myned yn erbyn ewyllys un arall. Y mae *gwrthsefyll* temtasiynau yn rhinwedd mawr mewn ieuenctyd; dylai y Cristion ymostwng o dan bob awel *groes* a ddelo i'w erbyn.

**Gwrthwynebwr**—ymosodwr.

**Gwrych** (gwr-gor-rhych)—perth, perthgae.

**Gwth** (wth; Gr. *otheo)*—hergwd, hwrdd.

**Gwy**. Gwel FFRWD.

**Gwybodaeth** (gwyb)—gwyddor, dysg, efrydiaeth. *Gwybodaeth* sydd air cyffredinol am yr hyn a wyddis; mathau o wybodaeth yw y lleill: *gwyddor* ydyw gwybodaeth yn ol rheol a threfn benodol; *dysg* yw yr hyn a geir mewn ysgolion, neu trwy gyfrwng addysg bersonol; *efrydiaeth* yw *gwybodaeth* a gyrhaeddir trwy ymchwil caled.

**Gwych.** Gwel GWROL.
**Gŵydd**—presenoldeb.
**Gwydd**—gwybodaeth, gwyddor.
**Gwydd**—aradr, coed.
**Gwyddfa**—cofadail, cofgolofn, gwyddgrug.
**Gwyddon**—athronydd, athraw.
**Gwyddor.** Gwel GWYBODAETH.
**Gwyl**—ofnus, cywilyddgar.
**Gwyll**—tywyllwch, duwch, prudd-der.
**Gwyllt.** Gwel ANIAL.
**Gwyllt**—rheibus, creulawn.
**Gwymp.** Gwel GWEMP.
**Gwyn**—têg, pur, glân, bendigaid.
**Gŵyn**—poen, nwyd.
**Gwyneg**—brâth, loes.
**Gwynfa**—paradwys, nefoedd.
**Gwynfyd**—dedwyddwch, hapusrwydd.
**Gwynt** (gwyn? Saes. *wind*: Ll. *ventus*). Gwel AWEL.
**Gwyro.** Gwel GOGWYDDO.
**Gwyryf**—morwyn.
**Gwyryf**—pur, crai, ffres, dilwgr.
**Gwys**—rhybudd. Gwel GWAHODD.
**Gwystl**—ernes, mach.
**Gwywo** (gwy)—crino, edwino, diflanu.
**Gyr**—gre, haid, rhuthr.
**Gyrfa**—rhedegfa, rhawd, llwybr.

# H

**Hac**—toriad, bwlch.
**Hacru**—hyllu, anurddo.
**Haeddiant**—teilyngdod, gwerth.
**Hael** (hy-ael)—caredig, cymwynasgar, rhoddgar.
**Haen** (ha-en)—gwanaf, rhês, plyg.
**Haerllug**—eofn, hyf, digywilydd, taiog.
**Haeru**—taeru, hòni, cadarnhau, sicrhau.
**Hafal** (ha-mal)—tebyg, cyffelyb.
**Hafan**—porthladd, llongborth.
**Haffio**—cipio, ysglyfio, rheibio.
**Hagr**—hyll, anolygus, gwrthun.

**Haid** (hy-aid)—mintai, gyr, diadell.

**Haint** (hy-ain)—clefyd, salwch, plâ.

**Halogi**—llygru, aflaneiddio, amhuro.

**Hanes**—ystori, adroddawd.

**Hanu**—deillio, disgyn.

**Hapus.** Gwel DEDWYDD.

**Hardd**—prydferth, cain, têg, tlws.

**Haul**—huan, greian.

**Hawdd** (hy-awdd)—rhwydd, esmwyth.

**Hawddamor**—croesaw, gresaw.

**Hawddgar**—cariadlawn, serchus.

**Hawl** (hy-awl)—cwyn, gofyniad, archiad.

**Hebrwng** (heb-rhwng)—anfon. Gwel CYNHEBRWNG.

**Heddwch** (hy-edd)—tangnefedd, llonyddwch, tawelwch.

**Heigio**—cnydio, tyru, hilio.

**Heinif**—hoyw, bywiog, llawen.

**Hel** (hy-el)—gyru, casglu, crynhoi. Gwel CASGLU.

**Helaeth.** Gwel EANG.

**Helbul** (hel-pul ?)—trallod, gofid, pryder, trafferth.

**Help.** Gwel CYNORTHWY.

**Heol.** Gwel FFORDD.

**Hepian.** Gwel CYSGU.

**Her**—beiddiad, hyrddiad.

**Hercian**—crychneidio.

**Heretic**—sismatic, sectwr, ymneillduwr. Y mae *heretic* yn ymwneyd â chredo neu ffydd; *sism* yn ymwneyd â dysgyblaeth ac ymarferiad. Gall dyn fod yn *heretic* heb fod yn *sismatic*, a gall y *sismatic* beidio bod yn *heretic*. Edrychir ar *heretic* fel y cyfryw mewn cysylltiad â'r Eglwys Gatholic neu Gyffredinol, neu holl gorph y Cristionogion a ddaliant egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth: ond edrychir ar y *sismatic* a'r *sectwr* yn eu cysylltiad â chyrph neillduol o Gristionogion. Mae y *sismatic* yn gwneyd rhwyg mewn corph crefyddol, ond mae y *sectwr* yn gyfryw yn berthynasol felly—nid yw yn rhanu ei hun, ond yn perthyn i'r hyn fyddo wedi ei rwygo neu ei ranu. Gall un fod yn *sismatic* heb fod yn *sectwr*, ac yn *sectwr* heb fod yn *sismatic*. Wrth *ymneillduwr* yn y wlad hon y golygir y sawl a ymwrthodant âg athrawiaethau yr Eglwys Sefydledig. Nid yw *ymneillduwyr* o angenrheidrwydd yn *hereticiaid* na *sismaticiaid*, oblegyd yn yr Alban mae y Pabyddion a'r Presbyteriaid yn *ymneillduwyr*, er nad ydynt yn *sismaticiaid* na *sectariaid*.

**Hergwd**—ystwffiad, ergyd.

**Herlodes**—lodes, llances, geneth, hoeden.
**Hew.** Gwel Her.
**Hewyd** (he-gwyd)—aiddgarwch, nwyd, defosiwn.
**Hicio**—tori, cracio.
**Hidlo**—distyllu, defnynu, diferu.
**Hil.** Gwel Eppil.
**Hin**—tywydd, tymheredd, hinsawdd.
**Hir** (hy-hir? C. Arm. *hir*)—maith, tal, annyben.
**Hiraeth**—awydd, chwenychiad.
**Hoced**—twyll, rhagrith, ystryw.
**Hoedl.** Gwel Anadl.
**Hoen**—lliw, ymddangosiad, llonder.
**Hoenus**—hoew, bywiog.
**Hoff** (hy-off)—cu, anwyl.
**Hogen.** Gwel Herlodes.
**Hongian** (hong?)—crogi, hongianu.
**Hol**—cyrchu, nol.
**Holi** (hy-ol?)—cwestiyno, hawlio, chwilio.
**Holwyddori**—egwyddori.
**Hollt** (ollt)—agen, agoriad, rhwygiad.
**Honi**—hawlio, haeru, arddel.
**Hoyw.** Gwel Hoenus.
**Hual.** Gwel Llyffethair.
**Huan.** Gwel Haul.
**Hudo** (hu; C. *huder*)—twyllo, swyno, denu.
**Hudd** (hy-udd)—tywyll, gwrm, prudd.
**Huddygl**—parddu.
**Hûn.** Gwel Cysgu.
**Hur** (hu-ur; Saes. *hire*)—cyflog, tâl, gwobr.
**Hurt**—pendew, dwl, clwpanaidd.
**Hwb**—hwp, gwth, codiad.
**Hwdwg**—bwgan, hwdwch.
**Hwylio**—trefnu, parotoi, morio.
**Hwylus**—hylaw, hyrwydd, taclus.
**Hwyr**—diweddar, araf, hir.
**Hyawdl.** Gwel Ffraeth.
**Hyblyg**—ystwyth.
**Hyd**—enyd, parhad.
**Hyder.** Gwel Ffydd.

**Hyiwyth.** Gwel HYBLYG.
**Hydd** (hy-ydd)—carw, llwdn hydd, iwrch.
**Hyf**—eofn, beiddgar.
**Hyfryd** (hy-bryd)—dedwydd, siriol, brâf.
**Hyfforddi**—addysgu, cyfarwyddo, arwain.
**Hyglod.** Gwel CLOD.
**Hyll** (hy-yll)—hagr, gwrthun.
**Hymn.** Gwel EMYN.
**Hynaws.** Gwel MWYNAIDD, DYNGAROL, ADDFWYN, RHADLAWN.
**Hynod**—syn, rhyfedd, nodedig, arbenig.
**Hynt** (hwnt)—ffordd, llwybr, gyrfa.
**Hyrddawd**—gwthiad, gyriad.
**Hysbys** (ysbys)—amlwg, eglur, adnabyddus, eglur.
**Hysbysiad**—cyhoeddiad, newydd.
**Hysp**—sych, diffrwyth.
**Hyweddu**—dofi, gwareiddio, llareiddio.

# I

**Iach**—diglwyf, dianaf.
**Iachau**—meddyginiaethu, gwella.
**Iachawdwr**—meddyg, gwaredwr, achubwr.
**Iaith** (aith)—parabl, ymadrodd, lleferydd.
**Ial**—clir, noeth, agored.
**Ias**—ergyd, cryndod.
**Iawn**—teg, cyfiawn.
**Ieithwedd** - dullwedd.
**Iesin**—têg, gloyw, cain.
**Ing**—gwasgfa, caledi, cyfyngder.
**Impyn**—blaguryn, hedyn.
**Ir**—ffres, gwyrf.
**Irad**—gofidus, cystuddiol.
**Isel**—gwylaidd, gostyngedig.
**Isel**—gwael, dirmygedig.
**Iselfryd** - gostyngedig.
**Iselu**—darostwng, gwarthruddo.
**Israddol**—gwael, diwerth.

# L

**Lachio**—curo, ffustio.
**Lodes**—geneth, hogen, llances.

**Lol**—ffregod, gwâg-siarad.

**Lwfer**—simnai, ffumer.

## Ll

**Llaca**—llaid.

**Llacio**—rhyddhau, gollwng.

**Llach** (lly-ach)—goleu, dysglaer.

**Llad** (lly-ad)—ffafr, rhôdd, bendith.

**Lladmerydd**—cyfieithydd, deonglydd.

**Lladrata** (C. *ladar;* Gr. *lathra)*—ysbeilio, dwyn.

**Lladd** (lly-add) — llofruddio, marwolaethu, brâd-lofruddio, dienyddio. Y meddylddrych o gymeryd ymaith fywyd yw yr un a red trwy yr oll o'r geiriau hyn, ond gwahaniaethant gyda golwg ar y dull. *Llofruddio* yw *lladd* gyda thrais a gorthrech; *brâd-lofruddio* yw gwneyd hyny yn ddirgelaidd a thrwy gynllwyn; *dienyddio*, rhoddi i farwolaeth yn unol â dyfarniad cyfraith. *Lleddir* dynion, anifeiliaid, a llysiau, ond *llofruddir* a *dienyddir* dynion yn unig.

**Llafar**—lleisiol, uchel.

**Llafn** (llaf; Ll. *lamina)*—darn, dernyn.

**Llafur** (Ll. *labour).* Gwel Gwaith.

**Llain** (lla-in)—dernyn, llafn.

**Llais** (lly-ais)—llef, llafar, lleferydd.

**Llaith** (Ll. *læthum)*—gwlyb, noddlyd.

**Llam** (lly-am? Arm. *llam;* C. *lan)*—cam, naid, ysponc.

**Llan** (lly-an? Arm. *llan;* C. *lan)*—buarth, llanerch, eglwys.

**Llanastr**—dyrysweh, cymysgiad.

**Llanc** (lly-anc). Gwel Bachgen.

**Llanerch.** Gwel Llan.

**Llariaidd** (lly-ar). Gwel Addfwyn.

**Llarpio**—darnio, rhwygo.

**Llathr** (lly-ath)—gloyw, claer, caboledig.

**Llawenydd** (lla-gwên). Gwel Gorfoledd.

**Llawn.** Gwel Cyflawn.

**Lle** (C. *le;* Arm. *lech)*—safle, gorsaf, sefyllfa, arsaf, eisteddfa.

**Lle**—swydd, goruchwyliaeth, gwarchodaeth, galwedigaeth. *Swydd* a olyga y gwaith neu ynte y *lle* y gwneir ef, ond nid oes yr un gwaith yn gysylltiedig â'r meddylddrych o *le;* y mae pob *swydd* gyhoeddus yn *lle*, ond nid yw pob *lle* yn *swydd.* Delir *swydd;* llenwir *lle:* ymddiriedir neu rhoddir *swydd* i un; caniateir *lle;* y mae *swydd* yn gosod ymddiriedaeth a rhwymedigaeth: rhydd *lle* ddylanwad: rhoddir *swydd* yn gyffredin am gymhwysder:

rhoddir *lle* fel cydnabyddiaeth am waith blaenorol, neu fel ffafr: mae *swydd* yn dwyn rhyw gymaint o anrhydedd; *lle*, rhyw faint o elw. Mae *swydd* yn golygu gwaith; *gwarchodaeth*, rwymedigaeth neu gyfrifoldeb: gall *swydd* fod yn gyhoeddus neu gyfrinachol; y mae *gwarchodaeth* bob amser o natur gyfrinachol a phersonol: cyflawna dyn *swydd* ustus, neu weinidog; ymgymera â *gwarchodaeth* plant, neu symud eiddo o *le* i *le*.

**Llechu** (llech)—ymguddio, cysgodi, ymnoddi.

**Lledaenu**—gwasgaru.

**Llednais.** Gwel DILLYN.

**Llef.** Gwel LLAIS.

**Lleffethair.** Gwel GEFYN.

**Lleng** (lly-eng? Ll. *legio)*—llu, lleon.

**Lleion**—mynaches, gwyryf.

**Lleidr.** Gwel LLADRATA.

**Llên** (lla-en? C. *Lem)*—dysg, ysgolheigdod.

**Llen**—gorchudd, croglen.

**Lleoli**—dosbarthu, trefnu. *Lleolir* pethau o orfodaeth neu gyfleusdra; *dosberthir* hwy yn ol rheol; *trefnu* yw eu *gosod* mewn *lle* yn daclus. Pethau materol yn unig a *leolir;* pethau materol neu ysbrydol a *ddosbarthir;* pethau ysbrydol a *drefnir.* Cymer awdwr ofal i *drefnu* ei waith yn ol natur ei destyn; *dosbartha* ei amser yn ol cynllun a rheol sefydlog; a gesyd ei ddefnyddiau a'i lyfrau yn eu *lleoedd* priodol.

**Llerw**—destlus, cain, tlws, tyner.

**Lles.** Gwel ELW.

**Llesg.** Gwel EGWAN.

**Llesteirio**—rhwystro, lluddio, attal. Gwel ATTAL.

**Llewyrch**—goleuni, dysgleirdeb, gwawr.

**Lleyg** (Ll. *laicus)*—tymhorol, bydol. *Lleyg* sydd wrthwynebol i llen, a *thymhorol* a *bydol* i dragwyddol ac ysbrydol. Pethau y byd hwn, mewn gwrthgyferbyniad i'r byd arall, yw yr hyn a gyfleir yn y geiriau hyn: *lleyg* sydd air penagored am waith cyfreithlon dyn; *tymhorol* a ddefnyddir mewn ystyr dda neu ddrwg; a *bydol* gan mwyaf mewn ystyr ddrwg, ac mewn gwrthgyferbyniad i bethau o fwy gwerth. *Lleygwr* yr ystyrir pawb ond offeiriad; yn Nhŷ Uchaf y Senedd ceir arglwyddi *tymhorol* ac ysbrydol; nid yw pethau *bydol* yn deilwng o'n bryd gwastadol.

**Lli**—llif, ffrwd, cerhynt.

**Llid.** Gwel DIG.

**Llin.** Gwel ACH.

**Lliniaru**—esmwytho, meddalu.

**Llinyn**—tenyn, cordan.
**Lliosog.** Gwel Amlder.
**Llith**—gwers, darlith, penod, pregeth.
**Llithio.** Gwel Denu.
**Lloc**—corlan, clawdd.
**Lloches** (llach ; Ll. *locus)*—noddfa, cuddfa.
**Lloer** (lly-oer? Arm. *loar)*—lleuad.
**Lloerig.** Gwel Gwallgof.
**Llofruddio.** Gwel Lladd.
**Lloffion**—gweddillion, olion.
**Llogell**—poced, llawgell.
**Llong**—llestr.
**Llongwr**—morwr.
**Llon** (lly-on)—llawen, siriol, hoenus. *Sirioldeb* a olyga rediad di-atal yr ysbrydoedd ; *llawenydd* yw amlygiad mwy trystfawr o'r cyfryw; a *hoenusrwydd* fwy o fywiogrwydd. Gwena y *siriol*, *chwardd* y llawen, a dawnsia yr *hoenus*.
**Llonydd** (llawn). Gwel Esmwyth.
**Llu**—mintai, byddin, tyrfa.
**Lluchio.** Gwel Bwrw.
**Lludded.** Gwel Blino.
**Lluddias**—rhwystro, attal, llesteirio.
**Lluest**—bwthyn, gwersyll, pabell.
**Lluman** (llum-ban)—baner.
**Llun.** Gwel Ffurf.
**Lluosog.** Gwel Aml.
**Llusgo**—tynu, rhuglo.
**Lluwch**—brychau, llwch, tawch,
**Llŵ**—twng, rhaith.
**Llwm**—noeth, amlwg, amddifad.
**Llwybr.** Gwel Ffordd.
**Llwyd.** Gwel Gwelw.
**Llwyddo.** Gwel Ffynu.
**Llwyn** (llw-yn ; C. *loin)*—perth, twmpath, gwigfa.
**Llwynog**—madyn, cadno.
**Llwyr.** Gwel Cyflawn.
**Llwyth.** Gwel Cenedl.
**Llwytho**—beichio, ystorio.
**Llychwino**—anurddo, diwyno.

**Llydan**. Gwel Eang.

**Llyfelu**—cynllunio, darfelu.

**Llyfn**. Gwel Gwastad.

**Llyffethair**. Gwel Lleffethair.

**Llygedyn**—goleufer, pelydryn.

**Llygru**—braenu, pydru, halogi.

**Llymder**—tlodi, anghen, noethni.

**Llymaid**—diferyn.

**Llys** (lly-ys)—palas, neuadd, cwrt.

**Llythyr**—epistol.

**Llyw** (lly-yw)—rheolwr, penaeth, arweinydd.

**Llywodraeth**—trefn, awdurdod, rheolaeth, cyfansoddiad.

# M

**Mâd**. Gwel Llesol.

**Madru**. Gwel Llygru.

**Madyn**. Gwel Llwynog.

**Maddeu**—pardynu, ebargofi, rhyddhau. *Maddeu* ydyw y gair cyffredin; *pardynu* sydd fwy dwys ei ystyr. *Maddeua* dynion i'w gilydd, ond *pardynir* troseddau yn erbyn deddf a moesau: y gyntaf sydd weithred Gristionogol; yr olaf sydd weithred o dosturi: perthyna y naill i bob gradd a sefyllfa, a'r llall i uwchradd.

**Mael**. Gwel Elw.

**Maen**. Gwel Carreg.

**Maes** (ma-es; Arm. *maes*)—cae, gwastattir.

**Maethu**—magu, meithrin.

**Maglu**—rhwydo, dyrysu.

**Main**. Gwel Eiddil.

**Maint**—mawredd, crynswth.

**Malais** (Ll. *malus*). Gwel Cenfigen.

**Malurio**—malu, briwio.

**Mall**—meddal, deifiol.

**Man**. Gwel Lle.

**Mân**—bychain, gronynaidd.

**Mangre**—preswylfod.

**Mantais**. Gwel Enill.

**Mantell**—cochl, clôg.

**Mantol**—clorian, tafol.

**Manwl**—cywrain, gofalus.

**March**—ceffyl.

**Marian**—traeth, llaid.

**Marmor**—mynor, marbl.

**Marsiandiaeth**—trafnidiaeth, masnach.

**Marw**—difywyd, crîn, gwyw.

**Marwol**—angeuol. Y mae gwenwyn yn *angeuol;* gall archoll fod yn *farwol:* pethau yn unig sydd *angeuol;* creaduriaid sydd *farwol.* Y mae casineb yn *angeuol;* pob peth â bywyd sydd *farwol.* Gall fod meddyginiaeth rhag yr hyn sydd *angeuol,* ond nis gellir gwella yr hyn sydd *farwol.*

**Marwolaeth.** Gwel ANGAU.

**Mater**—defnydd, sylwedd. Gwel DEFNYDD.

**Mathru**—sangu, sathru, dibrisio.

**Mawl.** Gwel CLOD.

**Mawr.** Gwel EANG.

**Mawrygu**—dyrchafu, clodfori, moli.

**Medrus.** Gwel CYWRAIN.

**Meddwdod**—pensyfrdandod, lledfrydedd.

**Meddal**—tyner, blydd.

**Meddianu.** Gwel ETIFEDD.

**Meddwl**—adystyried, myfyrio, synfeddylio.

**Meddwl**—tybied, dychymygu, credu, cyfrif. Gwaith y deall neu y dychymyg yw *meddwl; tybied, dychymygu*—gwaith y dychymyg yn hytrach na'r deall: rhaid cael rhyw gymaint o amser i *feddwl;* gellir *tybied* a *dychymygu* mewn eiliad. Byddwn yn *meddwl* fod peth yn iawn neu beidio; yn *tybied* ei fod yn wir neu au; yn *dychymygu* ei fod yn wirioneddol neu ffugiol. Byddwn yn *meddwl* mewn cysylltiad â phob gwrthddrych, pa un bynag ai yn bod ai peidio: *tybir* yn nghylch pethau y bydd amheuaeth neu ansicrwydd; *dychymygir* am bethau ansylweddol. Byddwn yn *meddwl* i ni glywed sŵn mor fuan ag y syrth ar ein clust; mewn rhai amgylchiadau o eiddo y meddwl byddwn yn *dychymygu* i ni glywed seiniau na chynyrchwyd erioed: byddwn yn *meddwl* y daw ein cyfaill heddyw am addaw o hono: *tybiwn* y daw ar awr benodol am ddyfod o hono felly ddoe. Gyda golwg ar amser ac amgylchiadau bywyd, gellir cymhwyso *meddwl* at unrhyw amser; *tybio* yn fwyaf at y dyfodol, a *dychymygu* at y mynedol neu'r presenol. Byddwn yn *meddwl* fod dyn wedi, yn gwneyd, neu y gwna beth; *tybiwn* y gwna ef; *dychymygwn* ei fod wedi neu yn ei wneyd. Y mae *meddwl* a *chredu* yn wrthgyferbyniol i wybod neu ganfod, ond mae *credu* yn gryfach ac yn ffrwyth casgliad. Nid yw *meddwl* yn cael ei dderbyn yn dystiolaeth mewn llys gwladol, ond y mae *crediniaeth.*

**Meddwl**—meddylddrych, dychymyg. Ffrwyth *meddwl* yw *dychymyg;* gall y *meddwl* fod yn eiddo arall, ond y *dychymyg* sydd eiddo dyn ei hun: gall y *meddwl* fyned a dyfod: mynwesir y *dychymyg:* ymdroa'r *meddwl* â phethau agos; *dychymyg* â phethau absenol a phell.

**Meddylgar**—pwyllog, ystyriol. Nid yw y sawl sydd *feddylgar* yn anghofio ei ddyledswydd; y mae y sawl sydd *ystyriol* yn *ymbwyllo,* a'r sawl sydd *bwyllog* yn *ystyried* yn ofalus. Peth i'w gymeradwyo mewn dyn anhydyn ydyw bod yn *feddylgar* gyda gwneyd yr hyn a geisir ganddo: peth i'w gymeradwyo mewn un y rhoddir ymddiried ynddo ydyw bod yn *ystyriol,* gan fod ganddo yn fynych i weithredu yn ol ei farn; y mae yn beth da i'r sawl sydd yn gweithredu drosto ei hun mewn materion pwysig i fod yn *bwyllog.*

**Mefl.** Gwel GWARTH.

**Meidrol**—terfynol, cyfyngol.

**Meirioli** (mer)—toddi, dadmer.

**Meistr.** Gwel ARGLWYDD.

**Meithrin.** Gwel MAETHU.

**Melfed**—pali.

**Melus**—peraidd, hyfryd.

**Melldith**—rheg, ysgymundod.

**Men**—trol, cert.

**Menu**—argraphu, effeithio.

**Mesur** (mes-ur? Arm. *musur;* Ffr. *mesure)*—rheol, mydr, ffordd, gradd.

**Methu.** Gwel FFAELU.

**Milain.** Gwel FFYRNIG.

**Milwr**—rhyfelwr, sawdwr.

**Min.** Gwel AWCH.

**Mir**—mirain, têg, prydferth, cain, tlws.

**Moch**—buan, cyflym, chwai.

**Modd**—dull, trefn, arfer, ffordd.

**Moel**—crug, pentwr.

**Moel**—noeth, llwm.

**Moesgarwch**—boneddigeiddrwydd.

**Moethus**—danteithiol.

**Moli**—canmol, clodfori.

**Moni**—sori, ystyfnigo.

**Môr** (mo-or?)—C. *mor;* Ll. *mare)*—eigion, gweilgi.

**Morwr.** Gwel LLONGWR.

**Morwyn**—gwyryf.

**Mud**—dystaw, dilafar.

**Mudo**—symud. Defnyddir y gair cyntaf mewn cyfeiriad at bethau difywyd, sef pethau yn cael eu *symud*, ond defnyddir y gair olaf am bethau bywydol a difywyd.

**Mun**—merch.

**Munud**—ystum, amnaid, awgrym.

**Mur**—pared, gwal, magwyr.

**Murmur.** Gwel GRWGNACH.

**Mursendod**—cymhendod, coegedd.

**Musgrell**—diymadferth, cloff.

**Mwch**—cyflym, buan, chwai. Gwel BUAN.

**Mwll**—brwd, poeth, trymllyd.

**Mwydo**—trochi, swgu.

**Mwyhau.** Gwel CYNYDDU.

**Mwyn**—tyner, caruaidd, tirion.

**Mwynhau**—ymhyfrydu, meddianu.

**Mwys**—tywyll, ffraeth.

**Mwyth**—llyfn, llathr.

**Mwythus.** Gwel MOETHUS.

**Mydr.** Gwel MESUR.

**Myfyrio.** Gwel EFRYDU.

**Mymryn.** Gwel GRONYN.

**Myned.** Gwel CYCHWYN.

**Mynegu.** Gwel CYHOEDDI.

**Mynor.** Gwel MARMOR.

**Myntumio**—dal, cefnogi.

**Mynwes**—cesail, côl.

**Mynych.** Gwel AML.

**Mynydd**—moel, mwnt.

**Mysgu.** Gwel CYMMYSGU.

# N

**Naca**—gomedd, gwrthod.

**Nâd**—udiad, bloedd.

**Nadu.** Gwel ATTAL.

**Nam**—meth, ffaeledd, diffyg.

**Nant.** Gwel AFON.

**Natur** (Arm. *natur;* Ll. *natura)*—anian, greddf, y greadigaeth, naws, teithi, rhyw, math.

**Naturiol**—brodorol, cynhenid, genedigol. Mewn ystyr fanwl mae pob peth *brodorol* neu *enedigol* yn *naturiol;* ond mae llawer o bethau yn *naturiol* heb fod yn *frodorol* neu *gynhenid.*

**Nef**—nefoedd (C. *nef;* Saes. *heaven;* Ir. *an neaf).* Gwel GWYNFA.

**Nefol**—duwiol, dwyfol. *Duwiol* sydd briodoledd berthynol i ddyn da, sef un yn ymdebygu i Dduw : *dwyfol* a berthyn yn briodol i Dduw, am yr hwn y dywedir fod ei ddelw ar ddyn. Mae *dwyfol* yn wrthwynebol i ddynol, a *nefol* i ddaearol : gellir cael dylanwad *dwyfol* trwy weddïo am dano; a gellir dyfod yn feddianol ar dymer *nefolaidd* trwy fyfyrio ar bethau *nefol.*

**Neges.** Gwel CENHADWRI.

**Neidio.** Gwel LLAMU.

**Neillduo**—encilio, ymneillduo, ymwrthod, ymddidoli.

**Neillduol**—hynod, afreolaidd, dieithr.

**Neillduol**—penodol.

**Neillduol**—perthynol, priodol.

**Nêr.** Gwel ARGLWYDD.

**Nerth.** Gwel CADARN.

**Nes**—agosach. Gwel CLOS.

**Newid**—arallu, amrywio. *Newidir* peth trwy roddi un arall yn ei le; *arallwn* beth trwy ei wneyd yn wahanol i'r hyn ydoedd; *amrywir* peth trwy ei *newid* mewn gwahanol ddulliau ar wahanol amserau. Byddwn yn *newid* ein dillad pan yn rhoddi eraill yn eu lle; *aralla* y dilledydd ein gwisg pan heb fod yn iawn; ac *amrywia* y dull o'u gwneyd pan y gwna rai newydd.

**Newydd** (new ? Arm. C. *neuydh;* Ll. *novus;* Gr. *neos)*—diweddar, croyw, ffres. *Croyw* neu *grai* sydd wrthwynebol i *stale,* yr un modd a *newydd* i hen. Dywedir fod bwyd, dwfr, &c., yn *ffres* neu *groyw;* ond yr hyn sydd sylweddol a pharhaol a ystyrir yn *newydd,* megys tai, dillad, llyfrau, &c. *Diweddar* a gyfeiria at ddigwyddiad fyddo *newydd* gymeryd lle.

**Newyn** (ne-gwyn? Arm. *naff)*—drudaniaeth, prinder.

**Nifer**—rhif, lluaws, llu.

**Niwed**—colled, drwg, archoll. *Niwed* sydd air cyffredinol yn golygu yr hyn fydd groes i iawn—nid yw y lleill ond mathau o *niwed; colled* yw yr hyn a dyno yn ol o werth peth : *archoll* yw *niwed* a ddifetha gyfanrwydd neu iachusrwydd peth: *drwg* sydd *niwed* a ymyro â threfn neu gysonedd pethau. *Niwed* a gymhwysir at bob gwrthddrych, anianyddol a moesol; *niweidir* dyn yn ei gorph neu ei gymeriad, a gall hyny beri *archoll* i'w galon, a *drwg* a *cholled* i'w amgylchiadau.

**Niwl.** Gwel CADDUG.

**Nôd** (Ll. *nota, notus;* Gr. *gnotos)*—marc, arwydd, amlygiad.

**Nôd**—arwydd, marc, cofnod, arfynag.

**Nôd**—ôl, llwybr, troediad, rhigol.

**Nodi**—sylwi, edrych ar.

**Nodwedd.** Gwel CYMMERIAD.

**Nodded.** Gwel AMDDIFFYN.

**Noeth** (ny-oeth; Arm. *noeth;* Gr. *nedos;* Ll. *nudus).* Gwel LLWM.

**Nudd.** Gwel NIWL.

**Nwyd**—gŵyn, nwyf.

**Nwydd**—sylwedd, hanfod, eiddo.

**Nwyf**—bywiogrwydd, grym, yni.

**Nychu**—darfod, gwanhau, dihoeni.

## O

**Ocr.** Gwel ELW.

**Ochain**—gruddfan, ochi. *Gruddfan* yw sŵn dwfn a gynyrchir gan yr anhawsder i anadlu; *ochain* sydd sŵn cwynfanus araf. *Gruddfenir* megys yn anfwriadol er amlygu poen meddwl neu gorph: *ocheneidir* a *chwynir* yn aml gyda'r amcan o alw sylw neu gydymdeimlad. *Gruddfana* dyn pan ar farw; *cwyna* neu *ocheneidia* un pan mewn mawr boen, a phan nas gall amlygu poen yr un ffordd arall.

**Oedi**—gohirio. Mae *gohirio* yn golygu fod unrhyw orchwyl wedi ei ddechreu, ond ei fod yn cael ei ddodi o'r neilldu am ysbaid; nid yw *oedi* o'r tu arall yn rhoddi yr un awgrym fod y peth wedi ei ddechreu o gwbl. *Gohirir* y senedd am rai wythnosau: y mae yr Arglwydd yn *oedi* ei ddyfodiad i farn.

**Oer** (o-er? C. *oir)*—anwydog, diwres, rhynllyd. Absenoldeb gwres yw y meddylddrych a gyfleir gan y geiriau hyn. *Diwres* yw y gradd isaf, a chyfeiria at wrthddrychau y tu allan i ni ein hunain; *anwydog* a *rhynllyd* at yr hyn a deimlir genym. Y mae ambell lô yn *ddiwres:* wrth sefyll allan yn yr *oerni* teimlwn yn *anwydog*, ac os yn oer iawn byddwn yn *rhynllyd.*

**Oes**—bywyd, ysbaid, cenhedlaeth. Gwel AMSER.

**Ofer.** Gwel GWAG.

**Ofn.** Gwel ARSWYD.

**Offeiriad**—clerigwr, parson, gweinidog. *Clerigwr* yw yr un sydd yn gweinidogaethu yn ol ffurfiau y grefydd sefydledig mewn gwlad. *Parson* yw y gradd uchaf o *glerigwr*, mewn cyferbyniad i ficer a churad, ac felly yn gyfystyr â rheithor. Offeiriad yw yr un a ordeinir i weinyddu wrth yr allor mewn cyferbyniad i ddiacon. Ar yr un pryd defnyddir y gair *offeiriad* am weinidogion crefydd yn mysg Iuddewon a phaganiaid. *Gweinidog* yw yr un sydd wrth ei swydd yn gwasanaethu. Nid yw *clerigwyr*

felly bob amser yn *weinidogion*, na *gweinidogion* yn *glerigwyr*. Pan y cyflwyna *clerigwr* ei swydd i arall nid yw yn *weinidog;* ac nid yw *gweinidog* Ymneillduol yn *glerigwr*.

**Offeryn**—teclyn, celfyn.

**Offrymu**—aberthu, cysegru. *Offrwm* ydyw unrhyw beth a gynygir neu a roddir mewn ystyr foesol a chrefyddol; ond cynwysa *aberth* mewn ystyr grefyddol yr hyn a roddir hyd at dywallt gwaed. O dan yr hen oruchwyliaeth *offrymid* cynyrch y ddaear, ond *aberthid* yr anifeiliaid. Yr oedd pob *aberth* yn *offrwm*, ond nid pob *offrwm* yn *aberth*. *Offrymodd* Crist ei hun yn *aberth* drosom. *Cysegru* a olyga rhoddi unpeth, neu ei neillduo at wasanaeth crefydd. Yr oedd y bara a *offrymid* ar yr allor yn *gysegredig*.

**Ogof** (og-of; Ll. *cavea)*. Gwel Ffau.

**Olaf**—diweddaf, diweddaraf, terfynol. *Olaf* a *diweddaf* a ymwnant â threfn neu olyniad pethau; *terfynol* a olyga gwbl ddiweddiad. Yr hyn sydd *olaf* ni ddilynir gan ddim arall; ni ddilynir yr hyn sydd *ddiweddarach* gan unrhyw gyfnod maith o amser; ond yr hyn sydd *derfynol* ni ddilynir gan ddim. Y mae yr *olaf* yn wrthgyferbyniol i'r cyntaf; y *diweddaraf* i'r cynharaf, a'r *terfynol* i'r dechreuol. Ceisia pobl awyddus am ragori beidio bod yn *olaf* mewn dim; newyddion *diweddaraf* yw y rhai mwyaf cymeradwy a dyddorol; y mae yn anhawdd ffarwelio yn *derfynol* â chyfeillion hoff.

**Olion**. Gwel Gweddill.

**Olrhain**—ymchwilio, nodi allan.

**Olwyn**—rhôd, troell.

**O'r braidd**—prin. Yn fynych gellir defnyddio y naill air gyda'r un priodoldeb a'r llall, ond y mae ychydig wahaniaeth ynddynt er hyny. Pan y sonir am ymarferoldeb peth, *o'r braidd* yw y mwyaf priodol; ond pan y sonir am fynychedd, *prin* yw y mwyaf dewisol. *O'r braidd* y gellir barnu wynebpryd dyn wrth yr olwg gyntaf; *prin* byth y gwelwn ddynion yn rhoddi heibio eu drwg arferion oblegyd argyhoeddiad trylwyr o'u drygedd.

**Ordeinio** (Ll. *ordinanus)* — gosod, sefydlu, penodi. *Penodi* sydd weithred o eiddo cydradd neu uwchradd: *penodir* ar le ac amser i gyfarfod: *penoda*'r brenhin ei swyddogion. *Ordeinio* sydd weithred yn deilliaw oddiwrth yr awdurdod uchaf, megys eiddo brenhinoedd a chynghorau, neu y Bôd Goruchaf. *Ordeinir* un yn weinidog, *penodir* ef i blwyf gan noddwr y fywioliaeth, a *sefydlir* neu *gosodir* ef ynddi trwy waith yr esgob, a defodau neillduol a orchymynir iddo fyned trwyddynt a chydymffurfio â hwynt.

**Orgraph** (Gr. *orthographia)*—iawn lythyraeth.

**Osgo**. Gwel Gogwyddo.

**Osgoad**—ystryw.

**Osgoi**—amwyso, mwyseirio.

# P

**Pabell.** Gwel Lluest.

**Paentio.** Gwel Arlunio.

**Pagan**—cenedl-ddyn, eilun-addolwr. *Cenhedloedd* y galwai'r Iuddewon bawb oud hwy eu hunain, a'r un modd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid a alwent bawb yn farbariaid. Tardd y gair *pagan* o *pagus*, pentref, am mai trigolion y rhanau gwledig a ymlynent fwyaf gynt wrth eu hen goelgrefyddau, ac felly gelwid hwy gan y Cristionogion yn y bedwaredd ganrif yn *pagani*.* Yn awr defnyddir y gair i ddynodi pobl anwaraidd a addolant au-dduwiau. Tra nad oedd y *Cenhedloedd* yn cwbl ymwrthod â'r syniad am ddatguddiad dwyfol, na chwaith yn anmharod i'w dderbyn, yr oedd y *paganiaid* yn dal i addoli dim amgen na ffrwyth eu dychymyg gwyllt ac ofergoelus. Yr oedd y *paganiaid* yn *genhedloedd*, ond nid oedd y *cenhedloedd* oll yn *baganiaid*, oblegyd cydnabyddai Socrates, Confucius, a Mahomet un Duw. Addolwyr duwiau israddol, megys Fo, Brama, &c., ydynt *baganiaid*.

**Pang.** Gwel Gloes.

**Paith**—gweledfa, tirwedd.

**Paladr**—trawst, swmer.

**Paladr**—tywyniad.

**Palf** (C. *palf;* Ll. *palma)*—pawen, crafanc.

**Pallu.** Gwel Ffaelu.

**Parabl.** Gwel Aralleg.

**Paradwys.** Gwel Gwynfa.

**Parch.** Gwel Anrhydedd.

**Parchu**—cyfrif, ystyried.

**Parchu**—edmygu, anrhydeddu. Gweithred allanol yw *anrhydeddu; edmygu* sydd weithred naill o eiddo y meddwl neu ddatganiad allanol o syniad; *parchu* sydd weithred o eiddo y meddwl yn unig; *anrhydeddir* Duw trwy ei addoli a gwneyd ei ewyllys; byddwn yn ei *barchu* trwy ofni rhag digio o honom ef; dylem *edmygu* yr hyn sydd dda yn mhawb.

**Parchus**—ymostyngar, ufuddgar. *Ufudd* a *pharchus* ydynt foddau o'r *ymostyngar:* gallwn fod yn *ufuddgar* heb fod yn *barchus* ac *ymostyngar;* a byddwn yn *ymostyngar* i'r graddau y byddwn *ufudd* a pharchus. Bod yn *ostyngedig* a ddynoda yr hyn sydd ddyledus oddiwrth un bôd at y llall, ac mae yn annibynol ar amgylchiadau; *ufudd-dod* a *pharch* ydynt ddyledswyddau perthynasol yn dibynu ar nodwedd a safle personau.

**Parchus**—parchedig. Y mae a wnelo *parchus* âg ymddygiad dyn

* "Trench on the Study of Words," p. 103.

ei hun â'r anrhydedd a dderbynia oddiwrth eraill; *parchedig* a gyfeiria yn fwyaf neillduol at ei safle. Y mae gweinidog yr efengyl yn *barchedig* yn rhinwedd ei swydd, ond dichon iddo beidio bod yn *barchus*.

**Pardwn.** Gwel MADDEUANT.

**Parhau**—aros. *Parhau* a gyfeiria at unoldeb gweithred, ac *aros* at unoldeb lle; golyga y naill fwy o waith, a'r llall fwy o orphwys. Byddwn yn *parhau* gyda'r gorchwyl yma neu y llall: ond byddwn yn *aros* mewn tŷ neu dref. Ewyllys a bâr i ni *barhau*, ond angenrheidrwydd ac amgylchiadau a bâr i ni *aros*. *Parha* dyn i ddal ei swydd hyd y gall; *erys* y gwyliedydd wrth ei bost. *Parhau* sydd wrthwynebol i beidio, ac *aros* yn wrthwynebol i fyned.

**Parod** (Ll. *paratus)*—ewyllysgar, chwanog. *Parod* gyda golwg ar bersonau a olyga dalent, megys *parod* ei ymadrodd; *chwanog* a ddynoda eu harferion, megys *chwanog* i farnu wrth ymddangosiad, neu yn fyrbwyll.

**Parth** (Ll. *pars)*. Gwel ARDAL.

**Pawen.** Gwel PALF.

**Pawl**—polyn, pastwn, ffon, ystanc.

**Pechod** (Arm. *pechod;* Ll. *peccatum)*—trosedd, drygioni, camwedd. *Trosedd* sydd *ddrygioni* cymdeithasol: mae pob gweithred a wna niwed i eraill yn *drosedd:* yr hyn a wna niwed i ni ein hunain sydd *ddrygioni:* mae y naill yn doriad o ddeddf ddynol, a'r llall o'r ddeddf foesol: y mae *pechod* yn *drosedd* o'r gyfraith Ddwyfol, ac felly cynwysa *drosedd* a *drygioni*. *Camwedd* sydd *drosedd* yn erbyn Duw. Y mae llawer o *bechodau* heb fod yn *droseddau*. Cosbir *troseddau* o flaen llys dynol, ond dygir *pechod* o flaen llys y gydwybod. Y mae bradwriaeth yn un o'r *troseddau* gwaethaf; meddwdod yn un o'r *drygau* cymdeithasol mwyaf echrydus, a rhagrith grefyddol yn un o'r *pechodau* duaf a mwyaf ysgeler.

**Pefr**—têg, hardd, gwych, cain, prydferth.

**Peiriant.** Gwel OFFERYN.

**Pen.** Gwel LLYW.

**Penbleth**—dyryswch, anrhefn, cymysgedd. Wrth *gymysgu* pethau â'u gilydd achosir llawer o *ddyryswch* ac *anrhefn*. Y mae anhawsderau arianol yn mynych *ddyrysu* masnach dyn, fel mai ei holl amgylchiadau yn myned yn *anrhefnus*. Y mae ymwneyd llawer âg eraill yn gyffredin yn gyru dyn i *benbleth;* ac mae cynghorion gwrthwynebol neu fuddianau gwahanol yn achos o *benbleth*. Mae eisiau meddwl clir i osgoi *dyryswch*, a sefydlogrwydd cymeriad pan fo dyn mewn *penbleth*.

**Penboethni**—brwdfrydedd, aiddgarwch.

**Penderfyniad**—anysgogedd, bwriad.

**Penderfynol**—gorphenol, diysgog.

**Penderfynu**—diweddu, gorphen, casglu.

**Pennill** (pen-ddill; Ll. *parmeus)*—mydryn, englyn.

**Pennodi**—neillduo, sefydlu.

**Penyd** *(pau;* Ll. *pœna)*—iawn, edifeirwch.

**Pêr**—peraidd, melus, chweg.

**Perchenog**—meddianwr.

**Perffaith.** Gwel CYFA.

**Peri.** Gwel ARCH.

**Periglor.** Gwel OFFEIRIAD.

**Peroriaeth**—cerddoriaeth, perseinedd, cydgord, melodedd. *Melodedd* neu *beroriaeth* a arwydda unrhyw seiniau mesuredig yn ol dull pennill mewn rhanau gwahanedig: *cydgord* a olyga drefniad neu gyfaddasiad y cyfryw seiniau gyda'u gilydd: *melodedd* mewn cyferbyniad i *gydgord* sydd megys rhan i'r cyfan. Mae *melodedd* yn bosibl mewn un llais yn unig, ond nid yw *cydgord* yn bosibl i un llais. Tystia y glust os bydd dau neu ychwaneg o seiniau a gyd-darewir yn *gydgord.* Gall aderyn gynyrchu *peroriaeth,* hyny ydyw, os bydd ei seiniau yn gyson, ac yn hyfryd i'r glust gerddgar: ceir cynghanedd mewn cyfuniad lleisiau neu offerynau. *Cerddoriaeth* sydd air penagored am y gelfyddyd o gynyrchu seiniau rheolaidd.

**Person.** Gwel OFFEIRIAD.

**Perthynas** (Ll. *pertinio)*—câr, ceraint, teulu, tylwyth. *Perthynas* yw y gair cyffredinol am y sawl a gysylltir â'u gilydd trwy waedoliaeth; *câr* a ddefnyddir yn unig am y person neillduol y byddis yn *perthyn* iddo: *ceraint* yw y term cyffredinol a gynwys bawb fyddo yn dal *perthynas. Teulu* a olyga gysylltiad agosach na *pherthynas,* ond gall *tylwyth* gynwys rhai heb fod yn *berthynasau* o gwbl, hyny ydyw, y cyfryw nas gellir olrhain y berthynas trwyddynt. Souir am *dylwyth* teg, neu am genedl gyfan o dan yr enw *tylwyth,* ond weithiau cyfyngir ef i deulu, megys "*tylwyth* ei dŷ."

**Perwyl** (par-gwyl)—achlysur, dyben, amcan.

**Perygl** (Ll. *periculum;* Arm. *perill).* Gwel ENBYD.

**Pesgi** (pasg; Ll. *pasco;* Gr. *bosco)*—tewychu, porthi. Effaith *porthi,* er nad o angenrheidrwydd, ydyw *tewychu* neu *besgi.* Defnyddir *tewhau* neu *tewychu* yn gyffredin am ddynion, a *phesgi* am anifeiliaid.

**Petruso**—amheu, bod mewn cyfyng-gynghor.

**Picell.** Gwel GWAYWFFON.

**Pigo**—dewis, dethol. *Pigo* a *dethol* sydd ddull neillduol o *ddewis.* Yr ydym yn wastad yn *dewis* pan yn *pigo* a *dethol;* ond nid bob

amser yn *pigo* a *dethol* pan yn *dewis*. Gellir *dewis* allan o fysg dau neu dri o bethau; ond rhaid *pigo* a *dethol* o fysg lluaws. *Dewisir* un llyfr o fysg dau, ond *detholir* allan o lyfrgell.

**Piler.** Gwel Colofn.

**Pilyn.** Gwel Gwisg.

**Pin**—nodwydd.

**Pin**—ysgrifell.

**Piser** (Ffr. *picher;* Saes. *pitcher)*—ystên, cunog.

**Pistyll**—rhaiadr. Cwymp dwfr dros greigle neu uchelfan yw y meddylddrych a gyfleir gan y ddau air hyn. *Rhaiadr* a olyga gwymp uwch a mwy o ddwfr ynddo na *phistyll.*

**Pla**—haint, afiechyd, clefyd. *Pla* sydd fath o afiechyd yn cyffwrdd â dyn, anifail, neu y greadigaeth ddireswm, a hyny am amser terfynedig, a gwahaniaetha oddiwrth *haint* am na throsglwyddir ef o un person i'r llall. Gall *clefyd* fod yn *heintus* neu fel arall. *Afiechyd* yw cyflwr cyffredinol o amhariad ar y corph.

**Pleser** (Ffr. *plaisir)*—hyfrydwch, boddhad, afiaeth, llawenydd. Y mae *pleser* yn air cynwysfawr, gan gymeryd i mewn bobpeth sydd groes i boen. Moddau o bleser yw *llawenydd* a *hyfrydwch* —yn gwahaniaethu o ran gradd a gwrthddrych. Defnyddir y gair *pleser* am y gradd mwyaf yn gystal a'r lleiaf, ond *llawenydd* a *hyfrydwch* am y gradd uchaf yn unig. Cynyrchir *pleser* gan unrhyw a phob gwrthddrych, ond *llawenydd* a dardd o ymarferiad y serchiadau, a *hyfrydwch* oddiwrth y serchiadau neu y deall. Gall *pleser* fod o fyr neu hir barhad; *llawenydd* yn gyffredin sydd o fyr barhad, a gellir ei enyn a'i darfu yn gyflym. Nid yw *hyfrydwch* mor fyr ei barhad, ond gall fod yn llai na *phleser* syml. Gall pawb yn mhob sefyllfa, i raddau mwy neu lai, fwynhau *pleser*, ond mae yn rhaid cael rhyw radd o goethder meddyliol i fwynhau *hyfrydwch*, megys gyda llenyddiaeth, er esiampl. Teimlwn *bleser* wrth fyfyrio mewn unigedd; profwn *hyfrydwch* pan yn dilyn hoff efrydiaeth, a theimlwn *lawenydd* wrth gwrdd â hen gyfeillion a fuasent absenol.

**Plydd** (ply)—tyner, meddal, esmwyth.

**Plyg** (Arm. *plyg;* Ll. *plica;* C. *pleg)*—haen, trwch.

**Pobi** (C. *pobaz)*—crasu, rhostio, tylino.

**Pobl** (pawb? Arm. *pobl;* Ll. *populus;* Ir. *popall)*—personau. Defnyddir y gair *pobl* mewn cysylltiadau cyffredinol, a *phersonau* pan yn cyfeirio yn benodol at ryw bersonau neillduol: yr oedd lluaws o *bobl* yn y ffair: nid oedd ond dau *berson* yn y cyfarfod. Gan fod y gair *pobl* yn cael ei ddefnyddio am y lluaws, y mae iddo ystyr heb fod yn llawn mor barchus a *phersonau.* Nid yw mor foesgar i ddweyd, nid wyf yn adnabod y *bobl* a phe dywedid, nid wyf yn adnabod y *personau.*

**Pobl.** Gwel CENEDL.

**Poblog**—poblogaidd. *Poblog* a gyfeiria at luosogrwydd personau mewn man penodol; *poblogaidd* at gymeriad person neu bersonau: gwlad *boblog;* pregethwr *poblogaidd.* Er y gwahaniaeth amlwg hwn rhwng y ddau air, eto ceir ysgrifenwyr yn eu mynych gymysgu. Er mae yn wir fod *poblogaidd* yn oddefol mewn cyfeiriad at wlad, nis gellir o'r tu arall gymhwyso y gair *poblog* at berson.

**Poced** (Gaeleg, *poc;* S. *pocca;* Ffr. *pochette).* Gwel LLOGELL.

**Poen** (poen; Ll. *poena;* G. *pein;* Gr. *ponos)*—pang, ing. Nid yw *pang* ac *ing* ond graddau uchel o boen; cymhwysir *poen* ac *ing* at bob dioddef anianyddol a meddyliol; *pang* ac *ing* yn benaf at y meddyliol. Gall *poen* olygu teimlad personol neu wastadol: teimlad neillduol yw *pang; ing* a ddynoda y cyflwr. Gall *poen* fod yn fawr neu fychan: *pang* sydd *boen* llym; *ing* sydd *boen* llym a pharhaol.

**Poeth.** Gwel GWRES.

**Porth**—drws, adwy, bwlch.

**Porth**—help, cynorthwy.

**Porthi.** Gwel PESGI.

**Possibl** (Ll. *possibilis)*—ymarferol.

**Potel** (pob; Spa. *botella)*—costrel.

**Praff**—braisg.

**Praidd** (Ll. *prada)*—gyr, haid. Nifer o greaduriaid wedi ymgasglu at eu gilydd yw y meddylddrych a osodir yma. Defnyddir *praidd* am ddefaid, *gyr* (gyru) am wartheg neu anifeiliaid mawrion; *haid* am greaduriaid yn hedeg—*haid* o wenyn, locustiaid, &c.

**Prawf** (Ll. *probatio;* S. *profian)* — profiad, treial. *Prawf* ydyw gwneyd cais *(experiment), profiad* ydyw canlyniad neu ffrwyth y cyfryw gais. Mae y *profiad* yn sicr gan mai casgliad ydyw oddiwrth y mynedol, ond mae'r *prawf* yn ansicr gan fod ei wyneb ar y dyfodol. Mae *profiad* yn arweinydd diwyrni, ond gall *prawf* fethu neu gilio i roi ffordd i arbrofion mwy perffaith. Y mae ansicrwydd hefyd yn nglŷn â *threial.* Gwneir *prawf* mewn materion o natur feddyliol; gwneir *treial* mewn materion personol ac anianyddol, yn gystal a phethau moesol; defnyddir *prawf* at bethau moesol. Byddwn yn barnu ein nerth a'n medrusrwydd trwy wneyd *treial;* deuwn o hyd i ffeithiau neu wirionedd trwy wneyd *prawfion;* y mae *profiad* yn ysgol dda er yn ddrud.

**Pregeth** (preg? C. *pregoth;* Ll. *preceptum)*—homili, traethawd, cyhoeddiad. Gall *pregeth* fod yn ysgrifenedig neu lefaredig, ond *traethawd* a ysgrifenir yn unig. Gwel HYSBYSIAD.

**Pren** (pre? Arm. *pren*; C. *prean)*—coeden. Y mae *coeden* yn golygu *pren* yn tyfu neu heb ei gwympo; ond defnyddir y gair *pren* am y naill a'r llall, felly mae pob *coeden* yn *bren*, ond nid yw pob *pren* yn *goeden*.

**Prês** (Ir. *pras;* Saes. *brass)*—efydd.

**Preseb**—cor, rhesel.

**Presenoldeb.** Gwel GWYDDFOD.

**Preswylio** (pres-gwyl)—trigianu, byw, aros. Gwel AROS.

**Prid** (Ll. *pretium)*. Gwel GWERTH.

**Prif** (Ll. *primus)*—arweinydd, penaeth, pen. Y mae *penaeth* yn golygu y sawl fo a blaenoriaeth mewn materion gwladol; *arweinydd* yw y sawl a flaenora mewn anturiaethau; a'r *pen* yw yr uwchradd mewn materion cyffredinol. Y mae gan *benaethiaid* allu gwastadol, yr hwn a ddisgyn iddynt trwy etifeddiaeth, ond odid, fel canghenau o'r un teulu: rhoddir i *arweinwyr* allu am dymhor, ac ar amgylchiadau neillduol.

**Prinder.** Gwel NEWYN.

**Priodol** (Ll. *proprius)*; Arm. *pri)*—cyfaddas, cyfreithlon, iawn. *Iawn* yw y gair cyffredinol, ac mae mewn gwrthgyferbyniad i'r hyn sydd o'i le, ac nid yw yn dibynu dim ar amgylchiadau: yr hyn sydd *iawn* nis gall fod o'i le, ond yr hyn fo *briodol* neu amhriodol sydd felly gyda golwg ar amgylchiadau. Y mae yn *iawn* ac yn *gyfreithlon* i ddyn gael ei eiddo ei hun, ac i ymgymeryd â rheoli y cyfryw, ond ni fyddai yn *briodol* ymddiried hyny iddo pan mewn cyflwr o wallgofrwydd meddyliol. Nis gallwn bob amser, o herwydd amherffeithrwydd ein gwybodaeth, wybod beth sydd *iawn* a beius, ond mae yr hyn fo *addas* a *phriodol* yn hawdd sylwi arnynt, ac o fewn ein cyrhaedd.

**Pris** (Arm. *pris*; G. *preis*; Ffr. *pril*. Gwel GWERTH.

**Profi**—egluro, cadarnhau. Nid yw y ddau air diweddaf ond gwahanol raddau o *brofi*. Gellir *profi* unrhyw beth trwy haeru, ond yr ydym yn *cadarnhau* trwy ymegnïon meddyliol. Gallwn *brofi* ein bod mewn man neillduol, ond rhaid *egluro* gosodiad mewn gwyddor, a thrwy hyny ei *gadarnhau*.

**Proffesu** (Ll. *proffessio)*—cyffesu, cyfaddef, cydnabod, arddel. *Cydnabod* sydd ddatganiad syml; *proffesu* sydd ddatganiad mwy cyhoeddus na *chyfaddef*. Byddwn yn *proffesu* ein ffydd trwy adrodd y Credo, neu trwy ein gwaith yn ymuno â'r eglwys, ond byddwn yn *cyfaddef* ein pechodau wrth Dduw, neu yn gyfrinachol wrth ein cyfeillion, ac mewn canlyniad i gael ein cyhuddo. *Arddel* yw cydnabyddiaeth gyhoeddus.

**Prophwydo** (pro-pwyd? Arm. *prophwyd;* Ll. *propheta)*. Gwel DAROGAN.

**Prudd** (Ll. *prudens)*. Gwel DWYS.

**Pryd.** Gwel Amser.

**Pryd**—gwedd, gwyneb.

**Pryder** (prw; Arm. *pryder;* Ll. *providere).* Gwel GOFAL.

**Prydferth** (pryd-berth). Gwel HARDD.

**Prydydd** (pryd; C. *pridil).* Gwel BARDD.

**Pryddest** (pry-dest). Gwel Cân.

**Prynu**—bargeinio. Wrth *brynu* yr ydys yn cyfnewid arian am nwyddau, ond mae *bargeinio* yn golygu gwneyd cytundeb penodol o barth pris y nwydd.

**Prysur**—bywiog, diwyd, dyfal, llafurus. Mae dyn yn *fywiog* pan yn barod i roddi ei alluoedd ar waith, i bwrpas neu beidio. Yr ydym yn *ddiwyd* pan mae amcan neillduol mewn golwg. Yr ydym yn *ddyfal* pan na adawn waith heb ei orphen. Yr ydym yn *llafurus* pan yn ymgymeryd âg unrhyw orchwyl caled. Gall fod dyn yn *fywiog* heb fod yn *ddiwyd,* ond prin y gall fod yn *ddiwyd* heb fod yn *fywiog. Bywiogrwydd* sydd gyneddf berthynol i feddyliau cryfion; *diwydrwydd* a berthyn yn aml i dalentau cyffredin, a *dyfalwch* i rai yn feddianol ar benderfyniad. Y *bywiog* sydd yn tori allan gynlluniau, y *diwyd* sydd yn eu cario allan, ac os yn gofyn ymdrech galed, yna rhaid cael y *llafurus* at y gorchwyl.

**Pur** (py-ur; Arm. C. *pur;* Ll. *purus).* Gwel GLAN.

**Puteindra** (pud? Ll. *pudendum)*—aniweirdeb, godineb, anlladrwydd. Ffurfiau o *aniweirdeb* ydyw yr oll o'r rhai hyn. *Godineb* yw y ffurf hwnw ar y drwg pan fyddo un o'r pleidiau yn briod; *puteindra* yw y ffurf atgas o un yn byw ar enillion *aniweirdeb.* Gall *anlladrwydd* ddatguddio ei hun mewn ystum, geiriau, ymddygiad, &c.

**Pŵl.** Gwel DWL.

**Pwnc** (Ll. *punctus)*—mater, testyn, gwrthddrych. Y mae'r *gwrthddrych* yn wastad yn mlaen, ond y *testyn* neu y *pwnc* y tu ol: gwelwn y *gwrthddrych,* a myfyriwn ar y *testyn:* y mae'r *gwrthddrych* yn deimladol, ond y *testyn* yn feddyliol. Mewn ystyr ddeallol canfyddir y *gwrthddrych* gan lygaid y meddwl: o'r tu arall, rhaid chwilio am y *testyn* neu y pwnc, ac yna ei osod o dan sylw y galluoedd meddyliol. Dywedir am *wrthddrych* teilwng o sylw, a *thestyn* neu *bwnc* teilwng o efrydiaeth.

**Pwn**—llwyth, baich. *Pwn* yw yr hyn a gludir ar y cefn, mewn cysylltiad âg anifail yn gyffredin; *baich* a gludir mewn unrhyw fodd gan *ddyn; llwyth* yw yr hyn a roddir i'w gludo gan gludiedydd. *Pwn* asyn; *baich* dyn; a *llwyth* llong.

**Pwrcasu** (Saes. *purchase).* Gwel PRYNU.

**Pwrpas** (Saes. *purpose).* Gwel AMCAN.

**Pwrs** (Saes. *pursc); Ll. byrsa)*—côd, coden, alwar.

**Pwyll** (pwy-yll; Gr. *bowle)*—rheswm, synwyr, barn. Gwel Barn.

**Pwynt** (Ll. *punctum;* Saes. *point).* Gwel Pwnc.

**Pwyntio**—pesgi.

**Pwyo** (Gr. *paio)*—curo, pwnio, briwio.

**Pwysigrwydd**—pwys, canlyniad.

**Pwysau**—llwyth, baich. Defnyddir *pwysau* am bersonau neu bethau; *baich* yn gyffredin am bersonau; *llwyth* am y naill a'r llall: gall dyn suddo o dan y *pwysau* sydd arno, neu o dan ei *lwyth* neu ei *faich;* tyr trol i lawr o dan ei *llwyth.* Mewn ystyr foesol cymhwysir y geiriau hyn at y boen a gynyrchir gan ddirwasgiad. Y mae gan ddyn mewn sefyllfa uchel o ymddiriedaeth *bwysau* mawr ar ei feddwl; y sawl sydd mewn ofn a phryder parhaus sydd a *llwyth* trwm yn gorwedd ar ei feddwl; y mae pob peth yn *faich* i'r sawl na fyn weithio.

**Pwyso**—clorianu, tafoli, profi.

**Pybyr**—grymus, bywiog.

**Pydru**—llygru, madru, braenu. Defnyddir y gair *llygru* am gyrph naturiol a moesol, ond y geiriau eraill am gyrph naturiol yn unig. *Pydru* yw y gair cryfaf, a dynoda y gradd olaf o ddadfeiliad; *madru* a *braenu* a ddynoda raddau o *bydredd.* Ar ol cyrhaedd aeddfedrwydd mae ffrwyth yn *llygru;* mae dillad yn *braenu* wrth eu cadw mewn lle llaith; ac mae tuedd yn mhob peth daearol i *lygru.*

# Ph

**Phiol** (Gr. *phiale)*—costrel, cawg.

**Physyg** (Gr. *phusis)*—cyffuriau, meddyginiaeth.

# Rh

**Rhad** (rha-ad; Ll. *gracia)*—llwyddiant, dedwyddwch. *Llwyddiant* yw pobpeth a chwanego at fwynhad dyn, megys cyfoeth, gallu, anrhydedd, &c. Y mae pethau allanol fel hyn i raddau yn effeithio ar *ddedwyddwch* dyn; ond nid yw *dedwyddwch* o angenrheidrwydd yn dilyn *llwyddiant.* Y mae a wnelo *dedwyddwch* yn benaf â chyflwr y meddwl, ac felly gall fod *llwyddiant* heb *ddedwyddwch;* ond nis gall *dedwyddwch* fel rheol fodoli heb rhyw gymaint o *lwyddiant,* yn enwedig yn ei gysylltiad â dynion yn gyffredinol. Gwel Ffafr.

**Rhadlawn**—trugarog, caredig, tyner. *Rhad,* fel yr eglurwyd, ydyw ffafr neu garedigrwydd at un nas haedda mohono. Yn ystyr fanwl y gair priodolir *gras* i Dduw, a *thrugaredd* i ddyn yn

gystal a Duw. Dangosir *gras* gan uwchradd, ond *trugaredd* a *charedigrwydd* gan uchafiaid a chydraddolion.

**Rhagrith**—twyll, ffug. Cymer y rhagrithiwr arno fod yr hyn nad yw; ond cuddia y *twyllwr* ei droseddau er mwyn enill yr anwybodus i'w gredu ac ymddiried ynddo. Y mae pob *rhagrithiwr* yn *dwyllwr;* ond nid yw pob *twyllwr* yn *rhagrithiwr:* gwna y blaenaf ddefnydd o wirionedd er ateb ei bwrpas; ond boddlona y diweddaf ar wneyd defnydd o gelwydd i ateb yr un dyben.

**Rhaiadr.** Gwel PISTYLL.

**Rhaib.** Gwel AWYDD.

**Rhaith.** Gwel DEDFRYD.

**Rhamant**—chwedl, stori, ffug-hanes. Allegawl yw y chwedl; mae y gweithredoedd yn naturiol, ond y gweithredyddion yn ddychymygol: mae'r *stori* yn ffugiol, ond nid yn ddychymygol. Gall unrhyw fodau wneyd gweithredyddion i *chwedl*, megys duwiau, dynion, coed, &c., ond mewn *hanes* neu *stori* rhaid cael dynion neu ysbrydion naturiol i weithredu. Ysgrifenir *chwedlau* er addysg, ac *ystoriau* er difyrwch yn benaf. Wrth gydmaru *hanesyn* â *ffug-hanes*, ychydig gymeriadau geir yn y blaenaf, tra yn yr olaf ceir amrywiaeth mawr. Nid oes gymaint o gelfyddyd gyda'r *stori*, tra mae cynllun a digwyddiadau y *ffug-hanes* yn creu ac enyn dyddordeb yn barhaus. Mae y *rhamant* yn cynwys mwy eilwaith o'r synfawr a'r rhyfeddol, ac yn llanw y dychymyg hyd y diwedd.

**Rhan** (Arm. *ran;* C. *ran)*—cyfran, cynysgaeth, rhaniad. Gwneir *rhan* o fwriad neu o ddamwain—gall fod yn fawr neu fychan, neu o unrhyw ffurf; ond mae *rhaniad* yn golygu trefn a dosbarth, a threfn ar ranu. Y mae tudalen yn *rhan* o lyfr; ond y llyfrau, y penodau, a'r adnodau sydd yn ffurfio *rhaniadau* llyfr. Y mae'r dwfr yn *rhan* o'r byd; tân, awyr, dwfr, a thir, ydynt raniadau anianyddol y byd. Derbyniai y merched yn Normandy gynt y drydedd *ran* o'r eiddo fel *cynysgaeth*.

**Rhandir**—gwlad, ardal, talaeth. O'r holl eiriau hyn i osod allan diriogaeth, y mwyaf eang ei ystyr yw *gwlad*, a'r mwyaf cyfyng ydyw *ardal*. Gwneir *gwlad* i fyny o *dalaethau*, y rhai eilwaith a gynwysant *randiroedd*, a'r rhai hyny *ardaloedd*. Y mae a wnelo *rhanbarth (district)* yn fwyaf neillduol a'r gyfran hono o *wlad* a lywodraethir gan swyddog neillduol.

**Rhawd.** Gwel FFORDD.

**Rhawth**—gwanc, bariaeth, rhaib. Y mae *gwanc* a *bariaeth* yn nodweddiadol o bob creadur pan yn dioddef newyn. Mae anifeiliaid y maes i gyd yn *rheibus* ar amserau, ac fel y byddo amgylchiadau yn eu cymhell. Y mae *rhaib* yn golygu eu dull o gymeryd gafael o'u hysglyfaeth, a'u *gwanc* yn cyfeirio at eu dull o'i

ddifa, ac at y brys y gwnant hyny. Y mae a fyno *bariaeth* â'r swm a fwyteir: mae'r *gwancus* mewn mawr frys am ei ymborth, a bwyty ef yn gyflym, ond gwna y *barus* nid yn unig hyny, ond efe a ddifa lawer, ac am hir amser. Gwna hir ympryd ddyn yn *wancus;* ac anghymedroldeb parhaus a gynyrcha *fariaeth.*

**Rhe.** Gwel BUAN.

**Rhedeg.** Gwel GYRFA.

**Rheg.** Gwel MELLDITH.

**Rheithor.** Gwel OFFEIRIAD.

**Rheol** (rhe-ol; C. *reol;* Ll. *regula)*—llywodraeth, trefn, moddion. *Trefn* a gyfeiria at bobpeth a roddir o'r neilldu, ac a ddosberthir; *rheol* a *threfn* a gyfeiriant at yr hyn a wneir; gorwedda y *drefn* yn y gwaith o benodi amser, lle, a gwrthddrych, fel ag i'w gwneyd i gytuno; y mae *trefn* yn gynwysedig mewn dewis y *moddion* iawn i gyrhaedd amcan: mae'r *rheol* yn gynwysedig yn yr hyn a'n ceidw yn y ffordd iawn. Mae *rheol* yn rhan o'r *moddion*, ac ar yr hyn y gorphwys y *moddion*. Nis gellir *moddion* heb *reol*, ond gellir *rheol* heb *foddion*. Gwahaniaetha y *moddion* yn ol amgylchiadau, ond mae *rheol* yn sefydlog, ac i wasanaethu fel arweinydd o dan bob amgylchiad. Mabwysiadwn y *moddion*, a dilynwn y *rheol*. Gyda golwg ar *reol* a *llywodraeth*, golyga y naill a'r llall ddefnyddiad o awdurdod, ond mae *llywodraethu* yn rhagdybied barn a gwybodaeth. Mae brenin yn *llywodraethu* yn unol â deddfau doeth a chyfiawn: gormeswr a *reola* yn ol ei fympwy a'i ewyllys ei hun. Defnyddir y gair *llywodraethu* mewn ystyr dda, ond *rheoli* yn aml mewn ystyr ddrwg, a chysylltir âg ef gamddefnydd o awdurdod. Nid oes dim yn fwy andwyol nag i un gael ei *reoli* gan y sawl nas medr *lywodraethu* ei hun; ond o'r tu arall dyledswydd y sawl fyddo mewn awdurdod ydyw *rheoli* y sawl fo danynt nas gallant *lywodraethu* eu hunain.

**Rheswm**—dadl, prawf. Defnyddir *dadl* i amddiffyn; *rheswm* i gyfiawnhau; a *phrawf* i benderfynu. Dygir *dadleuon* yn mlaen er attegu gosodiad; *ymresymir* gyda golwg ar gred ac ymarferiad; a chesglir *profion* er darganfod ffaith. Ceir digon o *ddadleuon* o blaid gwirionedd Cristionogaeth; gall y credadyn roddi *rheswm* am y gobaith sydd ynddo; nid oes yr un amgylchiad a chryfach *profion* o hono nag adgyfodiad Crist o'r bedd.

**Rheswm**—achos, dyben. Defnyddir y gair *achos* mewn cyfeiriad at bethau difywyd; *rheswm* a *dyben* am weithredyddion rhesymol. Pob peth a ddigwydd yn y byd sydd ffrwyth rhyw *achos*—uniongyrchol neu anuniongyrchol; dylai dynion allu rhoddi *rheswm* am eu daliadau, ac fod ganddynt *amcan* neu *ddyben* yn yr hyn a wnant. *Achos* rydd enedigaeth i effaith; *rheswm* rydd fod i gasgliad, a'r *amcan* rydd fod i'r weithred.

**Rhian.** Gwel BENYW.

**Rhifo**—cyfrif. *Rhifo* a olyga gymeryd sylw a chofnod o wrthddrychau yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd, megys un, dau, &c. Defnyddir *cyfrif* yn fwy mewn ystyr ddwys; *cyfrifwn* hi yn fraint gael cymdeithasu â dyn gwir fawr, ac felly mae yn gyfystyr âg ystyried. *Rhifir* ni oll un diwrnod gyda'r meirw.

**Rhigol.** Gwel FFOS.

**Rhigymwr.** Gwel BARDD.

**Rhith**—ymddangosiad, ffurf, delw, cyffelybrwydd.

**Rhiw.** Gwel GALLT.

**Rhodiana.** Gwel Crwydro.

**Rhodres**—rhwysg. Y mae a fyno *rhodres* âg iaith yn gystal ag ymddangosiad ac ymddygiad, tra mae a wnelo *rhwysg* yn benaf âg ymddangosiad. Dengys un ei gyfoeth a'i falchder mewn geiriau, ond un arall trwy wneyd arddangosiad o honynt. Mae yn arferiad gan frenhinoedd y Dwyrain wneyd ymdeithiau *rhwysgfawr* trwy eu talaethau.

**Rhôdd**—anrheg. Gweithred o garedigrwydd ac ymostyngiad yw *rhoddi*, ac wedi ei bwriadu i lesoli y derbynydd: mae yr *anrheg* yn weithred o garedigrwydd, neu barch, a thuedda at roddi pleser i'r derbynydd. Gwneir rhôdd gan y cyfoethog i'r tlawd, a chrea gydnabyddiaeth neu rwymedigaeth; â yr *anrheg* rhwng cydraddolion, neu oddiwrth yr isradd i'r uchradd. *Rhôdd* yw pob peth a dderbyniwn gan Dduw; yr hyn a dderbyniwn gan ein cyfeillion, neu yr hyn a dderbynia tywysogion oddiwrth eu deiliaid ydynt *anrhegion.*

**Rhugl.** Gwel FFRAETH.

**Rhwyd** (Arm. *rwyd;* C. *ruid)*—magl. *Rhwyd* a fwriedir i ddal yn gaeth yr holl wrthddrych neu gorph a fwriedir ei ddal, ond *magl* a osodir ar gyfer y traed. Gall *rhwyd* fod yn ganfyddadwy i'r llygad, ond bydd *magl* wedi ei chuddio yn ofalus. Cesglir neu gyrir i'r *rhwyd*, ond delir yn y *fagl*. Y mae pob *magl* yn *rhwyd*, ond nid yw pob *rhwyd* yn *fagl.*

**Rhwyddhau** (rhwy)—hwyluso, prysuro, hyrwyddo. Cyflymder symudiad a gweithred yw y meddylddrych a osodir allan yn y geiriau hyn, ond gwahaniaethant gyda golwg ar y graddau. *Rhwyddheir* y ffordd trwy symud ymaith y rhwystrau, fel ag i'w gwneyd yn fwy *hwylus* i'w *theithio*, ac mewn canlyniad *prysurir* ar y daith.

**Rhwygo** (Gr. *rhêgê, rhacos).* Gwel LLARPIO.

**Rhwymedigaeth.** Gwel DYLEDSWYDD.

**Rhwymyn.** Gwel CWLWM.

**Rhwysg.** Gwel RHODRES.

**Rhwystro.** Gwel ATTAL.

**Rhybudd** (rhy-pudd)—cynghor, hysbysiad. Cadw un rhag drwg neu brofedigaeth yw y meddylddrych a osodir allan yma. Y mae *cynghor* yn gryfach na *hysbysiad*, a *rhybudd* yn gryfach na *chynghor*. Y mae a fyno *cynghor* â'r ymddygiad moesol, a golyga ymresymu, ond y mae a wnelo *rhybudd* â lles neu ddiogelwch person. Gall *cynghor* felly yn aml gynwys *rhybudd*, a *rhybudd* gynwys *cynghor*. *Cynghorwn* berson i beidio gwneyd drwg; *rhybuddiwn* ef rhag perygl. Rhoddir *cynghorion* gan bersonau yn unig, ond rhoddir *rhybuddion* gan bethau, megys arwyddion, &c. Y mae marwolaeth yn *rhybudd* i'r byw.

**Rhych.** Gwel Rhigol.

**Rhydd** (rhy-ydd)—hael, haelionus. *Rhydd* sydd yn dwyn gydag ef anair, ond *haelionus* ganmoliaeth. Bod yn *rhydd* yw meddwl neu weithredu yn ol ewyllys; bod yn *haelionus* yw gweithredu yn ol barn a doethineb. Gall ynfyttyn fod yn *rhydd* wrth wasgaru ei arian; ond edrych y dyn *haelionus* am wrthddrych teilwng i'r garedigrwydd. Y mae y dyn fyddo yn *rhydd* ei syniadau yn meddwl fel y gwelo yn oreu, ond y dyn *haelionus* yn ffurfio ei farn yn ol maint ei wybodaeth.

**Rhyddhau**—gwaredu, maddeu. Mae dyn yn *rhyddhau* ei hun o'i ymrwymiad—yn *rhyddhau* ei gaethweision, ac yn *gwaredu* caethwas dyn arall o gaethiwed. Yr ydys yn *rhyddhau* trwy weithred o eiddo yr ewyllys, neu trwy ddyfais a threfn; yr ydym yn *gwaredu* trwy weithred a nerth anianyddol. Mewn ystyr foesol Crist sydd yn ein *rhyddhau* o gaethiwed pechod ac yn *maddeu* hefyd, ond nid yw yn ein *rhyddhau* o'n rhwymedigaethau moesol iddo. Fel ein Ceidwad mae yn ein *gwaredu* o luaws o beryglon.

**Rhyfeddod** (rhy-medd)—syndod, gwyrth. Y mae *rhyfeddodau* yn naturiol: *gwyrthiau* yn oruwchnaturiol. Y mae'r greadigaeth yn llawn o *ryfeddodau*, ond yn y Beibl y cawn hanes am *wyrthiau* y rhai a barent *syndod* i'r sawl oeddynt gynt dystion o honynt.

**Rhyfeddu**—edmygu, synu. Teimlad neillduol a gynyrchir yn ein mynwesau gan rywbeth annisgwyliadwy yw yr hyn a ddatgenir yn y geiriau hyn. Ceir pawb yn *rhyfeddu* yn achlysurol, ond neb yn fwy na'r anwybodus, y rhai a *ryfeddant* am na wyddant ddim. *Edmygedd* yw *syndod* wedi ei gymysgu â pharch. Nis gellir *edmygu* dim ond a fo mawr a da, ac nis gall ond y meddwl diwylliedig gyfranogi o'r cyfryw deimlad. Nis gall yr anwybodus *edmygu* am na ŵyr werth peth. Mae *syndod* a *rhyfeddod* yn tarddu oddiar yr annisgwyliadwy: byddwn yn *synu* os na ddigwydda yr hyn a ddisgwyliem, neu os digwydda yr hyn na ddisgwyliem. Cynyrchir *syndod* yn fwy sydyn na *rhyfeddod*, ac mae hefyd yn llai ei barhad: *synir* am ychydig amser, ond parheir o hyd i *ryfeddu*.

**Rhyfel** (rhy-bel; *rhy;* Ll. *bellum)*. Gwel BRWYDR.

**Rhyfygus.** Gwel BEIDDGAR.

**Rhyglyddiant**—haeddiant, teilyngdod, gwerth. Y mae *haeddiant* yn cymeryd i mewn y da a'r drwg: *teilyngdod* y da yn unig. *Haeddwn* glod neu gerydd: *teilyngwn* neu *ryglyddwn* wobr. Mae *haeddiant* yn gynwysedig mewn gweithred neu wasanaeth a wneir: y mae a fyno *teilyngdod* â chymeriad y gweithredydd neu natur y weithred. Ni chosbir troseddwyr yn wastad yn ol eu *haeddiant: teilynga* dyn da gymeradwyaeth am wneyd ei ddyledswydd yn onest a ffyddlawn. Y mae a wnelo *teilyngdod* â chyrhaeddiadau neu gymhwysderau dyn; *gwerth* sydd yn ymwneyd â'i gymeriad moesol yn unig. Gall dyn felly feddu ar lawer o *deilyngdod*, ond ychydig *werth. Teilyngdod* mewn swydd, a *gwerth* mewn cysylltiadau cymdeithasol.

**Rhynu.** Gwel CRYNU.

**Rhyw**—rhywogaeth, math. Defnyddir *math* am bethau byw a marw, a *rhyw* am bethau byw yn benaf, yn enwedig dynolryw, a hefyd am wrthddrychau moesol. Os byddis am wahaniaethu yn fanwl defnyddir y gair *rhywogaeth*. Dywedir am ryw beth ei fod yn *fath* o blanhigyn, ac yn perthyn i *rywogaeth* y rhedyn.

**Rhywiog**—tyner, meddal. *Rhywiog* sydd groes i arw; *tyner* i *meddal* a chaled.

# S

**Sacrament.** Gwel CYMMUN.

**Sach.** Gwel FFETAN.

**Sad** (sa-ad; Saes. *sad)*—sefydlog, cadarn, dianwadal, diysgog.

**Saethu** (sa-aeth, ys-aeth; Arm. *saeth;* Ll. *sagitta)*. Gwel ERGYD.

**Safle**—lle, gorsaf. Y meddylddrych o *le* sydd yn rhedeg trwy yr oll o'r geiriau hyn; *gorsaf* yw y *lle* mae un neu beth yn sefydlog; *lle* sydd adnabyddus neu anadnabyddus, gwirioneddol neu ddychymygol; *gorsaf* sydd *le* penodol ac adnabyddus. Yr ydym yn cymeryd i fyny *le* yn ol ein cyfleusdra, a gadawn ef wrth ein pleser; ond cymerwn i fyny ein *safle* a daliwn ef am amser penodol. A teithwyr o *le* i *le*, ond mae milwyr yn sefydlog mewn *gorsaf*.

**Safn** (saf? Arm. *staffu)*—genau, ceg, agorfa. Defnyddir y gair *ceg* mewn cysylltiad â phersonau a phethau; *safn* yn gyffredin mewn cysylltiad âg anifeiliaid, megys *safn* y llew. *Genau* sydd air mwy coethedig na *cheg* pan yn cyfeirio at berson, a defnyddir ef hefyd am unrhyw *agorfa*, megys *genau* yr ogof.

**Sangu.** Gwel MATHRU.

**Sail** (sa-il? Ll. *solum*)—sylfaen, gwadn. Dywedir am chwedl neu adroddiad nad oes iddynt unrhyw *sail*, ond sonir am adeilad

fel yn meddu *sylfaen*. Defnyddir y ddau air hefyd mewn cyfeiriad at adeilad, gyda hyn o wahaniaeth, fod *sylfaen* yn golygu y rhan hono sydd yn y ddaear, a *sail* y rhan sydd ar neu goruwch y ddaear neu'r tir: "ei *sail* sydd ar y mynyddoedd sanctaidd." *Gwadn* a gyfeiria at y tir y gorphwys y *sylfaen* neu y *sail* arno.

**Sâl.** Gwel CLAF.

**Salm.** Gwel EMYN.

**Salw.** Gwel GWAEL.

**Sanctaidd.** Gwel GLAN.

**Sarhau**—tramgwyddo, difrio, niweidio. *Difrio* ydyw *niweidio* cymeriad dyn; *tramgwyddo* yw dweyd neu wneyd rhywbeth i beri anfoddlonrwydd; *sarhau* yw gwneyd hyny mewn iaith finiog a gwawdlym; *niweidio* ydyw ymosodiad ar berson neu gymeriad dyn.

**Sarnu**—sathru, damsang.

**Sarug**—sur, cuchiog, uchelffroen.

**Satan.** Gwel DIAFOL.

**Sathru.** Gwel SARNU.

**Sawdiwr.** Gwel MILWR.

**Sawyr.** Gwel AROGL.

**Sefydlu.** Gwel GOSOD.

**Sefydlu**—cadarnhau. Cryfhau yw y meddylddrych a osodir allan gan y geiriau hyn: *cadarnheir* gyda golwg ar y meddwl, yn nghyd â'r hyn a weithreda arno: *sefydlir* gyda golwg ar yr hyn sydd allanol: *cadarnheir* adroddiad: *sefydlir* cymeriad.

**Sefydlu**—sicrhau, rhwymo.

**Sefydlu**—sylfaenu, adeiladu.

**Sefyll.** Gwel AROS.

**Sefyllfa**—cyflwr, ansawdd, helynt, ystad, amgylchiad. *Sefyllfa* a ddefnyddir am wrthddrychau fel y mae a wnelont âg eraill: *cyflwr* fel a wnelont â hwy eu hunain. Beth bynag a effeithia ar ein heiddo, ein rhyddid, ein hanrhydedd, &c., a wna i fyny ein *sefyllfa*; yr hyn a wna yn uniongyrchol a'n personau yw ein *cyflwr*: *sefyllfa* ddrwg yw eiddo y masnachwr nas gall dalu ei ffordd, ond mae y sawl fyddo wedi colli ei holl eiddo mewn *cyflwr* truenus. Gellir cymhwyso y geiriau yr un modd at bethau: dywedir fod tŷ mewn safle neu *sefyllfa* dda gyda golwg ar y gwrthddrychau amgylchynol: y mae mewn *cyflwr* da pan mewn adgyweiriad a threfn briodol.

**Sefyllfa**—helynt, trybini, achos.

**Sefyllfa**—lle, safle, gorsaf, eisteddfa. *Gorsaf* a *safle* yw y llecyn y saif neu erys peth: gall *lle* fod yn wâg neu beidio, ond mae *safle* neu *orsaf* yn awgrymu meddianiad o *le*. Y mae ysgrifenydd yn

llanw *lle;* deil offeiriad ei *sefyllfa* yn rhinwedd ei swydd, ac mae ei addysg yn ei osod yn *safle* boneddwr.

**Segur.** Gwel DIOG.

**Seibiant** (saib)—hamdden, enyd.

**Seinio**—swnio, lleisio. *Sŵn* yw yr hyn a ddeillia oddiwrth unrhyw gorph fel ag i fod yn glywadwy: *sain* yw yr hyn a gynyrchir drwy guriadau awyrol rheolaidd, ac heb fod dan nifer benodol mewn amser penodol—gelwir hyn yn sain gerddorol: *sŵn* y daran, a "*sain* cân a moliant." *Lleisio* a gyfeiria at y genau neu y cyfrwng neillduol i gynyrchu *sain*.

**Seirian.** Gwel DYSGLAER.

**Sêl**—aiddgarwch, gwresogrwydd.

**Selio**—argraphnodi. *Selio* ydyw rhoddi nôd dyn ei hun, megys arfbais, &c., ar wrthddrych, a thrwy hyny ei hawlio neu gadarnhau hawl iddo: *argraphnod* yw unrhyw farc trwy yr hwn y mae i ni adnabod rhywbeth. *Sel* yw yr awdurdod—*sel* y gwirionedd yw y *nôd* trwy yr hwn yr ydym i'w adnabod a'i wahaniaethu oddiwrth y gau.

**Sen.** Gwel GOGAN.

**Serch.** Gwel CARU.

**Sêr-ddewiniaeth** — seryddiaeth. Gwaith y *seryddwr* yw efrydu symudiadau y cyrph nefol; a gwaith y *sêr-ddewin* yw ymresymu oddiwrth eu dylanwad. Er fod y gair *dewin* erbyn hyn âg ystyr isel iddo, nid felly yr oedd ar y cyntaf, ond golygai ddewinydd neu brophwyd,—"*dewin* o Nazareth" y galwai L. C. Cothi ein Hiachawdwr. Ond erbyn hyn mae *dewiniaeth* yn gyfystyr â thwyll a hoced. Y mae *seryddiaeth* yn sylfaenedig ar awydd am wybodaeth; ond *sêr-ddewiniaeth* a dardda oddiar bryder am wybod y dyfodol. Sylwa y *seryddwr* ar gyflwr y cyrph nefol, gan nodi eu hamser, diffygion, &c., yn ol rheolau sefydlog, ac anaml y metha yn ei gyfrifon a'i ragfynegiadau; ond y *sêr-ddewin* fydd yn ymwneyd â damcaniaethau parth gwlaw, eira, oerni, ac yn tynu yn helaeth oddiar ei ddychymyg, ac felly yn cael ei dwyllo yn fynych. Ceisia y *seryddwr* egluro yr hyn a ŵyr, ac felly mae yn haeddianol o barch y dysgedig, ond ni fedd y *sêr-ddewin* ond tybiaeth i'w arwain, ac felly â ar gyfeiliorn.

**Seremoni.** Gwel ARFER.

**Serfyll.** Gwel ANWADAL.

**Serth**—brwnt, ffiaidd, halog.

**Serth**—llethr, dibyn. Gwel GALLT.

**Siampl**—esiampl, cynllun, engraifft.

**Siarad**—dweyd, mynegu, ymddiddan, sôn, llefaru. Dal cymundeb

y naill a'r llall trwy arwyddion yw y drychfeddwl a osodir allan yn y geiriau hyn. Nid oes yr un amgylchiad yn gysylltiedig â *llefaru*, tra mae y lleill i gyd yn golygu gwrthddrych i wrando neu i ddal cymundeb âg ef. Gall plentyn *siarad* mor fuan ag y gall wneyd sŵn, a phan y gallo wneyd sŵn yn ddealladwy i eraill mae yn *dweyd*. Nis gall mudan *siarad*, ac nis gall yr ynfyd *ddweyd* dim gwerth ei glywed. Y mae *mynegu* wrth ei gydmaru â *dweyd* yn golygu mwy: *dywedir* ïe neu nage, ond *mynegir* newyddion neu hanes. Nid yw yn ddoeth caniatau i blant *ddweyd* pethau ffol, na thraethu neu *fynegu* yr oll a glywant. Byddwn yn *siarad* ac *ymddiddan* âg eraill: gall un wneyd y blaenaf, ond rhaid cael mwy nag un i wneyd yr olaf. Byddwn yn *siarad* i amryw ddybenion—er mwyn pleser, treulio amser, &c., ond *ymddiddanwn* er pleser meddyliol a chasglu gwybodaeth: y gwagsaw yn gyffredin a *sieryd* fwyaf, ond y doeth a'r meddylgar a gâr *ymddiddan*. *Sôn* ydyw *siarad* neu *fynegu* rhywbeth am wrthddrych neu berson absenol.

**Siars.** Gwel ARCH.

**Sibrwd** (si-brwd?)—murmur, sisial, siffrwd.

**Sicr** (ys-gwir; Saes. *secure;* Ll. *securus)*—siwr, diogel, gwir, dilys. *Sicr* sydd wrthwynebol i amheus, a *diogel* i beryglus. Mae person yn *sicr* yr hwn na choledd un amheuaeth; yn *siwr* pan mae ei grediniaeth yn sefydlog, ac yn *ddiogel* pan yn rhydd o berygl. Nis gall neb *siwrio* ei oes am funyd, na *diogelu* ei feddianau yn gwbl rhag damweiniau.

**Sicrhau.** Gwel CADARNHAU.

**Sidan**—pali.

**Siglo.** Gwel CRYNU.

**Sigo**—briwio, tori, cleisio, gwasgu, malu. *Tori* a olyga wahaniad darnau y corph: *sigo* ydyw amharu y rhanau: *torir* sylweddau celyd, megys ceryg, ac *ysigir* pethau meddal neu ystwyth, megys llysiau. Trwy ergyd neu *wasgiad* y *cleisir*, a thrwy bwyso yn drwm y *gwesgir*. Gellir cyfanu yr hyn a *friwir* neu a *dorir*, a gellir adferu yr hyn a *sigir* i'w ffurf flaenorol; ond mae yr hyn a *felir* yn cael ei ddistrywio, gan fod *malu* yn golygu dihanfodi.

**Simnai.** Gwel FFUMER.

**Sïo.** Gwel SIBRWD.

**Siol**—pen, penglog.

**Siom** (sy-om; Saes. *sham)*—twyll, rhith.

**Sionc.** Gwel BUAN.

**Siriol**—llawen, diddan. Gwel LLON.

**Sisial.** Gwel SIBRWD.

**Siwr.** Gwel SICR.

**Sobrwydd** (Ll. *sobrius;* Saes. *sober*)—llwyr-ymwrthodiad, cymmed-

roldeb. Gellir bod yn *sobr* heb fod yn *llwyr-ymwrthodwr*, a'r naill a'r llall heb fod yn *gymmedrol.* Y mae *sobrwydd* yn fynych yn ymddibynu ar nerth cyfansoddiad, neu ynte i'w briodoli i ddoethineb: gall angenrheidrwydd achosi *llwyr-ymwrthodiad*, ond meddwl dysgybledig yn unig a alluoga ddyn i fod yn *gymmedrol.*

**Sôn**—adroddiad, ystori, siarad.

**Sori.** Gwel DIG.

**Sorod.** Gwel GWEHILION.

**Sothach.** Gwel GWEHILION.

**Sugno**—llyncu. Mae y blaenaf yn gosod allan gymeryd i fyny yn raddol, a'r diweddaf waith mwy cyflym: *sugna* plentyn y fron: *llwnc* dyn ei fwyd; *sugna* gwres yr haul y lleithder o'r ddaear: mae ambell un yn cael ei *lyncu* i fyny gan ei efrydiaeth.

**Sŵn** (Ll. *sonus)*—llef, gwaedd, bloedd, twrf. *Twrf* yw *sŵn* uchel: gall *sŵn* ddyfod oddiwrth bethau bywydol neu ddifywyd; ond nis gall ond pethau byw *lefain:* clywir *sŵn* y daran, a *llefau* dyn neu anifail. Gall damwain achosi *sŵn;* ond rhaid bod amgylchiad neillduol i beri *llefain.* Gall *sŵn* fod yn ddistaw fain, ond *llef* sydd sain uchel—digon i ddistewi pob peth arall. Gwel BLOEDDIO.

**Swrth**—cysglyd, trymllyd, diog.

**Swta**—sydyn, disymwyth.

**Swydd** (swy)—gwaith, galwedigaeth, gwasanaeth, gorchwyl, masnach. Pob peth a ymgymero dyn âg ef at ei fywioliaeth yw yr hyn a ddatgenir yn y geiriau hyn, o ba rai *gwaith* yw y mwyaf eang. *Masnach* sydd gyffredinol, *galwedigaeth* yn neillduol: mae y siopwr mewn *masnach;* y meddyg a ddilyna ei *alwedigaeth:* mae y blaenaf yn gofyn profiad a gwybodaeth, a'r olaf yn gofyn dysg a medr. Mae y dyn sydd yn dilyn unrhyw *alwedigaeth* fuddiol yn gwneyd *gwasanaeth* i'w wlad, yn enwedig os yn cyflawni ei *swydd* yn onest a ffyddlawn.

**Swydd**—gwaith, dyledswydd. *Gwaith* yw yr hyn a gymero dyn arno ei hun; *swydd* yw yr hyn a osodir arno gan arall; *dyledswydd*, fel y mae y gair yn awgrymu, yw yr hyn y mae rheolau pendant yn ei hawlio oddiwrtho. Y *gwaith* y mae un yn enill ei fywioliaeth wrtho ydyw trwy lafurio y ddaear; rhoddir y *swydd* o warcheidwad i un arall; tra mae cynal ei deulu yn *ddyledswydd* y mae ei gydwybod yn ei ddysgu iddo.

**Swyno.** Gwel HUDO.

**Syber** (swb-er? Ll. *sobrius)*—sobr, gweddus.

**Sydyn.** Gwel SWTA.

**Syflyd**—symud, ysgogi. *Syflyd* yw *symud* fel ag i aflonyddu ar rywbeth arall: ni chaniateir i blant *syflyd* o'u lle yn yr ysgol,

na milwr i *syflyd* oddiwrth y lle y gosodir ef ynddo. *Symud* a olyga newid safle, ond gall peth *ysgogi* heb *symud*.

**Syfrdan**—penysgafnder.

**Sylfaen**. Gwel SAIL.

**Sylw** (swl-selu)—esboniad, nodyn.

**Sylwedd**. Gwel DEFNYDD.

**Sylweddol**—caled. Mae *sylweddol* yn gyferbyniol i'r hyn sydd deneu a diafael; *caled* i'r hylifol neu rydd. Pobpeth y gellir eu trin â dwylaw ydynt *sylweddol* o ran eu natur: yr hyn o ran eu natur a ddalient eu tori ydynt *galed*. Mewn ystyr foesol yr hyn a fedda bwysau sydd *sylweddol*.

**Syllu** (syll; Arm. *sellet)*. Gwel EDRYCH.

**Syml**. Gwel GWIRION.

**Symmud** (sym-mud). Gwel SYFLYD.

**Symol**—gweddol, canolig, cymmedrol.

**Syniad**. Gwel BARN.

**Synu**. Gwel RHYFEDDU.

**Synwyr**—rheswm, barn. *Synwyr* yw y rhan hono o'r deall sydd yn rhoddi cyfrif am bethau; a *barn* yw y rhan hono o *reswm* sydd yn dewis neu wrthod rhywbeth. Y *synwyr* sydd yn casglu, a *barn* sydd yn rhoddi dedfryd, ac felly mae y *farn* yn dibynu ar y *synwyr*. Yr hwn ni fedd *synwyr* o ganlyniad ni fedd *farn*. Ar yr un pryd, o'r tu arall, gall fod *synwyr* heb *farn*, a *barn* heb *synwyr*. Y mae bod yn *synwyrol* yn dra dymunol, ond mae meddu *barn* dda yn anhebgorol.

**Syrthio** (swrth). Gwel CWYMPO.

# T

**Taclau**. Gwel OFFER.

**Taclus**—destlus, cryno, del.

**Taenu**—ymledu, gwasgaru, ymagor. Y mae unrhyw beth yn *ymdaenu* pan y cymer fwy o le nag o'r blaen, naill ai trwy ei ddosranu neu ynte trwy ychwanegu at ei sylwedd; *ymagor* neu *ymledu* ydyw *taenu* trwy wahanu ei amrywiol ranau; *ymdaena'r* niwl dros ael y bryn: *ymleda*'r blodeuyn ac *egyr* ei ddail. Mewn ystyr foesol mae drygioni yn *ymdaenu*, a'r meddwl yn *ymagor*. Gwel GWASGAR.

**Taer**—awyddus, difrif, angerddol. *Awyddus* mewn cysylltiad â'r dymuniadau neu'r nwydau; *difrifol* â'r dymuniadau neu'r syniadau; y blaenaf mewn ystyr anianyddol neu foesol; yr olaf mewn ystyr foesol yn unig. Mae dyn newynog yn *awyddus* i fwyd: y mae un arall o *ddifrif* yn ei gais. Gellir bod yn rhy *awyddus*, ond prin y gellir bod yn rhy *ddifrifol*. *Angerddol* a awgryma deimlad dwfn a gwresog: *taer* a olyga ymgais dyn i

feddu rhyw wrthddrych, neu gael ffafr, trwy ofyn yn barhaus nes ei gael: y mae cardotwyr yn gyffredin yn *daer.*

**Taeru.** Gwel HAERU.

**Tafarn** (taf-arn? Ll. *taberna)*—diotty, gwesty.

**Taflu** (taf; Ar. *tafal*: *Arm. teorell).* Gwel BWRW.

**Tafodrydd.** Gwel FFRAETH.

**Tafol**—clorian, mantol.

**Tagu**—mygu, crogi. Mae y geiriau hyn yn golygu attaliad ar yr anadl, ond o dan wahanol amgylchiadau ac mewn gwahanol foddau: gellir *mygu* trwy foddion amrywiol—allanol neu fewnol, megys trwy rwystro yr anadl oddi allan, neu bwyso yn drwm: *tagu* sydd yn cael ei achosi trwy i rywbeth sefyll yn y gwddf. *Crogir* trwy hongian yn erbyn y gwddf.

**Tangnefedd** (tanc-nef)—heddwch. Gall *heddwch* fod rhwng dwy blaid, neu gall gyfeirio at un: *heddwch* rhwng dwy wlad: *tangnefedd* yn mynwes dyn ei hun. Pan y mae dau wedi *ymheddychu* profa y naill a'r llall *dangnefedd.* Gall dyn fwynhau math o *dangnefedd* neu esmwythdra (gau) heb *heddwch* gwirioneddol, ac am hyny sonia y Beibl am "*dangnefedd heddychol.*"

**Tail** (ta-il; Arm. *tail;* Gr. *tilos*). Gwel GWRTAITH.

**Tâl**—atdaliad, boddlonrwydd, pris, cyflog, gwobr. Mae *atdaliad* a *boddlonrwydd* yn golygu rhywbeth yn cael ei wneyd mewn ffordd o iawn am golled neu niwed a dderbyniasid; *tâl, pris, cyflog,* yw rhywbeth a roir yn gyfnewid am wasanaeth; *gwobr* a roir am dda neu ddrwg. Y mae *atdaliad* neu *iawn* yn rhywbeth sylweddol, cyfwerth â'r hyn a gollasid: gall *boddlonrwydd* fod yn rhywbeth dychymygol o ran y niwed a'r rhodd, a dibyna ar deimlad y derbynydd. Gweithred o gyfiawnder yw *atdaliad;* mater o anrhydedd a chytundeb blaenorol rhwng dau yw talu *cyflog* am wasanaeth. Gall dyn roddi *pris* ar ei lafur a derbyn *cyflog* cyfatebol.

**Tal**—uchel, dyrchafedig. Beth bynag sydd *dal* a *dyrchafedig* sydd *uchel,* ond nid yw pob peth sydd *dal* a *dyrchafedig* yn *uchel. Tal* yw yr hyn a saif i fyny yn unionsyth; *dyrchafedig* yw rhywbeth *uchel* mewn gwrthgyferbyniad i rywbeth is. Mae eglwysi yn gyffredin yn *uchel,* ond y clochdai yn *dal,* ac os bydd rhywbeth ar ben y clochdy dywedir ei fod yn *ddyrchafedig.*

**Talaeth.** Gwel RHANDIR.

**Tân**—gwres, twymder. Y mae *tân* a *gwres* yn y cysylltiad o achos ac effaith: canfyddir y naill gan y llygad yn gystal a thrwy gyffyrddiad: trwy gyffyrddiad yn unig y deuir i wybod am y llall. Canfyddir *tân* trwy y fflam a rydd; ond darganfyddir *gwres* trwy y teimladau a gynyrcha ynom. Mae gan *dân* y gallu o gyfranu *gwres* i gyrph fyddo bellder oddiwrtho; ond nid yw

*gwres* pan y gorwedda mewn cyrph heb *dân* yn meddu y cyfryw allu, ac nis gwyddir am ei fodolaeth ond trwy ddyfod i gyffyrddiad â'r corph y byddo ynddo. Ymledaena *tân*, ond bydd *gwres* farw. Nis gellir cynyrchu *tân* ond mewn rhai cyrph; ond gellir cynyrchu *gwres* mewn llawer mwy o gyrph: gellir tynu *tân* o gallestr, ond gellir cynyrchu *gwres*, neu ceir ef i raddau mwy neu lai yn mhob sylwedd materol. Gwahaniaetha *gwres* a *thwymder* mewn graddau yn benaf: yr olaf yn radd fechan o'r blaenaf. Cynyrchir *gwres* naill ai trwy weithrediad *tân*, megys trwy ferwi dwfr, neu trwy rwtiad chwyrn y naill gorph yn erbyn y llall; ond cynyrchir *twymder* yn unig trwy fwrw ymaith oerni, megys gyda phlu, gwlan, &c., y rhai a feddant allu i gynyrchu a chadw *gwres*.

Defnyddir y geiriau hefyd mewn ystyr foesol: sonir am *dân* yr awen, am *boethder* y ddadl, ac am *wres* a hyawdledd siaradwr, &c.

**Tanbaid.** Gwel GWRESOG.

**Taraw.** Gwel PWYO.

**Tarddiad**—gwreiddyn, dechreuad, codiad, ffynhonell. Y mae a fyno *gwreiddyn* â'r achos, a *dechreuad* âg amser peth: nis gall fod *gwreiddyn* neu *darddiad* heb *ddechreuad;* ond gall fod *dechreuad* pan na byddom yn sôn am *wreiddyn.* Wrth *wreiddyn* peth yr ydym yn deall peth, ac wrth ei *ddechreuad* ei barhad. Y mae *codiad* yn air mwy cyffredin na *gwreiddyn:* soniwn am *wreiddyn* neu *foncyff* teulu, ac am *godiad* afon. Rhaid i ni edrych am eglurhad ar *wreiddyn* drwg i Air Duw: mae hyn wedi rhoddi *dechreuad* i lawer o gyndyn-ddadleu. Defnyddir y gair *ffynhonell* am yr hyn a gynyrcha olyniad o wrthddrychau, tra mae *codiad* yn golygu ond un gwrthddrych: mae *tarddiad* neu *godiad* afon yn gyffredin i'w olrhain i'r *mynyddoedd:* y mae cariad at bleserau yn *ffynhonell* llawer o ddrygau i ddynion a chymdeithas yn gyffredinol.

**Tarfu.** Gwel GWASGARU.

**Taro.** Gwel TARAW.

**Tarth**—niwl, tawch, ager.

**Tasg.** Gwel GORCHWYL.

**Tawel.** Gwel ESMWYTH.

**Tebyg.** Gwel CYFFELYB.

**Têg.** Gwel PRYDFERTH.

**Teilyngdod.** Gwel HAEDDIANT.

**Teimlad**—ymsyniad, ystyriaeth.

**Teimlad**—cyffro.

**Teimlo**—cyffwrdd, bod yn ymwybodol. Mae y gair *teimlo* yn dra eang ei gymhwysiad, ac yn cymeryd i mewn yr holl gyfansodd-

iad mewnol ac allanol: y mae pob peth byw yn *teimlo* poen a phleser i raddau mwy neu lai. Y mae *teimlo* yn weithred anianyddol neu foesol: *cyffwrdd* yn weithred anianyddol; er y sonir weithiau am *gyffwrdd* y galon—mewn ystyr ffugyrol. *Teimla* dyn yr hyn sydd yn pasio oddi allan; y mae yn *ymwybodol* o'r hyn a gymer le yn y meddwl: *teimlwn* ddylanwad cerddoriaeth arnom, ac yr ydym yn *ymwybodol* o fod yn fyr o gyflawni ein dyledswyddau.

**Teimlo**—bod yn ymwybodol, syniadol.

**Teithi** (taeth)—cynneddf, nodwedd, priodoledd.

**Telaid**. Gwel TEG.

**Telerau**. Gwel AMMODAU.

**Telori**—cathlu, mwyn-byncio.

**Temig**. Gwel MYMRYM.

**Teml**. Gwel EGLWYS.

**Temtio**. Gwel HUDO.

**Teneu**. Gwel CUL.

**Têr**. Gwel GLOYW.

**Terfyn**. Gwel FFIN.

**Terfysg** (ter-mysg)—aflonyddwch, cynhwrf. Y mae *cynhwrf* yn gyffredin lle mae *terfysg;* ond yn fynych nid oes *derfysg* lle byddo *cynhwrf*. Gall un neu ddau *aflonyddu*, ond mae *terfysg* yn golygu lluaws. Ychydig bach all achosi *aflonyddwch*, ond rhaid cael digwyddiad anghyffredin i gynyrchu *cynhwrf*, ac yn enwedig *terfysg*. Y mae meddwdod yn fynych yn achosi *aflonyddwch; cynhyrfiadau* gwladol yn tori ar heddwch gwlad, ac weithiau dilynir hwy gan *derfysgoedd* enbyd.

**Tes**. Gwel GWRES.

**Testyn**. Gwel PWNC.

**Teulu** (tau-llu? ty-llu; C. *teilu)*—tŷ, llinach, rhywogaeth. Defnyddir y gair *tŷ* yn ffugyrol am y rhai a gyfaneddent ynddo: gwraig a ofala am ei *theulu:* gŵr a reola ei *dŷ*. Y mae a wnelo *teulu* â'r rhai a wnant i fyny ei aelodau, a'r *tŷ* â'r hyn a ddygir yn mlaen ynddo: *teulu* lluosog; *tŷ* y Cyffredin. Y mae *teulu* yn cynwys pob amgylchiad mewn cysylltiad â pherthynas; *llinach*, perthynas yn unig: cydoesa *teulu* yn gyffredin: *llinach* a ddefnyddir am rai wedi myned: yr oedd ein Hiachawdwr o *linach* Dafydd. Cyfyngir *teulu* i nifer bychan; *rhyw* sydd air cynwysfawr, gan gymeryd i mewn holl ddynol-*ryw*, neu genhedloedd neillduol, megys *rhywogaeth* Ynysoedd Môr y De.

**Tew** (te? Arm. *teu)*—pasgedig, bras, aml. *Pasgedig* a ddefnyddir am anifeiliaid wedi eu *tewhau; tew* am anifeiliaid a dynion. Gall rhywbeth fod yn *dew* heb fod yn *fras*, ond nid yn *fras* heb fod yn *dew*. Mae *tew* yn golygu swm, ac *aml* nifer—y cyntaf yn gorph cryno, cyfunol, a'r olaf yn rhanau gwahanedig: gorwedda yr eira yn *dew* ar y ddaear, a cheir cawodau *aml* o genllysg.

**Teyrn** (te-gyrn; Gr. *turannos;* Ll. *tyrannus)*. Gwel BRENHIN.

**Teyrnged**—treth, toll. Y meddylddrych a osodir allan gan y geiriau hyn ydyw rhywbeth yn cael ei roi gan y bobl i'r llywodraeth. Y mwyaf cyffredin o'r rhai hyn yw *treth*, a chynwysa yr hyn oll a delir i'r llywodraeth yn ol amcan-gyfrif penodol: *toll* sydd fath neillduol o *dreth*—ar nwyfau, &c.—*toll borth*, sef lle i

godi y *dreth* am dramwy. Codir *treth* trwy rym cyfraith: y mae *teyrnged* o'r tu arall yn golygu yr hyn a roddir *(ced)* gyda rhyw gymaint o gydsyniad a gwirfoddolrwydd. Derbynia tywysogion *deyrnged* o dalaethau estronol a gydnabyddant eu huchafiaeth.

**Tid.** Gwel CADWYN.

**Tir.** Gwel DAEAR.

**Tirf**—pybyr, bywiog.

**Tirion.** Gwel HYNAWS, RHADLAWN, HOFF.

**Tlawd** (ty-lawd; Gr. *tlas, talas)*. Gwel ANGHEN.

**Tlws** (ty-llws). Gwel HARDD.

**Tô**—oes, cenhedlaeth.

**Tolio.** Gwel CYNNILO.

**Toll** (twll; C. *toll)*. Gwel TEYRNGED.

**Ton** (twn; Gr. *done)*—gwaneg, môr-ymchwydd.

**Tôn** (to-on; Gr. *tonos*; Ll. *tonus)*—erddygan, alaw.

**Top**—crib, coryn.

**Toraeth**—llawnder, digonedd, helaethrwydd. *Digonedd* sydd yn *llenwi; helaethrwydd* a *llawnder* sydd yn gadael gweddill: tymor o *lawnder:* cynhauaf *toreithiog. Digon* yn gyffredin ddywedir am yr hyn a leinw'r corph; *llawnder* am yr hyn leinw y meddwl, neu y dymuniadau: *digon* o fwyd, *cyflawnder* o gyfoeth: o "*helaethrwydd* y galon y llefara'r genau."

**Torf.** Gwel LLU.

**Tori**—darnio, dryllio, hollti, malu. Y mae *tori* yn golygu gwahanu y rhanau neu eu hysigo: *darnio* yw llwyr wahaniad y rhanau, a'r un modd *dryllio*. Pan wneir y rhanau yn fân dywedir eu bod yn cael eu *malu*. Gall lluaws o achosion mewnol neu allanol beri *hollt: holltir* y graig gan adael gwagle neu agen, ac yn hyn gwahaniaetha oddiwrth *rwygo*.

**Tosio** (ty-os; Gr. *tosen)*—ysgwyd, cynhyrfu. Symud gyda graddau o drais a olygir wrth y geiriau hyn. *Ysgwyd* yw y graddau isaf: *cynhyrfu* a *thosio* ydynt radd uwch: *ysgydwir* y ddeilen gan yr awel; *cynhyrfir* y tònau gan y gwynt, a *thosiant* y llong oddi amgylch. Wrth *ysgwyd* a *chynhyrfu* nid ydys yn symud peth o'i le, ond gwneir hyny wrth *dosio:* gall tŷ gael ei *ysgwyd*, dwfr gael ei *gynhyrfu*, heb ei symud, ond *tosir* pellen o law i law.

**Tost**—llym, caled.

**Tosturi**—trugaredd. *Tosturi* sydd syniad; *trugaredd* sydd weithred: *tosturiwn* neu gresynwn dros gyfiwr y tlawd, ond wrth estyn bwyd iddo yr ydym yn *trugarhau*. Mewn cylch anghyhoedd gan mwyaf y dangosir *tosturi*, ond mewn cylchoedd o awdurdod y dangosir *trugaredd: tosturiwn* wrth ffaeleddau un trwy edrych drostynt: dengys yr ustus *drugaredd* trwy roddi cosb ysgafn. Dengys Duw ei *dosturi* tuag atom trwy ddiwallu ein hanghenion: dengys ei *drugaredd* trwy faddeu ein pechodau.

**Traethu**—adgoffa, desgrifio. Rhoddi hanes digwyddiadau neu amgylchiadau yw yr hyn a osodir allan yn y geiriau hyn. *Traethwn* am bethau yn dal cysylltiad â ni ein hunain yn gystal ag eraill: *adgofiwn* yr hyn a fu yn dal cysylltiad â ni ein hunain. *Traethwn* am bethau wedi digwydd, ond odid, yn dra diweddar; ond wrth *adgoffa* byddwn yn myned yn mhell yn ol. Mae *traethu*

ac *adgoffa* yn edrych rywfaint yn ol; ond *desgrifir* peth fel yn bodoli. Byddwn yn *adrodd* neu *draethu* hanes ein taith; yn *adgoffa* helyntion neillduol; ac yn *desgrifio* y wlad y byddwn yn myned trwyddi.

**Trafnidiaeth.** Gwel MARSIANDIAETH.

**Trafferth.** Gwel HELBUL.

**Tragwyddol** (tra-cywydd)—diddiwedd. Y mae *tragwyddol* uwchlaw a thu draw i amser; ond y *diddiwedd* tu fewn i derfynau amser. *Tragwyddol* yw yr hyn sydd heb ddechreu na diwedd: *diddiwedd*, yr hyn sydd â dechreu ond heb ddiwedd iddo. *Tragwyddol*, ac nid *diddiwedd*, yw Duw. Pan y sonir am rywbeth *diddiwedd*, megys cwerylon neu ryfeloedd *diddiwedd*, dywedir hyny mewn cysylltiad â'r byd yma yn unig; ond mae cyflwr dyfodol yn un *tragwyddol*.

**Trangc.** Gwel ANGAU.

**Trahausder**—rhyfyg, balchder, anfoesgarwch. *Balchder* yw y duedd hono mewn dyn a bâr iddo feddwl yn uchel o hono ei hun: *trahausder* sydd a wnelo a'i ymddygiad at eraill. *Trahausder* sydd weithred o eiddo yr uchel: *rhyfyg*, eiddo yr isel: myn y naill ei fod uwchlaw ei gyd-ddyn, a chais y llall fod yn gydwastad â'r sawl sydd uwchlaw iddo. Y mae *trahausder* a *balchder* yn berthynasau agos: hawliant gan ddyn yr hyn yn flaenorol, a ganiateid iddynt yn wirfoddol: ceisia y *rhyfygus* farnu gweithrediadau yr Holl-ddoeth, a grwgnacha yn erbyn trefniadau ei ragluniaeth. Gwahaniaethir rhwng y geiriau hyn gan Trench * fel y canlyn:—"Hawlia y *trahaus* sylw a gwarogaeth eraill fel yr eiddo ei hun; yr hwn nid erys iddynt i gynyg, ond a ofyn am hyny ei hun; neu, yr hwn a chanddo hawl i un math o sylw, a fyn un arall i'r hwn ni fedd unrhyw hawl. *Trahausder* ar ran Nebuchodonosor ydoedd ei waith yn ceisio gan bawb syrthio o flaen y ddelw a godasai. Efe, yn ddyn. a hawliai i waith dyn y warogaeth a berthynai yn unig i Dduw. Ond mae dyn yn *rhyfygus* pan y *cymer* bethau iddo ei hun cyn derbyn o hono unrhyw deitl i'r cyfryw; megys y dyn ieuanc a gymero le yr hen. a'r disgybl a sieryd âg awdurdod y dysgawdwr. Yn y man gallai hyn oll fod yn eiddo iddo, ond *rhyfyg* ydyw cymeryd gafael ynddo ar hyn o bryd. *Anfoesgar*, ni olyga fwy nag anarferol; gweithredu yn *anfoesgar* yw gweithredu yn anarferol. Y mae'r syniad anymunol yn nglŷn âg *anfoesgar* yn gorphwys ar y teimlad fod rheolau pendant yn perthyn i gymdeithas a safon ymddygiad, gyda pha rai disgwylir i bob aelod gydymffurfio. Tyr yr *anfoesgar* trwy y rheol hon gan weithredu mewn dull anarferol."

**Trais**—gorthrwm, camwri.

**Trallod** (tra-llawd). Gwel GOFID.

**Tramgwydd.** Gwel CWYMP.

**Tramwy.** Gwel CERDDED.

**Tras.** Gwel PERTHYNAS.

**Traul.** Gwel COST.

**Traws** (Ll. *traus)*—croes, gwrthwynebol.

**Tref** (ty-rhe? C. *tre)*. Gwel PRESWYLIO.

**Trefn** (tref; Hebr. *tur)*. Gwel RHEOL.

**Trengi.** Gwel TRANGC.

* "Study of Words," tud. 200.

**Treiddio**—trywanu. *Treiddio* yw myned i mewn i ryw sylwedd; *trywanu* yw myned yn ddyfnach. Gweithred raddol yw *treiddio*: *treiddia* dwfr i mewn i goed: *gwanu* a olyga weithred dreisiol: *gwana* saeth trwy bren. Gellir *treiddio* trwy ddefnyddio unrhyw offeryn: *gwenir* âg offeryn blaenllym neu finiog: *treiddir* i ddyfnderoedd y ddaear trwy ddefnyddio rhaw, ond *gwenir* y ddaear gyda chaib.

**Treiddio**—amgyffred. Nid yw *amgyffred* yn weithred feddyliol mor gref a *threiddio*. Mae yr olaf yn weithred gyflym, a hyny er gwaethaf yr hyn fyddo yn sefyll rhwng ein golygon a'r gwrthddrych. Gall dyn o alluoedd cyffredin *amgyffred* neu ddeall cymeriadau, ond dyn o *dreiddgarwch* a genfydd trwy bob cochl a thwyll. Gwel Barn.

**Treiglo**—rholio, troi.

**Trem** (ty-rhem). Gwel Golwg.

**Tres** (ty-rhes? Gr. *teiro*). Gwel Cadwyn.

**Treth.** Gwel Teyrnged.

**Treulio.** Gwel Afradu.

**Trigfan.** Gwel Preswylfod.

**Trin** (tri-in? Ll. *tractatio*)—ymyryd.

**Trin**—dwrdio, ymryson.

**Tristwch.** Gwel Galar.

**Tro**—amser, adeg, amgylchiad, achlysur.

**Troell** (tro). Gwel Olwyn.

**Troi**—plygu, plethu, dirdynu. *Troi* ydyw gyru peth allan o'i le mewn llinell uniongyrch; *plygu, plethu, dirdynu*, ydynt wahanol fathau o *droi*. Byddwn mewn ystyr foesol yn *troi* dyn oddiwrth ei fwriad cyntefig; yn *plygu* ewyllys un; yn *plethu* geiriau i ateb ein dybenion: *dirdynu* a olyga *droi* peth gyda thrais, ac er poen.

**Tro.** Gwel Gogwydd.

**Trosedd.** Gwel Pechod.

**Truenus.** Gwel Gresynus.

**Trugaredd.** Gwel Tosturi.

**Trum** (ty-rhum? Ir. *drium*)—cefnen, crib.

**Truth** (ty-rhuth). Gwel Gweniaith.

**Trwm** (ty-rhwm). Gwel Trist.

**Trwsgl**—anfedrus, bongleraidd, aflerw.

**Trwsio**—harddu, prydferthu.

**Trwstan.** Gwel Trwsgl.

**Trwyadl**—cyfan, cyflawn, llwyr, cwbl. *Cyfan* a olyga beth heb ei rann; *cyflawn* peth heb ddim diffyg ynddo. Gall peth fod yn *gyflawn* heb fod yn *gyfan*: y mae afal a fyddo wedi ei dori yn *gyflawn* tra byddo y rhanau gyda'u gilydd, ond nid yn *gyfan*. *Llwyr* a olyga swm y rhanau: *cwbl*, gyfuniad y rhanau: soniwn am *lwyr* ddinystr y dref a'r *cwbl* oedd ynddi. *Trwyadl* ydyw bod yn berffaith, heb ddim yn eisiau: byddwn yn gwahaniaethu yn *drwyadl* oddiwrth rai dynion ar amryw bynciau.

**Trwydded** (trwy), rhyddid, caniatâd. Rhoddir neu derbynir *rhyddid*: derbynir *caniatâd*: rhoddir *trwydded* yn ol amodau neillduol. Derbynia'r gwas *ganiatâd* gan ei feistr i wneyd fel

a'r fel: rhodda boneddwr *ryddid* i un rodio yn ei barc. Y mae *cymeryd rhyddid* yn ormesiaeth ar hawliau un arall: gofynir am *ganiatâd*, ond nid am *ryddid;* rhoddir *caniatâd* gan bersonau unigol, ond *trwydded* gan awdurdodau swyddogol.

**Trwytho**—mwydo, sicio. Rhoddi pethau mewn gwlybwr yw y meddylddrych a gyfleir yn y geiriau hyn. *Sicir* pethau mewn dwfr er eu meddalhau; cedwir hwy yno yn hir er eu *mwydo*, tra mae *trwytho* yn golygu eu suddiad am fyr amser.

**Trychineb**—aflwydd, anffawd. Mae *trychineb* yn waeth nag *aflwydd* neu *anffawd*, ac yn golygu dinystr; y mae colli eiddo neu iechyd yn *anffawd:* y mae cael gwrthwynebiad mewn bwriad neu gynllun yn *aflwydd*. Y mae colled trwy ddaeargryn yn *drychineb;* cwympo a thori aelod yn *anffawd;* cael colledion mewn masnach yn *aflwydd*.

**Trydan**. Gwel Gwefr.

**Trymder**—pwysau. Y mae *pwysau* yn gorwedd yn gwbl mewn peth, ond defnyddir *trymder* yn ei gysylltiad â pherson. Mae genym safon neillduol i wybod *pwysau*, ond y teimladau fedr farnu *trymder*.

**Trymder**. Gwel Tristwch.

**Trysor** (trws; Ff. *tresor;* Ll. *thesaurus)*. Gwel Golud.

**Trystio**—tyrfu.

**Trythyllwch**. Gwel Puteindra.

**Trywanu**. Gwel Treiddio.

**Tuchan**. Gwel Cwyno.

**Tueddiad**—tymher. Y mae a wnelo *tueddiad* â'r holl o osgedd y meddwl; *tymher* yn unig â'r teimlad. Y mae *tueddiad* yn sefydlog; *tymher* yn anwastad ac anwadal. *Tuedd* dda a bâr i ddyn wneyd aelod da o gymdeithas; *tymher* dda a'i gwna yn gymeradwy a hynaws, ond nid o angenrheidrwydd yn dda i neb. A *tuedd* dda yn mhell tuag at wella *tymher* ddrwg; ond pan fyddo'r *duedd* yn ddrwg ychydig obaith am ddiwygiad sydd.

**Tueddu**. Gwel Gogwyddo.

**Twr**. Gwel Crug.

**Twt**. Gwel Taclus.

**Twyll** (twy? C. *tull;* Gr. *dolos)*. Gwel Dichell.

**Twym**. Gwel Gwres.

**Twymyn**—clefyd.

**Tybied**. Gwel Barnu.

**Tycio**. Gwel Ffynu.

**Tyfu**. Gwel Cynnyddu.

**Tynged**—ffawd, rhan, dedfryd. Mae y geiriau hyn oll yn dal cysylltiad â digwyddiadau dynol heb fod o dan reolaeth dyn ei hun. *Tynged* sydd yn ymwneyd â chyflwr ac a bywyd dyn: *ffawd* yw yr hyn a ddioddefa; *rhan* yw yr hyn a dderbynia neu a fedda; *dedfryd* yw y gyfran hono o *dynged* neu *ffawd* a ddibyna ar ewyllys un arall. *Tynged* rhai dynion yw eu bod yn wastad yn newid eu cynlluniau; *ffawd* rhai awduron yw eu bod yn llafurio er lles dynolryw a thlodi eu hunain: nid yw yn *rhan* ond yr ychydig i fwynhau cyfoeth. Ceir *dedfryd* gyfiawn ar bawb yn y diwedd.

**Tyngu**. Gwel Melldithio.

**Tylwyth.** Gwel Cenedl.

**Tymestl**—storm, hyrddwynt, awel. Y mae *awel* yn fwy rheolaidd ei symudiad na'r lleill: cynhyrfir yr holl awyr gan *ystorm*, a dilynir y gwynt yn fynych gan wlaw, cenllysg, &c. *Tymestl* sydd fath o *storom* yn mha un y ceir mellt a tharanau. *Hyrddwynt*, fel yr awgryma y gair, yw storom o wynt yn ei ffyrnigrwydd eithaf.

**Tymmor.** Gwel Amser.

**Tyner.** Gwel Mwyn.

**Tynu**—llusgo, gwthio. Wrth *dynu* a *llusgo* yr ydys yn sefyll o flaen gwrthddrych, ac wrth *wthio*, ar ei ol. Nid yw *tynu* yn golygu rhagor na rhoddi rhyw beth mewn ysgogiad: *llusgo* a awgryma *dynu* gyda mawr rym ac yn erbyn gwrthwynebiad, a'r un modd *gwthio*.

**Tyrfa** (twrf? Ll. *turba*, *turma*; Gr. *turbe*). Gwel Llu.

**Tystiolaeth** (Ll. *testis*). Gwel Prawf.

**Tywallt** — arllwys, colli. *Tywelltir* o fwriad, a *chollir* trwy ddamwain: y blaenaf yn symiau bychain—wrth reol: yr olaf yn symiau mawr. Y mae *tywallt* yn dal perthynas â'r derbynydd, megys y cymylau yn tywallt eu cynwys i'r ddaear, tra nad yw *colli* yn cyfeirio dim at ganlyniad y weithred. *Tywallt* a olyga ddisgyn o uchder: *arllwys* yr afon ei chynwys i'r môr, a *thywallta* y cymylau iddo.

**Tywydd.** Gwel Hin.

**Tywyll** (ty-gwyll; *Arm. te fal;* Ll. *teuebra*)—aneglur, dirgelaidd, pwl. *Tywyll* a ellir ei gymhwyso at wrthddrychau moesol a naturiol; *aneglur* yn benaf at wrthddrychau moesol. Mae *tywyllwch* yn gorchuddio yr hyn a fynem ei weled: *aneglurder* yn dynodi rhywbeth yn dyfod rhyngom â'r gwrthddrych. Y mae rhai yn "*tywyllu* cynghor heb wybodaeth:" cynwysa gweithiau duwinyddion y canol-oesoedd luaws o frawddegau *aneglur*. Dynoda *pwl* raddau o *dywyllwch*, ond mae a fyno yn fwy â'r edrychydd nag â'r gwrthddrych. Pan y soniwn am *dywyllwch* mewn ystyr foesol mewn cysylltiad â dyn yr ydym yn golygu rhywbeth drwg, ond nid yw *dirgelaidd* o angenrheidrwydd felly: y mae ffyrdd rhagluniaeth yn fynych yn llawn *dirgelwch*.

**Tywynu.** Gwel Llewyrchu.

**Tywys** (ty-gwys). Gwel Arwain.

**Tywysog**—teyrn, penadur. Nid yw *tywysog* yn awgrymu dim am awdurdod, ond yn gyffredin golyga un yn meddu llai o awdurdod na *theyrn* a *phenadur*, pob un o ba rai ydynt *dywysogion*. Nid yw *teyrn* yn deffinio maint yr awdurdod, ond golyga *penadur* y graddau uchaf o hono. Y mae pob un a feddo allu annibynol yn *dywysog*, boed ei diriogaeth faint y byddo: y sawl a reola yn annibynol ar diriogaeth fawr sydd *deyrn*, ac felly mae brenhinoedd ac ymherawdwyr yn *deyrniaid*. Y mae pob *teyrn* yn *benadur* os yn meddu ar diriogaeth a nifer o ddeiliaid.

## U

**Ubain.** Gwel Gruddfan.

**Uchel.** Gwel Tal.

**Uchel.** Gwel Balch.

**Uchel**—trystiog, swnfawr, dadyrddus.

**Uchenaid.** Gwel Ochenaid.

**Udo** (ud? *Arm. iudal)*—oernadu, ubain.

**Ufel**—tân elfenol, gwreichionen.

**Ufudd** (uf-ydd? Ll. *obedio)* — gostyngedig, isel. *Ufuddheir* i orchymyn; *ymostyngir* i awdurdod. Ystyrir *ufudd-dod* fel rheol yn rhinwedd, ond nid yw *ymostyngiad* felly o angenrheidrwydd, oblegyd gall un *ymostwng* mewn gwaseidddra, neu oddiar ddybenion hunanol. *Ufuddheir* oddiar egwyddor, ac nis gellir ei ffugio: *ymostyngiad* yw plygu mewn rhan i un arall, ac mae yn hawdd ei ffugio: y deall â'r galon a gynyrchant *ufudd-dod:* gallu neu nerth amgylchiadau a gynyrchant *ymostyngiad.*

**Uffern** (uff-ern? C. *infarn, efearne;* Ll. *infernus)*—y fagddu, annwn, abred.

**Un** (C. *un, nynyn;* Arm. *unam;* Gr. *hen;* Ll. *unus)*—unig. *Un* sydd wrthwynebol i ddau neu ychwaneg; *unig* sydd yn cau allan fodolaeth rhagor. Fod gan ddyn *un* plentyn sydd ddatganiad diamwys; fod ganddo *unig* blentyn a awgryma y gallai fod ganddo unwaith ychwaneg nag un, neu y gallai fod yn y dyfodol.

**Uniawn**—syth, gwastad. *Uniawn* sydd wrthgyferbyniol i gam, megys ffordd *uniawn*. *Syth* a olyga fod yn uniawn gyda golwg ar uchder, megys dyn *syth*.

**Uniawn.** Gwel Cyfiawn.

**Unigedd**—neillduedd, encil. Mae y ddau air diweddaf yn cyfeirio at waith dyn yn ymneillduo o gymdeithas; tra gall un ar yr un pryd deimlo *unigrwydd* mewn cymdeithas. Mae'r digyfaill a'r digartref yn teimlo yn *unig* yn nghanol trwst y ddinas fawr, a gall arall fwynhau *neillduedd* tra heb gymdeithas â'r un bôd dynol.

**Uno**—chwanegu, cysylltu, cyfuno. *Chwanegir* trwy roddi at beth; *cysylltir* trwy roi dau beth wrth eu gilydd fel i ymlynu: *unir* trwy roddi un peth at y llall, fel y byddo i'r holl ranau ymlynu wrth eu gilydd; *cyfunir* trwy ymgydiad trwyadl yr holl ranau. *Chwanegu* sydd weithred gorphorol neu ysbrydol: *cysylltu* sydd weithred gorphorol gan mwyaf; *uno* a *chyfuno* a ddywedir am wrthddrychau ysbrydol. Rhaid cael gweithredydd i *chwanegu;* ond gall pethau gael eu *cysylltu* trwy ddyfod yn ddamweiniol i wrthdarawiad; *una* pethau â'u gilydd trwy feddu cyfaddasder at hyny: *cyfuniad* a gymer le yn benaf trwy weithrediad allanol. *Chwanegir* symiau trwy eu cyfrif i fyny: *cysylltir* cadwyn trwy ddwyn y dolenau i gyffyrddiad â'u gilydd: *unir* pobl pan y deuant i goleddu yr un syniadau: *cyfunir* pleidiau pan y rhoddant heibio eu gwahaniaethau, ac y cydweithiant.

**Undeb**—cydgordiad, cydwelediad, cydffurfiad.

**Urdd** (Arm. *curdd;* Ll. *ordo)*—gradd. Gwahanol ddosbarthiadau o *urdd* ydyw *graddau;* sonir am dri *gradd* yn perthyn i farddas: cyn y gall dyn feddu y naill neu'r llall o honynt rhaid iddo gael ei *urddo* neu ei drwyddedu.

**Urddas.** Gwel Anrhydedd.

**Ust.** Gwel Dystawrwydd.

**Ustus.** Gwel Barnwr.

**Uthr.** Gwel Arswyd.

# W

**Wabio**—dyrnodio, curo, dulio, llachio.

**Weithian**—yn awr, o'r diwedd, bellach.

**Weithiau**—ambell dro, ambell waith, yn achlysurol.

**Weithion**—y pryd hwn.

**Wtre**—lôn, culffordd, heolan.

**Wtres**—gwledd, cyfeddach, gloddest.

**Wybr** (gwybr; C. *ebron:* Arm. *vabr)*—ffurfafen, awyrgylch.

**Wylo** (Arm. *uylo;* H. *ala)*—llefain. Arddangosiad o boen neu ofid yw y meddylddrych cynwysedig yn y geiriau hyn. *Llefain* sydd beth i'w glywed; *wylo* a ganfyddir mewn dagrau. Poen corphorol yn gyffredin a bâr i un *lefain:* gofid meddyliol a bâr *wylo:* hawdd gan blentyn *lefain*, ac nid yw y cryfaf o ddynion uwchlaw *wylo*.

**Wynebpryd**. Gwel GWYNEB.

**Wysg**. Gwel GOGWYDDIAD.

# Y

**Ych**—eidion.

**Ychwaneg**. Gwel CHWANEG.

**Ychydig**—bychan, mân. Defnyddir *mân* pan fo nifer o dan sylw; *ychydig*, am swm a nifer: *bychan* a gyfeiria at faintioli. Mae'r plant yn *fân* yn yr ysgol; *ychydig* a ddeuant yno yn gyson, ac o angenrheidrwydd *ychydig* a ddysgant, a *bychan* yw eu cynydd mewn canlyniad.

**Yfed** — drachtio, sipio, traflyncu, diota. *Yfed* yw y gair cyffredinol, ac nid yw y lleill ond gwahanol ddulliau o *yfed*. *Sipio* yw cymeryd gwlybwr yn raddol trwy sugno; *drachtio*. cymeryd i fewn gymaint ag a all dyn ar un anadl, yn y ffordd o wlybwr; *traflyncu* yw cymeryd peth yn frysiog: *diota* a ddefnyddir i osod allan waith dyn yn gwneyd arferiad o yfed diodydd meddwol.

**Yngan**—crybwyll, sôn, lled-hysbysu, awgrymu.

**Ym**. Gan fod yr arddodiad *ym* yn adlewyrchu y weithred a ddatgenir gan y gair a'i dilyna, megys *glanhau, ymlanhau* (golchi ei hun), ni wnawn yma ond cofnodi ychydig o'r cyfryw eiriau.

**Ymadrodd**—gair, enw, term. Y mae pob *ymadrodd* ac *enw* yn *air*, ond nid yw pob *gair* yn *ymadrodd*. Arferiad sydd yn cyfreithloni *gair;* gwyddor, eiriau; syniad a ddarpara *ymadrodd*. Dengys ysgrifenydd ei gywirdeb trwy y dewisiad a wna o *dermau;* purdeb ei ddullwedd trwy ei *eiriau;* a'i rymusder a ddibyna ar gyfaddasrwydd ei *ymadroddion*.

**Ymddibynu**—ymorphwys. *Ymorphwys* yw math o *ymddibyniad:* byddwn yn *dibynu* ar bersonau neu bethau: *ymorphwys* ar bersonau yn unig: *dibynir* ar yr hyn fyddo bell neu agos; *ymorphwysir* ar y dyfodol yn unig; byddwn yn *dibynu* ar berson am yr hyn yr ydym yn rhwym i'w dderbyn neu a ddisgwyliwn ganddo: *ymorphwyswn* ar berson am yr hyn y rhoddes i ni reswm i'w ddisgwyl ganddo.

**Ymddygiad**—ymarweddiad, bywyd, buchedd, moes, ymagweddiad.

**Ymerodraeth**—teyrnas. *Ymerodraeth* a olyga diriogaeth fwy eang, cynwysedig o wahanol genhedloedd na *theyrnas*, yr hon sydd fwy cyfyng ei therfynau. Mewn *teyrnas* ceir mwy o unoliaeth

deddfau sylfaenol, a dygir y llywodraeth yn mlaen mewn dull mwy unffurf; mewn *ymerodraeth* mae yn wahanol: llywodraethir un ran o honi gyda deddfau tra gwahanol i'r llall, ac yn fynych gan fân benaduriaid, ond yr oll yn ddarostyngedig i'r *ymerawdwr*. Gall *ymerodraeth*, o ganlyniad, fod yn gynwysedig o deyrnasoedd a gwledydd. Y mae *teyrnas* Prydain Fawr a'r Iwerddon, y Trefedigaethau Prydeinig, a'r India, yn gwneyd i fyny yr *Ymerodraeth* Brydeinig.

**Ymerodraeth**—teyrnasiad, arglwyddiaeth.

**Ymffrostio**—ymogoneddu. Gweithred y meddwl yn benaf yw *ymogoneddu; ymffrostio* ydyw gwneyd datganiad o'r syniad: *ymogoneddir* mewn pethau o bwys; *ymffrostir* o bethau distadl: *ymogonedda*'r Cristion yn nghroes merthyrdod; *ymffrostia*'r milwr o'i wrhydi ar faes y gwaed. Anaml y defnyddir *ymogoneddu* mewn dull drwg, ond gwneir hyny yn aml âg *ymffrostio*.

**Ymgomio**—chwedleua, cydymddiddan.

**Ymlid**—erlyn, dilyn. Myned ar ol gwrthddrych er mwyn ei ddal yw y meddylddrych a osodir allan yma, ond o dan wahanol amgylchiadau: *dilynir* dyn yn gyffredin mewn dull cyfeillgar; *ymlidir* ac *erlynir* gydag amcan anghyfeillgar; *dilyna* y naill ymdeithydd y llall, yr hwn a ddymuna ei oddiweddu; *ymlidia swyddog* cyfiawnder ar ol yr ysbeilydd.

**Ymosod**—ymgyrchu, ymruthro, ymdaraw, ymfrwydro.

**Ymostwng**—cydsynio, cydymffurfio, rhoi i fyny.

**Ymprydio**—ymatal, ymarbed, ymwrthod, dirwestu.

**Ymrafael**—ymryson, ymgecraeth, cweryl, dadl.

**Ymresymu**—dadlu, llefaru, perswadio.

**Ymroddi**—ymegnïo, ymgyflwyno, ymollwng.

**Ymwelydd**—gwestwr. Y mae pob *gwestwr* yn *ymwelydd*, ond nid yw pob *ymwelydd* yn *westwr:* daw *ymwelydd* i edrych am berson yn *unig: gwestwr* i gyfranogi o'i garedigrwydd.

**Ynad.** Gwel Barnwr.

**Ynfyd.** Gwel Ffol.

**Yni.** Gwel Egni.

**Ysbaid** (ys-paid)—cyfwng, gofod.

**Ysblenydd** (Ll. *splendidus).* Gwel Dysglaer.

**Ysbongc** (ys-ponc; Saes. *span).* Gwel Llamu.

**Ysbryd** (ys-pryd? Ffr. *esprit;* Ll. *spiritus).* Gwel Enaid.

**Ysgafn** (ys-cafn; C. *scav;* Arm. *scaff)*—dibwys, gwâg.

**Ysgeler** (ys-cel; Ll. *scelestus).* Gwel Anfad.

**Ysglyfaeth** (ys-glyf). Gwel Anrhaith.

**Ysgogi.** Gwel Syflyd.

**Ysgolor** (ys-côl; Ffr. *escole;* Ll. *schola;* Gr. *schola).* Gwel Disgybl.

**Ysgrechian**—crochwaeddi. Gwahaniaetha y geiriau hyn o ran eu hystyr oddiwrth lefain, yn gymaint ag mai dull cyffredin o wneyd peth yn hysbys yw yr olaf; tra mae y ddau flaenaf yn golygu dull anghyffredin, ac yn tarddu oddiar deimladau tra cyffroedig. Pan y byddys yn gwaeddi yn uchel, ac mewn cywair annaturiol, *ysgrechian* fydd y canlyniad; ond pan am alw sylw neillduol eraill yn ddioed, byddwn yn *crochwaeddi:* mae y blaenaf yn aml yn anfwriadol, ond yr olaf yn fwriadol.

Bydd rhai yn *ysgrechain* wrth ganu; ond *crochwaedda* dyn am gymhorth pan ar fin boddi.

**Ysgrifenydd**—awdwr. Gellir ystyried pawb a allont wneyd defnydd o'r ysgrif-bin yn *ysgrifenydd*, ond pan yn sôn am *awdwr* yr ydym yn golygu un a fedr ddyfeisio neu ddarganfod. Y mae felly lawer o *ysgrifenwyr* heb fod yn *awduron;* ond nid oes neb yn *awdwr* heb fod yn *ysgrifenydd*. Mae y rhai a anfonant i newyddiaduron, &c., yn *ysgrifenwyr*, ond y beirdd a'r haneswyr yn briodol ydynt yr *awduron*.

**Ysgwyd** (ysg? Gr. *scedao).* Gwel CRYNU.

**Ysmaldod.** Gwel CELLWAIR.

**Ystelcian**—llercian, llechiau.

**Ysten.** Gwel PISER.

**Ystig** (yst? S. *stick).* Gwel DIWYD.

**Ystlen** (yst-llen)—rhyw.

**Ystlus** (ystyl; Ll. *latus)*—ochr, ymyl, erchwyn.

**Ystôr** (ys-tor: Gr. *stor)*—cyflenwad. *Ystôr* a olyga gyfoeth neu eiddo wedi ei gasglu yn nghyd, gan nad pa faint fyddo y swm hwnw: y mae y morgrugyn yn *ystorio* erbyn y gauaf. Y *cyflenwad (stock)* yw yr hyn y rhaid iddo gynyddu o hono ei hun: efe ydyw ffynhonell diwydrwydd: rhaid ychwanegu yn achlysurol at yr ystôr: oddiwrth hwn y mae i un dynu mewn amser o galedi. Gyda *chyflenwad* yr ydym yn enill cyfoeth; gydag *ystôr* yr ydym yn darpar rhag eisiau. Y mae eisiau medr a barn i wneyd defnydd o *gyflenwad;* y mae eisiau rhagwelediad i wneyd *ystôr* erbyn yr amser priodol. Mewn ystyr feddyliol rhaid i ddyn fod yn feddianol ar *gyflenwad* helaeth o eiriau er gwneyd areithydd cyhoeddus, ac ar yr un pryd dylai *ystorio* ei feddwl â gwybodaeth.

**Ystori** (S. *ster;* Saes. *story;* Gr. *istoria;* Ll. *historia).* Gwel CHWEDL.

**Ystorm** (ys-torm; Ll. *storm).* Gwel TYMESTL.

**Ystrad** (ys-trad; Ll. *strata)*—dyffryn, heol, ystryd

**Ystrange**—cast, ystryw, dichell. Gwel DICHELL.

**Ystum.** Gwel FFURF.

**Ystwr.** Gwel TERFYSG.

**Ystwyth.** Gwel HYBLYG.

**Ystyfnig** (ys-dyfnig)—cyndyn, pen-galed.

**Ystyr.** Gwel MEDDWL.

**Ysu**—difa, dinystrio.

**Yswil** (ys-gwil; ys-gwyl)—gwylaidd, cywilyddgar, ofnus. Tardd *gwyleidd-dra* oddiar egwyddor yn y meddwl; dibyna *yswildod* neu *gywilydd-dra* ar y teimlad: y mae *gwyleidd-dra* yn rhinwedd i'w fawr edmygu bob amser: nid yw *yswildod* i'w gymeradwyo ond gyda golwg ar fenywod neu blant, a hyny yn mhresenoldeb eu huchafiaid. Y mae *gwyleidd-dra* yn wrthwynebol i wyneb-galedwch, ac *yswildod* yn wrthwynebol i bob ymgais i ddangos ei hun. Y mae *gwyleidd-dra*, neu ddiffyg ymddiried ynom ein hunain yn ormodol, yn iawn; ond ni ddylai hyny arwain dyn i fod yn *ofnus*, neu i golli pob ymddiried ynddo ei hun. Nid yw y dyn *gwylaidd* yn arferol o wneyd arddangosiad o'i dalentau o flaen eraill; ond nis gall y dyn *ofnus* droi ei dalentau at ei wasanaeth ei hun.

WREXHAM: ARGRAFFWYD GAN HUGHES & SON, 56, HOPE ST.